CPS

# Trais yn erbyn Menywod a Merched Adroddiad Troseddau

2014-2015

# Cynnwys


Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus 3

Crynodeb gweithredol 6

Cyflwyniad 15

Trais yn erbyn menywod a merched 16

Cam-drin domestig 26

Stelcio ac aflonyddu 40

Treisio 46

Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 64

Priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod 70

Cam-drin plant 76

Masnachu mewn pobl 84

Puteindra 88

Pornograffi ac anweddustra 91

Atodiad 1: Erlyniadau'n ôl Ardal 96

Geirfa 104

Geirfa byrfoddau 110

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Mae achosion trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) yn gyfran gynyddol o waith Gwasanaeth Erlyn y Goron. Maent yn codi rhai o'r penderfyniadau mwyaf cymhleth a sensitif y byddwn yn eu gwneud. Yn 2014-15 fe wnaethom gyrraedd y nifer uchaf erioed o atgyfeiriadau heddlu, diffynyddion wedi eu cyhuddo, erlyniadau a chollfarnau VAWG[1]. Llwyddodd gwaith gyda'r heddlu i wrth-droi'r gostyngiad mewn niferoedd a ddynodwyd gan y CPS dros yr ychydig flynyddoedd blaenorol, gan arwain at gollfarnu dros 11,000 yn fwy o ddiffynyddion – cynnydd o 17% ers 2013-14.

Ar gyfer trais domestig, treisio, troseddau rhywiol a cham-drin plant, cyrhaeddodd y collfarnau'r lefelau uchaf erioed. Collfarnwyd cyfanswm o 68,601 o ddiffynyddion am gam-drin domestig, cynnydd o 10,325, ychydig dan 18% ers y flwyddyn flaenorol. Collfarnwyd 2,581 o ddiffynyddion am dreisio, cynnydd o 233, ychydig dan 10% ers y flwyddyn flaenorol. Collfarnwyd 631 yn fwy o ddiffynyddion am gam-drin plant yn rhywiol hefyd – cynnydd o 19%, gan gyrraedd y lefel uchaf erioed ar 3,975. Cynyddodd yr erlyniadau a gychwynnwyd hefyd, o ran troseddau stelcio ac aflonyddu, o 15.1% yn 2014-15 ers 2013-14.[2].

Arhosodd y cyfraddau collfarnu ar gyfer cam-drin domestig yn gymharol gyson ar 73.9% mewn cymhariaeth â'r cynnydd mawr mewn erlyniadau a chollfarnau a gyrhaeddodd record o ran niferoedd. Yn ystod 2014-15 fe wnaethom ddiweddaru ein cyfarwyddyd i erlynyddion ar gam-drin domestig a bwriadwn roi cyfarwyddyd a hyfforddiant pellach yn dilyn y ddeddfwriaeth newydd ar orfodi a rheoli.

Er gwaetha'r cynnydd mewn niferoedd o gollfarnau am dreisio, disgynnodd y gyfradd gollfarnu i 56.9%. Bu gwaith i ymdrin â gwella canlyniadau erlyniadau treisio yn gyffredinol yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaed hyn yn arbennig i ymdrin â'r gostyngiad yn y gyfran o gollfarnau, y dylid ei ystyried yng nghyd-destun y cynnydd sylweddol yn y nifer o erlyniadau a gwblhawyd o bron i 17%.

Yn ystod 2014-15 rydym wedi datblygu rhaglen genedlaethol o waith yn ymwneud â threisio, sy'n ceisio ymdrin â phroblemau ar draws y system cyfiawnder troseddol. Un thema bwysig o'r gwaith hwn yw sicrhau bod dioddefwyr bregus yn cael mynediad cyfartal i gyfiawnder. Pan fydd achosion yn bodloni'r Cod i Erlynyddion y Goron, ni fyddwn yn osgoi eu symud ymlaen, hyd yn oed pan fyddant yn anodd a chymhleth. Byddai gwneud unrhyw beth arall yn tanseilio ein hegwyddorion o hyrwyddo cyfiawnder ac amddiffyn hawliau'r dioddefwyr. Ond, nid oes ateb tymor byr a bydd yn cymryd amser i'r gwaith o'r rhaglen genedlaethol gael effaith ar lefelau'r gwahaniaeth rhwng y niferoedd o achosion a'r rhai sy'n cael eu herlyn, collfarnu a dedfrydu gan y system gyfiawnder troseddol, a gofnodir gan y CPS yn ystod cyfnod yr erlyniad, yn bennaf oherwydd rhyddfarnau gan reithgorau.

---

[1] Mae data ar gyfer 'troseddau VAWG' wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn cynnwys cam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol.

[2]Nid yw manylion yr erlyniadau stelcio ac aflonyddu a gwblhawyd gan gynnwys erlyniadau, yn ôl diffynnydd, ar gael o gronfeydd data'r CPS.

Yn dilyn gwaith gyda Phanel Craffu Treisio Cenedlaethol[3] fe wnaethom gyflawni Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol, gan ddatblygu strwythurau, offer a systemau gyda'r heddlu i ymdrin â gwelliannau ar bob cam yn y broses droseddol. Cyrhaeddodd y gwaith benllanw mewn cynhadledd amlwg yn Ionawr 2015, gan lansio systemau i sicrhau bod atgyfeirio priodol gan yr heddlu a chyngor wrth gyhuddo, pecynnau offer i heddlu, erlynyddion ac eiriolwyr ar y gyfraith o ran cydsyniad ac ar ymdrin ag achosion yn ymwneud â dioddefwyr bregus. Rydym hefyd wedi adolygu ein Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO) a'r trefniadau i roi cyfarwyddwyd i eiriolwyr o ansawdd. Yn ychwanegol byddwn yn ymgorffori gwersi o'r *Independent Review into the Investigation and Prosecution of Rape in London*, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2015, yn ein strategaeth ar achosion treisio.

Mae ein gwaith VAWG yn gyffredinol yn 2014-15 wedi ymdrin â thair blaenoriaeth y CPS: ein gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion, ansawdd gwaith achos a'r offer a'r sgiliau ar gyfer y gwaith. Rydym wedi canolbwyntio ymhellach ar ddiogelwch, diogelu a chefnogi dioddefwyr VAWG. Mae ein Hunedau Cyswllt Dioddefwyr wedi eu sefydlu ac ar waith ym mhob ardal CPS ac rwyf ar hyn o bryd yn cael trefn derfynol ar ffyrdd i wella ein cefnogaeth i ddioddefwyr yn y llys.

Bu cam-fanteisio ar ddioddefwyr, sy'n fregus oherwydd amrywiaeth eang o resymau, o oedran, cyffuriau ac alcohol hyd at anawsterau dysgu a phroblemau iechyd meddwl, yn thema gyson yn ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cyhoeddi cyfarwyddyd newydd i'n herlynyddion sy'n ymdrin â phroblemau cyffredin a ddynodwyd wrth dargedu dioddefwyr, nid mewn achosion treisio a cham-drin rhywiol ar blant yn unig, ond hefyd mewn puteindra, pornograffi a masnachu rhywiol.

Rydym wedi parhau i weithio ar draws y llywodraeth o ran gwelliannau deddfwriaethol. Cyflwynwyd deddfau newydd ar briodas dan orfod a 'chaethwasiaeth modern' a gwnaed diwygiadau i'r ddeddfwriaeth ar anffurfio organau rhywiol menywod (FGM). Yn Ebrill 2015 cyflwynwyd deddfau newydd hefyd ar bornograffi dial a threisio a gwastrodi, gyda newidiadau eraill wedi eu cynllunio ar wneud negeseuon rhywiol yn drosedd. Yn ychwanegol, rydym wedi gweithio gyda'r Heddlu o ran sefydlu Protocolau Cenedlaethol ar FGM a stelcio.

Mae ein hadroddiad eleni yn tynnu sylw at effaith cyfryngau cymdeithasol ar ddioddefwyr VAWG, gan gynnwys y cysylltiad rhwng delweddau anweddus ar-lein a cham-drin plant yn rhywiol a thargedu dioddefwyr trwy'r rhyngrwyd. Rydym hefyd yn rhoi adroddiad ar ragor o ddiogeliad i ddioddefwyr - gorchmynion gwahardd a ddefnyddir mewn achosion stelcio yn ogystal â cham-drin domestig; cyflwyno Gorchmynion Amddiffyn Ewropeaidd; gorchmynion atal niwed rhywiol; troseddau newydd ar gyfer priodas dan orfod; gorchmynion amddiffyn ar gyfer FGM a gorchmynion atal mewn masnachu pobl.

Hoffwn ddiolch i'n rhanddeiliaid eto am eu cefnogaeth a'u cyngor arbenigol trwy Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG a'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol. Yn lleol diolch i'n Cydlynwyr VAWG penodedig a'r Penaethiaid Unedau RASSO a'u timau. Rydym yn falch o'r newidiadau yr ydym wedi eu gwneud o ran y ffordd yr ydym yn erlyn y troseddau hyn yn 2014-15 ac yn parhau i fod yn ymroddedig i adeiladu ar ein

[3]Cyfarfu Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio, yn cynnwys yr heddlu, erlynyddion, academyddion a grwpiau menywod, yn Ebrill 2014 i ymchwilio i'r gostyngiad blaenorol yn nifer yr achosion o dreisio ac asesu ffyrdd o wella ymchwiliadau i dreisio a'r erlyniadau ar draws y system cyfiawnder troseddol.

llwyddiannau, dysgu gwersi a gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau gwasanaeth gwell i ddioddefwyr y troseddau hyn.

**Alison Saunders CB**
**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**
**Mehefin 2015**

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn ddadansoddiad o'r prif faterion erlyn ym mhob maes Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) – cam-drin domestig (DA), treisio, troseddau rhywiol, stelcio, aflonyddu, priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd, anffurfio organau rhywiol menywod, cam-drin plant, masnachu mewn pobl, puteindra a phornograffi. Rydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r troseddau hyn wedi eu targedu at ddioddefwyr gwrywaidd yn ogystal â dioddefwyr benywaidd. Defnyddir nifer o astudiaethau achos i ddangos rhai arferion da o Ardaloedd.

Yn unol â pholisi'r llywodraeth, rydym yn cyhoeddi'r data gwaelodol a ddefnyddir yn ein hadroddiadau. Gellir dod o hyd i'r data gwaelodol ar gyfer yr adroddiad hwn[4] ar wefan y CPS, yn yr Adran cyhoeddiadau dan Underlying Data/Violence Against Women.

## Trais yn erbyn Menywod a Merched

Yn 2014-15 roedd VAWG yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r CPS a'r llywodraeth, fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Trawslywodraethol VAWG, a oruchwylir gan y Grŵp Rhyngweinidogol VAWG.

Ers cyflwyno cofnodi troseddau VAWG[5], rydym wedi cyrraedd y lefel uchaf o atgyfeiriadau gan yr heddlu o ddiffynyddion VAWG ar gyfer penderfyniadau cyhuddo. Yn 2014-15, atgyfeiriwyd 129,057 o ddiffynyddion i'r CPS – cynnydd o 19,638 o atgyfeiriadau (18%) o 2013-14 ac yn uwch na'r lefel uchaf flaenorol yn 2010-11. Roedd y cynnydd hwn hefyd wedi ei adlewyrchu yn y nifer a'r gyfran a gyhuddwyd[6] – gan gyrraedd 88,359 (68.5%) – cynnydd o 11,833 (15.5%) o 2013-14 a'r uchaf erioed. Mae gwarediadau allan o'r llys, y penderfynwyd arnynt gan y CPS yn y cam cyn cyhuddo, hefyd wedi cyrraedd y lefel isaf hyd yn hyn (1,473, ychydig dros 1% o'r holl atgyfeiriadau). Mae'r cynnydd mewn niferoedd yn arwydd o lwyddiant y gwaith a wnaed ar draws yr heddlu a'r CPS i wella prosesau atgyfeirio ar gyfer cam-drin domestig a phob trosedd rywiol.

Cododd y nifer o droseddau VAWG a erlynwyd[7] yn 2014-15 o 90,516 yn 2013-14 i 107,104 yn 2014-15, cynnydd o 16,588 o ddiffynyddion wedi eu herlyn – 18.3% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol a'r lefel uchaf erioed. Felly hefyd, cynyddodd y nifer a

---

[4] Cyfeirir at ddata trwy gydol yr adroddiad hwn; darperir unrhyw ddata gwaelodol atodol yn yr atodiad sydd ar gael ar wefan y CPS – gweler y ddolen.

[5] Mae data ar gyfer 'troseddau VAWG' wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn cynnwys cam-drin domestig (y mwyafrif o achosion VAWG o ran niferoedd), treisio a throseddau rhywiol (ac eithrio data cyn cyhuddo ar gyfer troseddau rhywiol) ers 2007-08. Adroddir ar ddata o ffrydiau VAWG eraill ar wahân. Bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng data a lumanwyd ar gyfer cam-drin domestig, treisio, troseddau rhywiol a cham-drin plant, ond nid yw hwn yn nifer sylweddol.

[6] Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i'w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14.

[7] Sylwer fod y niferoedd cyhuddo yn cwmpasu'r achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* i'r CPS yn ystod 2014-15 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo na ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd gyda'r rhai a erlynwyd sy'n cwmpasu achosion yn ôl diffynnydd, *a gwblhawyd* yn ystod 2014-15.

gollfarnwyd o 11,393, o 67,380 yn 2013-14 i 78,773, cynnydd o 16.9% a'r nifer uchaf erioed.

Mae cydlynwyr VAWG lleol yn cefnogi Ardaloedd, gan ddarparu cyfeiriad strategol ac asesiad ddwywaith y flwyddyn o berfformiad yn uniongyrchol i'r DPP trwy System Sicrwydd VAWG. Mae cydlynwyr VAWG yn gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol drwy Baneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol (LSIP). Rhannwyd amrywiaeth o arferion da o ran VAWG ar draws Ardaloedd:

- Gweithiodd y rhan fwyaf o Ardaloedd yn glos gyda'u Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar ddatblygu'r Cynlluniau Heddlu a Throseddu;
- Cynhaliodd yr holl Ardaloedd CPS hyfforddiant ar y cyd gyda'r heddlu ar briodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod;
- Cynhaliwyd hyfforddiant ar gam-drin rhywiol ar blant hefyd ymhob Ardal;
- Gweithiodd pob Ardal gyda phartneriaid lleol ar draws ystod o faterion VAWG, gan gynnal cynadleddau, seminarau a sesiynau hyfforddi.

## Cam-drin domestig

- Cododd swm yr atgyfeiriadau DA[8] gan yr heddlu i'w lefel uchaf erioed ar 122,898 yn 2014-15 – cynnydd o 19,329 o atgyfeiriadau (18.7%) ers 2013-14.
- Cyhuddwyd 84,711 (68.9% o'r atgyfeiriadau yma), mae hyn yn adlewyrchu'r niferoedd uchaf o achosion a gofnodwyd gan y CPS a chynnydd o 11,806 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (16.2%) ers 2013-14.
- Cododd niferoedd yr erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 i 92,779 o 78,071 – cynnydd o 14,708 o ddiffynyddion (18.8%) ers 2013-14. Cafodd y cynnydd mewn diffynyddion a gyhuddwyd yn ystod 2013-14 effaith bellach ar ganlyniadau erlyniadau yn 2014-15, gan gyrraedd y lefel uchaf erioed.
- Mae'r llwyth achosion DA[9] wedi codi ers 2013-14 o 10.7% i 14.1% yn 2014-15.
- Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 68,601 – cynnydd o 10,325 o gollfarnau (17.7%) ers 2013-14 a'r nifer uchaf erioed.
- Rhwng 2005-6[10] a 2014-15, cododd y cyfraddau collfarnu o 59.7% i 73.9% - cynnydd o ychydig dros 14 pwynt canran[11] dros y cyfnod hwn o ddeng mlynedd.
- Gostyngodd y gyfradd gollfarnu ychydig i 73.9%, o 74.6% yn 2013-14, mewn cymhariaeth â'r cynnydd mawr mewn niferoedd.
- Rhwng 2005-06 pan gychwynnwyd cofnodi a 2014-15, mae niferoedd y collfarnau wedi codi o 29,719 i 68,601 – cynnydd o 38,882 o ddiffynyddion wedi eu collfarnu, cynnydd o 131% dros y cyfnod hwn o ddeng mlynedd a'r lefel uchaf erioed.

---

[8] Cyn 2015, nid oedd trosedd benodol o "drais neu gam-drin domestig", felly roedd achosion "trais neu gam-drin domestig" yn cael eu herlyn dan amrywiaeth o droseddau eraill, yn amrywio o ymosodiad cyffredin i lofruddiaeth. Mae'r CPS yn tynnu sylw at bob achos cam-drin domestig, beth bynnag yw'r drosedd, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisi a chyfarwyddyd CPS yn ogystal â monitro perfformiad.

[9] Llwyth achosion cam-drin domestig fel % o'r holl erlyniadau yn y llys.

[10] Cychwynnodd y cofnodi sy'n parhau ar erlyniadau cam-drin domestig gan y CPS yn 2005-06.

[11] Cyfeirir at newidiadau mewn canrannau fel newidiadau i bwyntiau canrannol (ppt).

- Cododd y nifer o bleon euog eto – gan gyrraedd 63,132, cynnydd o 17.7%; er bod y gyfran o'r holl achosion a erlynwyd wedi gostwng ychydig i 68% o 68.7%.
- Mae 92% o'r holl ganlyniadau llwyddiannus o ganlyniad i bleon euog.
- Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i fod yn isel, ar 19.3% o'r holl achosion DA a erlynwyd, yn debyg i'r 19.2% yn 2013-14, yr isaf erioed.
- Mae'r troseddau stelcio a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2012, wedi eu gweithredu a chafwyd cynnydd arwyddocaol yn yr erlyniadau a gychwynnwyd am stelcio, aflonyddu a thorcyfraith yn ymwneud â DA – cynnydd o 20.4% ers 2013-14; ac o'u mewn mae troseddau stelcio wedi codi o ychydig dan 50%.
- Yn Rhagfyr 2014, cyhoeddodd y DPP gyfarwyddyd newydd ar ymdrin ag achosion cam-drin domestig. Mae'r canllawiau newydd yn cyfeirio erlynyddion at yr amrywiaeth o ffyrdd y gall y rhai sy'n cam-drin reoli a gorfodi eu dioddefwyr trwy gyflawni troseddau clir heb ymosod yn gorfforol o angenrheidrwydd. Bydd hyn yn cefnogi'r drosedd newydd o ymddygiad sy'n gorfodi a rheoli sydd i'w gweithredu yn 2015-16.
- Cynhaliwyd adolygiad o Lysoedd Trais Domestig Arbenigol yn 2014-15 a bydd y canfyddiadau yn cael eu hasesu a bydd gweithredu arnynt yn 2015-16.
- Wedi eu hamlinellu yng nghorff yr adroddiad hwn mae astudiaethau achos ac arfer da o nifer o Ardaloedd CPS yn dangos sut mae'r Ardaloedd wedi gwella canlyniadau erlyniadau – yn cynnwys achosion sy'n defnyddio tystiolaeth achlust; herwgipio, a cham-drin mewn perthynas rhwng rhai yn eu harddegau yn ogystal â chynlluniau lleol ehangach.

## Stelcio ac aflonyddu

- Cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 12,122 trosedd aflonyddu a stelcio yn 2014-15; sy'n gynnydd o 1,587 trosedd (15.1%) ers 2013-14 pan gychwynnwyd 10,535 o erlyniadau.
- O'r rhain, cychwynnwyd 1,103 o erlyniadau dan y troseddau stelcio newydd (cynnydd o bron i 50% ers y flwyddyn ddiwethaf).
- Cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 13,559 o droseddau torri gorchmynion atal, cynnydd o 1,908 (16.4%) o 11,651 yn 2013-14.
- O'r holl erlyniadau aflonyddu a stelcio, roedd 8,230 (67.9%) yn ymwneud â DA – cynnydd o 1,505 yn ymwneud â DA (22.4%) o 6,725 yn y flwyddyn flaenorol.
- Cychwynnodd 763 o erlyniadau yn gysylltiedig â DA dan y troseddau stelcio.
- Cychwynnwyd erlyn 13,559 o droseddau torri gorchymyn atal, cynnydd o 16.4% o 11,651 yn 2013-14; roedd 82.1% yn gysylltiedig â DA.
- O'r 13,126 achos o dorri gorchmynion atal (a wnaed wrth gollfarnu); cynnydd o 18.0% o 2013-14, roedd 10,796 (82.2%) yn achosion DA.
- O'r 433 achos o dorri gorchmynion atal (a wnaed ar ryddfarn); cynnydd o 34.5% o 2013-14, roedd 336 (77.6%) mewn achosion DA.
- Cychwynnwyd erlyn 7,013 achos o dorri gorchmynion peidio aflonyddu, o gymharu â 6,498 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 7.9%; 89.7% ohonynt yn gysylltiedig â DA.
- Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am 2014 ar orchmynion atal ac erlyn stelcio, aflonyddu a thorri gorchmynion atal yn cael ei gynnwys yng nghorff yr adroddiad.
- Ym mis Tachwedd 2014 lansiwyd protocol ar y cyd gan yr heddlu a'r CPS ar stelcio.

- Yn Ebrill 2014 lansiwyd modwl e-ddysgu am stelcio.
- Cynhaliwyd Diwrnod Ymwybyddiaeth Stelcio Cenedlaethol yn Ebrill 2014.

## Treisio

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau treisio gan yr heddlu i 6,159 yn 2014-15 – cynnydd o 309 o atgyfeiriadau (5.3%) ers 2013-14.
- Cyhuddwyd 3,648 (59.2% o'r atgyfeiriadau hyn), y niferoedd uchaf erioed a chynnydd o 27 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (0.75%) ers 2013-14.
- Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 i 4,536 – cynnydd o 645 o erlyniadau (16.6%) o 2013-14, gan gyrraedd y nifer uchaf erioed.
- Mae'r llwyth achosion[12] treisio wedi codi ers 2013-14 o 11.1% i 12.8% yn 2014-15.
- Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 2,581 - cynnydd o 9.9% ers 2013-14 a hefyd yn cyrraedd y nifer uchaf erioed.
- Mae'r ystadegau treisio cenedlaethol swyddogol gan yr MoJhttps://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2014 yn dangos, ym mlwyddyn galendr 2014 i 3,538 o ddiffynyddion, ar sail prif drosedd[13], [14],[15],[16] gael eu herlyn am dreisio mewn llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 3,081 yn 2013. Anfonwyd 3,459 o achosion i Lys y Goron i'w profi, o gymharu â 3,020 yn 2013. Yn 2014 cafwyd 1,164 o droseddwyr yn euog o dreisio yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 1,121 yn 2013, gan arwain at gymhareb erlyniad i gollfarn yn 2014 o 33% – gostyngiad o 36% yn 2013. Nid yw'r gymhareb hon yn ystyried diffynyddion a erlynwyd am dreisio ond a gollfarnwyd yn Llys y Goron am drosedd arall. Mae data erlyn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwneud ag achosion pan fydd y gwrandawiad wedi ei gwblhau yn y Llys Ynadon yn 2014, ac felly mae'n cynnwys achosion sydd wedi eu cwblhau ac achosion sy'n dal yn fyw yn Llys y Goron.
- Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion a gyhuddwyd a'u llumanu fel treisio o'r cychwyn, ond hefyd achosion pan gafwyd collfarn am drosedd arall neu lai. Defnyddir y data i ddibenion rheoli achosion y CPS, ochr yn ochr â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gollfarnau mewn achosion a gyhuddwyd ac a gollfarnwyd am dreisio. Gosodir lluman ar yr achos o'i gychwyn; bydd y lluman yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiad o dreisio'n cael ei ddiwygio wedi hynny, o ran dibenion gofal dioddefwyr. Darperir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i osod cyd-destun i ddata perfformiad y CPS. Mae hyn ar gyfer blwyddyn galendr, yn hytrach nag

[12] Llwyth achosion treisio fel % o'r holl erlyniadau ditiadwy yn unig.

[13] Mae'r ffigurau am achosion llys yn ymwneud ag unigolion yr oedd y troseddau hyn yn brif droseddau yr oeddynt yn cael eu cyhuddo ohonynt. Pan fydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Pan weithredir yr un gosb am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddewisir yw'r un gyda'r uchafswm cosb statudol mwyaf difrifol.

[14] Gwneir pob ymgais i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynir yn gywir a chyflawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y data hwn wedi ei dynnu o systemau data gweinyddol mawr a grëwyd gan y llysoedd a lluoedd heddlu. O ganlyniad, dylid bod yn ofalus bod prosesau casglu data a'u cyfyngiadau anochel yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio'r data.

[15] Gall y nifer o ddiffynyddion a geir yn euog mewn blwyddyn benodol fod yn fwy na'r nifer y cychwynnir achos yn eu herbyn gan i'r achos yn y llys ynadon ddigwydd mewn blwyddyn gynharach a bod y diffynyddion wedi eu cael yn euog yn Llys y Goron yn y flwyddyn ganlynol; neu fod y diffynyddion wedi eu cael yn euog o drosedd wahanol i'r achos gwreiddiol yn eu herbyn.

[16] Oherwydd gwelliannau wrth brosesu data, efallai na fydd canlyniadau 2014 yn cyfateb i'r rhai a gyhoeddwyd o'r blaen.

ariannol, a dim ond ar gyfer yr achosion hynny pan oedd y gollfarn derfynol am dreisio.

- Rhwng 2007-8[17] a 2014-15, mae cyfraddau collfarnau'r CPS[18] wedi gostwng o 57.7% i 56.9%; gostyngiad o 60.3% yn 2013-14; ond mae'n bwysig i'r gostyngiad gael ei asesu mewn cymhariaeth â'r cynnydd o 16.6% yn y nifer o erlyniadau a chynnydd o 9.9% yn y nifer o gollfarnau a gofnodwyd.
- Rhwng 2007-08 a 2014-15, mae nifer y collfarnau wedi codi o 2,021 i 2,581, cynnydd o 560 o gollfarnau, a'r nifer uchaf ers i'r cofnodion ddechrau.
- Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i ostwng gan gyrraedd y lefel isel o 13.3% o'r holl achosion treisio a erlynwyd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol a oedd ar ei lefel isaf erioed ar 13.1%.
- Gyda'r lefel sylweddol is o bleon euog mewn achosion o dreisio mewn cymhariaeth â throseddau eraill (34% yn 2014-15, gostyngiad o 35.9% y flwyddyn flaenorol), mae mwy o achosion yn mynd trwy achos llys.
- O'r holl ddeilliannau aflwyddiannus[19], mae'r gyfran o ganlyniad i ryddfarn gan reithgor wedi codi o 60.3% yn 2013-14 i 62.7% yn 2014-15; mae'r gyfran sydd oherwydd problemau dioddefwr wedi gostwng o 18% i 17%.
- Adolygwyd Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO) yn 2014 a bwriedir gweithredu ymhellach i wella erlyniadau treisio yn 2015-16.
- Parhaodd y rhwydwaith o Arweinyddion Unedau RASSO, i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn, gyda chylchlythyrau RASSO.
- Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Treisio ym Mehefin 2014, yn dilyn Panel Craffu Cenedlaethol a gynhaliwyd yn Ebrill 2014.
- Diwygiwyd a lansiwyd y protocol ar y cyd gan yr Heddlu a'r CPS ar gyfer ymchwilio ac erlyn achosion o dreisio yn Ionawr 2015.
- Cynhaliwyd cynhadledd yn Ionawr 2015 yn lansio cynlluniau allweddol yn deillio o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Treisio:
    - Taflen gyhoeddus a phecynnau offer ar gydsyniad i'r heddlu, erlynyddion ac eiriolwyr;
    - Pecyn offer ar ddioddefwyr VAWG bregus;
    - Systemau i ymdrin â rhoi cyfarwyddyd i eiriolwyr addas mewn achosion o dreisio;
    - Gwneud y cyfarwyddyd ar gyngor ymchwiliol cynnar a chyhuddo i'r heddlu ac erlynyddion yn fwy clir;
    - Rhoi data i Ardaloedd am brydlondeb achosion treisio i'w trin yn lleol.
- Ym Mawrth 2015, dosbarthodd Grŵp Monitro Treisio Cenedlaethol traws-asiantaethol ddata treisio y System Cyfiawnder Troseddol o 2009-2014 i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac asiantaethau lleol y System Cyfiawnder Troseddol i graffu ar ymchwiliadau ac erlyniadau treisio a'u gwella. Mae'r CPS yn aelod o'r Grŵp Monitro Treisio ac fe gyfrannodd at yr adroddiad.
- Cynhaliwyd adolygiad annibynnol i ymchwilio ac erlyn treisio yn Llundain a chyhoeddwyd yr adroddiad ym Mehefin 2015.Rydym yn gweithio gyda'r heddlu, i bennu pa wersi eraill y gellir eu dysgu o'r adroddiad.
- Cynhaliwyd rhagor o weminarau i erlynyddion Unedau RASSO yn ymdrin â honiadau ffug honedig o droseddau treisio a cham-drin domestig a barhaodd i gael eu monitro yn system sicrwydd VAWG trwy gydol 2013-14.

---

[17] Cychwynnwyd cofnodi achosion treisio yn hwyrach nag ar gyfer cam-drin domestig

[18] Deilliannau o gyhuddo i gollfarn.

[19] Rhoddir y diffiniadau ar gyfer canlyniadau aflwyddiannus yn yr eirfa; mae amrywiaeth o resymau yn cynnwys problemau dioddefwyr, gwrthddweud yn y dystiolaeth a rhyddfarnau, wedi eu rhannu yn rhai a bennwyd gan farnwr a rhyddfarnau gan reithgor.

- Cyhoeddwyd cyfarwyddyd cyfreithiol diwygiedig ar honiadau ffug honedig o dreisio a DA yn Ebrill 2015.
- Datblygwyd rhaglen hyfforddi ar drais i'w gweithredu yn 2015-16.
- Yn yr adroddiad hwn, mae nifer o astudiaethau achos yn trafod mater cydsyniad, dioddefwyr bregus, cyfryngau cymdeithasol, achosion treisio heb fod yn ddiweddar ac arferion da yn lleol.

## Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

- Ni all y CPS gofnodi unrhyw ddata cyn cyhuddo ar gyfer troseddau rhywiol[20].
- Erlynwyd 9,789 o ddiffynyddion yn 2014-15 am droseddau rhywiol, ac eithrio treisio; cynnydd o 8,554 yn 2013-14; gan gyrraedd y nifer uchaf erioed;
- Cododd erlyniadau troseddau rhywiol o 1.2% yn 2013-14 i 1.5% o lwyth achosion y CPS [21] yn 2014-15.
- Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 7,591 – y nifer uchaf erioed a chynnydd o 12.4% ers 2013-14; mewn cymhariaeth â gostyngiad bychan yn y gyfran (77.5%).
- Cyhoeddwyd cyfarwyddyd newydd ar erlyn achosion pan fydd cosb enwol yn ganlyniad tebygol ym Medi 2014.
- Rhoddir nifer o astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn darlunio achosion yn ymwneud â throseddau rhywiol pan oedd camddefnydd o ymddiriedaeth, dioddefwyr bregus a thargedu ar y rhyngrwyd.

## Priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod[22]

### Priodas dan Orfod

- Mae data'r CPS ar briodas dan orfod yn cynnwys pob achos a lumanwyd fel 'priodas dan orfod' ac nid y rhai oedd yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth priodas dan orfod newydd a gyflwynwyd yn 2014.
- Cododd y nifer o atgyfeiriadau priodas dan orfod gan yr heddlu i 82 yn 2014-15 – o 67 yn 2013-14.
- Cyhuddwyd 48 (58.5% o'r atgyfeiriadau hyn), y nifer uchaf erioed i'w gofnodi ond gostyngiad bychan yn y gyfran mewn cymhariaeth â 2013-14.
- Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 i 46 – cynnydd o 45 yn 2013-14.
- Roedd 63% yn llwyddiannus, gostyngiad o 71% yn 2013-14.
- Gostyngodd yr achosion a derfynwyd o 41.5% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11, i 21.7% yn 2014-15.
- Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd i wneud priodas dan orfod yn drosedd ym Mehefin 2014 a chollfarnwyd y diffynnydd cyntaf yng Nghymru.
- Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd hefyd ar erlyn torri Gorchmynion Amddiffyn Priodas dan Orfod hefyd a chynhaliwyd yr erlyniadau cyntaf yng Ngogledd Orllewin Lloegr.

[20] Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys unrhyw awgrym o benderfyniadau cyn cyhuddo ynghylch troseddau rhywiol (ac eithrio treisio), gan mai dim ond ar ôl gorffen yr achos erlyn mae'r prif gategori o 'droseddau rhywiol' sy'n cynnwys treisio a phob trosedd rhywiol yn cael ei ddyrannu i achosion.
[21] Llwyth achosion troseddau rhywiol fel % o holl erlyniadau'r CPS.
[22] Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.

- Adnewyddwyd cyfarwyddyd cyfreithiol y CPS a'r modylau hyfforddi e-ddysgu yn ystod haf 2014.
- Cynhaliwyd gweithdai Heddlu/CPS ar briodasau dan orfod, trais ar sail anrhydedd a FGM ar draws pob ardal CPS trwy gydol 2014.
- Rhoddir nifer o astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn darlunio priodas dan orfod.

### Trais ar sail anrhydedd[23]

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu o droseddau yn ymwneud â thrais ar sail anrhydedd (HBV) i 251 yn 2014-15 – o 240 yn 2013-14.
- Cyhuddwyd 157 (62.5% o'r atgyfeiriadau hyn); tua'r un nifer â'r flwyddyn ddiwethaf (158).
- Erlynwyd 225 o ddiffynyddion, cynnydd o 206 y llynedd.
- Collfarnwyd 129 o ddiffynyddion, y nifer uchaf erioed, ond gwelwyd gostyngiad yn y gyfran a gollfarnwyd i 57.3% o 59.7% yn 2013-14.
- Gostyngodd achosion a derfynwyd o 40.6% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11 i 29.8% yn 2014-15.

### Anffurfio organau rhywiol menywod

- Arweiniodd yr erlyniad cyntaf am anffurfio organau rhywiol menywod (FGM) pan gafwyd y ddau ddiffynnydd yn ddieuog, at adolygiad yn dilyn yr achos i fod yn sail ar gyfer arferion yn y dyfodol.
- Arweiniodd hefyd at ddatblygu rhagor o gyfarwyddyd i ymarferwyr meddygol.
- Cyflwynwyd diwygiadau i gryfhau'r troseddau yn y Ddeddf FGM yn Neddf Troseddau Difrifol 2015, a dderbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ym Mawrth 2015.
- Cyflwynwyd Gorchymyn Diogelu FGM sifil newydd.
- Cytunwyd ar brotocolau ar y cyd gyda'r heddlu ym mhob Ardal CPS, a chwblhawyd hyfforddiant ar y cyd fel rhan o roi cynlluniau gweithredu cenedlaethol ar waith.
- Cynhaliwyd galwadau cynadledda cyson gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus gyda'r CCP i fonitro cynnydd ar FGM.
- Mae ardaloedd wedi cynnal amrywiaeth o gynlluniau i ymdrin ag erlyniadau, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth, cynadleddau, seminarau a hyfforddiant ar FGM.

## Cam-drin plant[24]

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau cam-drin plant gan yr heddlu i 12,840 yn 2014-15 – cynnydd o 1,653 (14.8%) ers 2013-14.
- Cyhuddwyd 8,696 (67.7% o'r atgyfeiriadau hyn), cynnydd o 965 (12.5% o ran nifer) ers 2013-14, gan gyrraedd y nifer uchaf erioed.
- Cyrhaeddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 10,045 - cynnydd o 2,047 (25.6%) ers 2013-14, gan gyrraedd y nifer uchaf erioed.

[23] Rhoddir lluman ar achosion trais ar sail anrhydedd yn y CPS.
[24] Llumanir achosion cam-drin plant yn y CPS.

- Roedd cynnydd yn nifer y deilliannau llwyddiannus yn yr achosion cam-drin plant yn gyffredinol i 7,469 yn 2014-15 o 6,096 yn 2013-14 – y nifer uchaf erioed a chynnydd o 22.5%.
- Yn 2014-15 dim ond 17 o erlyniadau dynladdiad cam-drin plant a welwyd[25], o 35 yn 2013-14, gyda deilliannau llwyddiannus ar 58.8%.
- Roedd cynnydd yn y nifer o droseddau yn erbyn y person (o 2,383 i 3,192); gyda deilliannau llwyddiannus yn gostwng o 72.4% i 71.3%, o gymharu â 2013-14; mewn cymhariaeth â'r nifer uchaf erioed.
- Cynyddodd yr erlyniadau troseddau rhywiol cam-drin plant yn 2014-15 o 4,371 i 5,387 – cynnydd o 23.2%.
- Cynyddodd y deilliannau llwyddiannus am gam-drin plant yn rhywiol (CSA) o 3,344 i 3,975 - ond bu gostyngiad yn y gyfradd gollfarnu o 76.5% i 73.8% mewn cymhariaeth â'r nifer uchaf erioed – cynnydd o 18.9%.
- Roedd y CPS yn gweithio ar CSA fel rhan o ymdrech ehangach ar draws y Llywodraeth i ymateb i drais rhywiol yn erbyn plant.
- Cyflwynwyd ystod o ddeddfwriaeth gysylltiedig yn ymwneud â gwastrodi a cham-fanteisio rhywiol ar blant.
- Hyfforddwyd yr holl arbenigwyr CSA i weithredu'r cyfarwyddyd cyfreithiol.
- Mae astudiaethau achos o Ardaloedd yn yr adroddiad hwn yn darlunio erlyniadau cam-drin heb fod yn ddiweddar, gangiau, gwastrodi ac achosion CSA.

## Masnachu mewn pobl a phuteindra

- Ers Ebrill 2010, mae'r CPS wedi llumanu a monitro pob achos o fasnachu mewn pobl[26].
- Cododd y nifer o ddiffynyddion masnachu mewn pobl a atgyfeiriwyd gan yr heddlu i 234 yn 2014-15 – cynnydd o 36.8% o 171 o atgyfeiriadau yn 2013-14.
- Cyhuddwyd 195 (83.3% o'r atgyfeiriadau hyn), cynnydd o 92 o'r flwyddyn ddiwethaf (89.3%).
- Cyrhaeddodd y nifer o erlyniadau masnachu pobl a gwblhawyd yn 2014-15 gyfanswm o 187 - gostyngiad o 226 yn 2013-14.
- Roedd gostyngiad hefyd yn nifer y deilliannau masnachu pobl llwyddiannus o 155 yn 2013-14 i 130 yn 2014-15 (68.6% yn 2013-14 cododd i 69.5% yn 2014-15).
- Roedd cynnydd yn nifer y troseddau yn gysylltiedig â phuteindra[27] i'w herlyn o 441 yn 2013-14 i 446 yn 2015-16.
- Cyfrannodd y CPS at strategaeth caethwasiaeth fodern y llywodraeth a lansiwyd ym mis Tachwedd 2014.
- Bu'r CPS yn gweithio ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol i ymdrin â materion masnachu mewn pobl.

---

[25] Gweler yr eirfa am ddiffiniadau.
[26] Gweler y rhestr termau am y troseddau sydd wedi eu llumanu. Fel gydag unrhyw system fonitro gymharol newydd, mae angen amser iddi sefydlu er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio yn gywir. Felly mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data yn ofalus. O Ionawr 2013, roedd cywirdeb llumanu yn cael ei wirio'n chwarterol.
[27] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynnwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd, deilliant na data cydraddoldeb. Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau System Gwybodaeth Reoli yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes awgrym o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad a brofwyd yn y diwedd.

- Rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ym Mawrth 2015; bwriedir cyhoeddi cyfarwyddyd diwygiedig a hyfforddiant.
- Mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn cynnwys enghreifftiau o fasnachu a phuteindra.

## Pornograffi

- Yn 2014-15 roedd cynnydd mewn erlyniadau am ddelweddau cam-drin plant o 20,373 i 21,580, yn cynnwys cychwyn erlyniadau ar gyfer 16,129 o droseddau o gam-fanteisio ar blant trwy luniau; yn cynnwys cynnydd mewn erlyniadau am y drosedd fwyaf diweddar o feddu delwedd waharddedig o blentyn o 534 i 631.
- Roedd cynnydd yn y troseddau anweddustra a erlynwyd o 4,764 i 5,782.
- Yn gyffredinol roedd cynnydd o ychydig dan 6% o ddelweddau cam-drin plant a lleihad o 21.4% o droseddau anlladrwydd a gyrhaeddodd wrandawiad cyntaf.
- Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd yn Ebrill 2015 ar bornograffi dial, pornograffi treisio a throsedd newydd o feddu llawlyfr pedoffil yn ogystal â diwygiadau i dynhau'r Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus.
- Datblygwyd nifer o fodylau e-ddysgu newydd, Erlyn Gwastrodi Ar-lein a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol a bydd yn cael ei lansio ar gyfer erlynyddion yn ystod 2014-15.
- Mae astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn darlunio erlyniadau cam-drin plant yn rhywiol a delweddau anweddus a phornograffi dial.

# Cyflwyniad

Yr Adroddiad Troseddau yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) hwn gan y CPS yw'r wythfed argraffiad i'w gyhoeddi gan y CPS.

Fel y gwnaeth mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n trafod amrediad o ffrydiau VAWG:

- cam-drin domestig (DA)
- stelcio ac aflonyddu
- treisio a throseddau rhywiol
- priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod
- cam-drin plant
- masnachu mewn pobl, gyda ffocws ar fasnachu mewn pobl i ddiben cam-fanteisio rhywiol
- puteindra
- pornograffi.

Mae'r adroddiad yn darparu data a sylwebaeth mewn adrannau ar wahân ar bob un o'r meysydd VAWG, gan gynnwys nifer o astudiaethau achos ac arfer dda. Mae'r prif faterion a gafodd eu dynodi yn 2014-15 wedi'u hamlygu ym mhob adran a gallant wahaniaethu o ffrwd i ffrwd. Mae'r CPS yn casglu data[28] i gynorthwyo mewn rheolaeth effeithiol o'i swyddogaethau erlyn. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cael eu cyfrif yn ystadegau swyddogol fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007[29]. Rydym yn ymroddedig i wella ansawdd ein data ac o ganol Mehefin 2015 fe wnaethom gyflwyno trefn sicrhau ansawdd data newydd a all esbonio peth amrywio annisgwyl mewn setiau data yn y dyfodol.

Mae proffiliau cydraddoldeb diffynyddion, yn ôl rhyw ac ethnigrwydd, yn cael eu hasesu a rhoddir adroddiad arnynt yn yr adroddiad hwn. Rhoddir data am ddioddefwyr pan fydd ar gael ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd i wella'r data yn ymwneud â dioddefwyr sy'n cael ei gasglu yn y system cyfiawnder troseddol.

## Cynlluniau trawslywodraethol

Ym Mawrth 2015, cyhoeddodd y llywodraeth adroddiad ar ei gwaith VAWG dros y pum mlynedd diwethaf – A Call to End Violence against Women Progress report 2010-2015. Goruchwyliwyd y gwaith o weithredu'r camau hyn gan y Grŵp VAWG Rhyngweinidogaethol. Roedd yr Adroddiad yn cynnwys uchafbwyntiau o ran llwyddiannau'r CPS, gan gynnwys gweld y gyfradd gollfarnu ar gam-drin domestig yn cyrraedd y lefel uchaf erioed; sefydlu unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO); y cynnydd mewn erlyniadau stelcio a datblygu pecynnau offer i erlynyddion ar faterion cydsyniad mewn achosion o dreisio.

---

[28] Casglwyd data ar droseddau VAWG o System Reoli Achosion (CMS) y CPS a System Gwybodaeth Rheoli (MIS) cysylltiedig sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn agored i wallau posibl wrth gofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigurau hyn yn rhai dros dro a gallant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

[29] Cedwir yr ystadegau swyddogol yn ymwneud â throseddau a phlismona gan y Swyddfa Gartref ac mae'r ystadegau swyddogol yn ymwneud â dedfrydu, achosion llysoedd troseddol, y troseddwyr a ddaeth ger bron eu gwell, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cadw gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Trais yn erbyn Menywod a Merched

Parhaodd gwaith VAWG i fod yn flaenoriaeth o fewn cynlluniau busnes Ardal a Chenedlaethol y CPS yn 2014-15. Llwyddwyd i lunio dull prif-ffrwd o ymdrin â materion VAWG, gyda pherchenogaeth ac atebolrwydd gan yr ardaloedd. Mae'r gwaith wedi ymdrin â blaenoriaethau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) ar wasanaethau i ddioddefwyr a thystion, ansawdd gwaith achos, a sicrhau bod gan erlynyddion yr offer a'r sgiliau iawn ar gyfer y gwaith.

Roedd y gwaith yn 2014-15 yn ymdrin â'r gostyngiad mewn achosion VAWG a atgyfeirir gan yr heddlu. Arweiniodd hyn at y nifer uchaf o droseddau VAWG i gael eu cyhuddo, eu herlyn a'u collfarnu erioed. Bu gwaith penodol ar dreisio, cam-drin plant yn rhywiol, stelcio a FGM yn cael blaenoriaeth uchel dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r holl waith polisi ar yr agenda VAWG yn awr wedi ei resymoli yng Nghyfarwyddiaeth Gweithrediadau Prif Swyddfa'r CPS.

**Cydlynwyr VAWG:**
Cydlynwyr VAWG sy'n arwain ar faterion VAWG ar lefel Ardal. Maent yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn fel rhwydwaith i ddelio â materion allweddol, yn ogystal â gweithio gyda'u Prif Erlynyddion y Goron i ddarparu adroddiadau ddwywaith y flwyddyn yn uniongyrchol i'r DPP trwy'r system sicrhau VAWG.

**Cefnogaeth rhanddeiliaid:**
Ar lefel genedlaethol, parhaodd Grŵp Ymgynghori Allanol (ECG) VAWG, yn cynnwys Grwpiau arbenigol VAWG allweddol, i gynghori tîm VAWG y CPS fel is-grŵp o'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol ehangach.

**Cysylltiadau ar draws materion VAWG:**
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi canolbwyntio ar ddeall pa mor fregus yw dioddefwyr VAWG a'r modd y maent yn teimlo dan fygythiad. Yn 2014-15 fe wnaethom gyhoeddi cyfarwyddyd ar ddull oedd yn canolbwyntio ar y troseddwr, gan adolygu achosion VAWG ar sail hygrededd yr honiad cyffredinol, yn hytrach na chanolbwyntio ar y dioddefwr. Bu cam-fanteisio ar ddioddefwyr bregus yn thema gyson. Mae ein cyfarwyddyd newydd yn ymdrin â phroblemau cyffredin wrth dargedu dioddefwyr gan droseddwyr, nid mewn achosion treisio a cham-drin rhywiol ar blant yn unig, ond hefyd mewn puteindra, pornograffi a masnachu rhywiol.

Dynodwyd bod defnyddio'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol yn un o'r prif ddulliau o dargedu a cham-drin dioddefwyr. Cyflwynwyd rheolau newydd yn Ebrill 2015 ar bornograffi dial, pornograffi treisio, gwastrodi ac mae rhai yn yr arfaeth ar wneud anfon negeseuon rhywiol yn drosedd.

**Trawsnewid Cyfiawnder Diannod:**
Pan fydd oedi diangen wrth i achosion gael eu clywed mewn llysoedd ynadon, gall hyn achosi gofid ychwanegol i ddioddefwyr a thystion. Mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn gweithio i leihau oedi yn y Llysoedd Ynadon, cynnal llai o wrandawiadau i bob achos a chynyddu'r nifer o achosion sy'n symud yn eu blaenau y tro cyntaf y byddant yn cael eu rhestru. Gelwir y rhaglen hon yn Drawsnewid Cyfiawnder Diannod ac mae yn weithredol ers Mai 2015. Cyflwynwyd y rhaglen drawsnewid i sicrhau bod pawb yn y system cyfiawnder troseddol yn chwarae ei ran yn fwy effeithiol. Y nod yw cael system gyfiawnder troseddol gyda llai o oedi, llai o

wrandawiadau ac achosion llys mwy effeithiol. Ar gyfer dioddefwyr VAWG, bydd y rhaglen drawsnewid yn cynnig cyfiawnder cyflymach a llai o ofid i ddioddefwyr a thystion, gan y dylai achosion llys gael eu rhestru yn gynt a bod yn fwy tebygol o symud ymlaen ar y diwrnod.

**Safonau Ansawdd Gwaith Achos:**
Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau Ansawdd Craidd, datblygodd y CPS system newydd o Asesiadau Ansawdd Unigol (IQA) a gyflwynwyd ym Mai 2014. Ar hyn o bryd mae'r IQA yn y cyfnod treialu a byddant yn cael eu gweithredu yn llawn trwy'r CPS i gyd yn 2015-16. Bydd asesiadau IQA yn seiliedig ar waith aelodau unigol o staff a bydd disgwyl i reolwyr asesu gwaith unigolion sy'n ymwneud â rolau heblaw eiriolaeth ar bedwar achlysur y flwyddyn ac eiriolwyr ar ddau achlysur bob blwyddyn. Bydd IQA yn ymdrin â'r agweddau canlynol o'r broses erlyn.

- Gwaith cynghori;
- Penderfyniadau Cyhuddo ac Adolygu (gan gynnwys penderfyniadau i barhau);
- Paratoi Gwaith Achos;
- Cyflwyno Achos (ym mhob gwrandawiad ac nid mewn achosion llys yn unig).

**Both gwaith achos VAWG:**
Yn unol â blaenoriaeth y DPP o sicrhau bod gan erlynyddion yr offer a'r sgiliau ar gyfer y gwaith, sefydlwyd adran VAWG ar foth gwaith achos y CPS. Adnodd ar-lein yw both gwaith achos y CPS ac mae'r adran VAWG yn rhoi cymorth ymarferol i erlynyddion yn ymwneud â pharatoi gwaith achos. Mae'n cynnwys enghreifftiau o arfer da yn ogystal â dolenni at arweinyddion lleol, cydlynwyr, cyfarwyddyd cyfreithiol, pecynnau offer a chylchlythyrau VAWG. Byddwn yn parhau i adolygu ac adeiladu ar y wybodaeth a roddir i sicrhau ei bod yn hygyrch a pherthnasol.

**CPS Direct (CPSD):**
Mae CPSD yn cynnig cyngor ar gyhuddo i'r heddlu 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Y nhw sy'n gyfrifol am gyhuddo yn y rhan fwyaf o achosion DA. Bydd CPSD yn atgyfeirio achosion sy'n ymwneud â threisio a throseddau rhywiol difrifol eraill i Unedau RASSO, oni bai bod cyhuddiad ar y prawf trothwy yn angenrheidiol tu allan i oriau swyddfa. Yn ystod 2014-2015 roedd 46% o lwyth achosion y CPSD yn dod i'r categori VAWG. Sefydlwyd Bwrdd Ansawdd Gwaith Achos VAWG ochr yn ochr ag Asesiadau Ansawdd Unigol cadarn ar benderfyniadau gwaith achos VAWG. Derbyniodd yr holl reolwyr ac erlynyddion hyfforddiant ar erlyniadau ar sail tystiolaeth gyda golwg ar wella ansawdd llunio penderfyniadau a sicrhau bod achosion yn barod i'w symud ymlaen yn y llys. Mae CPSD yn anelu at ddod yn ganolfan ragoriaeth i waith VAWG:

## Perfformiad VAWG

Yn 2014-15, parhaodd Ardaloedd CPS i fonitro'u perfformiad yn defnyddio mesur dilysu VAWG oedd yn asesu deilliannau llwyddiannus ar gyfer DA, troseddau rhywiol a threisio. Asesir hyn ochr yn ochr â nifer yr erlyniadau, gan gynnig monitro mwy manwl yn y broses sicrhau VAWG ddwywaith y flwyddyn. Bu'r oruchwyliaeth hon yn ganolog i gyflawni gwelliannau parhaus ar y gwaith pwysig hwn.

Asesir ardaloedd ymhellach ar ystod eang o gamau gan gynnwys ystyried tueddiadau mewn perfformiad ar lwythi achos a chyfraddau collfarnu, mewn cymhariaeth â'r cyfartaledd cenedlaethol a'u gosod mewn trefn yn ôl eu perfformiad VAWG. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o atgyfeiriadau heddlu, cyhuddo, erlyniadau a


deilliannau, gan gynnwys collfarnau, yr achosion nad ydynt yn cael eu herlyn, collfarnu neu ddedfrydu oherwydd materion yn gysylltiedig â dioddefwyr, ar gyfer pob trosedd rywiol, rhyddfarnau gan reithgorau. Mae'r Ardaloedd yn cynnig sylwebaeth ar eu perfformiad cyffredinol ac yn dynodi camau i ymdrin â gwelliannau. Maent hefyd yn rhoi manylion eu gwaith ar draws yr holl ffrydiau VAWG. Bydd ardaloedd yn cael adborth ar eu hadroddiadau sicrwydd gan y tîm DPP a VAWG ac mae'n ofynnol iddynt lunio a darparu tri phwynt gweithredu yn dilyn pob asesiad bob hanner blwyddyn.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r mwyafrif (86.6%) o droseddau sydd wedi eu grwpio dan VAWG[30], i ddibenion rheoli perfformiad yn gam-drin domestig gyda threisio ar 4.2% a throseddau rhywiol ac eithrio treisio, ar 9.2%.

Ers cyflwyno cofnodi troseddau VAWG rydym wedi cyrraedd y lefel uchaf o atgyfeiriadau gan yr heddlu o ddiffynyddion VAWG ar gyfer penderfyniadau cyhuddo. Yn 2014-15, atgyfeiriwyd 129,057 o ddiffynyddion at y CPS – cynnydd o 19,638 (18%) o 2013-14 ac yn uwch na'r lefel uchaf flaenorol yn 2010-11. Roedd y cynnydd hwn hefyd wedi ei adlewyrchu yn y nifer a'r gyfran a gyhuddwyd – gan gyrraedd 88,359 (68.5%) – cynnydd o 11,833 (15.5%) ers 2013-14 a'r uchaf erioed[31]. Mae gwarediadau allan o'r llys, y penderfynwyd arnynt gan y CPS yn y cam cyn cyhuddo, hefyd wedi cyrraedd y lefel isaf hyd yn hyn (1,473, ychydig dros 1% o'r holl atgyfeiriadau). Mae'r cynnydd mewn niferoedd yn arwydd o lwyddiant y gwaith a wnaed ar draws yr heddlu a'r CPS i wella prosesau atgyfeirio ar gyfer cam-drin domestig a phob trosedd rywiol. Ceir rhagor o fanylion am y camau a gymerwyd mewn rhannau o'r adroddiad.

Mae Graff 1 yn dangos y newidiadau yn nifer yr atgyfeiriadau a'r rhai a gyhuddwyd ers 2008-09.

**Graff 1: Nifer o atgyfeiriadau heddlu a diffynyddion a gyhuddir VAWG**





---

[30] Mae data ar gyfer 'troseddau VAWG' yn cynnwys cam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol
[31] Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i'w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14.

Asesir niferoedd yr achosion VAWG fel cyfran o gyfanswm gwaith achos y CPS fel y ‘llwyth achosion VAWG’. Cynyddodd y llwyth o achosion VAWG yn 2014-15 gan gyrraedd y lefel uchaf erioed ar 16.3%, fel y gwelir yng Ngraff 2.

**Graff 2: Llwyth achosion VAWG fel % o gyfanswm y llwyth achosion yn 2008-09 i 2014-15.**





**LLWYTH ACHOSION VAWG Blynyddol FEL % O’R CYFANSWM**

| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CPS YN GENEDLAETHOL** | **7.6%** | **8.7%** | **9.9%** | **10.2%** | **10.3%** | **12.5%** | **16.3%** |

Cododd y nifer o droseddau VAWG a erlynwyd[32] o 90,516 yn 2013-14 i 107,104 yn 2014-15, cynnydd o 16,588 o ddiffynyddion wedi eu herlyn – 18.3% yn fwy na’r flwyddyn flaenorol a’r lefel uchaf erioed. Felly hefyd, cynyddodd y nifer a gollfarnwyd o 11,393, o 67,380 yn 2013-14 i 78,773, cynnydd o 16.9% a’r nifer uchaf erioed.

Mae Graff 3 yn dynodi’r niferoedd cynyddol, gan wyrdroi’r dirywiad cynharach o 2010-11.


**Graff 3: Nifer y collfarnau a’r erlyniadau am droseddau VAWG o 2008-09 i 2014-15.**




[32] Sylwer fod y niferoedd cyhuddo yn cwmpasu’r achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* i’r CPS yn ystod 2014-15 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo na ellir eu cymharu’n uniongyrchol o ran niferoedd gyda’r rhai a erlynwyd sy’n cwmpasu achosion yn ôl diffynnydd, *a gwblhawyd* yn ystod 2014-15.

Mae'r gyfradd collfarnau VAWG ar 73.5% o ddeilliannau llwyddiannus yn 2014-15, er ei fod yn ostyngiad bychan o 74.4% yn 2013-14 yn cael ei asesu mewn cymhariaeth â'r cynnydd o 16.9% yn y nifer o ddiffynyddion a gollfarnwyd – 11,393 yn fwy. Mae Graff 4 yn dangos y patrwm cynyddol o gyfraddau collfarnau dros y saith mlynedd diwethaf.

**Graff 4: Cyfraddau collfarnau am droseddau VAWG o 2008-09 i 2014-15.**




Roedd 90.3% o ddeilliannau llwyddiannus oherwydd pleon euog. Mae mwy o bleon euog yn golygu y gellir dod ag achosion i'r llys yn gyflymach ac ar gost sylweddol is, gan eu bod yn galw am lai o waith paratoi. Mae hyn yn fanteisiol i'r dioddefwr gan nad oes rhaid iddynt fynychu'r llys i roi tystiolaeth.

## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tablau ar dudalen 95-96 yn rhoi data erlyniadau VAWG yn ôl Ardal ac ardaloedd lluoedd heddlu. O 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Dinas Llundain (CLP) a Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r CLP a'r BTP.

Mae'r atodiad cysylltiedig, a roddwyd ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol, yn rhoi data cyn cyhuddo Ardaloedd ac ardaloedd lluoedd heddlu. Yn 2014-15, roedd yr asesiad sicrwydd VAWG yn cynnwys data cyn cyhuddo yn ogystal ag wedi cyhuddo.

## Materion cydraddoldeb

**Rhyw**
Roedd y data rhyw ar gyfer 2014-15 yn debyg i'r hyn oedd yn 2013-14. Roedd 93% o ddiffynyddion VAWG yn ddynion. O'r rhai y cofnodwyd rhyw ar eu cyfer[33], roedd y gyfran o ddioddefwyr oedd yn fenywod yn 84%.

[33] Cofnodwyd 84% o ryw dioddefwyr yn 2014-15 – cynnydd o 83% yn 2013-14.

**Ethnigrwydd**
Yn 2014-15, dosbarthwyd 77% o ddiffynyddion[34] troseddau VAWG fel Gwyn, gan nodi fod 72% yn Wyn Prydeinig (yn debyg i'r flwyddyn flaenorol). Dynodwyd 6% o ddiffynyddion yn Asiaidd, ac ychydig dan 6% yn Ddu, ffigyrau tebyg i'r flwyddyn flaenorol[35]. Ni chofnodwyd ethnigrwydd ychydig dan hanner y dioddefwyr, felly ni adroddwyd ar y data hwn yn yr adroddiad hwn.

**Oedran**
Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (71%) a 18-24 (22%). Roedd 25% o ddiffynyddion (26,785) dan 24 oed, gyda 3,295 (3%) o ddiffynyddion yn 14-17 oed a 212 (0.2%) yn 10-13 oed. O'r dioddefwyr hynny gydag oedran wedi ei gofnodi[36], roedd y mwyafrif rhwng 25-59 oed (66%) a 18-24 (23%). Yn debyg i oedran diffynyddion, roedd 29.3% o ddioddefwyr (23,558) dan 24 oed, gyda 3,733 (5%) o ddioddefwyr yn 14-17 oed ac 895 (1%) yn 10-13 oed a 228 dan 10 (0.3%).

## Gwaith VAWG rhyngwladol

Yn 2014-15 datblygwyd strategaeth VAWG Ryngwladol i erlyn achosion VAWG gydag elfen ryngwladol yn effeithiol. Mae'r strategaeth yn ymdrin ag achosion pan fydd y dystiolaeth neu'r tystion dramor, pan fydd troseddwyr yn ffoi dramor neu pan fydd y troseddau yn digwydd dan awdurdodaeth wahanol yn ogystal â gwaith gydag awdurdodaethau gwahanol i wella erlyn troseddau VAWG o'r dechrau. Y nod yw sicrhau bod erlyniadau VAWG y CPS gydag elfen ryngwladol mor effeithlon â phosibl, gan wneud mwy o ddefnydd o'i rwydwaith o erlynyddion a ddefnyddir dramor, a gweithio yn glos gydag Ardaloedd CPS, Adrannau Gwaith Achos, ar draws San Steffan a llywodraethau eraill.

Mae'r both gwaith achos yn cynnig mynediad rhwydd at wybodaeth hanfodol benodol i wlad a ffaith i gyfreithwyr sy'n gwneud gwaith rhyngwladol.

Amlinellir y gwaith i gyflwyno Gorchmynion Diogelu Ewropeaidd yn yr adran cam-drin domestig o'r adroddiad hwn a rhoddir manylion gwaith rhyngwladol yn yr adran masnachu pobl.

**Cysylltiadau rhyngwladol:**

- Yn 2014-2015 rhoddodd y CPS gyngor a chymorth mewn achosion VAWG yng nghyswllt y gwledydd canlynol: Awstralia, Brasil, Canada, Y Weriniaeth Siec, Gweriniaeth Dominica, Yr Aifft, Ffrainc, Hong Kong, Iwerddon, Yr Eidal, Israel, Jamaica, Kenya, Mauritius, Mongolia, Seland Newydd, Norwy, Portiwgal, Rwmania, Sbaen, Twrci, UAE ac UDA.

  Roedd hyn yn cynnwys ymholiadau i gael datganiadau tystion, cyfweliadau ABE i ddioddefwyr, cyfweld rhai dan amheuaeth, sefydlu dolenni fideo ar gyfer tystiolaeth fyw, cael tystiolaeth feddygol, cael data cyfathrebu, ceisiadau cyfraith cymharol mewn achosion awdurdodaeth tu allan i wladwriaethau, ceisiadau datgelu trydydd parti, materion awdurdodaeth a throsglwyddo camau cyfreithiol i wledydd eraill.

[34] Mae data ethnigrwydd ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau CJS cytunedig ar gyfer y categorïau ethnig 16+1.
[35] Ni ddatganodd 4% o ddiffynyddion ethnigrwydd wrth gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ethnigrwydd diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu mewn ychydig dros 5% o'r achosion.
[36] Cofnodwyd 82% o oedrannau dioddefwyr yn 2014-15 – cynnydd o 81% yn 2013-14.

## Materion dioddefwyr

Ymdrinnir â materion dioddefwyr ym mhob adran o'r adroddiad. Yn ogystal, mae nifer o faterion dioddefwyr cyffredinol o bwysigrwydd wrth erlyn achosion VAWG.

**Gwella gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion:** parhaodd y pwyslais ar ansawdd gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion yn ystod 2014-15 yn unol â blaenoriaethau'r DPP.
**Ymrwymiad traws-system gyfiawnder troseddol y llywodraeth i ddioddefwyr:** Cyfrannodd y CPS at yr ymrwymiad hwn a gyhoeddwyd ym Medi 2014. Yn y CPS bydd yr holl staff perthnasol yn cael amcan sy'n rhoi pwyslais ar y dioddefwr yn 2015-16.

**Strategaeth a chynllun gweithredu CJS:** Mae'r CPS yn gweithio gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr a phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol i sicrhau cydymffurfiad â Chod y Dioddefwyr a Siarter y Tystion.

**Hawl Dioddefwyr i Adolygiad:** Sefydlwyd y cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR) ym Mehefin 2013 i'w gwneud yn haws i ddioddefwyr geisio adolygiad o benderfyniad y CPS i beidio erlyn. Cynhelir yr adolygiadau i gychwyn gan yr Ardal a gall yr achos gael ei adolygu ymhellach gan yr Uned Apeliadau ac Adolygiad, ar gais y dioddefwr, yn dilyn penderfyniad yr Ardal. Mae perfformiad yn cael ei fonitro i adlewyrchu'r nifer o achosion pan gadarnhawyd y VRR yn llwyddiannus fel canran o achosion pan nodwyd y dioddefwr. Mae'r ARU wedi darparu adroddiadau ar berfformiad yr holl ardaloedd i Fwrdd y CPS fel rhan o Adolygiadau Perfformiad Ansawdd yr Ardaloedd. Roedd y rhain yn tanlinellu'r penderfyniadau yn ymwneud â throseddau rhywiol a dderbyniwyd ac a wrth-drowyd gan yr ARU ac yn cynnwys dadansoddiad ac adroddiad ar y tueddiadau wrth wneud penderfyniadau. Yn ychwanegol, rhoddodd erlynydd treisio arbenigol o'r ARU adborth a hwyluso trafodaeth mewn cyfarfod o Benaethiaid Unedau RASSO. Rhoddir y newyddion diweddaraf yn gyson i Ardaloedd, i wersi gael eu rhannu.

**Unedau Cyswllt Dioddefwyr:** sefydlwyd Unedau Cyswllt Dioddefwyr ar draws yr holl Ardaloedd CPS i sicrhau fod dioddefwyr yn cael cyfathrebiadau amserol, llawn empathi pan benderfynwn atal achos neu addasu'r cyhuddiadau'n sylweddol. Mae'r unedau hyn yn 'siop un stop' i ddioddefwyr y rhan fwyaf o droseddau parthed ein cyfathrebiadau yn dilyn cwblhau. Mae'r unedau hefyd yn rheoli cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygu, polisi adborth a chwynion y CPS a gwaith gweinyddu cynlluniau eraill sy'n ymwneud â dioddefwyr megis cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth.

**Cynllun Cyfathrebu a Chyswllt Dioddefwyr:** gweithredwyd y Cynllun Cyfathrebu a Chyswllt newydd ar draws holl Ardaloedd y CPS. Dan y cynllun, sy'n cymryd lle'r cynllun Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr, bydd y CPS yn parhau i roi gwybod i ddioddefwyr am benderfyniadau i atal neu i newid cyhuddiadau yn sylweddol, gan roi gwasanaethau gwell wedi eu teilwrio i'r dioddefwyr sydd fwyaf o angen cefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys dioddefwyr VAWG.

**Siarad â thystion yn y llys:** fel rhan o'n hymrwymiad i wella'r profiad 'yn y llys' i ddioddefwyr, rydym wedi datblygu cynigion i roi gwell cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion yn y llys. Rydym yn eu cyfarfod, yn esbonio rôl yr erlyniad, ac yn eu cynnwys pan fydd hynny'n bosibl mewn penderfyniadau allweddol am sut i symud yr achos

ymlaen. Rydym yn rhoi rhagor o wybodaeth iddynt am natur achos yr amddiffyniad cyn iddynt roi tystiolaeth. Mae'r cynigion wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac mae'r ymatebion a gafwyd yn awr yn cael eu hystyried gan y CPS.

**Datganiadau Personol Dioddefwr (VPS):** mae'r CPS wedi cytuno ar brotocol amlasiantaethol a'i weithredu i sicrhau bod rhagor o ddioddefwyr yn cael y cyfle i wneud a darllen VPS yn y llys. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gallu rhoi gwybod i'r llys am effaith y drosedd ar eu bywydau a'u lles.

**Camau arbennig:** cyhoeddwyd cyfarwyddyd wedi ei ddiweddaru i erlynyddion parthed camau arbennig ym Mai 2015. Mae'r canllaw diwygiedig yn ystyried yr argymhellion a wnaethpwyd yn dilyn ymchwil y CPS i ddefnyddio camau arbennig, ac yn cynnwys gwybodaeth a chyfarwyddyd ymarferol gwell i erlynyddion, yn arbennig parthed cyfryngwyr. Yn ogystal, mae'r cyfarwyddyd yn rhoi gwybodaeth bellach i erlynyddion am drafodaethau camau arbennig gyda'r heddlu a ffactorau i erlynyddion eu hystyried wrth bennu a ddylid cynnal cyfarfodydd camau arbennig gyda thystion.

**Porth Eiriolwyr:** mae'r CPS yn dal i gyfrannu at y Porth Eiriolwyr, sy'n rhoi cyfarwyddyd ymarferol i ymarferwyr cyfiawnder troseddol ar dystion bregus a diffynyddion.

**Arolwg bodlonrwydd dioddefwyr a thystion cenedlaethol:** cynhaliodd y CPS arolwg bodlonrwydd cenedlaethol i asesu lefel y bodlonrwydd gan ddioddefwyr a thystion o'r gwasanaeth y maent wedi ei dderbyn gan y CPS. Gwnaed y gwaith maes – cymerodd tua 8,000 o ddioddefwyr a thystion ran yn yr arolwg – ac mae'r gwaith ar ddadansoddi'r canfyddiadau ar y gweill. Roedd yr arolwg yn cynnwys holi dioddefwyr cam-drin/trais domestig a rhywiol. Cyhoeddir y canfyddiadau yn 2015-16.

**Canllawiau ar erlyn achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol:**
Mae'r canllawiau ar erlyn achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol a gyhoeddwyd ym Mehefin 2013 wedi cael eu defnyddio ar draws y materion VAWG. Dylid darllen y canllawiau cyfryngau cymdeithasol ar y cyd â'r Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron sy'n nodi ffactorau lles y cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys a oedd y drosedd wedi ei hysgogi gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn y dioddefwr yn cynnwys gwahaniaethu ar sail rhyw. Fe ystyrir ffactorau lles y cyhoedd yng nghyswllt cyfathrebiadau yr ystyrir eu bod yn hynod sarhaus, anweddus, afllednais neu ffug.

Amlinellir cyfreithiau newydd yn ymwneud â gwastrodi, negeseuon rhywiol, cyfathrebiadau maleisus, pornograffi treisio a dial yn yr adrannau cam-drin plant a phornograffi/cyhoeddiadau afllednais o'r adroddiad hwn.

Datblygodd y CPS nifer o fodylau e-ddysgu newydd ar erlyn gwastrodi ar-lein a defnyddio cyfryngau cymdeithasol a lansiwyd i erlynyddion yn ystod 2014-15.

**Cyfryngau cymdeithasol:**

- Carcharwyd dyn am 13 a hanner o flynyddoedd am dreisio ac ymosod yn rhywiol ar fenyw 19 oed. Roedd wedi cysylltu â hi trwy Facebook, gan greu proffil ffug fel au pair benywaidd. Roedd y dioddefwr wedi derbyn cynnig o lifft gan y diffynnydd yr oedd hi'n ei feddwl oedd yn au pair benywaidd. Fe wnaeth y diffynnydd ymddangos yn y man cyfarfod gan ddarbwyllo'r fenyw bod ei ffrind ar Facebook wedi gofyn iddo fynd i'w nôl hi. Gyrrodd i dir amaethyddol unig cyn cyflawni troseddau rhywiol trwy rym arni. Honnodd i ddechrau ei fod eisoes wedi cyfarfod y ddioddefwraig a'i bod wedi cydsynio i weithgaredd rhywiol. Ond, roedd y dystiolaeth mor gryf fel ei fod wedi pledio yn euog yn y llys i'r troseddau mwyaf difrifol yn ei erbyn.

**Pecyn offer i erlynyddion sy'n ymdrin ag achosion VAWG yn ymwneud â dioddefwyr bregus:** Datblygwyd y pecyn offer trwy bartneriaeth gyda grŵp Ymgynghori Allanol VAWG y CPS. Ei nod yw sicrhau bod hygrededd yr honiad cyffredinol, yn unol â'r Cod i Erlynyddion y Goron, yn cael ei asesu yn briodol a bod dioddefwyr bregus yn cael eu cefnogi i roi eu tystiolaeth orau. Rhoddir y manylion yn adran treisio'r adroddiad hwn, gan iddo gael ei lansio yn y Gynhadledd Dreisio Genedlaethol ym mis Ionawr.

## Gwaith Ardal VAWG

Yn 2014-15, parhaodd Cydlynwyr VAWG Ardal i arwain erlyniadau VAWG yn lleol a gweithio gyda Rheolwyr Ymgysylltu Cymunedol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth VAWG (EDCEM) i redeg Paneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol (LSIPau). Mae gan bob Ardal baneli yn delio â materion VAWG – yn bennaf yn delio â DA ac erlyniadau treisio – ond roedd rhai hefyd yn canolbwyntio ar drais yn seiliedig ar urddas.

Cynhaliwyd cyfarfod bord gron yng Ngorffennaf 2014 ar gyfer Cydlynwyr VAWG i drafod gweithrediad camau ar lefel leol. Fe'u gwahoddwyd hefyd i'r Gynhadledd Dreisio Genedlaethol yn Ionawr 2015.

## Arfer da

Darparodd gwaith gyda grwpiau cymunedol trwy LSIP ac ymgysylltiad cymunedol ystod o arfer da sydd wedi ei rannu ar draws Ardaloedd. Ymhlith yr enghreifftiau o arfer da mae:

- Mae pob Ardal yn cynnal LSIP – yn ymdrin â cham-drin domestig, treisio a throseddau VAWG eraill;
- Gweithiodd y rhan fwyaf o Ardaloedd yn glos gyda'u Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar ddatblygu'r Cynlluniau Heddlu a Throseddu;
- Cynhaliodd yr holl Ardaloedd CPS hyfforddiant ar briodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod;
- Cynhaliwyd hyfforddiant ar gam-drin rhywiol ar blant hefyd ymhob Ardal;

- Gweithdy i reolwyr ar agwedd gyson at ansawdd yng nghyswllt achosion VAWG ym mis Tachwedd a hyfforddiant ar ‘Erlyniadau heb Ddioddefwyr’ yn Chwefror a Mawrth 2015 (CPSD);
- Trefnodd y CPS weithdy gyda grwpiau cefnogi i helpu’r CPS chwalu’r chwedlau am droseddau VAWG (Glannau Mersi a Swydd Gaer).

# Cam-drin domestig

Cyn 2015, nid oedd trosedd benodol o “drais neu gam-drin domestig”, felly roedd achosion “trais neu gam-drin domestig” yn cael eu herlyn dan amrywiaeth o droseddau eraill, yn amrywio o ymosodiad cyffredin i lofruddiaeth. Mae’r CPS yn llumanu pob achos cam-drin domestig, beth bynnag yw’r drosedd, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisi a chyfarwyddyd y CPS yn ogystal â monitro perfformiad. Gan i ddeddfwriaeth ar gam-drin domestig am orfodi a rheoli gael ei chyflwyno, bydd pob achos a erlynir yn y dyfodol yn cynnwys y troseddau hyn yn y system lumanu.

Yn 2014-15, roedd y patrwm cyffredinol o erlyniadau DA yn dynodi gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn, unwaith eto, mewn erlyniadau. Cododd nifer yr atgyfeiriadau DA gan yr heddlu i’w lefel uchaf erioed ar 122,898 yn 2014-15 – cynnydd o 19,329 o atgyfeiriadau (18.7%) ers 2013-14. Roedd 84,711 (68.9% o’r atgyfeiriadau hyn) wedi eu cyhuddo[37]. Mae hyn yn adlewyrchu’r niferoedd uchaf o achosion a gofnodwyd gan y CPS a chynnydd o 11,806 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (16.2%) ers 2013-14[38]. Nododd pob Ardal gynnydd mewn niferoedd o ran atgyfeiriadau a chyhuddiadau; ond dim ond pedair Ardal a gynyddodd y gyfran a gyhuddwyd[39].

Y nifer cyfartalog o ddyddiau i gyhuddo yn 2014-15 oedd 4.31 o ddyddiau mewn cymhariaeth â 4.57 o ddyddiau yn 2013-14; gyda naw Ardal yn gostwng y nifer o ddyddiau[40] a dwy yn aros yr un fath[41]. Trafodwyd prydlondeb cyhuddo[42] yn y broses sicrwydd VAWG yn 2014-15.

---

[37] Mae’r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy’n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i’w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i’r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14.

[38] Sylwer fod y niferoedd cyhuddo yn cwmpasu’r achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* i’r CPS yn ystod 2013-14 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo na ellir eu cymharu’n uniongyrchol o ran niferoedd gyda’r rhai a erlynwyd sy’n cwmpasu achosion yn ôl diffynnydd, a *gwblhawyd* yn ystod 2013-14.


[39] Cynyddodd y Dwyrain, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Llundain a De Ddwyrain Lloegr y % a gyhuddwyd o’r atgyfeiriadau.

[40] Gostyngodd Cymru, y Dwyrain, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Llundain, Gogledd Ddwyrain Lloegr, De Orllewin Lloegr, Tafwys a Chiltern Wessex a Swydd Efrog a Glannau Humber yr amser a gymerwyd i gyhuddo diffynyddion cam-drin domestig.

[41] yng Ngogledd Orllewin Lloegr a De Ddwyrain Lloegr - arhosodd yr amser i gyhuddo yn gyson.


[42] Mae data CMS yn adrodd cyfartaledd y nifer o ddyddiau calendr sydd wedi mynd ers i’r penderfyniad cyntaf gael ei geisio gan yr heddlu, hyd y dyddiad pan oedd y penderfyniad olaf a wnaed yn un i gyhuddo. Ni all y system gofnodi ar wahân brydlondeb yr achosion hynny oedd yn destun i gyngor a rhagor o waith cyn i benderfyniad i gyhuddo gael ei wneud a’i gofnodi fel y penderfyniad olaf.

**Graff 5: Nifer o atgyfeiriadau DA a diffynyddion a gyhuddwyd2008-09 i 2014-15**




Mae'r gyfran o achosion DA[43] wedi codi o flwyddyn i flwyddyn; o 10.7% yn 2013-14 i 14.1% yn 2014-15, fel y dynodwyd yn y tabl isod ac yng ngraff 6.

**Graff 6: Llwyth achosion DAfel % o gyfanswm y llwyth achosion yn 2008-09 i 2014-15.**




**LLWYTH ACHOSION DA Blynyddol fel % O'R CYFANSWM**

| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CPS YN GENEDLAETHOL** | **6.5%** | **7.5%** | **8.6%** | **8.9%** | **8.9%** | **10.7%** | **14.1%** |

Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 i 92,779 o 78,071 – cynnydd o 14,708 o ddiffynyddion (18.8%) o 2013-14, fel y dynodwyd yn nhabl 1 a graff 7. Cafodd y cynnydd mewn diffynyddion a gyhuddwyd yn ystod 2013-14 effaith bellach ar ganlyniadau erlyniadau yn 2014-15, gan gyrraedd y lefel uchaf erioed.


[43] Llwyth achosion cam-drin domestig fel % o'r holl erlyniadau yn y llys.

Mae Tabl 1 yn rhoi data o 2009-10 i 2014-15.

**Tabl 1: Erlyniadau DA a gwblhawyd yn ôl deilliant 2009-10 i 2014-15**

| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 53,347 | 72.0% | 59,101 | 71.9% | 58,138 | 73.3% | 52,549 | 74.3% | 58,276 | 74.6% | 68,601 | 73.9% |
| Aflwyddiannus | 20,766 | 28.0% | 23,086 | 28.1% | 21,130 | 26.7% | 18,153 | 25.7% | 19,795 | 25.4% | 24,178 | 26.1% |
| **Cyfanswm** | **74,113** | | **82,187** | | **79,268** | | **70,702** | | **78,071** | | **92,779** | |


**Graff 7: Niferoedd DA 2008-09 i 2014-15**




Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 68,601 - cynnydd o 10,325 o gollfarnau (17.7%) ers 2013-14. Gostyngodd y gyfradd gollfarnu ychydig i 73.9%, o 74.6% yn 2013-14, mewn cymhariaeth â'r cynnydd mawr mewn niferoedd. Rhwng 2005-6 pan gychwynnwyd cofnodi a 2014-15, mae'r niferoedd collfarnau wedi codi o 29,719 i 68,601 – cynnydd o 38,882 o ddiffynyddion wedi eu collfarnu – cynnydd o 131% dros y cyfnod hwn o ddeng mlynedd a'r lefel uchaf erioed.

Mae Graff 8 yn darlunio’r duedd gyffredinol ar i fyny o ran collfarnau.

**Graff 8: Cyfraddau collfarnau DA 2008-09 i 2014-15**




Cododd y nifer o bleon euog eto – gan gyrraedd 63,132, cynnydd o 17.7%; er bod y gyfran o’r holl achosion a erlynwyd wedi gostwng ychydig i 68% o 68.7%.
Mae 92% o’r holl ganlyniadau llwyddiannus o ganlyniad i bleon euog.Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i fod yn isel, ar 19.3% o’r holl achosion DA a erlynwyd, yn debyg i’r 19.2% yn 2013-14, yr isaf erioed. Mae rhwymiadau wedi gostwng dros y blynyddoedd (6.6% yn 2007-08) i 0.8% yn 2014-15.

Yn y cyfnod hwn, fel yn y blynyddoedd blaenorol, troseddau yn erbyn y person oedd y troseddau a erlynwyd amlaf, yn cynrychioli 72% o droseddau DA. Roedd troseddau difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn gyfrifol am 12% a 5% arall yn ôl eu trefn[44].

Roedd gostyngiad bychan yn y rhesymau am ddeilliannau aflwyddiannus oedd oherwydd problemau dioddefwyr[45] - o 54.8% yn 2013-14 i 53.7% yn 2014-15.Roedd hyn yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn y gyfran a fu’n aflwyddiannus oherwydd i’r dioddefwyr dynnu yn ôl (o 28.1% i 26.8%).

O’r *holl* achosion a erlynwyd, mae’r gyfradd oedd yn aflwyddiannus oherwydd problemau dioddefwr[46] wedi cynyddu ychydig o 13.9% yn 2013-14 i 14.0% yn 2014-15, cyfran debyg i’r un o 2008-2011. Mae cefnogaeth i ddioddefwyr drwy broses y llys yn allweddol i leihau’r tynnu’n ôl ac mae gwaith gyda Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) yn lleol yn allweddol i wella erlyniadau. Nodwyd ffyrdd o ddelio ag erlyniadau yn dilyn tynnu’n ôl yn ystod 2013-14 ac maent wedi eu cynnwys yn yr adolygiad o’r canllaw cyfreithiol DA yn 2014. Roedd hyn yn cynnwys gwella defnydd o dystiolaeth heblaw un y dioddefwr, hybu ymwybyddiaeth erlynyddion o faterion tynnu’n ôl a sut i’w atal, sut i ddelio ymhellach â diogelwch dioddefwyr, rhoi cyngor ar ddefnydd priodol o wysion a systemau cyfathrebu amlasiantaethol gyda dioddefwyr a’u gwasanaethau.

[44] Gweler yr Eirfa am ddiffiniadau’r CPS o’r ‘brif drosedd’ a’r gwahanol gategorïau.
[45] Mae materion dioddefwyr yn cynnwys y dioddefwr yn tynnu yn ôl, diffyg presenoldeb y dioddefwr a ‘thystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi’r achos’.
[46] Achosion aflwyddiannus oherwydd i’r dioddefwr dynnu’n ôl; peidio mynd i’r llys neu pan na fydd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi’r achos.

**Tystiolaeth Achlust**

- Rhoddodd y troseddwr ddyrnod i'w gyn-bartner yn ei hwyneb tu allan i ysgol gynradd o flaen pobl eraill gan gynnwys dau fab ei gyn-bartner. Rhoddodd y dioddefwr adroddiad ar lafar ac fe roddodd tyst ddatganiad hefyd, ond roedd y ddau ofn y byddai canlyniadau gan y tramgwyddwr felly fe roddwyd eu datganiadau fel tystiolaeth achlust. Dedfrydwyd y diffynnydd i 24 wythnos o garchar, a ohiriwyd am ddwy flynedd a gorchymyn atal heb derfyn penodol.

Mae 'achlust' mewn camau troseddol yn 'ddatganiad na wnaed mewn tystiolaeth lafar yn y camau cyfreithiol sy'n dystiolaeth o unrhyw fater a nodir'. Mae adran 116 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn nodi cyfres o gategorïau lle mae tystiolaeth achlust, boed yn llafar neu ddogfennol, yn dderbyniol, ar yr amod nad yw'r tyst ar gael i roi tystiolaeth am reswm a nodir. Gellir rhoi datganiad dioddefwr dan A 116 (2) (e) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 os yw'r dioddefwr mewn ofn; a thystiolaeth arall, e.e. gan dyst sy'n drydydd parti dan A114 (1) (d), os yw er budd cyfiawnder. Gweler yr eirfa am ddiffiniad llawn.

## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tablau ar dudalen 97-98 yn rhoi data erlyniadau DA yn ôl Ardal ac ardaloedd lluoedd heddlu. O 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Dinas Llundain (CLP) a Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall.  Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r CLP a'r BTP.Mae'r atodiad cysylltiedig, a roddwyd ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol, yn rhoi data cyn cyhuddo Ardaloedd ac ardaloedd lluoedd heddlu.

**Tystiolaeth Achlust**

- Mewn achos arall, roedd y tramgwyddwr wedi dyrnu a chicio ei wraig yn barhaus yn ystod dadl yn y car. Rhoddodd y dioddefwr gofnod wedi ei lofnodi yn llyfr nodiadau'r heddlu ond fe wrthododd roi datganiad arall ar y sail y gallai'r gam-driniaeth gynyddu. Rhoddwyd ei datganiad fel tystiolaeth achlust (A 116 (2) (e)) ac fe'i dedfrydwyd i 16 wythnos o garchar, wedi ei ohirio am 18 mis, 150 awr o waith di-dâl i'w gwblhau cyn pen 12 mis, a 18 mis o oruchwyliaeth.

- Ac mewn trydydd achos, fe wnaeth dioddefwr dri galwad 999 i'r heddlu pan ddisgrifiodd ei hun yn cael ei chrogi gan ei chariad. Gwrthododd roi datganiad tyst gan fod ganddi ofn am ei diogelwch hi ei hun a'i mab. Darganfu'r heddlu nifer o sgyrsiau trwy negeseuon testun lle'r oedd yr un dan amheuaeth yn ymddangos fel pe bai yn cyfaddef yr ymosodiad, llwyddodd eiriolwr yr erlyniad i ddarbwyllo'r ynadon i dderbyn y galwad 999 a datganiadau'r swyddogion fel tystiolaeth res gestae. Dedfrydwyd y diffynnydd i gyfnod o 16 wythnos o garchar ar unwaith. Gosododd hyn gynsail newydd bod raid i'r llys nid yn unig sicrhau achos teg i'r diffynnydd ond hefyd ystyried y risg y bydd dioddefwyr yn dioddef rhagor o niwed o gydweithredu gydag awdurdodau erlyn.

Mae datganiadau res-gestae yn dderbyniol - rhai wedi eu gwneud gan yr achwynydd neu drydydd parti o gwmpas amser y drosedd sydd â chymaint o gysylltiad fel ei bod yn annhebygol y byddant wedi eu hystumio nac eu dyfeisio. Gweler yr eirfa am ddiffiniad llawn.

## Materion cydraddoldeb

**Rhyw**

Yn 2014-15, fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, sef 92.4%.
Roedd cofnodi rhyw'r dioddefwr yn gyson ar 84% yn 2014-15. O'r rhai y cofnodwyd eu rhyw, parhaodd y gyfran o ddioddefwyr oedd yn fenywod ar 84%, ers 2010-11.

**Ethnigrwydd**
Yn 2014-15, dynodwyd 78.8% o ddiffynyddion DA fel Gwyn (gostyngiad bychan o 79.5% yn 2013-14), gyda 74% yn cael eu nodi i fod yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig. Dynodwyd 5.5% o ddiffynyddion yn Ddu, gostyngiad bychan o'r flwyddyn flaenorol a 5.5% yn Asiaidd, yr un fath ag yn 2013-14[47]. Nid yw ethnigrwydd ychydig dan hanner y dioddefwyr yn cael ei gofnodi ac felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Oedran**
Roedd mwyafrif y diffynyddion rhwng 25-59 oed (73%) a 18-24 (22%). Roedd 25% o ddiffynyddion (23,382) dan 24 oed, gyda 2,549 (3%) o ddiffynyddion yn 14-17 oed a 111 (0.1%) yn 10-13 oed.

O'r dioddefwyr hynny gydag oed cofnodedig[48], roedd y mwyafrif rhwng 25-59 oed (64%) a 18-24 (22%). Yn debyg i oedran diffynyddion, roedd 28% o ddioddefwyr (21,283) dan 24 oed, gyda 2,908 (4%) o ddioddefwyr yn 14-17 oed a 570 (0.7%) yn 10-13 oed a 161 dan 10 (0.2%).

**Cam-drin mewn perthynas yn yr arddegau**

- Roedd diffynnydd 16 mlwydd oed wedi bod mewn "perthynas dreisgar yn gorffen ac ail-ddechrau yn gyson" gyda dioddefwr 15 oed, ac fe gawsant blentyn gyda'i gilydd. Gofynnodd y ddioddefwraig i'r diffynnydd adael ei chartref, gan ei bod wedi cael ar ddeall ei fod wedi beichiogi menyw arall. Y diwrnod wedyn gadawodd y dioddefwr ei chariad yn ôl a gadael iddo roi bwyd i'r babi, ond nid oedd yn fodlon iddo fynd â'r babi allan oherwydd ei bod yn gynnar. Ar yr adeg hon, ymosododd y diffynnydd ar y ddioddefwraig, gan ei brathu a thynnu ei gwallt. Rhedodd i nôl ei mam, a phan ddychwelodd roedd y diffynnydd yn gafael yn y babi. Aeth ati wedyn i dorri basged y babi, ffôn a theledu, cyn mynd ar ôl y ddioddefwraig i ystafell ffrynt yr eiddo, gan ymosod arni eto. Oherwydd hyn fe wnaeth hi gwympo ar ei brawd anabl. Gofynnodd mam y ddioddefwraig i'r diffynnydd adael. Fe wnaeth ei bygwth hi, ac yna gadael yr eiddo, gan dorri'r drws ar ei ffordd allan. Plediodd y diffynnydd yn euog ar ddiwrnod yr achos llys. Dedfrydwyd ef i fynychu cyfarfod panel troseddwyr ifanc am naw mis.

[47] Ni ddatganodd 3.2% o ddiffynyddion ethnigrwydd wrth gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ethnigrwydd ychydig dros 4% o ddiffynyddion i'r CPS gan yr heddlu.
[48] Cofnodwyd 82.4% o oedrannau dioddefwyr yn 2014-15 – cynnydd o 81.8% yn 2013-14.

Gweithredwyd mwyafrif y camau a ddatblygwyd yn y Panel Craffu Cenedlaethol ar gam-drin mewn perthynas rhwng rhai yn eu harddegau yn 2012 trwy'r cyfarwyddyd cam-drin domestig diwygiedig a'r hyfforddiant a gynllunnir at y dyfodol, yn ogystal â chynlluniau i ystyried treialu ymateb arbenigol gan y System Cyfiawnder Troseddol i achosion ieuenctid.

## Perthynas

Nid yw cofnodi'r berthynas rhwng y tramgwyddwr a'r dioddefwr yn ddigon cadarn eto i asesu, ond mae cofnodi yn y gronfa ddata CPS wedi gwella eto, o 17% yn 2010-11 i 57% yn 2014-15. Bydd Ardaloedd yn cael eu hannog i wella casglu data ymhellach i helpu i ddynodi achosion yn ymwneud â pherthynas un rhyw a gwahaniaethu rhwng aelodau o'r teulu a phartneriaid agos.

## Materion trawslywodraethol:

### Deddfwriaeth ar ymddygiad sy'n rheoli a gorfodi

Cyfrannodd y CPS at ddatblygu trosedd cam-drin domestig newydd sef ymddygiad sy'n rheoli a gorfodi a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref ym mis Mawrth 2015.

Cyflwynwyd trosedd newydd o'r enw ymddygiad sy'n gorfodi neu reoli mewn perthynas deuluol neu gorfforol yn Neddf Troseddau Difrifol 2015 a bydd yn dod i rym yn ddiweddarach yn 2015-16. Mae unigolyn yn cyflawni trosedd os bydd yn ymddwyn yn barhaus neu dro ar ôl tro mewn modd sy'n gorfodi neu'n rheoli. Eu bod ar adeg yr ymddygiad â chysylltiad personol, a bod yr ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar yr unigolyn arall. Mae'r drosedd wedi ei llunio yn fwy eang i gynnwys ymddygiad mewn perthynas deuluol neu gorfforol ac fe ellir ei phrofi'r naill ffordd neu'r llall gydag uchafswm cosb (ar gollfarn ar dditiad) o bum mlynedd o garchar.

Mae'r CPS yn cydweithio'n glos gyda'r Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona Cenedlaethol ar roi cyfarwyddyd ar ddehongli'r drosedd hon. Defnyddir enghreifftiau o ymddygiad a'r dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi'r elfennau o'r drosedd. Bydd hyn o gymorth i swyddogion heddlu sy'n ymchwilio, erlynyddion wrth lunio achos ac yn y pen draw yn arwain at erlyniadau llwyddiannus.

## Adolygiad o gyfarwyddyd cyfreithiol DA y CPS

Yn Rhagfyr 2014, cyhoeddodd y DPP gyfarwyddyd newydd ar ymdrin ag achosion cam-drin domestig yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r cyfarwyddyd yn ymdrin â gwelliannau yn ansawdd gwaith achos a'r gefnogaeth i ddioddefwyr a thystion a bydd hyfforddiant yn dilyn i sicrhau bod gan erlynyddion y sgiliau ar gyfer y gwaith.

Mae'r canllawiau newydd yn cyfeirio erlynyddion at yr amrywiaeth o ffyrdd y gall y rhai sy'n cam-drin reoli a gorfodi eu dioddefwyr, trwy gyflawni troseddau clir heb ymosod yn gorfforol o angenrheidrwydd. Bydd hyn yn cefnogi'r drosedd newydd o ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli.

Er mwyn gwella ansawdd gwaith achos, rhoddir dolenni i Restr Wirio Tystiolaeth Cam-drin Domestig gan y CPS a'r Heddlu ar y cyd a manylion am ddioddefwyr yn

tynnu'n ôl o achosion, gan amlinellu camau priodol i'w cymryd. Mae'r cyfarwyddyd hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y materion sy'n ymwneud â grwpiau penodol o bobl gan gynnwys, am y tro cyntaf, cyfarwyddyd gwell ar faterion sy'n ymwneud â phlant dioddefwyr sy'n oedolion, rhai yn eu harddegau sydd mewn perthynas pan fydd cam-drin a rhai yn eu harddegau mewn gangiau.

**Herwgipio**

- Dedfrydwyd dyn yn Swydd Efrog a Glannau Humber i 30 mis o garchar am herwgipio. Dioddefodd ei bartner gam-drin domestig sylweddol a difrifol a ddechreuodd gyda bygythiadau llafar ac yna aeth ymlaen i drais corfforol, gan arwain at ddigwyddiad dychrynllyd pan wnaeth glymu ei choesau a'i chloi yn ei gartref.

## Gwaith gyda'r Heddlu

Ers 2014-15, mae'r Heddlu wedi bod yn datblygu eu diwygiad o'u Harfer Proffesiynol Awdurdodedig ar gam-drin domestig. Mae'r CPS yn gweithio gyda nhw i ddiwygio a diweddaru'r Rhestr Wirio ar y Cyd gan yr Heddlu a'r CPS yn sgil y ddeddfwriaeth newydd. Mae'r rhestr yn annog swyddogion yr heddlu ac erlynyddion i gasglu'r holl dystiolaeth sydd ar gael ar ddechrau ymchwiliad, gan gydnabod y gall y dioddefwr ar ryw adeg benderfynu peidio cefnogi'r erlyniad.

Mae'r CPS yn parhau i weithio'n lleol gyda'r heddlu ar sut i gael y gwerth mwyaf o dystiolaeth mewn achosion cam-drin domestig, yn arbennig yr hyn a gofnodir gan fideo ar y corff gan swyddogion.

## Datrysiadau tu allan i'r llys

Cychwynnodd prawf Fframwaith Datrys Tu Allan i'r Llys ym mis Tachwedd 2014 mewn tair Ardal llu heddlu, Swydd Gaerlŷr, Swydd Stafford a Gorllewin Swydd Efrog. Trefnwyd i'r treial barhau am 12 mis ac mae'n berthnasol i amrywiaeth o droseddau y gellir ymdrin â nhw ar hyn o bryd trwy ddatrysiadau tu allan i'r llys. Yn ychwanegol mae'r tri llu heddlu yn cael defnyddio dulliau gwahanol o ymdrin â throseddau yn ymwneud â thrais domestig a throseddau casineb. Dan y drefn bresennol, gall swyddogion heddlu roi rhybudd syml am droseddau o'r fath ond dim rhybudd amodol. Am gyfnod y treial, rhoddwyd eithriad o gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar rybuddion amodol i'r tri llu heddlu sy'n eu caniatáu i ddefnyddio'r dull hwn yn hytrach na rhybudd syml, pan fydd hyn yn gam priodol. Argymhellir gweithredu positif mewn achosion o gam-drin domestig a/neu gam-drin i sicrhau diogelwch y dioddefwyr a phlant.

Os nad yw cam tystiolaethol y prawf Cod Llawn yn cael ei fodloni yna yn anaml y bydd yn briodol ymdrin â'r achos trwy ddatrysiad tu allan i'r llys mewn achosion cam-drin domestig. Fodd bynnag, lle glynwyd at bolisi gweithredu cadarnhaol ond nad yw'r dioddefwr yn cefnogi erlyniad, ac na fyddai'r dystiolaeth sydd ar gael (gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ychwanegol a ddygwyd gerbron) ond yn cefnogi cyhuddo o drosedd fach iawn, gall datrysiad tu allan i'r llys gael ei ystyried yn hytrach na phenderfyniad i beidio cymryd unrhyw gamau pellach.

Mae'r cyfarwyddyd yn nodi y dylid hefyd ystyried gwneud cais am Rybudd/Gorchymyn Diogelu Cam-drin Domestig i sicrhau diogelwch y dioddefwr. Gan mai cam sifil yw hyn gall redeg yn gyfochrog â chamau troseddol.

Mae rhai egwyddorion trosfwaol y mae'n rhaid i'r cynlluniau treialu gadw atynt o ran diogelwch dioddefwyr wrth benderfynu symud ymlaen at ddatrysiad tu allan i'r llys. Mae dwy lefel o ddatrysiad tu allan i'r llys – datrysiadau cymunedol a rhybuddion amodol:

- Ni ellir defnyddio datrysiadau cymunedol ar gyfer cam-drin partner corfforol; os defnyddir unrhyw fath o drais neu os oes gan y troseddwr unrhyw hanes o gam-drin domestig;
- Defnydd cyfyngedig sydd i rybuddion amodol a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan oruchwyliwr heddlu profiadol.

Rhoddir esboniad hefyd am ddefnyddio cyfiawnder adferol:

- Ni all cyfiawnder adferol gael ei ddefnyddio mewn achos o gam-drin partner corfforol ac argymhellir ei fod yn eithriad i'w ddefnyddio mewn cam-drin teuluol ar lefel eithriadol o isel, yn dilyn asesiadau risg trylwyr ac yn cael ei gynnal gan hwylusydd sydd wedi ei hyfforddi a'i achredu yn llawn.

Bydd y cynlluniau treialu yn rhedeg hyd ddiwedd 2015 a bydd adroddiadau ar y canfyddiadau wedyn.

**Gwyrdroi Cwrs Cyfiawnder:**

- Dedfrydwyd dyn 80 oed i 18 mlynedd o garchar am dalu i ddau ddyn ifanc daflu asid dros ei gyn-bartner. Cafwyd ef a'i gyd-droseddwyr yn euog o achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol iddi. Fe'i cafwyd yn euog hefyd o fwriadu gwyrdroi cwrs cyfiawnder cyhoeddus gan ei fod wedi gofyn i rywun roi datganiad ffug i'r heddlu o ran pwy oedd yn gyfrifol am yr ymosodiad.

## Llysoedd Arbenigol DV[49]

Yn ystod 2014-15, parhaodd y CPS, fel rhan o'r Grŵp Llywio Cenedlaethol Trawslywodraethol; gyda'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i oruchwylio'r Llysoedd DV Arbenigol (SDVC). Mewn ymateb i'r cynlluniau i gau rhai llysoedd ynadon ers Ebrill 2011, datblygodd y Grŵp Llywio SDVC Cenedlaethol ganllaw i SDVC i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn cael eu trosglwyddo i'r trefniadau llys newydd a goruchwyliodd y cam nesaf o drosglwyddo yn ystod 2014-15 – gan ymweld â SDVC i gymeradwyo eu system newydd.

Yn ogystal, datblygwyd gwaith i archwilio'r gefnogaeth ofynnol ar gyfer SDVC i fodloni cyflawniad yr holl elfennau SDVC i sicrhau bod diogelwch a chyfiawnder yn cael eu cyflawni yn effeithiol. Datblygwyd holiadur adolygu a'i anfon at SDVC ar ddiwedd

[49] Mae Llysoedd Trais Domestig Arbenigol, sy'n cael eu crynhoi yn SDVC, yn parhau i gael yr enw hwn, er bod y term am 'drais domestig' wedi newid i 'gam-drin domestig'.

2013-14 ar gyfer asesu'r gefnogaeth sy'n ofynnol yn ystod 2014-15. Cyflwynir y canlyniadau terfynol i'r Gweinidogion yn 2015-16.

Yn dilyn holiadur i'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ac ymarfer rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid lleol yn 2013-14, mae'r CPS wedi paratoi cynigion yn amlinellu elfennau allweddol model Llys Ieuenctid Arbenigol DV. Ystyriwyd hyn gan y Grŵp Llywio SDVC Cenedlaethol yn 2014-15 i bennu posibiliadau ar gyfer treialu posibl yn 2015-16.

## Hyfforddiant

Bydd y modylau hyfforddi cam-drin domestig craidd yn cael eu diweddaru o ganlyniad i gyfarwyddyd DA diwygiedig a'r ddeddfwriaeth newydd. Bydd y diweddariadau yn cynnwys dwy fodwl hyfforddi newydd i rai yn eu harddegau mewn perthynas lle mae cam-drin a cham-drin domestig sy'n cael ei brofi gan ddioddefwyr hŷn, sydd hefyd yn cynnwys cam-drin teuluol.

Cynhaliodd rhai Ardaloedd CPS ddigwyddiadau hyfforddi ar wahân i ategu at yr adnoddau hyfforddi cenedlaethol. Gydag achosion cam-drin domestig dros 40% o waith cyhuddo CPSD, maent wedi rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant, gan gynnal sesiynau ar gymeriad drwg, achlust a defnyddio tystiolaeth o gamerâu a wisgir ar y corff.

Mae nifer o erlynyddion CPS hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddi IDVA ddwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn helpu'r IDVA i sicrhau fod ganddynt ddealltwriaeth gywir o'r broses erlyn a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r system gyfiawnder droseddol ehangach gan eu galluogi i roi gwybodaeth gywir i ddioddefwyr ynglŷn â'r gyfraith a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â rôl y CPS wrth erlyn achosion DV. Yn Ebrill 2014, cyflwynodd y CPS hyfforddiant i IDVA ym Mryste, Leeds a Llundain. Darparwyd yr hyfforddiant gan y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi gyda mewnbwn gan ddau gydlynydd DA. Cynhaliwyd hyfforddiant pellach ym mis Tachwedd 2014 ym Mryste, Manceinion a Llundain, yn cynnwys saith o erlynyddion DA. Dangoswyd bod cefnogaeth benodol gan IDVA yn cael effaith bositif ar ddiogelwch dioddefwyr.

## Materion dioddefwyr

Nodwyd nifer o fentrau lleol fel arfer da trwy gydol 2014-15.

- Dynododd CPS Mersi a Swydd Gaer faterion dioddefwyr trwy eu hunedau gofal tystion gan gynnal adolygiad byr o benderfyniadau NFA yr heddlu gan arwain at broses sicrhau ansawdd fwy cadarn;
- Fe wnaethant hefyd sefydlu tîm cam-drin domestig o eiriolwyr arbenigol hyfforddedig a chyfreithwyr paratoi penodol ar eu cyfer.
- Mae Ardal CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr yn gweithio gyda fforwm o 35 ISVA/IDVA sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i rannu arfer da, gwybodaeth a datblygu achosion;
- Mae eu Huned Gofal Tystion yn gwirio pob achos cam-drin domestig bythefnos cyn yr achos llys i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddioddefwyr ddod i'r llys.
- Lluniodd CPS Dwyreiniol becyn offer cam-drin domestig i erlynyddion.

- Sefydlodd CPS Llundain systemau i gynyddu cyflymder achosion llys, gan gynnwys darparu recordiadau galwadau 999 yn ddigidol a delweddau o gamerâu a wisgir ar y corff.
- Yn Nyffryn Tafwys, mae'r heddlu, y CPS, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (HMCTS) ac asiantaethau dioddefwyr yn gweithio i sicrhau y bydd yr holl achosion cam-drin domestig yn cael eu rhestru ar gyfer gwrandawiad cyntaf yn y Llys Cam-drin Domestig Arbenigol Lleol, cyn pen 14 diwrnod o'r dyddiad pan gyhuddwyd yr un dan amheuaeth. Ar gyfer achosion sy'n mynd ymlaen i'r llys, y nod fydd rhestru ar gyfer y llys cyn pen dwy neu dair wythnos o'r gwrandawiad cyntaf yn hytrach na'r chwech i wyth wythnos sy'n digwydd ar hyn o bryd.

**Modelau rôl**

- Collfarnwyd pencampwr bocsio ar ôl iddo gyfaddef ymosod ar ei gariad. Yn wreiddiol roedd wedi gwadu ymosod arni ac nid oedd y ddioddefwraig yn barod i fynd â'r achos yn ei flaen ond penderfynodd y CPS ei fod er budd y cyhoedd erlyn. Fel pencampwr bocsio, byddai grym unrhyw ymosodiad yn cael effaith sylweddol ar y ddioddefwraig yn ogystal ag anfon neges negyddol i bobl ifanc. Galwyd ar dystion oedd wedi gweld yr ymosodiad a'r ymosodiad llafar i roi tystiolaeth. Fe'i collfarnwyd a chafodd orchymyn cymunedol 12 mis gan gynnwys cymryd rhan mewn sesiynau “adeiladu gwell perthynas” oedd yn cael eu rhedeg gan y Gwasanaeth Prawf ac fe'i gorchmynnwyd i dalu £300 o gostau.

## Ymchwil i arfer da

Ym mis Ionawr 2015 dosbarthodd Arweinydd Dioddefwyr a Thystion Prif Erlynydd y Goron y CPS holiadur cam-drin domestig o fewn y CPS, yn dilyn ychydig o ddadansoddi a fu ar yr effaith y mae'r achosion hyn yn ei gael ar ddeilliannau gwaith achos CPS.

Roedd yr holiadur yn targedu canolfannau llys penodol oedd yn cael cyfraddau collfarnu uchel gyda'r nod o ddeall yn well pam bod yr ardaloedd yma yn perfformio mor dda a dynodi unrhyw arfer da. Roedd yr holiadur yn rhoi data am y ganolfan ac yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth am:

- Y trosolwg o weithgareddau allweddol a all gyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol;
- Manylion am beth ynglŷn â'r gweithgaredd sy'n cyfrannu at y llwyddiant.

O'r holiaduron hyn, dynodwyd pump llys ar gyfer rhagor o ymchwil yn 2015-16, i archwilio yn fwy manwl pam eu bod yn cael canlyniadau mor dda. Bydd ymweliadau gan dîm o ymarferwyr o'r System Gyfiawnder Troseddol yn cael eu cynnal i gyfarfod nifer o asiantaethau allweddol yn ogystal â chynnal ymweliad llys ac efallai siarad â dioddefwyr sydd wedi ymwneud ag achosion yn llwyddiannus. Nod y prosiect yw datblygu rhestr wirio o arfer da y gellir ei rhannu ar draws y system gyfiawnder troseddol wedyn.

# Aflonyddu a stelcio DA

Mae’r adran nesaf o’r adroddiad hwn ar ‘Stelcio ac Aflonyddu’ yn rhoi data cyffredinol ar droseddau stelcio ac aflonyddu[50] a gorchmynion atal. O’r holl erlyniadau aflonyddu a stelcio y cychwynnwyd eu herlyn, roedd 8,230 (67.9%) yn ymwneud â DA – cynnydd o 1,505 yn ymwneud â DA (22.4%) o 6,725 yn y flwyddyn flaenorol.

Amlinellir y troseddau stelcio ac aflonyddu, pan gychwynnwyd erlyniad, fel achosion DA, isod.

Mae Tabl 2a isod yn dangos, yn 2014-15:

- Roedd 6,242 o droseddau a lumanwyd fel cyhuddiad DA dan a2 y Ddeddf Atal Aflonyddu (PHA) 1997 – ymddygiad yn cyfateb i aflonyddu - (o gymharu â 5,257 yn 2013-14);
- Llumanwyd 1,225 o droseddau fel cyhuddiad DA dan a4 y Ddeddf Atal Aflonyddu (PHA) 1997 – achosi i bobl ofni trais – (o gymharu â 952 yn 2013-14);
- Roedd hyn yn gynnydd o 18.7% mewn erlyniadau A2 PHA 1997 a 28.7% mewn erlyniadau a4 PHA 1997 a gychwynnwyd;
- Cyhuddwyd 471 o droseddau a lumanwyd fel DA am stelcio gydag ofn/dychryn neu aflonyddu ac erlynwyd 292 o droseddau DA o stelcio yn ymwneud ag ofn o drais neu ddychryn difrifol neu ofid (mewn cymhariaeth â 384 a 132 yn 2013-14);
- Roedd 11,132 o’r toriadau gorchmynion atal yn ymwneud â DA; cynnydd o 23.6% o 2013-14;
- O’r rhain, roedd 10,796 yn torri gorchmynion atal a wnaed ar gollfarn; 336 yn torri gorchymyn atal a wnaed ar ryddfarn, cynnydd o 245 yn 2013-14;
- Cychwynnwyd erlyn 6,294 achos o dorri gorchymyn peidio aflonyddu yn ymwneud â DA, o gymharu â 5,584 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 12.7%.

**Tabl 2a:** **Troseddau aflonyddu a stelcio a gyhuddwyd ac yn cyrraedd gwrandawiad cyntaf mewn llysoedd ynadon - Lluman DA**

| | | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
| Deddf Cyfraith Teulu 1996 { 42A(1) a (5) } | Torri gorchymyn peidio aflonyddu – Deddf Cyfraith Teulu 1996 | 4,262 | 4,333 | 4,414 | 5,584 | 6,294 |
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 2(1) a (2) } | Aflonyddu heb drais | 4,822 | 4,710 | 4,217 | 5,257 | 6,242 |

[50] Y cafeat yng nghyswllt data trosedd yw:
Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau MIS yw’r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Mae’r data yn ymwneud â nifer y troseddau a gofnodwyd mewn llysoedd ynadon, lle cychwynnwyd erlyn, fel y’i cofnodwyd ar y CMS. Nid yw data troseddau’n cael ei gadw yn ôl diffynnydd na deilliant. Troseddau a gofnodwyd yn Rhanbarth Troseddau'r MIS yw’r rhai a gyhuddir ar unrhyw adeg ac sy’n cyrraedd o leiaf un gwrandawiad - bydd y drosedd hon yn parhau i gael ei chofnodi boed y drosedd honno wedi mynd i’r llys neu beidio ac nid oes unrhyw awgrym o ddeilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn drosedd a brofwydl wrth derfynu. Mae’r cafeatau hyn yn berthnasol i unrhyw ddata trosedd arall a ddefnyddir drwy’r adroddiad hwn.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 4(1) a (4) } | Aflonyddu – achosi ofn trais | 1,423 | 1,056 | 775 | 952 | 1,225 |
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 2A(1) a (4) } | Stelcio gydag ofn / dychryn / gofid | - | - | 52 | 384 | 471 |
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 4A(1)(a)(b)(i) a (5) } | Stelcio yn ymwneud ag ofn trais | - | - | 8 | 49 | 98 |
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 4A(1)(a)(b)(ii) a (5) } | Stelcio gyda dychryn / gofid difrifol | - | - | 7 | 83 | 194 |
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) } | Aflonyddu - torri gorchymyn atal ar gollfarn | 3,962 | 6,163 | 7,154 | 8,761 | 10,796 |
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) } | Aflonyddu – torri gorchymyn atal ar ôl rhyddfarn | 93 | 202 | 220 | 245 | 336 |

**Stelcio A4A PHA 1997**

- Dedfrydwyd dyn i chwe blynedd a hanner o garchar am stelcio ei ddioddefwr, dan a4A PHA 1997, ac am wyrdroi cwrs cyfiawnder. Roedd yr achos yn ymwneud â nifer o negeseuon e-bost a negeseuon testun ac roedd yn eithriadol o gymhleth yn dechnegol. Roedd wedi anfon negeseuon testun parhaus o natur rywiol i'w gyn-gariad ar ôl iddi orffen eu perthynas a bygwth trais ar ei mam. Defnyddiodd wefan i wneud iddi ymddangos fel petai'r dioddefwyr wedi bod yn aflonyddu arno ef gyda negeseuon testun ac e-bost. Roedd yr achos yn amlwg yn heriol oherwydd, ar yr wyneb, roedd y negeseuon yn edrych yn ddilys. Ond, trwy ddatgelu 'ôl troed' electronig y negeseuon defnyddiwyd hyn fel tystiolaeth ac arweiniodd at gollfarn lwyddiannus.

## Gorchmynion atal

Gellir gwneud cais am orchmynion atal ar gollfarn neu ryddfarn[51]. Darperir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer 2014 ar orchmynion atal ar gollfarn a rhyddfarn yn yr adran stelcio ac aflonyddu isod. Mae'r cyfarwyddyd cyfreithiol DA diwygiedig hefyd yn rhoi cyngor i erlynyddion ar dermau priodol i'w defnyddio wrth ddelio ag achosion yn ymwneud â dioddefwyr a diffynyddion yn eu harddegau. Yn lleol roedd Ardaloedd yn cofnodi gorchmynion atal ar ryddfarniad.

## Gorchmynion Ymddygiad Troseddol

Cyflwynodd Rhan 2 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 y Gorchymyn Ymddygiad Troseddol (CBO). Mae'r CBO yn orchymyn wrth gollfarnu, sydd ar gael yn dilyn collfarn am unrhyw drosedd mewn unrhyw lys

[51] Diwygiodd adran 12 y Ddeddf Cam-drin domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004 adran 5 y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, gan alluogi'r llysoedd i gyhoeddi gorchymyn atal ar ryddfarn.

troseddol. Daeth y CBO i rym ar 20 Hydref 2014, ac mae'n cymryd lle'r Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) wrth gollfarnu.

Bydd nifer fechan o achlysuron pan fydd yn addas defnyddio CBO yng nghyswllt achosion cam-drin domestig. Er enghraifft, gall CBO fod yn addas pan fydd y cam-drin domestig yn cael effaith ar y gymuned ehangach. Pan fydd dioddefwr a enwir a'r drosedd yn un sy'n dod dan ddiffiniad bras bod yn ddigwyddiad domestig, mae cais am orchymyn atal yn fwy priodol.

**Aflonyddu yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol**

- Roedd y diffynnydd wedi cyfarfod y ddioddefwraig ar wefan trefnu dêt. Dim ond unwaith yr oeddynt wedi cyfarfod a chyfnewid nifer o negeseuon trwy'r diwrnod canlynol trwy neges testun/galwad ffôn. Pan nad atebodd y ddioddefwraig un o'i negeseuon y noson honno, gan ei bod yn cysgu, fe wnaeth y diffynnydd ei boddi gyda dros 700 o negeseuon testun, y rhan fwyaf ohonynt yn ymosodol iawn ac yn fygythiol, gan gynnwys bygwth llosgi ei thŷ i'r llawr. Roedd hi wedi anfon ychydig o luniau personol iawn yn ystod eu cyswllt ac fe wnaeth fygwth eu cyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol. Fe'i cyhuddwyd o aflonyddu heb drais. Plediodd yn euog yn y llys a rhoddwyd chwe wythnos yn y ddalfa yn ddedfryd, wedi ei ohirio am 18 mis ynghyd â gorchymyn goruchwylio 18 mis a gorchymyn atal.

# Stelcio ac aflonyddu

Dengys data perfformiad y CPS bod cynnydd wedi digwydd mewn erlyniadau a gychwynnwyd parthed stelcio, aflonyddu a thorri gorchmynion yn 2014-15. Rhoddir data'r CPS isod, ac yna yr ystadegau cenedlaethol swyddogol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder am y flwyddyn galendr 2014.

Yn 2014-15[52]:

- Cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 12,122 trosedd aflonyddu a stelcio yn 2014-15; sy'n gynnydd o 1,587 trosedd (15.1%) ers 2013-14 pan gychwynnwyd 10,535 o erlyniadau;
- Cychwynnodd erlyniad yng nghyswllt 9,180 o droseddau a gyhuddwyd dan a2 PHA 1997 am aflonyddu heb drais – cynnydd o 10.6% o 8,303 yn 2013-14; roedd 68% o'r achosion hyn yn gysylltiedig â DA;
- Cychwynnwyd 1,839 o erlyniadau dan a4 PHA 1997 – aflonyddu gan godi ofn trais ar bobl – cynnydd o 23.5% o 1,489 yn 2013-14; roedd 67% o'r troseddau hyn yn gysylltiedig â DA;
- Cychwynnwyd 1,103 o erlyniadau dan y troseddau stelcio newydd (cynnydd o bron i 50% ers y flwyddyn ddiwethaf);
- O blith y troseddau hyn roedd 676 gydag ofn/dychryn/gofid (cynnydd o 27.8%); roedd 70% yn gysylltiedig â DA;
- Mae 427 o'r troseddau hyn yn ymwneud ag ofn trais/dychryn difrifol neu ofid (cynnydd o bron i 100% ers y llynedd); roedd 74% o achosion ofn trais a 66% o'r rhai gyda dychryn neu ofid difrifol yn gysylltiedig â DA;
- O'r holl erlyniadau aflonyddu a stelcio, roedd 8,230 (67.9%) yn gysylltiedig â DA – cynnydd o 1,505 yn gysylltiedig â DA (22.4%) o 6,725 yn y flwyddyn flaenorol;
- Cychwynnwyd erlyn 13,559 o droseddau torri gorchymyn atal, cynnydd o 16.4% o 11,651 yn 2013-14; roedd 82.1% yn gysylltiedig â DA;
- O'r 13,126 achos o dorri gorchmynion atal (a wnaed wrth gollfarnu); cynnydd o 18.0% o 2013-14, roedd 82.2 (82.2%) yn achosion DA;
- O'r holl achosion torri gorchmynion, roedd 433 yn torri gorchymyn atal a wnaed ar ryddfarn; cynnydd o 34.5% o 2013-14; 78% yn gysylltiedig â DA; a
- Cychwynnwyd erlyn 7,013 achos o dorri gorchmynion peidio aflonyddu, o gymharu â 6,498 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 7.9%; 89.7% ohonynt yn gysylltiedig â DA.

Yn Nhabl 2b ceir manylion yr holl droseddau gan gynnwys y ganran o'r rhai a lumanwyd fel rhai DA.

---

[52] Troseddau sydd yn cyrraedd gwrandawiad yw'r rhai a gofnodwyd yn Rhanbarth Troseddau System Rheoli Gwybodaeth y CPS. Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau a gofnodwyd mewn llysoedd ynadon, lle cychwynnwyd erlyn, yn y gronfa ddata CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd na deilliant. Y troseddau a gofnodir yn Rhanbarth Troseddau'r MIS yw'r rhai a gyhuddir ar unrhyw adeg ac sy'n cyrraedd o leiaf un gwrandawiad. Bydd y drosedd hon yn parhau wedi ei chofnodi boed wedi mynd ymlaen â'r drosedd honno neu beidio, ac nid oes awgrym o'r deilliant terfynol neu os yw'r drosedd a gyhuddwyd yn drosedd wirioneddol wrth gwblhau'r achos.

**Tabl 2b: Troseddau aflonyddu a stelcio a gyhuddwyd a gyrhaeddodd wrandawiad cyntaf mewn llysoedd ynadon – Cyfanswm y Nifer a Chanran o'r cyfanswm a lumanwyd fel DA.**

| | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | % DA | Nifer | % DA | Nifer | % DA | Nifer | % DA | Nifer | % DA |
| Deddf Cyfraith Teulu 1996 {42A(1) a (5)} | Torri gorchymyn peidio aflonyddu – Deddf Cyfraith Teulu 1996 | 5,281 | 80.7 | 5,323 | 81.4 | 5,563 | 79.3 | 6,498 | 85.9 | 7,013 | 89.7 |
| PHA[53] 1997 { 2(1) a (2)} | Aflonyddu heb drais | 8,039 | 60.0 | 7,713 | 61.1 | 7,159 | 58.9 | 8,303 | 63.3 | 9,180 | 68.0 |
| PHA 1997 {4(1) a (4)} | Aflonyddu – achosi ofn trais | 2,199 | 64.7 | 1,632 | 64.7 | 1,398 | 55.4 | 1,489 | 63.9 | 1,839 | 66.6 |
| PHA 1997 {2A(1) a (4) } | Stelcio gydag ofn / dychryn / gofid | - | - | - | - | 72 | 72.2 | 529 | 72.6 | 676 | 69.7 |
| PHA 1997 {4A(1)(a)(b) (i) a (5)} | Stelcio yn ymwneud ag ofn trais | - | - | - | - | 9 | 88.9 | 65 | 75.4 | 133 | 73.7 |
| PHA 1997 {4A(1)(a)(b) (ii) a (5)} | Stelcio gyda dychryn / gofid difrifol | - | - | - | - | 10 | 70.0 | 149 | 55.7 | 294 | 66.0 |
| PHA 1997 {5(5) a (6)} | Aflonyddu - torri gorchymyn atal ar gollfarn | 5,768 | 68.7 | 8,447 | 73.0 | 9,962 | 71.8 | 11,329 | 77.3 | 13,126 | 82.2 |
| PHA 1997 {5(5) a (6)} | Aflonyddu – torri gorchymyn atal ar ôl rhyddfarn | 154 | 60.4 | 286 | 70.6 | 313 | 70.3 | 322 | 76.1 | 433 | 77.6 |

[53] PHA – Deddf Diogelu Rhag Aflonyddu

## Ystadegau'r MoJ[54]:

Mae data Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn trafod blwyddyn galendr.
Mae data erlyniadau'r MoJ am achosion pan erlynwyd y diffynnydd yn 2014.
Mae data'r MoJ am achosion a gollfarnwyd yn 2014 (gall rhai collfarnau yn 2014 fod am achosion a erlynwyd cyn 2014; (a bydd rhai erlyniadau yn y data sydd heb eu cwblhau eto).

Mae data'r CPS yn Nhablau 2a a 2b uchod yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol (2014-15) sy'n cynnwys yr *holl* droseddau yn *cychwyn* erlyniad yn hytrach nag wedi eu cwblhau. Mae'r data yn ôl trosedd ac nid yw'n rhoi data yn ôl diffynnydd. Gall pob diffynnydd fod wedi cyflawni nifer o droseddau.

## Stelcio ac Aflonyddu:

Yn 2014, dengys ystadegau'r MoJ ar gyfer Cymru a Lloegr i 6,660 o ddiffynyddion gael eu herlyn am droseddau a2 PHA (aflonyddu heb drais) (o gymharu â 5,895 yn 2013). Cododd y gymhareb gollfarnu i 77%.

Erlynwyd 1,215 o ddiffynyddion am droseddau a4 PHA (aflonyddu – creu ofn o drais) yn 2014 (o gymharu â 1062 yn 2013); gyda 779 wedi eu collfarnu (o gymharu â 641 yn 2013). Cododd y gymhareb gollfarnu o 60% i 64%.

Erlynwyd 509 o ddiffynyddion am droseddau a2A PHA (Stelcio gydag ofn/dychryn/gofid) yn 2014 ac mewn cymhariaeth â 293 yn 2013. Collfarnwyd 348 (68%), mewn cymhariaeth â 196 yn 2013.

Erlynwyd 94 o ddiffynyddion yn 2014 dan a4A (stelcio gydag ofn o drais) mewn cymhariaeth â 57 yn 2013; gyda 38 o gollfarnau, mewn cymhariaeth â 16 yn 2013 – cynnydd i gymhareb collfarnu o 40% mewn cymhariaeth â 29% yn y flwyddyn flaenorol.

Erlynwyd 218 o ddiffynyddion yn 2014 dan a4A (stelcio yn cynnwys ofn neu ofid difrifol) mewn cymhariaeth â 100 yn 2013; gyda 109 o gollfarnau, mewn cymhariaeth â 37 yn 2013 – cynnydd i gymhareb collfarnu o 50% o 37%.

---

[54] Mae'r ffigurau am achosion llys yn ymwneud ag unigolion yr oedd y troseddau hyn yn brif droseddau yr oeddynt yn cael eu cyhuddo ohonynt. Pan fydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Pan weithredir yr un gosb am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddewisir yw'r un gyda'r uchafswm cosb statudol mwyaf difrifol.
Gwneir pob ymgais i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynir yn gywir a chyflawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y data hwn wedi ei dynnu o systemau data gweinyddol mawr a grëwyd gan y llysoedd a lluoedd heddlu. O ganlyniad, dylid bod yn ofalus bod prosesau casglu data a'u cyfyngiadau anochel yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio'r data.
Gall y nifer o ddiffynyddion a geir yn euog mewn blwyddyn benodol fod yn fwy na'r nifer y cymerir camau yn eu herbyn gan i'r achos yn y llys ynadon ddigwydd mewn blwyddyn gynharach ac i'r diffynyddion gael eu dyfarnu yn euog yn Llys y Goron yn y flwyddyn ganlynol; neu fod y diffynyddion wedi eu cael yn euog o drosedd wahanol i'r achos gwreiddiol yn eu herbyn.
Oherwydd gwelliannau wrth brosesu data, efallai na fydd canlyniadau cyn 2014 yn cyfateb i'r rhai a gyhoeddwyd o'r blaen.

## Gorchmynion atal a'u torri:

Dengys ystadegau'r MoJ ar gyfer Cymru a Lloegr am 2014 bod 19,410 o orchmynion atal wedi eu cyhoeddi ar gollfarn (o gymharu â 18,656 yn 2013) a 2,062 ar ryddfarn (o gymharu â 1,667 yn 2013).

Yn ystod 2014, roedd 8,265 o erlyniadau am dorri gorchmynion atal a gyflwynwyd ar gollfarn, gyda 7,371 o gollfarnau. Roedd hyn yn gynnydd o 7,251 o erlyniadau yn 2013 gyda 6,348 o gollfarnau.

Yn ystod 2014, cafwyd 241 o erlyniadau am dorri gorchmynion atal yn ymwneud â'r rhai a gyhoeddwyd yn dilyn rhyddfarn y diffynnydd, gyda 172 yn cael collfarn. Roedd hyn yn gynnydd o 236 erlyniad yn 2013, er bod y nifer o gollfarnau yn uwch, gyda 183 yn 2013.

Ar y cyfan, arweiniodd 89% o'r holl erlyniadau am dorri gorchymyn at gollfarn eleni.

Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwneud ag achosion a erlynwyd pan oedd gorchmynion atal yn brif drosedd. Mae data'r CPS yn Nhabl 2a a 2b yn cynnwys yr *holl* doriadau yn *cychwyn* erlyniad, nid y rhai pan oedd gorchymyn atal yn brif drosedd yn unig.

**Pornograffi dial**

- Carcharwyd dyn am aflonyddu heb drais ar ôl iddo roi lluniau noeth o fenyw ar y cyfryngau cymdeithasol. Fe'i dedfrydwyd i 12 wythnos yn y carchar a rhoddwyd gorchymyn atal iddo, gan ei atal rhag cysylltu â'r ddioddefwraig. Cyfeirir at y math o droseddu yn yr achos hwn yn aml fel 'pornograffi dial' ac mae'n dilyn cyfarwyddyd ar gyfryngau cymdeithasol a eglurodd sut i ddefnyddio deddfwriaeth sy'n bodoli i erlyn y rhai sy'n cyflawni'r troseddau hyn.

# Deddfwriaeth

Yn Ionawr 2015, daeth y Gorchymyn Diogelu Ewropeaidd i rym. Mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth gyffredinol rhwng aelod wladwriaethau'r UE o 'gamau diogelu' mewn achosion troseddol. Yn eu hanfod, mae'r camau diogelu yma yn gamau i atal unigolion rhag mynd i mewn i ardaloedd neu gysylltu neu fynd at 'unigolyn a ddiogelir'. Yng Nghymru a Lloegr mae hyn yn cynnwys Gorchmynion Atal a wnaed dan Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 neu amodau mechnïaeth.

Gall yr 'unigolyn a ddiogelir' sydd yn cael budd o un o'r diogeliadau hyn ofyn i'r llysoedd gyhoeddi EPO os bydd yn bwriadu byw neu aros mewn aelod wladwriaeth wahanol (y wladwriaeth 'weithredol'). Bydd unigolyn sy'n cael EPO wedi ei gyhoeddi yn un aelod wladwriaeth yn medru teithio i aelod wladwriaeth arall yn yr UE (y wladwriaeth weithredol), ac eithrio Denmarc sydd wedi dewis peidio â bod yn rhan o hyn, a chael diogeliad cyfatebol i'r hyn a roddir gan y cam diogelu cartref, heb yr angen am achos newydd yn y llys.

Gall yr unigolyn sydd mewn perygl neu ei gynrychiolydd wneud cais. Gall y CPS weithredu fel cynrychiolydd ond ar gais yr unigolyn a ddiogelir yn unig. Rhoddir anogaeth i erlynyddion gasglu, cyn gynted ag sy'n bosibl cyn y gwrandawiad y gwneir y cais am orchymyn diogelu ynddo, a yw dioddefwr yn bwriadu symud i awdurdodaeth wahanol yn yr UE yn y dyfodol agos ac a oes angen EPO.

## Protocol stelcio

Roedd y cyfarwyddyd ar droseddau stelcio 2012 yn canolbwyntio ar y gwahaniaethau rhwng stelcio ac aflonyddu, yr amgylchiadau pan fyddai cyhuddiad o stelcio yn ddewis gwell nag un o aflonyddu, a phwysigrwydd ymgysylltu â'r dioddefwr trwy gydol y broses gyfiawnder troseddol[55].

Ym mis Tachwedd 2014 lansiwyd protocol ar y cyd gan yr heddlu a'r CPS ar ymchwilio i stelcio a'i erlyn – offeryn defnyddiol i'r heddlu ac erlynyddion. Mae'r Cydlynwyr VAWG Ardal yn gweithredu fel Un Man Cyswllt (SPOC) i weithio gyda'r heddlu ar achosion stelcio. Roedd y protocol yn canolbwyntio ar sut y bydd yr heddlu a'r CPS yn gwella gwasanaethau i ddioddefwyr, adeiladu achosion cryfach o'r dechrau fel bod erlyniadau llwyddiannus am stelcio ac aflonyddu. Gan fod y CPS yn ymroddedig i sicrhau diogelwch dioddefwyr a thystion, rhoddwyd anogaeth i erlynyddion wneud cais am orchmynion atal wrth gollfarnu a rhyddfarnu pan yn addas.

**Stelcio A4A PHA 1997**

- Cyhuddwyd un fu'n stelcio cyflwynydd newyddion amlwg gan yr heddlu am aflonyddu a2. Newidiodd y CPS hyn i a4A (1)(b)(ii)(stelcio yn cynnwys codi ofn/gofid difrifol). Ystyriwyd cyfarwyddyd y CPS ar stelcio/aflonyddu trwy gydol yr achos. Yn ystod yr achos daeth y protocol stelcio i rym ac fe'i cylchredwyd i'r heddlu a'r cwnsel i sicrhau eu bod yn gwybod am y camau gofynnol. Fe wnaeth yr heddlu drafod camau arbennig yn addas gyda'r ddioddefwraig ac fe'u gweithredwyd (sgriniau) gan gynnig cymryd Datganiad Personol Dioddefwr. Collfarnwyd y diffynnydd ar ôl treial a'i ddedfrydu i ddedfryd ohiriedig a gorchymyn atal.

## Hyfforddiant

Yn Ebrill 2014, lansiwyd modwl e-ddysgu penodol ar stelcio i gyd-fynd â'r cwrs seiber stelcio gorfodol. Mae'r modwl e-ddysgu yn delio â throseddau stelcio ac aflonyddu, adeiladu achos cryf, gweithio'n agos gyda'r heddlu ac ymgysylltu â dioddefwyr trwy gydol y broses gyfreithiol. Datblygwyd y modwl gyda chymorth gan Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh a roddodd astudiaethau achos.

[55] Cyflwynodd Adran 2A y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 drosedd newydd o stelcio (trosedd ddiannod) ac fe gyflwynodd Adran 4A y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 drosedd newydd o stelcio yn ymwneud ag ofn o ddychryn neu ofid difrifol sydd wedi cael effaith andwyol sylweddol ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd arferol (trosedd naill ffordd). Mae'r elfen atodol yn yr adran 4A newydd yn galluogi erlyn achosion yn bennaf pan fydd ymddygiad y diffynnydd heb gyrraedd ofn o drais ond ei fod er hynny yn achosi dychryn neu ofid difrifol i'r dioddefwr.

## Ymwybyddiaeth

Cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol '*Stalking - Working without Fear'* i nodi'r Diwrnod Ymwybyddiaeth Stelcio Cenedlaethol yn Ebrill 2014 i godi ymwybyddiaeth am y drosedd o stelcio. Rhoddodd y CPS gyflwyniad ar erlyn troseddau stelcio. Roedd nifer o asiantaethau cefnogi, dioddefwyr, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid yn y sector cymunedol a chyfiawnder troseddol yn bresennol.

# Treisio

Yn 2014-15 roedd patrwm cyffredinol erlyniadau treisio yn awgrymu cynnydd yn y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu, diffynyddion a gyhuddwyd ac erlyniadau, gan arwain at y nifer uchaf a gollfarnwyd erioed. Collfarnwyd 233 o ddiffynyddion am dreisio yn 2014-15 mewn cymhariaeth â 2013-14, ond gostwng wnaeth y gyfran o ddiffynyddion a erlynwyd a gollfarnwyd. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi'r data ac yn trafod rhai o'r camau a gymerwyd i ymdrin â phroblemau a ddynodwyd.

Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion yn arwain at gollfarn am dreisio, ond hefyd achosion a gafodd eu llumanu fel treisio o'r cychwyn, pan gafwyd collfarn am drosedd arall neu lai. Defnyddir y data i ddibenion rheoli achosion y CPS, ochr yn ochr â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gollfarnau mewn achosion a gyhuddwyd ac a gollfarnwyd am dreisio yn unig. Gosodir y lluman ar ffeiliau'r CPS o gychwyn yr achos; bydd y lluman yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r penderfyniad i gyhuddo am drosedd nad yw'n dreisio neu os yw'r drosedd o dreisio'n cael ei ddiwygio wedi hynny. Mae cywirdeb llumanu achosion wedi gwella yn ystod y flwyddyn, gan godi o 97.4% erbyn Ch4 2013-14 i 99.6% erbyn Ch4 2014-15. Rhoddir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn yr adran nesaf fel yr ystadegau cenedlaethol swyddogol am dreisio er mwyn rhoi cyd-destun i ddata perfformiad y CPS. Mae hyn ar gyfer blwyddyn galendr, yn hytrach nag ariannol, a dim ond ar gyfer yr achosion hynny pan oedd y gollfarn derfynol am dreisio – esbonnir rhagor o fanylion am y gwahaniaethau rhwng data'r CPS a'r MoJ yn adran y MoJ.

Cododd y nifer o atgyfeiriadau treisio gan yr heddlu i 6,159 yn 2014-15 – cynnydd o 309 o atgyfeiriadau (5.3%) o'r swm o 5,850 yn 2013-14. Nododd naw Ardal gynnydd mewn atgyfeiriadau[56]. Cyhuddwyd 3,648 o ddiffynyddion[57], cynnydd o 27 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (0.75%) o 2013-14. O'r holl atgyfeiriadau gan yr heddlu, cyhuddwyd 59.2%. Dyma'r nifer uchaf erioed o gyhuddiadau am dreisio. Gwelodd saith Ardal gynnydd yn y nifer a gyhuddwyd[58].

Mae gwaith gyda'r heddlu wedi dynodi ffyrdd o sicrhau bod cyngor cynnar ar ymchwilio yn cael ei roi gan y CPS a chyngor addas ar gyhuddo yn cael ei roi. Rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r dull yn seiliedig ar deilyngdod yng nghyd-destun y Cod i Erlynyddion y Goron.

---


[56] Gwelodd yr Ardaloedd Dwyreiniol, Mersi a Swydd Caer, Gogledd Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr, De Orllewin Lloegr, Tafwys a Chiltern, Wessex, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau gan yr heddlu mewn achosion treisio.

[57] Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i'w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14.

[58] Gwelodd yr Ardaloedd Dwyreiniol, Dwyrain Canolbarth Lloegr Mersi a Swydd Caer, De Ddwyrain Lloegr, Tafwys a Chiltern, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber gynnydd yn nifer yr achosion treisio y bu cyhuddiad ynddynt.


Mae Graff 9 yn amlinellu'r newidiadau yn niferoedd yr atgyfeiriadau ac erlyniadau o 2008-09 i 2014-15.

**Graff 9: Nifer o atgyfeiriadau treisio a diffynyddion a gyhuddwyd2008-09 i 2014-15**




Mae'r gyfran o achosion treisio, fel % o'r holl erlyniadau trwy dditiad yn unig, wedi codi o flwyddyn i flwyddyn i 12.8% yn 2014-15.

**Graff 10: Llwyth achosion treisio fel % o'r cyfanswm o ddeilliannau ditiadwy yn unig llys y goron 2008-09 i 2014-15**




**Llwyth achosion blynyddol treisio fel % O GYFANSWM DEILLIANNAU DITIADWY YN UNIG LLYS Y GORON**

| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CPS YN GENEDLAETHOL | 8.6% | 9.4% | 10.0% | 9.9% | 9.8% | 11.1% | 12.8% |


**Tabl 3: Erlyniadau treisio a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 2,270 | 59.4% | 2,465 | 58.6% | 2,414 | 62.5% | 2,333 | 63.2% | 2,348 | 60.3% | 2,581 | 56.9% |
| Aflwyddiannus | 1,549 | 40.6% | 1,743 | 41.4% | 1,450 | 37.5% | 1,359 | 36.8% | 1,543 | 39.7% | 1,955 | 43.1% |
| **Cyfanswm** | **3,819** | | **4,208** | | **3,864** | | **3,692** | | **3,891** | | **4,536** | |

Yn 2014-15 roedd cyfradd gollfarnau treisio'r CPS[59] yn 56.9%, gostyngiad o 63.2% yn 2012-13 (Graff 12), y gyfradd gollfarnu uchaf gan y CPS ers i gofnodi ddechrau. Ond mae hyn yn cael ei asesu mewn cymhariaeth â nifer yr erlyniadau a chollfarnau am dreisio. Yn 2014-15[60] cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd i 4,536 – cynnydd o 645 o ddiffynyddion (16.6%) o 2013-14, gan gyrraedd y nifer uchaf erioed (Graff 11 a Thabl 3). Arweiniodd y cynnydd mawr mewn diffynyddion a gyhuddwyd y llynedd (cynnydd o 25.3% ers 2012-13) at gynnydd mawr dilynol mewn erlyniadau yn 2014-15. O ddata'r CPS, cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 2,581 – cynnydd o 2,348 o gollfarnau (9.9%) yn 2013-14. Dyma'r nifer uchaf erioed o gollfarnau.

Wrth ddilyn y patrwm dros nifer o flynyddoedd, mae'n ymddangos bod y cynnydd mewn cyfradd gollfarnu yn 2012-13 yn cyd-daro â gostyngiad yn y niferoedd i'r lefel isaf ers 2008-09.

**Graff 11: Niferoedd treisio 2008-09 i 2014-15**





[59] Deilliannau o gyhuddo i gollfarn; gweler y manylion uchod.

[60] Sylwer fod y niferoedd cyhuddo yn cwmpasu'r achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a anfonwyd ymlaen i'r CPS yn ystod 2014-15 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo na ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd gyda'r rhai a erlynwyd sy'n cwmpasu achosion yn ôl diffynnydd, a gwblhawyd yn ystod 2014-15.

Mae Graff 12 yn dangos y duedd yng nghollfarnau treisio'r CPS dros y saith mlynedd diwethaf.

**Graff 12: Cyfraddau collfarnu treisio 2008-09 i 2014-15**




O ddata'r CPS am 2014-15, erlynwyd 4,320 (97.8%) o achosion a lumanwyd yn gyntaf fel treisio yn y pen draw am y categorïau prif drosedd[61] 'troseddau rhywiol, yn cynnwys treisio' neu brif droseddau mwy difrifol o 'laddiad' neu 'droseddau yn erbyn y person'. O'r rhain roedd 3,982 am droseddau rhywiol gan gynnwys treisio; pump am laddiad a 333 am droseddau yn erbyn yr unigolyn.

### Deilliannau llwyddiannus[62]:

Gostyngodd pledion euog ychydig o 35.9% yn 2013-14 i 34.0% yn 2014-15, er i nifer y diffynyddion yn pledio'n euog godi i 1,540 – yn debyg i'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed yn 2010-11 (sef 1,542). O'r holl ddeilliannau llwyddiannus, roedd 59.7% o ganlyniad i bledion euog.

### Deilliannau aflwyddiannus:

Gall deilliannau fod yn aflwyddiannus am nifer o resymau – efallai na fydd y CPS yn parhau â nhw ar ôl penderfyniad i gyhuddo, gall y nifer sy'n osgoi mynd i'r llys ddigwydd oherwydd materion dioddefwyr (fel yr effaith pan fydd dioddefwr yn tynnu ei gefnogaeth i'r achos yn ôl) neu ryddfarn mewn achos llys. Mae'r adran isod yn archwilio'r prif faterion, gan ganolbwyntio yn fanwl ar y prif reswm dros ganlyniadau aflwyddiannus rhyddfarnau gan reithgor. Rhoddir y grynodeb o ddata isod mewn tablau mwy manwl ar wefan y CPS – gwelir y ddolen yn y Crynodeb Gweithredol.

Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i ostwng gan gyrraedd y lefel isel o 13.3% o'r holl achosion treisio a erlynwyd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol a oedd ar ei lefel isaf erioed ar 13.1%.
O'r holl ganlyniadau aflwyddiannus, mae'r gyfran o ganlyniad i ryddfarn gan reithgor[63] wedi codi o flwyddyn i flwyddyn – o 60.3% yn 2013-14 i 62.7% yn 2014-15. Gwnaed

[61] Gweler yr Eirfa am ddiffiniadau'r CPS o'r 'brif drosedd' a'r gwahanol gategorïau. Mae'r data categori prif drosedd a gofnodir gan y CPS yn y System Rheoli Achosion yn or-gynnil wrth gymharu â'r niferoedd o erlyniadau cyffredinol yn yr un cyfnod. Mae deilliannau a arweiniodd at derfyniad gweinyddol neu achosion anghyflawn, pan na ddyrannir categori prif drosedd, wedi eu heithrio.
[62] Mae'r atodiadau data ar gael yn y ddolen ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol.

mwy o waith ar gyflwyno achosion yn y llys yn 2014-15 i ymdrin â'r mater hwn – rhoddir manylion isod.

O'r deilliannau aflwyddiannus, gostyngodd y rhai oherwydd materion dioddefwyr o 18% yn 2013-14 i 17% yn 2014-15; ac o'r rhai hynny roedd 10.3% oherwydd i'r dioddefwr dynnu yn ôl.

O'r *holl* achosion a erlynwyd, mae'r gyfradd oedd yn aflwyddiannus oherwydd problemau'r dioddefwr[64] wedi codi ychydig o 7.1% y llynedd i 7.3%. Mae cefnogaeth i ddioddefwyr drwy broses y llys, trwy Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) yn allweddol i leihau'r nifer sy'n tynnu'n ôl ac fe ddisgrifir gwaith i wella hyn, a nodwyd trwy'r Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio, isod.

Yn gyffredinol mae'r data yn dynodi, yn y cynnydd mawr mewn erlyniadau, bod cyfran lai o ddiffynyddion wedi pledio yn euog, gan olygu bod mwy o achosion wedi mynd ger bron rheithgor.
Er eglurder, mae tablau 4 a 5 yn rhoi data ar achosion a ddadleuwyd[65] ers 2010-11 i ategu at y data a roddwyd uchod ar sail erlyniadau a deilliannau aflwyddiannus. Un modd o fesur pa mor addas yw'r achosion yr ydym yn eu symud ymlaen yw'r lefel isel o ryddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr (JDA)[66]. Mae'r gyfradd o JDA yn gostwng fel y dynodir yn nhablau 4 a 5.

**Tabl 4: Achosion a ddadleuwyd ac eithrio gyda phleon cymysg[67]**

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Collfarn yn dilyn achos llys | 793 | 854 | 849 | 936 | 1,016 |
| % Collfarnau yn dilyn achos llys | 46.6% | 52.3% | 51.5% | 49.2% | 44.5% |
| Barnwr yn rhoi cyfarwyddyd i ryddfarnu | 72 | 45 | 35 | 38 | 41 |
| % JDA | 4.2% | 2.8% | 2.1% | 2.0% | 1.8% |
| Rhyddfarnu gan Reithgor | 838 | 733 | 763 | 930 | 1,225 |
| % Rhyddfarnu Gan Reithgor | 49.2% | 44.9% | 46.3% | 48.8% | 53.7% |
| Cyfanswm y Rhyddfarnau yn dilyn achos llys | 910 | 778 | 798 | 968 | 1,266 |
| % Cyfanswm Rhyddfarnau | 53.4% | 47.7% | 48.5% | 50.8% | 55.5% |
| **CYFANSWM Achosion a ddadleuwyd** | **1,703** | **1,632** | **1,647** | **1,904** | **2,282** |

[63] Roedd yr holl 'ddeilliannau aflwyddiannus oherwydd rhyddfarnau' a amlinellwyd mewn adroddiadau blaenorol yn cynnwys 'rhyddfarn gan reithgor' a 'gwrthodwyd wedi achos diannod llawn' – cododd hyn o 61.0% yn 2013-14 i 63.7% yn 2014-15
[64] Mae achosion aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr yn cynnwys y rhai pan fydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl; peidio mynd i'r llys neu pan na fydd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos.
[65] Nid yw data achosion a ddadleuwyd Llys y Goron yn cynnwys unrhyw ddadleuon a glywyd ac a gwblhawyd mewn llysoedd ynadon.
[66] Achosion pan fydd y barnwr yn rhoi cyfarwyddyd i ryddfarnu yw achosion pan, ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, y gwneir argymhelliad llwyddiannus o 'ddim achos' neu 'anniogel' ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i'r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor.
[67] Mae 'ac eithrio gyda phleon cymysg' yn golygu achosion diffynyddion pan roddir ple 'dieuog' i bob cyhuddiad ac mae achos llys yn dilyn hynny.

**Tabl 5: Achosion a ddadleuwyd yn cynnwys pleon cymysg**[68]

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Collfarn yn dilyn achos llys | 939 | 1,012 | 986 | 1,113 | 1,200 |
| % Collfarnau yn dilyn achos llys | 50.1% | 55.5% | 54.7% | 52.9% | 48.0% |
| Barnwr yn rhoi cyfarwyddyd i ryddfarnu | 74 | 48 | 35 | 40 | 41 |
| % JDA | 4.0% | 2.6% | 1.9% | 1.9% | 1.6% |
| Rhyddfarnu gan Reithgor | 860 | 763 | 780 | 951 | 1,260 |
| % Rhyddfarnu Gan Reithgor | 45.9% | 41.9% | 43.3% | 45.2% | 50.4% |
| Cyfanswm y Rhyddfarnau yn dilyn achos llys | 934 | 811 | 815 | 991 | 1,301 |
| % Cyfanswm Rhyddfarnau | 49.9% | 44.5% | 45.3% | 47.1% | 52.0% |
| **CYFANSWM Achosion a ddadleuwyd** | **1,873** | **1,823** | **1,801** | **2,104** | **2,501** |

Mae Tablau 4 a 5 uchod yn cynnig ffordd wahanol o edrych ar ryddfarnau gan reithgor – gan ganolbwyntio ar yr achosion a ddadleuwyd, i ategu at y data blaenorol ar y gyfran o achosion aflwyddiannus. Maent yn awgrymu bod rheithgorau'r un mor debygol o gollfarnu ag o ryddfarnu, (er sylwer, yn y ddau dabl bod y rhyddfarnau wedi cynyddu o bron i 5% yn 2014-15 o'r flwyddyn flaenorol, i 53.7% o ryddfarnau gan reithgor mewn achosion pan roddwyd pleon dieuog yn unig gan ddiffynyddion (Tabl 4), neu 50.4% os cynhwysir achosion llys pan fydd pleon cymysg o euog a dieuog i dditiadau yn cael eu cynnwys (Tabl 5)).

Ond, mae'r data ar y dudalen flaenorol, sy'n edrych ar resymau am erlyniadau aflwyddiannus yn dynodi bod y mwyafrif o ganlyniad i ryddfarn gan reithgorau (62.7% yn 2014-15) yn hytrach na pheidio â pharhau gan y CPS, materion dioddefwyr nag unrhyw reswm arall. Mae'n bwysig felly nodi nad yw'r tebygolrwydd sydd bron yn gyfartal o gollfarnau neu ryddfarnau gan reithgor yn dileu'r angen i ymdrin â'r *prif* reswm pam bod erlyniadau yn aflwyddiannus, o gyhuddiad i achos llys, sef rhyddfarn yn y llys gan y rheithgor.

Arweiniodd hyn at waith yn ystod y flwyddyn i ymdrin ag ansawdd ac arbenigedd yr eiriolwyr, yn ogystal â herio'r chwedlau ac ymdrin â materion allweddol y ddadl. Yn ychwanegol rydym wedi cydnabod, wrth i rai achosion mwy cymhleth gael eu symud ymlaen y gall fod yn anos darbwyllo rheithgorau o hygrededd dioddefwyr bregus pan fydd stereoteipiau mor gyffredin ac na all tystiolaeth arbenigol fod yn dderbyniol i esbonio eu hymddygiad.

[68] Mae 'yn cynnwys pleon cymysg' yn golygu bod y diffynnydd yn cofnodi ple neu bleon euog i rai cyhuddiadau a phleon dieuog i gyhuddiadau eraill. Nid yw'r pleon hyn yn dderbyniol i'r Goron ac mae'r achos yn mynd ymlaen i gael ei brofi yn y llys.

## Prydlondeb penderfyniadau cyn cyhuddo[69]

Am y tro cyntaf, yn 2013-14, cafodd prydlondeb penderfyniadau cyn cyhuddo eu monitro o fewn system sicrwydd VAWG. Y nifer cyfartalog o ddyddiau i gyhuddo yn 2013-14 oedd 39.6 o ddyddiau. Cynyddodd hyn i 55.1 o ddyddiau yn 2014-15. Gofynnwyd i'r Ardaloedd lunio cynlluniau i wella perfformiad ac mae’r cynnydd yn cael ei fapio trwy’r broses sicrwydd VAWG. Mae’r penderfyniadau cyhuddo yn yr achosion hyn yn galw am sylw manwl a gall gynnwys ystyried tystiolaeth gymhleth, yn arbennig mewn achosion nad ydynt yn ddiweddar (y bu cynnydd mewn atgyfeiriadau mewn cysylltiad â nhw). Rydym nawr yn cynghori ar achosion o dreisio ar ddechrau, yn hytrach na diwedd, ymchwiliad er mwyn helpu’r heddlu i adeiladu achosion cryfach, a fydd yn sicr o ymestyn cyfraniad y CPS. Yn ogystal, mae angen amser i wylio cyfweliadau a recordiwyd gyda dioddefwyr, a all fod yn hirfaith iawn, cyflawni dadansoddiad fforensig o gyfathrebiadau ar gyfryngau cymdeithasol a ffonau yn ogystal ag asesu deunydd perthnasol megis adroddiadau gwasanaethau cymdeithasol fel rhan o ddyletswydd yr erlyniad i ddatgelu. Mae nifer o Ardaloedd wedi cyflwyno rhestrau gwirio’r heddlu er mwyn archwilio’r holl bosibiliadau yn gynnar i geisio osgoi oedi.

Yn ein gwaith ar y Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol ymdriniwyd â phrydlondeb ac fe amlinellir y gwaith isod.

## Ystadegau cenedlaethol swyddogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder[70] [71] [72] [73]

Mae’r ystadegau treisio cenedlaethol swyddogol gan yr MoJ https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2014 yn dangos, ym mlwyddyn galendr 2014 i 3,538 o ddiffynyddion, ar sail prif drosedd, gael eu herlyn am dreisio mewn llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 3,081 yn 2013. Anfonwyd 3,459 o achosion i Lys y Goron i’w profi, o gymharu â 3,020 yn 2013. Yn 2014 cafwyd 1,164 o droseddwyr yn euog o dreisio yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 1,121 yn 2013, gan arwain at gymhareb erlyniad i gollfarn yn 2014 o 33% – gostyngiad o 36% yn 2013. Nid yw’r gymhareb hon yn ystyried diffynyddion a erlynwyd am dreisio ond a gollfarnwyd yn Llys y Goron am drosedd arall.

[69] Mae data CMS yn adrodd cyfartaledd y nifer o ddyddiau calendr sydd wedi mynd ers i’r penderfyniad cyntaf gael ei geisio gan yr heddlu, hyd y dyddiad pan oedd y penderfyniad olaf a wnaed yn un i gyhuddo. Ni all y system gofnodi ar wahân brydlondeb yr achosion hynny oedd yn destun i gyngor a rhagor o waith cyn i benderfyniad i gyhuddo gael ei wneud a’i gofnodi fel y penderfyniad olaf.

[70] Mae’r ffigurau am achosion llys yn ymwneud ag unigolion yr oedd y troseddau hyn yn brif droseddau yr oeddynt yn cael eu cyhuddo ohonynt. Pan fydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Pan weithredir yr un gosb am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddewisir yw’r un gyda’r uchafswm cosb statudol mwyaf difrifol.

[71] Gwneir pob ymgais i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynir yn gywir a chyflawn. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi bod y data hwn wedi ei dynnu o systemau data gweinyddol mawr a grëwyd gan y llysoedd a lluoedd heddlu. O ganlyniad, dylid bod yn ofalus bod prosesau casglu data a’u cyfyngiadau anochel yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio’r data.

[72] Gall y nifer o ddiffynyddion a geir yn euog mewn blwyddyn benodol fod yn fwy na’r nifer y cychwynnir achos yn eu herbyn gan i’r achos yn y llys ynadon ddigwydd mewn blwyddyn gynharach a bod y diffynyddion wedi eu cael yn euog yn Llys y Goron yn y flwyddyn ganlynol; neu fod y diffynyddion wedi eu cael yn euog o drosedd wahanol i’r achos gwreiddiol yn eu herbyn.

[73] Oherwydd gwelliannau wrth brosesu data, efallai na fydd canlyniadau 2014 yn cyfateb i’r rhai a gyhoeddwyd o’r blaen.

Sylwer - mae data’r CPS yn wahanol i ddata’r Weinyddiaeth Gyfiawnder o ran:

- Mae data’r CPS am y flwyddyn ariannol; mae data’r Weinyddiaeth Gyfiawnder am y flwyddyn galendr;
- Mae data’r CPS am erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15; mae data erlyn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwneud ag achosion pan fydd y gwrandawiad wedi ei gwblhau yn y Llys Ynadon yn 2014, ac felly mae’n cynnwys achosion sydd wedi eu cwblhau ac achosion sy’n dal yn fyw yn Llys y Goron;
- Mae collfarnau CPS am achosion gyda lluman treisio sy’n cael collfarn am dreisio, neu am drosedd arall neu lai; mae collfarnau’r Weinyddiaeth Gyfiawnder am achosion a gollfarnwyd am dreisio;
- Cyfradd gollfarnu’r CPS yw’r gyfran o gollfarnau allan o erlyniadau gyda lluman treisio a *gwblhawyd* yn 2014-15; cyfradd gollfarnu’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yw’r nifer o ddiffynyddion a gollfarnwyd am dreisio wedi ei rannu â’r nifer o ddiffynyddion a erlynwyd (fel sy’n cael ei ddiffinio uchod).

## Perfformiad ardaloedd

Mae’r tablau ar dudalennau 99-100 yn rhoi data erlyniadau treisio yn ôl Ardal ac ardaloedd lluoedd heddlu. O 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio’r data a rhoi adroddiad arno sy’n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Dinas Llundain (CLP) a Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall.  Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â’r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o’r CLP a’r BTP.Mae’r atodiad cysylltiedig, a roddwyd ar ddechrau’r Crynodeb Gweithredol, yn rhoi data cyn cyhuddo Ardaloedd ac ardaloedd lluoedd yr heddlu.

**Arfer da**

- Yn Swydd Efrog a Glannau Humber, rhoddwyd hyfforddiant CPS i aelodau’r Panel Craffu Treisio ar berthnasedd deunyddiau trydydd parti ar arfer gorau wrth ymdrin ag achosion.
- Yn CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr cynhaliwyd cyfres o weithdai ar chwedlau treisio a stereoteipiau i staff i nodi Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Menywod.
- Cynhaliodd CPS Llundain ddigwyddiad yng Ngorffennaf 2014, gyda dioddefwyr ac ISVA yn rhannu eu profiad o’r System Gyfiawnder a’r Barnwr Rook yn amlinellu’r cynlluniau ar gyfer hyfforddiant ar draws y system gyfiawnder yng nghyswllt dioddefwyr bregus.

## Materion cydraddoldeb

**Rhyw**
Yn 2014-15, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, ar 99%, fel yn 2013-14. Nid yw cofnodi rhyw dioddefwyr, ar 76%, yn ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Ethnigrwydd**
Yn 2014-15, dosbarthwyd 59% o ddiffynyddion troseddau treisio fel Gwyn, gyda 54% wedi eu nodi fel perthyn i'r dosbarth Gwyn Prydeinig, ychydig dan ddau bwynt canrannol yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Nodwyd bod 7.6% o'r diffynyddion yn Asiaidd – gostyngiad o 1.2ppt o 2013-14, a nodwyd 9.7% fel Du – gostyngiad o 0.8ppt[74]. Roedd gostyngiad o dros 5.0ppt mewn cofnodi ethnigrwydd diffynyddion. Nid yw ethnigrwydd wedi ei gofnodi ar gyfer 67% o ddioddefwyr, felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Oedran**
Roedd mwyafrif y diffynyddion rhwng 25-59 oed (59%) a 18-24 (21%). Roedd 30% o'r diffynyddion (1,361) dan 24, gyda 354 (ychydig dan 8%) o ddiffynyddion yn 14-17 mlwydd oed a 56 (1%) yn 10-13 oed. Nid yw oedran 27% o ddioddefwyr yn cael ei gofnodi; felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Asesiad ansoddol o achosion treisio

Yn 2014-15 gofynnwyd i'r Ardaloedd ganolbwyntio ar welliannau ansoddol yn eu gwaith achos a gwirio yn erbyn 15% o'u hachosion treisio[75]. Cyfarfu penaethiaid Unedau RASSO yn ystod 2014-15 i ymdrin â materion yn deillio o sicrhau VAWG a gwaith ar draws y system gyfiawnder troseddol.

## Materion trawslywodraethol

Roedd y CPS yn rhan o waith trawslywodraethol trwy strategaeth a chynllun gweithredu'r MoJ ar dreisio a'r Grŵp Cenedlaethol ar Drais Rhywiol yn Erbyn Plant a Phobl Fregus a oruchwylir gan y Swyddfa Gartref, yn ogystal ag wedi ei gysylltu â'r Grŵp Rhyngweinidogol VAWG.

Yn ychwanegol at hyn mae'r CPS yn rhan o'r Grŵp Monitro Treisio Cenedlaethol dan gadeiryddiaeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC). Ym Mawrth 2015, rhyddhawyd data treisio'r CJS o 2009-10 i 2013-14 gan yr heddlu, CPS a MOJ i ardal pob llu heddlu. Rhoddwyd y data a gyhoeddwyd i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac asiantaethau CJS lleol i sicrhau mynediad cyfartal at y data a fydd yn caniatáu iddynt ddadansoddi a chraffu sut y mae treisio yn cael ei drin yn eu hardal leol. Y nod yw dynodi ac ymdrin â gwelliannau pellach i ymchwiliadau, erlyniadau a'r gwasanaethau a roddir i ddioddefwyr.

[74] Ni ddatganodd 8.7% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ethnigrwydd 11.9% o ddiffynyddion i'r CPS gan yr heddlu – y ddau wedi codi ers 2013-14.
[75] O Ionawr 2011 – Mawrth 2013, aseswyd 25% o achosion treisio i nodi materion i'w datrys; o Ebrill 2013 symudodd hyn i ffocws ar weithredu'r casgliadau, gan barhau i asesu yn erbyn 15% o'u hachosion.

## Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio a'r Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol

Yn Ebrill 2014 cynhaliwyd Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio gan y CPS i ddeall yn well y gostyngiad a fu yn y nifer o achosion treisio a atgyfeiriwyd gan yr heddlu i erlynyddion am gyngor ar gyhuddo a'r materion ehangach sy'n ymwneud ag ymchwilio ac erlyn treisio. Bu'r heddlu, erlynyddion, academyddion a grwpiau dioddefwyr ar y panel. Yn dilyn canfyddiadau'r panel, lansiodd y CPS a'r heddlu Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Treisio ym Mehefin 2014, yn ymdrin â thri maes yn fras i'w gwella ymhellach:

- Sicrhau cydbwysedd: Ymchwiliadau sy'n canolbwyntio ar y troseddwr wrth sicrhau ymateb effeithiol i'r dioddefwr;
- Offer ar gyfer y gwaith: Ymchwilwyr ac Erlynyddion ar Ddelio ag Achosion Treisio;
- Gwelliant parhaus: Goruchwyliaeth ac Atebolrwydd.

Goruchwyliwyd y gwaith o gyflawni'r camau gan grŵp llywio yn cynnwys academyddion a chynrychiolwyr o grwpiau dioddefwyr, yn ogystal â heddlu ac erlynyddion. Cwblhawyd y mwyafrif o'r camau erbyn dechrau 2015 a datblygwyd nifer o gynlluniau i ymdrin ag ansawdd gwaith achos, cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion ac offer a sgiliau ar gyfer y gwaith. Cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol yn Ionawr 2015 i lansio'r cynlluniau allweddol, a amlinellir dan y tair thema isod:

### Sicrhau cydbwysedd: Ymchwiliadau sy'n canolbwyntio ar y troseddwr wrth sicrhau ymateb effeithiol i ddioddefwyr.

Canfu'r panel bod strategaeth effeithiol wrth ymchwilio ac erlyn i dreisio yn gofyn am bwyslais ar weithredoedd, a thactegau'r troseddwyr, yn hytrach na dim ond ymddygiad y dioddefwr.

#### Cydsyniad:

Datblygodd yr heddlu, erlynyddion, eiriolwyr mewnol a chynrychiolwyr o'r trydydd sector daflen ar gyfer y cyhoedd a phecynnau offer i'r heddlu, erlynyddion ac eiriolwyr yng nghyswllt cydsyniad. Roedd y pecynnau offer yn amlinellu'r materion allweddol i ymchwilwyr, goruchwylwyr yr heddlu, cyfreithwyr adolygu RASSO ac arbenigwyr o Eiriolwyr treisio mewnol i ymdrin ag achosion treisio. Yn benodol, mae'r pecynnau offer yn amlinellu ffyrdd o asesu ac ymdrin â rhyddid a gallu dioddefwyr i roi cydsyniad a sefydlu pa gamau, os o gwbl, a gymerodd yr un dan amheuaeth i gael cydsyniad yr achwynydd a sut y mae'n rhaid i'r erlyniad brofi nad oedd gan yr un dan amheuaeth gred resymol bod yr achwynydd yn cydsynio. Trafododd y pecynnau offer gyd-destun treisio a pha mor fregus yw nifer o'r dioddefwyr a dargedir. Y bwriad yw y gellir rhoi'r cyflwyniad ar y gyfraith yn gysylltiedig â materion cydsyniad i reithgorau yn glir ac i naratif sy'n canolbwyntio ar y troseddwr gael ei rhoi yn erbyn yr amddiffyniad, fel sy'n briodol.

Rhoddwyd yr holl ddogfennau cydsyniad ar foth gwaith achos a gwybodaeth y CPS yn ogystal â'u rhannu i Unedau RASSO ac eiriolwyr mewnol. Yn 2015 datblygwyd hyfforddiant i Unedau RASSO ac eiriolwyr ar gydsyniad, dulliau sy'n canolbwyntio ar

y troseddwr, natur fregus y dioddefwyr a chwedlau a stereoteipiau treisio. Yn ychwanegol amlinellir hyfforddiant pellach isod.

**Cydsyniad**

Mae nifer o achosion yn darlunio pwysigrwydd herio materion cydsyniad – ar sail iechyd meddwl, anawsterau dysgu ac alcohol:

***Iechyd meddwl:***

- Carcharwyd cyn nyrs wrywaidd am 12 mlynedd a chwe mis am ymosod yn rhywiol ar ddwy glaf iechyd meddwl oedd dan ei ofal. Rhoddwyd Gorchymyn Atal Troseddau Rhywiol (SOPO) iddo hefyd am ei oes ac mae ar y Gofrestr o Droseddwyr Rhyw am oes hefyd. Mae hyn yn enghraifft o amser pan nad oedd gan y dioddefwr y gallu i gydsynio.

***Anableddau dysgu:***

- Dedfrydwyd dyn 28 mlwydd oed i 11 mlynedd a saith mis o garchar am dreisio dieithryn ar ferch 14 mlwydd oed gydag anableddau dysgu difrifol a gorchmynnwyd iddo lofnodi’r Gofrestr Troseddwyr Rhywiol ac mae’n ddarostyngedig i SOPO am ei oes. Nododd yr erlyniad y byddai’n gwybod yn iawn pa mor fregus oedd y ddioddefwraig ifanc ac felly ni allai fod wedi cael ei chydsyniad pan wnaeth ei thargedu yn fwriadol a gwneud iddi ddioddef y profiad hwn, gan nad oedd ganddi’r gallu i gydsynio.

**Cydsyniad**

***Alcohol:***

- Carcharwyd tri o ddynion am chwe mlynedd yr un am dreisio ac ymosod yn rhywiol ar fenyw 23 mlwydd oed yn dilyn digwyddiad a barhaodd am 20 awr. Y mater canolog i achos yr erlyniad oedd nad oedd gan y ddioddefwraig y gallu i gydsynio i’r gweithgaredd rhywiol. Aed â’r ddioddefwraig, oedd wedi bod yn yfed, gan y dynion mewn tacsi i fflat lle digwyddodd yr ymosodiadau. Gohiriwyd yr achos llys am nifer o ddyddiau ar ôl i’r barnwr bennu nad oedd digon o dystiolaeth i’w roi gerbron rheithgor ar y sail nad oedd diffyg cofio yn cyfateb i ddiffyg gallu i gydsynio. Ceisiodd yr erlyniad ddyfarniad gan y Llys Apêl ar ddigonolrwydd tystiolaeth yr achos, gan ddadlau bod angen ystyried y cyd-destun llawn wrth ystyried y mater o gydsyniad, gan gynnwys fideo oddi ar ffôn symudol a ffilmiwyd gan un o’r diffynyddion a phrofion gwaed yn dangos y lefel uchel o alcohol yng ngwaed y ddioddefwraig. Roeddent yn dangos nad oedd ganddi’r gallu i roi cydsynaid i weithgaredd rhywiol. Dyfarnodd y Llys Apêl o blaid yr erlyniad ac aeth yr achos llys yn ei flaen.

- Carcharwyd dyn am gyfanswm o naw mlynedd am dreisio ac ymosodiad rhywiol difrifol ac mae’n rhaid iddo hefyd lofnodi’r Gofrestr Troseddwyr Rhyw am oes. Am 3am aeth at fenyw 18 oed tu allan i glwb nos wrth iddi aros am dacsi. Dilynodd hi i’r tacsi a phan ddaethant allan, fe wnaeth ymosod arni mewn parc cyn mynd â hi yn ôl i westy ac ymosod arni eto. Roedd ffilm teledu cylch cyfyng yn ei ddangos yn cario’r ddioddefwraig dros ei ysgwydd trwy ganol y dref ac roedd yn amlwg nad oedd y ddioddefwraig yn gallu rhoi cydsyniad i weithgaredd rhywiol oherwydd ei chyflwr.

## Dioddefwyr bregus:

Lansiwyd pecyn offer i erlynyddion sy’n ymdrin ag achosion VAWG (gan gynnwys treisio), yn ymwneud â dioddefwyr bregus yn y gynhadledd genedlaethol. Nod y pecyn offer yw sicrhau bod hygrededd yr honiad cyffredinol, yn unol â’r Cod i Erlynyddion y Goron, yn cael ei asesu yn briodol a bod dioddefwyr bregus yn cael eu cefnogi i roi eu tystiolaeth orau. Mae’r pecyn offer yn rhoi gwybodaeth am y mathau o dactegau ac ymddygiad y gall troseddwr eu defnyddio neu eu dangos i leihau’r risg o gosb a dylid eu hystyried ochr yn ochr â Chyfarwyddyd Cyfreithiol perthnasol y CPS. Yn ychwanegol mae’r pecyn offer yn ystyried materion yn ymwneud â fersiwn dioddefwr bregus gan gynnwys ffyrdd y gall trawma effeithio ar eu pwerau i gofio/ganolbwyntio, eu hymwybyddiaeth o’r digwyddiadau a’u gallu i gyfathrebu.

**Dioddefwyr bregus**

- Dedfrydwyd dau ddyn i 14 mlynedd o garchar yr un am bob un o ddau gyfrif o dreisio menyw ifanc oedd newydd gyrraedd y Deyrnas Unedig. Er mwyn gwneud proses y llys yn haws i'r ddioddefwraig rhoddwyd ei phrif dystiolaeth trwy fideo wedi ei recordio ymlaen llaw ac fe roddodd dystiolaeth arall yn fyw o'r tu ôl i sgriniau.

- Dedfrydwyd dyn i 18 mlynedd o garchar am dreisio un fenyw ac am geisio treisio ac ymosod yn rhywiol ar fenyw arall. Roedd wedi manteisio ar y ddwy fenyw yma pan oeddent yn fregus oherwydd diod. Yn y ddau achos roedd wedi cynnig lifft adref i'r menywod ac roeddent yn credu ei fod yn yrrwr tacsi dilys.

### Dioddefwyr yn tynnu'n ôl:

Aseswyd data dioddefwyr yn tynnu'n ôl gan y CPS yn 2013-14 gyda chefnogaeth gan yr Athro Betsy Stanko. Roedd y data yn dynodi, allan o'r holl ddiffynyddion a erlynwyd dim ond 7.1% a fu'n aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr (tynnu'n ôl, peidio â bod yn bresennol neu eu tystiolaeth ddim yn cefnogi'r achos). Roedd hyn yn cyfateb i ddeg neu lai o achosion yn ystod y flwyddyn ym mhob ardal llu heddlu, oherwydd bod dioddefwyr wedi tynnu'n ôl, heblaw Llundain a Manceinion[76] a bu pump neu lai o achosion yn aflwyddiannus pan oedd tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos, heblaw am yn Llundain.

Ond, er gwaethaf y niferoedd isel mae'r mater yn allweddol yng nghyswllt hyder dioddefwyr. Felly cynhaliwyd ymchwil i'r rhesymau pam bod dioddefwyr yn tynnu'n ôl mewn achosion o dreisio ar y cyd â'r Athro Liz Kelly, o'r Brifysgol Metropolitan. Anfonwyd holiadur allan i Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) am farn y dioddefwyr rhwng Medi a Thachwedd 2014. Derbyniwyd 90 o ymatebion yn dynodi, mewn achosion pan oedd y dioddefwr yn tynnu'n ôl yn gynnar ac yn hwyr eu bod yn dynodi'r rhesymau eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu credu/eu bod yn cael eu barnu ac ofn rhoi tystiolaeth yn y llys. Ond i'r rhai oedd yn tynnu'n ôl yn hwyrach y prif reswm oedd yr oedi cyn mynd i'r llys, sydd wedi cael sylw yn ystod 2014-15, fel yr amlinellir isod.

### Eiriolwyr allanol:

Adolygwyd trefniadau'r CPS ar gyfer rhoi cyfarwyddyd i eiriolwyr mewn achosion treisio i sicrhau bod eiriolwyr gyda'r sgiliau, agweddau a hyfforddiant perthnasol yn cael cyfarwyddyd ar y cam priodol. Cynhaliwyd dadansoddiad o'r holl ganlyniadau a gyflawnwyd gan eiriolwyr allanol yn ystod 2013/14, i helpu i roi gwybodaeth i Ardaloedd yn eu hadolygiadau perfformiad. Diwygiwyd y cyfarwyddyd ar *Errant Conduct and Poor Performance by External Advocates* a'i ail gyhoeddi i gynnwys mwy o bwyslais ar ymdrin â pherfformiad eiriolwyr, gan gynnwys sicrhau canlyniadau.

---

[76]Yn 2013-14, yn Llundain roedd 49 allan o 730 erlyniad yn aflwyddiannus oherwydd i'r dioddefwr dynnu yn ôl ac ym Manceinion 12 allan o 274; yn Llundain roedd 24 allan o 730 erlyniad yn aflwyddiannus gan nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos.

**Cyfryngau Cymdeithasol**

- Rhoddwyd dedfryd o garchar estynedig o ddeng mlynedd i ddyn 19 oed a dreisiodd dair o fenywod. Roedd y dyn wedi targedu menywod a merched bregus yr oedd wedi eu cyfarfod trwy fforymau sgwrsio ar gyfryngau cymdeithasol. Ar ôl iddynt gytuno i'w gyfarfod, roedd yn gorfodi ei hun ar ei ddioddefwyr. Treisiodd ferch 15 oed, oedd mewn gofal, merch 17 mlwydd oed a menyw 21 mlwydd oed yn ei chartref. Ymosododd ar ferch 17 mlwydd oed arall, gan roi llygad du iddi, ac fe fu'n ymwneud â gweithgaredd rhywiol gyda merch 13 mlwydd oed. Nododd y barnwr ei fod wedi dibynnu ar y ffaith y byddai gan ei ddioddefwyr ormod o gywilydd i roi adroddiad amdano.

## Offer ar gyfer y Gwaith: Ymchwilwyr ac Erlynyddion ar Ddelio ag Achosion Treisio.

### Arfer Proffesiynol Awdurdodedig yr Heddlu ar Dreisio

Yn 2014-15 datblygodd yr Heddlu ddiweddariadau i'w Harfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) ar dreisio, i'w gyhoeddi yn 2015. Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Treisio datblygwyd cynigion ar gyfer strategaethau gadael yn dilyn penderfyniad i beidio â gweithredu ymhellach, i asesu'r risg o aildroseddu ac i ddiogelu dioddefwyr rhag unrhyw gam-drin pellach.

### Cyngor ymchwilio cynnar a chyhuddo

Cyhoeddwyd cyfarwyddyd i'r heddlu ac erlynyddion ar geisio cyngor ymchwilio cynnar a chyhuddo, gan egluro yn fanwl Gyfarwyddyd Cyhuddo'r Cyfarwyddwr, i heddlu ac erlynyddion yn hwyr yn 2014 i helpu i ddatblygu cyhuddo addas a chyflym.

### Protocol treisio

Cyhoeddwyd Protocol Treisio heddlu/CPS wedi ei ddiweddaru ar gyfer y CPS a'r heddlu yn Ionawr 2015, gan nodi sut i ymdrin â phob achos treisio o'r gŵyn wreiddiol hyd ar ôl y ddedfryd mewn achos llys.

## Gwelliant Parhaus: Goruchwyliaeth ac Atebolrwydd

### Adolygu Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO)

Cynhaliwyd adolygiad mewnol o Unedau RASSO ym mhob Ardal CPS yn 2014. Diben yr adolygiad oedd ystyried strwythur yr unedau a'r adnoddau ar eu cyfer. Roedd yn cynnwys y trefniadau gwylio'r adwy, y broses ar gyfer cyflwyno a darparu cyngor ymchwilio cynnar a phenderfyniadau cyhuddo, er mwyn cael cysondeb o ran dull a gweithredu arfer gorau yn genedlaethol.

Mae argymhellion yr adolygiad yn cael eu gweithredu trwy gydol 2015 a byddant yn cyfrannu at sicrhau gwelliannau mewn strwythur a swyddogaethau. Mae'r cynllun yn cynnwys datblygu Model Adnoddau RASSO cenedlaethol i helpu Ardaloedd i sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau lleol.

Bwriedir cynnal arolygiad o Unedau RASSO, yn dilyn yr Adolygiad yn 2014, yn ystod 2015-16 gan Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI).

### Hawl Dioddefwyr i Adolygiad

Tynnwyd y gwersi o Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR) at ei gilydd a'u rhannu i Unedau RASSO a bydd y gwersi yn y dyfodol o'r VRR yn cael eu rhoi yn uniongyrchol i Ddirprwy Brif Erlynydd y Goron yn yr Ardal (DCCP), gyda'r arweinydd VAWG, i'w rhannu ar draws Unedau RASSO.

### Prydlondeb o gyhuddo i'r llys

Darparwyd y data cyffredinol ar brydlondeb achosion treisio o gyhuddo i'w cwblhau, ar draws Cymru a Lloegr, gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder o 2010-11 i 2013-14. Er mwyn ymdrin ymhellach â mater prydlondeb o gyhuddo i achos llys, cafwyd data gan Ardaloedd CPS am gyfnod o bythefnos ym mis Tachwedd 2014, a oedd hefyd yn trafod a oedd achosion llys yn cael dyddiadau penodol.

O ddata'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae'n ymddangos bod y prydlondeb o gyhuddo i gwblhau yn gymharol gyson ar draws y pedair blynedd diwethaf[77]. Yn y darlun bychan cryno a roddir gan y CPS mae'n ymddangos eu bod yn rhagweld gostyngiad yn yr amser a gynllunnir i achosion gyrraedd y llys. Ond, roedd cyfartaledd yr amser a gymerwyd o gyhuddo i gwblhau tua naw mis yn 2013-14. Y prif oedi yn y broses oedd rhwng anfon i Lys y Goron a'r prif wrandawiad.

| | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Data'r MoJ - Amser[78] canolrifol mewn dyddiau o gyhuddo i gwblhau** | **212** | **220** | **214** | **219** |

Rhoddwyd data i Ardaloedd am yr amser a gymerwyd o atgyfeirio hyd gyhuddo a hefyd am yr amser a gymerwyd o gyhuddo hyd achos yn y llys, yn ystod yr asesiad am bythefnos ym mis Tachwedd. Gofynnwyd i'r Ardaloedd ddefnyddio'r data yma, wedi ei rannu yn ardaloedd lluoedd heddlu a llysoedd, i helpu i asesu ble mae angen gwelliannau a thrafod ar lefel system cyfiawnder troseddol yn lleol.

## Cyfarwyddyd Cyfreithiol

Mae'r cyfarwyddyd cyfreithiol yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddaru. Yn 2014-15, rhoddwyd mwy o esboniad ar y dull 'ar sail teilyngdod' gan ailadrodd ei fod yn cefnogi ac yn adeiladu ar y Prawf Cod Llawn fel y mae'n cael ei nodi yn y Cod ar Gyfer

[77] Sylwer nad yw'r data ar gyfer 2014-15 ar gael wrth gyhoeddi

[78] Y canolrif yw gwerth sydd yng nghanol y dosbarthiad o ddata; mae hanner yr amseroedd a gofnodwyd yn y cyfnod o amser yn hwy na'r canolrif, ac mae eu hanner yn llai. Nid yw gwerthoedd eithafol yn effeithio llawer ar y canolrif ac mae'n fwy addas fel dull mesur o'r 'cyfartaledd' ar gyfer data sydd wedi ei sgiwio yn drwm.

Erlynyddion y Goron. Mae'r dull yn berthnasol i bob achos, ond gall fod yn arbennig o bwysig mewn achosion treisio. Mae'n adlewyrchu'r gofyn i dybio y bydd pob achos yn cael ei ystyried gan dribiwnlys gwrthrychol, diduedd a rhesymol. Nid yw hyn yn cyfateb i erlynydd yn gohirio ei ddyfarniad, ond mae'n gofyn iddo wneud penderfyniadau gwrthrychol sy'n deg a rhesymol.

Bydd y cyfarwyddyd cyfreithiol ar dreisio yn cael ei ddiweddaru yn 2015-16 yn unol â chanfyddiadau'r Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol, yr Adolygiad RASSO a'r adolygiad annibynnol ar ymchwiliadau ac erlyniadau treisio yn Llundain. Bydd y cyfarwyddyd hefyd yn cysylltu â deddfwriaeth newydd, e.e. newidiadau cyfreithiol ar bornograffi treisio a gwastrodi, fel yr amlinellir yn nes ymlaen yn yr adroddiad dan yr adrannau cam-drin plant a phornograffi.

**Camddefnyddio Ymddiriedaeth:**

- Carcharwyd dyn 21 mlwydd oed am naw mlynedd am dreisio ac ymosod yn rhywiol ar ddwy fenyw ifanc yn 2013 a 2014. Roedd wedi dod yn ffrind i'r ddwy ddioddefwraig ac ennyn eu hymddiriedaeth dros gyfnod o amser. Gan gymryd arno ei fod yn cerdded gyda nhw i'w cadw yn ddiogel ar ôl nosweithiau allan, roedd wedi denu'r ddwy oddi ar y llwybr arferol gyda'r bwriad o'u rheoli trwy rym corfforol ac ymosod yn rhywiol a threisgar arnynt.

## Hyfforddiant

Lluniwyd rhaglen hyfforddi treisio yn dilyn gweithredu'r Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol gan gynnwys materion fel cydsyniad, y rhai a ddynodwyd yn yr Adolygiad RASSO mewnol a'r adolygiad annibynnol ar ymchwiliadau ac erlyniadau treisio yn Llundain. Dechreuodd y rhaglen waith ar ddiwedd 2014-15, gan archwilio hyfforddiant arbenigwyr ac eiriolwyr RASSO presennol, ac yn 2015 fe'i dilynir gan raglen wedi ei threfnu yn cynnwys:

- Hyfforddiant ymarferol ar sail ymdrin â materion yn ymwneud â chydsyniad, natur fregus y dioddefwyr a defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y troseddwr;
- Gweithdai ar y cyd rhwng y CPS a'r heddlu ar draws pob rhanbarth CPS yn ymdrin â chyngor ymchwilio cynnar, cyhuddo, cefnogi dioddefwyr a thystion, gweithredu'r protocol treisio, lles staff; sicrhau eiriolaeth effeithiol mewn achosion treisio a threfniadau craffu lleol;
- Hyfforddiant adnewyddu gwybodaeth wedi ei ddiweddaru yn ymdrin ag unrhyw arferion a gweithdrefnau newydd gan yr adolygiad RASSO mewnol a'r Adolygiad Metropolitan annibynnol ac wedi eu hamlinellu mewn cyfarwyddyd cyfreithiol diwygiedig;
- Hyfforddiant eiriolaeth yn cael ei redeg gan y Cyngor Hyfforddi Eiriolaeth ar faterion dioddefwyr bregus.

## Dioddefwyr

Mae nifer o LSIPau Ardal yn cynnwys craffu ar achosion treisio fel sail i ddysgu gwersi yn lleol, ochr yn ochr â'r monitro sicrwydd ansoddol ar VAWG a'r asesiad o ymgysylltiad cymunedol lleol. Mae'r arfer da yn cynnwys:

**Arfer da:**

- Yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, hyfforddodd y CPS wirfoddolwyr ar gyfer panel a sefydlwyd i asesu sut y mae achosion treisio yn rhedeg, dan arweiniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r cynllun yn rhedeg o Ionawr i Fehefin 2015 – bydd adroddiad ar faterion sy'n codi a byddant yn cael eu trin yn ddiweddarach yn 2015.

- Gwnaed gwaith hefyd i hysbysu asiantaethau Argyfwng Treisio lleol am therapi cyn achos a datblygwyd protocol cyn achos lleol yn y Gogledd Ddwyrain.

- Yn Swydd Efrog a Glannau Humber mae rhaglen i'r holl gyfreithwyr RASSO ymweld â SARCS a chanolfannau Argyfwng Treisio; mae'r CPS hefyd wedi hyfforddi ISVA lleol.

## Honiadau ffug honedig

Cynhaliwyd gweminarau i erlynyddion yng ngwanwyn 2014 i arbenigwyr treisio gan ddilyn y DVD o'r Dosbarth Meistr a gyflwynwyd ar ddiwedd 2013 ar honiadau ffug honedig.

Diweddarwyd y cyfarwyddyd cyfreithiol *Guidance for Charging Perverting the Course of Justice and Wasting Police Time in Cases Involving Allegedly False Allegations of Rape and / or Domestic Abuse* ac fe'i cyhoeddwyd yn Ebrill 2105 i sicrhau bod erlynyddion yn cael yr offer mwyaf diweddar i wneud y gwaith hwn. Mae'r materion allweddol a ddiweddarwyd yn cynnwys:

- Amlinelliad o'r ystyriaethau craidd gan gynnwys: ymdrin â chwedlau a stereoteipiau; cyd-destun ehangach yr honiad; gwybodaeth gefndir a natur fregus y rhai dan amheuaeth gan gynnwys materion yn ymwneud â'u hiechyd meddwl;
- Egluro'r meini prawf tystiolaethol mewn achosion sy'n cael eu tynnu'n ôl i osgoi erlyn dioddefwyr sy'n tynnu honiadau cywir am dreisio a/neu gam-drin domestig yn ôl;
- Adran ar ddefnyddio tynnu'n ôl fel sail i erlyn i egluro nad oes imiwnedd awtomatig;
- Cyngor ar y lefel gywir o gyhuddiad h.y. a ddylid cyhuddo o Wyrdroi Cwrs Cyfiawnder neu Wastraffu Amser yr Heddlu; a
- Chamau gweithdrefnol, gan gynnwys y broses gadarnhau yn ymwneud â Dirprwy Brif Erlynyddion y Goron, gyda Chynghorydd Cyfreithiol y

Cyfarwyddwr yn cadarnhau pob cyhuddiad o Wyrdroi Cwrs Cyfiawnder mewn achosion sy’n cynnwys honiadau o dreisio a/neu gam-drin domestig.

Cynhaliwyd gweithdy ymarferol dan arweiniad Cynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr a’r cydlynydd VAWG ar gyfer Mersi a Swydd Caer ym Mai 2015 ar gyfer DCCP a Phenaethiaid unedau RASSO, gan edrych ar achosion a gosod safonau gan ganolbwyntio yn benodol ar rai bregus dan amheuaeth.

Parhaodd y monitro ar honiadau ffug honedig trwy system sicrhau ansawdd VAWG gydag adolygiad o sampl ar hap arall ar o leiaf 25% o’r holl benderfyniadau cyhuddo a wnaed ar draws yr Ardaloedd yn hwyr yn 2014. Trafodwyd materion cenedlaethol gydag arweinydd cenedlaethol plismona ar dreisio a thrafodwyd materion lleol gyda Phrif Erlynyddion y Goron yn dilyn y broses sicrhau ansawdd hon. Yng ngwanwyn 2015 gofynnwyd i Ardaloedd sicrhau bod y data yn cael ei gofnodi ar yr achosion hyn a bod y gweithdrefnau cadarnhau yn eu lle ar gyfer cyhuddo. Bydd data yn dal i gael ei gasglu mewn ffurflenni sicrhau ansawdd VAWG yn y dyfodol a bydd sampl ar hap yn cael ei gynnal yn gynnar yn haf 2015.

## Adolygiad Treisio yn yr Ardal Fetropolitan

Comisiynwyd adolygiad annibynnol o ymchwiliadau ac erlyniadau treisio yn Llundain i’w gynnal gan y Fonesig Elish Angiolini QC gan yr Heddlu Metropolitan a’r CPS yn 2014. Cyhoeddwyd adroddiad yn dilyn ei hadolygiad, ynghyd ag ymateb gan y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan a CPS Llundain i’r argymhellion a wnaed, ar 2 Mehefin 2015. Roedd yr ymateb yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: y gwasanaeth a roddwyd i ddioddefwyr; cefnogi’r ymarferwyr; atebolrwydd a gwelliant parhaus a newid deddfwriaethol.


Bydd y gwersi a ddysgwyd o’r adolygiad yn cael eu rhannu a’u gweithredu yn genedlaethol gan gynnwys trwy gyflwyno rhaglen genedlaethol o waith i roi cyfarwyddyd a hyfforddiant i erlynyddion arbenigol.

# Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys unrhyw awgrym o benderfyniadau cyn cyhuddo ynghylch troseddau rhywiol (ac eithrio treisio), gan mai dim ond ar ôl gorffen yr achos erlyn mae'r prif gategori o 'droseddau rhywiol' sy'n cynnwys treisio a phob trosedd rhywiol yn cael ei ddyrannu i achosion[79].

Erlynwyd 9,789 o ddiffynyddion yn 2014-15 am droseddau rhywiol, ac eithrio treisio; cynnydd o 1,235 o ddiffynyddion (14.4%) o 8,554 yn 2013-14; gan gyrraedd y nifer uchaf erioed. Cynyddodd erlyniadau troseddau rhywiol o 1.2% o lwyth achosion y CPS[80] yn 2013-14 i 1.5% yn 2014-15.

**Graff 13:** **Llwyth achosion troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) fel % o'r llwyth achosion**




<u>**Troseddau Rhywiol Blynyddol ac eithrio Treisio, LLWYTH ACHOS FEL % O'R CYFANSWM**</u>

| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CPS YN GENEDLAETHOL | 0.8% | 0.8% | 0.9% | 0.9% | 1.0% | 1.2% | 1.5% |

**Tabl 6:** **Erlyniadau troseddau rhywiol a gwblhawyd yn ôl deilliant**


| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 6,060 | 76.0% | 6,588 | 74.3% | 6,308 | 75.7% | 5,971 | 76.8% | 6,756 | 79.0% | 7,591 | 77.5% |
| Aflwyddiannus | 1,912 | 24.0% | 2,274 | 25.7% | 2,026 | 24.3% | 1,800 | 23.2% | 1,798 | 21.0% | 2,198 | 22.5% |
| **Cyfanswm** | **7,972** | | **8,862** | | **8,334** | | **7,771** | | **8,554** | | **9,789** | |

[79] Daw data troseddau rhywiol y CPS (ac eithrio treisio) o'r categori prif drosedd 'troseddau rhywiol' trwy eithrio'r diffynyddion gyda lluman treisio. Nid oes lluman monitro ar wahân ar gyfer 'troseddau rhywiol' a weithredir, naill ai wrth i'r CPS dderbyn cais i wneud penderfyniad cyn cyhuddo neu wrth dderbyn y ffeil achos wedi cyhuddo. Dim ond wrth gwblhau achos yr erlyniad y bydd prif drosedd yn cael ei dyrannu, yn seiliedig ar y drosedd fwyaf difrifol y cyhuddir y diffynnydd o'i chyflawni wrth gwblhau.

[80] Llwyth achosion troseddau rhywiol fel % o holl erlyniadau'r CPS


Yn 2014-15 gwelwyd y nifer uchaf erioed o gollfarnau (7,591) cynnydd o 835 (12.4%) ers 2013-14 mewn cymhariaeth â gostyngiad bychan yn y gyfran (77.5%), fel yng Ngraffiau 14 ac 15 a Thabl 6.

**Graff 14:** **Niferoedd troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 2008-09 i 2014-15**




Gostyngodd y gyfran o bleon euog ychydig i 65.8%, mewn cymhariaeth â'r nifer uchaf erioed. Roedd 85% o'r holl ddeilliannau llwyddiannus yn bleon euog.

**Graff 15:** **Cyfraddau collfarnu troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 2008-09 i 2014-15**




## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tablau ar dudalen 101-102 yn rhoi data erlyniadau troseddau rhywiol yn ôl Ardal ac ardaloedd lluoedd heddlu. O 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Dinas Llundain (CLP) a Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r CLP a'r BTP. Mae'r atodiad cysylltiedig, a roddwyd ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol, yn rhoi data cyn cyhuddo Ardaloedd ac ardaloedd lluoedd yr heddlu.

## Materion cydraddoldeb[81]

**Rhyw**
Yn 2014-15, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, 97.2%.

**Ethnigrwydd**
Yn 2014-15, nodwyd bod 61% o ddiffynyddion a erlynwyd am droseddau rhywiol yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig ac roedd 66.9% wedi eu categoreiddio fel Gwyn (gostyngiad o 67.5% yn 2013-14) o'r rhai pan gofnodwyd ethnigrwydd[82]. Nodwyd fod 7% o ddiffynyddion yn Asiaidd (1ppt yn llai na'r flwyddyn flaenorol), ac roedd 5% wedi eu nodi fel Du, (hefyd bron yn 1ppt yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol).

**Oedran**
Roedd y mwyafrif o'r diffynyddion rhwng 25-59 oed (65%) a 18-24 (16%).
Roedd ychydig dros bumed ran o'r diffynyddion (2,042) dan 24 oed, gyda 4% o'r diffynyddion (392) yn 14-17 mlwydd oed a 0.5% (45) yn 10-13 oed.

**Dioddefwyr Ifanc**

- Carcharwyd dyn am gyfanswm o dair blynedd a phedwar mis am dargedu merched yn eu harddegau ar eu ffordd i'r ysgol neu'r coleg, gan ei rwbio ei hun o'u blaenau a gwneud awgrymiadau anweddus. Ar y bws i'r llys fe gyflawnodd ragor o droseddau. Yn y llys cyfaddefodd i gyhuddiad blaenorol o ymosod yn rhywiol a rhoddwyd dedfryd o ddau fis o garchar iddo wedi ei ohirio am 12 mis. Ar ôl gadael y llys fe'i harestiwyd yn syth wedyn am y troseddau yn gynharach y diwrnod hwnnw ar y ffordd i'r llys. Clywodd y llys hefyd bod ganddo gollfarn flaenorol am geisio treisio yn ôl yn ei wlad enedigol, ac roedd wedi cael ei garcharu am bum mlynedd am hynny. Fe'i rhoddwyd ar y gofrestr troseddwyr rhyw a rhoddwyd SOPO iddo, gan ei atal rhag mynd at fenywod ar fysiau nac mewn unrhyw fan cyhoeddus.

## Troseddau rhywiol nad ydynt yn ddiweddar

Cyhoeddwyd cyfarwyddyd cyfreithiol ar y budd cyhoeddus o erlyn achosion nad ydynt yn rhai diweddar, pan fydd cosb enwol yn ganlyniad tebygol, ym Medi 2014 yn dilyn cyhoeddi ymgynghoriad. Mae'r cyfarwyddyd yn esbonio yn glir y dylai cwyn am Gam-drin Rhywiol ar Blant a wneir flynyddoedd ar ôl y digwyddiad gael ei chymryd yr un mor ddifrifol ag un a wnaed ar y pryd ac y dylai barn y dioddefwr a'i ymdeimlad o gyfiawnder fod yn ffactorau i erlynyddion eu hystyried. Mae'r cyfarwyddyd yn cynnwys cydnabod y gall llawer o'r rhai a ddioddefodd gamdriniaeth rywiol ddeall yn union beth a ddigwyddodd neu deimlo yn barod i roi adroddiad amdano yn ddiweddarach yn eu hoes a gall dioddefwyr gydag anawsterau dysgu fod ag ofn peidio â chael eu credu.

---

[81] Mae'r data ar ddioddefwyr yn dod gan y Gwasanaeth Rheoli Tystion ond nid yw'n cynnwys unrhyw gofnod o ddioddefwyr troseddau rhywiol heblaw am dreisio, gan fod y wybodaeth yn cael ei chasglu ar lefel diffynnydd yn unig.
[82] Ni ddatganodd ychydig dan 8% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ethnigrwydd ychydig dan 11% o ddiffynyddion i'r CPS gan yr heddlu – y ddau yn uwch na 2013-14; cyfanswm cynnydd o 2.3% heb eu cofnodi.

Mae'r adran ar gam-drin plant hefyd yn delio â'r panel a sefydlwyd i adolygu achosion nad ydynt yn ddiweddar o gam-drin plant yn rhywiol.

**Treisio nad yw'n ddiweddar**

- Carcharwyd dyn 51 mlwydd oed am 18 mlynedd am dreisio, ymosod ac ymosod yn rhywiol ar fenyw rhwng 1992 a 1994. Roedd wedi defnyddio trais eithafol i'w bwlio a'i rheoli. Fe'i gorfodwyd i ddioddef pob math o weithredoedd rhywiol israddiol ac os byddai'n gwrthod cydymffurfio byddai'n arwain at ei phryfocio, gwaradwyddo a'i churo a wnaeth wneud iddi fod â chymaint o'i ofn fel ei bod yn methu rhoi adroddiad i'r heddlu ar y pryd.

## Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol

Disodlodd y Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol y Gorchymyn Atal Troseddau Rhywiol a'r Gorchymyn Teithio Tramor, a gellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw un a gollfernir neu sy'n cael rhybudd am drosedd rywiol neu dreisgar, gan gynnwys pan fydd y troseddau yn cael eu cyflawni dramor. Cyflwynwyd y gorchymyn atal sifil fel diwygiad i'r Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona yn Hydref 2014.

Er mwyn gwneud gorchymyn, rhaid i'r llys fod yn fodlon bod ymddygiad yr unigolyn yn golygu ei bod yn angenrheidiol diogelu'r cyhoedd, neu unrhyw aelodau penodol o'r cyhoedd, rhag niwed rhywiol gan y diffynnydd (y prawf ar gyfer rhoi Gorchymyn Atal Troseddau Rhywiol cyn hyn oedd "niwed rhywiol difrifol"), neu ddiogelu plant neu oedolion bregus, rhag niwed rhywiol gan y diffynnydd tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Gall y Gorchymyn gynnwys unrhyw waharddiad y mae'r llys yn ei ystyried yn angenrheidiol i'r diben hwn, gan gynnwys atal teithio dramor.

**Cyfweliad fideo gyda chyfryngwr**

- Cafwyd collfarn mewn achos treisio arloesol pan na alwyd ar y ddioddefwraig 11 mlwydd oed i roi tystiolaeth yn fyw ac ni chafodd ei chroesholi gan yr amddiffyniad. Roedd hyn yn bosibl oherwydd gweithdrefn newydd gyda thystion bregus oedd yn golygu y gallai'r CPS drafod tystiolaeth y ddioddefwraig gyda'r amddiffyniad. Roedd y troseddau wedi digwydd pan oedd y ddioddefwraig yn ddim ond chwech oed; ac yn 11 oed roedd hi wedi cael cyfweliad am yr hyn a ddigwyddodd gyda help cyfryngwr i'w chefnogi. Ffilmiwyd y cyfweliad ac fe'i dangoswyd yn y llys ar ôl i'r ffilm o'i thystiolaeth gael ei chwarae i'r rheithgor, cytunwyd na fyddid yn ei chroesholi gan yr amddiffyniad fel sy'n digwydd fel arfer. Dedfrydwyd y ddau ddiffynnydd i 12 mlynedd a phum mlynedd a hanner yn eu tro.

**Cam-drin gan unigolyn mewn sefyllfa pan fydd ymddiriedaeth ynddo neu pan fydd ganddo rym**

- Manteisiodd meddyg trin canser yn Swydd Gaergrawnt ar 18 o'i gleifion ifanc oedd yn brwydro yn erbyn salwch difrifol trwy eu cam-drin yn rhywiol yn systematig. Cyfaddefodd i 25 o gyhuddiadau, gan gynnwys ymosodiad rhywiol ar blentyn dan 13 mlwydd oed, gweithgaredd rhywiol gyda phlentyn, achosi neu gymell plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol a thynnu ffotograffau anweddus. Fe'i dedfrydwyd i gyfanswm o 22 mlynedd.

- Cafwyd DJ yn euog o droseddau rhywiol yn Llys y Goron Manceinion. Digwyddodd y troseddau yn yr 1960au a'r 1970au gydag 11 o ddioddefwyr. Fe'i cafwyd yn euog o saith cyhuddiad o dreisio ac 11 ymosodiad rhywiol. Defnyddiodd ei statws fel DJ i dargedu merched ifanc a bregus y gallai wneud argraff fawr arnynt. Roedd wedi gwastrodi rhai am gyfnod o amser, tra ymosododd ar eraill yn fuan ar ôl iddo gysylltu â nhw gyntaf. Dim ond 13 oed oedd rhai o'r dioddefwyr.

- Cafwyd llawfeddyg nerfol 50 mlwydd oed yn euog o gam-drin chwech o'i gleifion benywaidd yn rhywiol, roedd rhai ohonynt yn fregus, tra'r oedd yn gweithio mewn ysbytai lleol. Roedd wedi cyflawni archwiliad personol iawn heb wisgo menig ac yn aml byddai'n dweud sylwadau rhywiol anaddas wrth y dioddefwyr. Rhoddodd un ddioddefwraig adroddiad amdano ac fe'i arestiwyd a'i gyhuddo, ac yn dilyn sylw ar y cyfryngau, daeth rhagor o ddioddefwyr ymlaen gan wneud cwynion tebyg o ymosodiad rhywiol i'r heddlu. Mae'r achos yn enghraifft o dorri ymddiriedaeth o'r lefel uchaf posibl.

## Cynllun treialu croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw

Ar hyn o bryd mae croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw yn cael ei dreialu, gan alluogi i ddioddefwr neu dyst bregus gael ei groesholi gan yr amddiffyniad cyn yr achos llys. Mae'r cynllun ar gael yn Llysoedd y Goron Leeds, Lerpwl a Kingston, ac mae o fudd i blant dan 16 oed ymhlith eraill ac fe'i bwriadwyd i wella profiad y dioddefwr neu dyst trwy sicrhau eu bod yn rhoi tystiolaeth mor gynnar â phosibl. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gyflwyno trefniadau o'r fath ar draws Cymru a Lloegr, yn amodol ar ganlyniadau'r cynlluniau treialu.

Y dioddefwyr a thystion sy'n gymwys i gael y croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw yw'r rhai sydd:

- dan 16 oed ar adeg y gwrandawiad;
- yn dioddef o gyflwr meddyliol yn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983;
- ag amhariad arwyddocaol ar eu deallusrwydd a'u gallu cymdeithasol;
- ag anabledd corfforol neu anhwylder corfforol sy'n debygol o leihau ansawdd eu tystiolaeth.

Credir y bydd y camau yn arbennig o ddefnyddiol i ddioddefwyr troseddau rhywiol sy'n aml yn cael croesholi yn brofiad sy'n peri gofid. Mae'r syniad o wneud hyn mewn amgylchedd tawelach, mwy cyfyngedig yn rhywbeth allai helpu. Byddai'r recordiad hefyd yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl wedi'r drosedd honedig a byddai'n cael ei ddangos fel tystiolaeth mewn achosion, sy'n lleihau'r straen a'r trawma i ddioddefwyr ifanc neu fregus.

**Dioddefwr bregus**

- Carcharwyd dyn 64 mlwydd oed, a ymosododd yn rhywiol ar rywun yn ei harddegau yn ei gar, am 14 mis. Roedd wedi bod yn ffrind teuluol i'r ferch 18 oed a'i theulu. Fe'i rhybuddiwyd i gadw draw oddi wrthi ar ôl negeseuon anaddas ar Facebook, ond fe welodd y ferch a chynnig lifft iddi. Roedd y fenyw ifanc yn fregus gan fod ganddi anawsterau dysgu. Fe wnaeth ei chanmol, a'i hannog i yfed potel o alcopop, yna fe wnaeth ei chyffwrdd mewn modd rhywiol. Fe'i rhoddwyd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw am ddeng mlynedd.

**Targedu ar y rhyngrwyd**

- Dedfrydwyd dyn i garchar am naw mlynedd am gyfres o gyhuddiadau, a ddeilliodd o ymchwiliad a gychwynnwyd gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ffederal (FBI) yn Efrog Newydd. Roedd y diffynnydd wedi defnyddio gwefan a ddefnyddir gan y rhai sy'n creu ffantasïau am weithredoedd rhywiol a threisgar amrywiol, gan gynnwys canibaliaeth. Ar ôl dod yn ffrind i ddefnyddiwr ar y safle, yr oedd yn credu mai merch 14 mlwydd oed oedd hi, trefnodd i'w chyfarfod gyda'r bwriad o gyflawni trosedd rywiol arni yn ystod neu ar ôl y cyfarfod hwnnw. Fe'i collfarnwyd gan reithgor o geisio cyfarfod plentyn yn dilyn gwastrodi rhywiol. Deilliai'r cyhuddiad o ymchwiliad gan yr FBI i gyfathrebiadau ar y Rhyngrwyd am dreisio, lladd a chanibaleiddio menywod, gydag un o'r cyfeiriadau e-bost a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad hwnnw yn cael ei olrhain yn ôl i'r diffynnydd.

# Priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac FGM

## Priodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd

Ystyrir perfformiad dan y gyfundrefn sicrwydd ansawdd VAWG gan yr Ardaloedd a'u hadrodd i'r DPP a gweithredir i gywiro pan fydd angen. Llumanir achosion fel priodas dan orfod neu drais ar sail anrhydedd.

### Priodas dan Orfod[83]

Mae'r data isod yn cynnwys pob achos a lumanwyd fel 'priodas dan orfod' ac nid y rhai oedd yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth priodas dan orfod newydd a gyflwynwyd yn 2014 yn unig.

**Tabl 7:** **Erlyniadau priodas dan orfod a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 20 | 48.8% | 23 | 54.8% | 29 | 70.7% | 32 | 71.1% | 29 | 63.0% |
| Aflwyddiannus | 21 | 51.2% | 19 | 45.2% | 12 | 29.3% | 13 | 28.9% | 17 | 37.0% |
| **Cyfanswm** | **41** | | **42** | | **41** | | **45** | | **46** | |

Cododd nifer yr atgyfeiriadau priodas dan orfod (FM) gan yr heddlu i 82 yn 2014-15 o 67 yn 2013-14. Cyhuddwyd 48 (58.5% o'r rhain yn atgyfeiriadau), y nifer uchaf erioed i'w gofnodi ond gostyngiad bychan yn y gyfran mewn cymhariaeth â 2013-14.

Cododd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 i 46 o 45 yn 2013-14, y nifer uchaf erioed. Roedd 63% yn llwyddiannus, gostyngiad o 71% yn 2013-14. Gostyngodd erlyniadau a derfynwyd o 41.5% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11, i 21.7% yn 2014-15.

**Gweithio mewn partneriaeth**

- Cymerodd CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr ran mewn Cynhadledd Priodas dan Orfod Genedlaethol a drefnwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Swydd Derby, i gefnogi'r ddeddfwriaeth priodasau dan orfod newydd.

## Deddfwriaeth priodas dan orfod

Daeth trosedd benodol o briodas dan orfod dan a121 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 i rym ym Mehefin 2014. Cyn

[83] Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.

cyflwyno'r drosedd newydd, roedd erlynyddion yn ymdrin ag achosion priodas dan orfod gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth oedd yn bodoli fel treisio, troseddau rhywiol, carcharu ar gam, herwgipio a throseddau cam-drin pan oedd hyn yn nodwedd o'r troseddu. Mae'r drosedd benodol newydd o briodas dan orfod yn drosedd arall i erlynyddion ei defnyddio. Roedd y gollfarn gyntaf dan y ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru. Mae erlynyddion yn cael eu hannog i ystyried defnyddio'r drosedd priodas dan orfod newydd.

**Erlyniad cyntaf dan y drosedd priodas dan orfod newydd**

- Dedfrydwyd diffynnydd i 16 mlynedd o garchar dan y ddeddfwriaeth priodas dan orfod newydd. Roedd wedi treisio a bygwth y ddioddefwraig am dros chwe mis yn 2014, pan oedd wedi cytuno i briodi dyn arall trwy briodas a drefnwyd ymlaen llaw. Roedd wedi boddi'r ddioddefwraig â negeseuon testun, wedi dwyn ei ffôn symudol ac wedi bygwth y byddai'n trefnu i'w lladd hi, ei theulu a'i chariad os na fyddai'n cytuno i'w briodi ef neu os byddai'n dweud wrth unrhyw un. Fe wnaeth hefyd fygwth rhoi ffotograffau a recordiadau fideo o'r achwynydd a'i theulu yn cael cawod ar y rhyngrwyd. Honnir hefyd bod y diffynnydd wedi tanseilio priodas yr achwynydd trwy honni mai ef oedd cariad yr achwynydd ar y wefan rwydweithio gymdeithasol Facebook, gan nodi ei fod yn hoyw – nad oedd yn wir. Yn y pendraw fe'i gorfodwyd hi i'w briodi ef yn groes i'w hewyllys mewn gweithred o ddwywreiciaeth ar ei ran ef. Plediodd y diffynnydd yn euog i droseddau eraill gan gynnwys pedwar cyfrif o dreisio, un o ddwywreiciaeth ac un o sbecian.

Mae'r drosedd newydd o FM yn berthnasol i unigolyn sy'n gorfodi unigolyn yn fwriadol i'w briodi, gan gredu nad yw'r unigolyn arall yn cydsynio, neu unigolyn sy'n twyllo rhywun i fynd dramor ar gyfer y diben penodol o'i orfodi i briodi. Cyflawnir trosedd os bydd y briodas dan orfod yn digwydd neu beidio. Mae hon yn drosedd 'naill ffordd neu'r llall'[84] gydag uchafswm cosb ar dditiad o saith mlynedd o garchar, neu ddirwy, neu'r ddau. Yn y llys ynadon, mae'r uchafswm statudol yn berthnasol.

Yn ychwanegol at y drosedd priodas dan orfod newydd, cyflwynwyd torri Gorchymyn Diogelu Priodas dan Orfod (FMPO). Rhwymedi sifil yw hwn a gyhoeddwyd dan Deddf FM (Diogeliad Sifil) 2007. Mae'n cynnig diogeliad i ddioddefwr rhag pob seremoni sifil neu grefyddol, trwy wahardd yr ymatebwr/wyr eu hunain, neu trwy annog neu gytuno gydag unrhyw unigolyn o gwbl, rhag llunio unrhyw gytundebau yng nghyswllt dyweddïad neu briodas. Gall FMPO gynnwys gwaharddiadau, cyfyngiadau neu ofynion ac unrhyw amodau arall o fath y mae'r llys yn ystyried eu bod yn addas ar gyfer diben y gorchymyn. Gall dioddefwr, unigolyn sy'n cael caniatâd y llys i wneud cais am orchymyn ar ran y dioddefwr, trydydd parti perthnasol neu gan y llys o'i ddewis ei hun wneud cais am FMPO. Mae torri FMPO yn awr yn drosedd (y naill ffordd a'r llall) ac mae iddi gosb uchaf ar dditiad o bum mlynedd o garchar, neu ddirwy, neu'r ddau. Yn y llys ynadon, mae'r uchafswm statudol o chwe mis o garchar a/neu ddirwy yn berthnasol. Roedd yr erlyniadau troseddol cyntaf am dorri FMPO yng

[84] Mewn trosedd 'naill ffordd neu'r llall' gall achos gael ei brofi yn y llys ynadon neu Lys y Goron.

Ngogledd Orllewin Lloegr, mewn un achos collfarnwyd dau riant ac mae achos arall ar y gweill hefyd.

## Trais ar sail anrhydedd

Mae’r data isod yn ymwneud â phob achos a lumanwyd fel ‘trais ar sail anrhydedd’.

**Tabl 8: Erlyniadau trais ar sail anrhydedd a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 121 | 51.7% | 86 | 50.0% | 126 | 63.0% | 123 | 59.7% | 129 | 57.3% |
| Aflwyddiannus | 113 | 48.3% | 86 | 50.0% | 74 | 37.0% | 83 | 40.3% | 96 | 42.7% |
| **Cyfanswm** | **234** | | **172** | | **200** | | **206** | | **225** | |

Cododd y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu o droseddau yn ymwneud â thrais ar sail anrhydedd (HBV) i 251 yn 2014-15 o 240 yn 2013-14. Cyhuddwyd 157 (62.5% o’r rhain yn atgyfeiriadau); rhywbeth yn debyg i’r nifer y llynedd (158).

Erlynwyd 225 o ddiffynyddion, cynnydd o 206 y llynedd, gyda 129 o gollfarnau, yr uchaf erioed. Collfarnwyd 57.3% o erlyniadau, gostyngiad o 2.4ppt o 2013-14. Gostyngodd erlyniadau a derfynwyd o 40.6% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11, i 29.8% yn 2014-15. Mewn achosion HBV roedd cynnydd mewn deilliannau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr (o 35% yn 2013-14 i 46% yn 2014-15).

Yr Ardaloedd wnaeth erlyn y nifer fwyaf o erlyniadau FM a HBV oedd Dwyrain Canolbarth Lloegr, Llundain, Gogledd Orllewin Lloegr, Tafwys a Chiltern, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber.

**Trais ar Sail Anrhydedd**

- Dedfrydwyd dyn 44 mlwydd oed i dair blynedd o garchar am gynllwynio i achosi niwed corfforol gwirioneddol. Ymosodwyd yn dreisgar ar y dioddefwr gan ddau ddyn a’i adael yn anymwybodol ar y palmant wrth iddynt ffoi mewn car oedd yn aros gerllaw. Nid oedd y dynion a gyflawnodd yr ymosodiad wedi cael eu hadnabod ond roedd y diffynnydd wedi trefnu’r ymosodiad hwn am nad oedd yn cymeradwyo perthynas y dioddefwr â’i nith, a chredai bod hynny’n dwyn cywilydd a

# Arferion da Ardaloedd

Mae nifer o Ardaloedd wedi dangos arferion da ar briodas dan orfod a thrais ar sail urddas ac mae rhai Ardaloedd wedi cynnal mentrau lleol.

**Gweithio mewn partneriaeth**

- Chwaraeodd CPS Gogledd Orllewin Lloegr ran amlwg yng nghynhadledd UNICEF y Deyrnas Unedig yng Ngorffennaf 2014 ar FGM/HBV/Priodas dan orfod ym Manceinion.
- Cymerodd cynrychiolwyr y CPS yn Ne Orllewin Lloegr ran mewn cynadleddau cenedlaethol a rhanbarthol a gweithio'n glos gyda phartneriaid o'r sector gwirfoddol.
- Trefnwyd cynhadledd ranbarthol gan PCC De Swydd Efrog 'Protecting the Vulnerable – Unreported Crime' yn canolbwyntio ar HBV, FM a FGM.
- Daeth dros gant a hanner o bobl i gynhadledd yn Swydd Hertford ym Mehefin 2014, i godi ymwybyddiaeth o Briodas Dan Orfod, Trais ar Sail Anrhydedd, ac Anffurfio Organau Rhywiol Menywod (FGM).

## Cyfarwyddyd Cyfreithiol

Mae Cyfarwyddyd Cyfreithiol y CPS a'r modwl hyfforddi e-Ddysgu ar FM a HBV wedi eu hadnewyddu yn ystod haf 2014, i gynnwys y drosedd newydd o FM a gwneud torri FMPO yn drosedd. Mae'r CPS yn parhau i fod ag erlynyddion FM arbenigol sydd wedi'u hyfforddi mewn camau i wella diogelwch dioddefwyr a'u gallu i roi tystiolaeth. Mae'r CPS hefyd yn parhau i lumanu erlyniadau achosion FM ac ystyrir perfformiad dan y gyfundrefn sicrwydd ansawdd VAWG gan yr Ardaloedd a rhoddir adroddiad arnynt i'r DPP a gweithredir i gywiro pan fydd angen. Llumanir achosion FM a HBV ac maent yn cael eu monitro i ymdrin â gwelliannau mewn erlyniadau.

## Hyfforddiant

I sicrhau bod gan yr erlynyddion y sgiliau ar gyfer y gwaith, cyflwynodd y CPS a'r heddlu ar y cyd nifer o weithdai ar FM, HBV a FGM i'r heddlu ac erlynyddion ac roeddent yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r drosedd FM trwy gydol 2014.

Yn ychwanegol, roedd rhaglen hyfforddi e-ddysgu i erlynyddion yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth FM newydd, cefnogi dioddefwyr HBV ac FM trwy gydol y broses gyfreithiol a sicrhau yr hysbysir y dioddefwyr am gynnydd yr achos.

**Priodas dan Orfod**

- Carcharwyd dyn o Swydd Gaerlŷr am ymosodiad a allai beryglu bywyd ar gwpl ifanc. Cafodd ei ddedfrydu i 23 mlynedd o garchar. Ymosododd ar y cwpl ifanc oedd wedi ffoi o Lundain i ddianc rhag y briodas dan orfod rhwng y fenyw ifanc a'r diffynnydd. Yn yr un achos llys, collfarnwyd tad y fenyw ifanc am ymosodiad cyffredin am roi ei ddwylo am wddf ei ferch cyn iddi ffoi o'u cartref teuluol. Derbyniodd ryddhad amodol am yr ymosodiad, gan iddo fod wedi treulio tri mis ar remand cyn hynny. Dioddefodd y ddau ddioddefwr anafiadau difrifol iawn ac roedd y digwyddiad wedi peri trawma sylweddol iddynt.

# FGM

Rhoddodd y DPP dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Materion Cartref ar FGM a roddodd adroddiad yng Ngorffennaf 2014. Cyfrannodd y CPS at ymateb y llywodraeth a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2014.

Yn ystod 2014-15 mae'r CPS wedi cyflawni'r Cynlluniau Gweithredu FGM a gyhoeddwyd yn 2012 a 2013. Bu'r CPS yn gweithio'n glos gyda'r heddlu, adrannau eraill y llywodraeth a sefydliadau trydydd sector i ddynodi sut y gellir cymryd camau effeithiol i gynyddu ymwybyddiaeth o FGM; gwella'r adrodd arno a chryfhau ymchwilio i arwain at erlyniadau.

Datblygodd y Gynhadledd Merched yng Ngorffennaf 2014 gamau i wella ymateb y CPS a'r heddlu i FGM trwy roi hyfforddiant. Cyflwynwyd hyfforddiant FGM ar y cyd i bob llu heddlu ac ardal CPS rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2014.

Daeth yr achos llys yn yr erlyniad cyntaf am FGM yng Nghymru a Lloegr i ben yn Chwefror 2015; cafwyd y ddau ddiffynnydd yn ddieuog. Cynhaliwyd adolygiad ar ôl yr achos ar 25 Chwefror; bydd y gwersi a ddysgwyd yn sail i gyfarwyddyd yn y dyfodol. Arweiniodd hefyd at gyfarfodydd rhwng y DPP a Choleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynaecolegwyr i roi sail i well cyfarwyddyd i ymarferwyr meddygol.

Cynhaliwyd digwyddiadau Gweinidogol am FGM yn Chwefror 2015 i nodi Diwrnod Goddef Dim FGM. Cynhaliwyd Cynhadledd Goddef Dim FGM Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn Llundain, a bu'r Twrnai Cyffredinol yno. Soniodd y DPP am waith y CPS.

## Protocolau lleol

Cytunodd yr holl Ardaloedd CPS ar brotocolau lleol gyda'u lluoedd heddlu lleol yn sefydlu'r trefniadau ar gyfer ymchwilio ac erlyn FGM yn lleol. Roedd y protocolau hefyd yn amlinellu sut y byddant yn codi ymwybyddiaeth trwy ddigwyddiadau cymunedol lleol.

Penodwyd erlynyddion arweiniol ar gyfer pob Ardal CPS ac maent yn cymryd rhan mewn gwaith ymlyniad cymunedol gydag arweinwyr cymunedol perthnasol i addysgu

ac atal FGM yn y lle cyntaf. Mae'r diweddaraf am y ffordd y mae pob Ardal CPS yn cyflawni hyn yn cael eu rhoi trwy alwadau cynhadledd misol rhwng y DPP a'r CCP.

## Deddfwriaeth

Un o'r camau allweddol o'r cynlluniau gweithredu a gyhoeddwyd oedd adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol. Trwy gydweithio clos rhwng y CPS a'r heddlu, yn archwilio achosion y derbyniwyd adroddiad amdanynt ond pan na ellid erlyn, datblygwyd cynigion i gryfhau'r ddeddfwriaeth. Ysgrifennodd y DPP at Weinidogion yn 2014 gan nodi meysydd lle gellid diwygio'r gyfraith ar FGM. Roedd hyn yn cynnwys ymestyn cwmpas troseddau tu allan i ffiniau'r wlad hon fel bod y rhai sydd â statws preswylio dros dro yn y Deyrnas Unedig yn cael eu cynnwys; gan sicrhau y bydd dioddefwyr FGM yn ddienw am oes o'r adeg pan wneir honiad, i annog dioddefwyr i ddod ymlaen i roi adroddiad; rhoi dyletswydd gadarnhaol ar weithwyr proffesiynol meddygol/gofal iechyd i roi adroddiad am achosion o FGM neu pan fydd risg o FGM; a chynnig trosedd newydd o atebolrwydd rhiant, gan roi dyletswydd bositif ar rieni neu ofalwyr i atal eu plentyn rhag cael ei anffurfio gan rywun arall neu ar gymhelliad rhywun arall. Datblygwyd y cynnig ar gyfer y drosedd hon o atebolrwydd rhiant yn dilyn ymchwil i ddynodi arfer da mewn awdurdodaethau eraill ac fe'i hamlygwyd fel trosedd effeithiol yn Sbaen; roedd llawer o'r achosion a atgyfeiriwyd at y CPS pan na ellid erlyn yn cynnwys elfen lle'r oedd y rhieni wedi cytuno ond nad oeddynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer troseddau FGM. Mae'r Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, a dderbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Mawrth 2015, yn cyflwyno'r holl ddarpariaethau hyn. Cam arall a gynigiwyd oedd cyflwyno rhwymedi cyfraith sifil (gorchymyn diogelu FGM) i roi dioddefwr posibl dan ofal y llys. Cyflwynwyd hyn hefyd trwy gyfrwng diwygiad i'r Ddeddf Troseddau Difrifol.

**Gweithio mewn partneriaeth yn lleol**

- Yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr cynhaliwyd cyfarfod gydag asiantaethau cefnogi FGM i sefydlu Fforwm FGM Gogledd Ddwyrain Lloegr. Lluniwyd rhestr o asiantaethau cefnogi ar gyfer y CPS.

- Roedd CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr yn rhan o Gynhadledd Amlasiantaethol Birmingham yn erbyn Anffurfio Organau Rhywiol Menywod a diwrnod proffesiynol i ymarferwyr Heddlu Swydd Stafford a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

- Trefnodd CPS Mersi a Swydd Caer stondin wybodaeth ar y cyd gyda Bydwraig FGM yn Ysbyty Merched Lerpwl ar gyfer Diwrnod Goddef Dim FGM a fwriadwyd i godi ymwybyddiaeth a chwalu chwedlau.

- Bu CPS Cymru yn gweithio gyda'r gwasanaeth iechyd i ddarparu hyfforddiant FGM i feddygon a nyrsys dan hyfforddiant.

- Yn Ne Orllewin Lloegr, bu'r CPS yn gweithio gyda phartneriaid lleol mewn cynadleddau cenedlaethol a rhanbarthol.

# Cam-drin plant

Llumanir pob achos o gam-drin plant[85]; gyda'r rhai pan fydd cam-drin rhywiol ar blant (CSA) yn cael eu dynodi yn ôl unrhyw drosedd rywiol a lumanir fel cam-drin plant[86]. Cododd y nifer o atgyfeiriadau cam-drin plant gan yr heddlu i 12,840 yn 2014-15 – cynnydd o 1,653 o atgyfeiriadau (14.8%) o 11,187 yn 2013-14. Nododd Deuddeng ardal bod cynnydd yn y nifer a atgyfeiriwyd.

Cyhuddwyd 8,696, cynnydd yn y nifer o 965 diffynnydd, o 7,731 yn 2013-14 (cynnydd o 12.5%). Cyhuddwyd 67.7% o'r atgyfeiriadau hyn, gostyngiad bychan o 69.1% yn 2013-14; ond y nifer uchaf erioed. Nododd deg Ardal gynnydd mewn niferoedd[87] a nododd pump ohonynt gynnydd yn y gyfran[88] o ddiffynyddion a gyhuddwyd.

Cyrhaeddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 10,045 - cynnydd o 2,047 o ddiffynyddion (25.6%) ers 2013-14, gan gyrraedd y nifer uchaf erioed. Roedd cynnydd yn nifer y deilliannau llwyddiannus yn yr achosion cam-drin plant yn gyffredinol i 7,469 yn 2014-15 o 6,096 yn 2013-14 – y nifer uchaf erioed a chynnydd o 22.5%. Roedd 74.4% o ddeilliannau llwyddiannus yn 2014-15 gan ostwng o 76.2% yn 2013-14.

Yn 2014-15 dim ond 17 o erlyniadau lladdiad cam-drin plant a welwyd[89], gostyngiad o 35 yn 2013-14, gyda deilliannau llwyddiannus ar 58.8%.[90] Roedd cynnydd yn y nifer o erlyniadau cam-drin plant yn erbyn y person (o 2,383 i 3,192 – y nifer uchaf erioed); gyda deilliannau llwyddiannus yn gostwng o 72.4% i 71.3%, o gymharu â 2013-14; mewn cymhariaeth â'r nifer uchaf erioed. Cynyddodd yr erlyniadau troseddau rhywiol cam-drin plant[91] a gwblhawyd yn 2014-15 (o 4,371 i 5,387) – cynnydd mewn niferoedd o 23.2%. Cynyddodd y deilliannau llwyddiannus o 3,344 i 3,975, y nifer uchaf erioed eto a chynnydd o 18.9%, ond bu gostyngiad yn y gyfradd gollfarnu o 76.5% i 73.8%.

Mae Tablau 9a-9d yn rhoi mwy o fanylion.

**Tabl 9a: Erlyniadau cam-drin plant - Lladdiad**

| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 33 | 82.5% | 24 | 88.9% | 15 | 88.2% | 22 | 73.3% | 32 | 91.4% | 10 | 58.8% |
| Aflwyddiannus | 7 | 17.5% | 3 | 11.1% | 2 | 11.8% | 8 | 26.7% | 3 | 8.6% | 7 | 41.2% |
| **Cyfanswm** | **40** | | **27** | | **17** | | **30** | | **35** | | **17** | |

[85] Cytunwyd ar ddiffiniad y CPS o "gam-drin plant" ym Mawrth 2010.
[86] Gweler yr Eirfa am ddiffiniad o gam-drin plant.
[87] Gwelodd pob ardal ar wahân i Lundain, Gogledd Ddwyrain Lloegr a Gogledd Orllewin Lloegr gynnydd yn niferoedd y diffynyddion a gyhuddwyd.
[88] Dwyrain Canolbarth Lloegr; Llundain, Mersi Swydd Caer; De Ddwyrain Lloegr a Thafwys a Chiltern
[89] Gweler yr eirfa am ddiffiniadau.
[90] Dylid bod yn ofalus gyda chanrannau pan fydd nifer yr achosion mor isel
[91] Mae gwybodaeth ar gael o'r System Rheoli Achosion [CMS] i ddangos y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd, wedi eu llumanu fel cam-drin plant, a'r rhai pan ddosbarthwyd y brif drosedd fel trosedd rywiol.

**Tabl 9b:** **Erlyniadau cam-drin plant – Troseddau yn erbyn yr unigolyn**

| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Collfarnau | 1,896 | 72.4% | 2,186 | 74.0% | 1,835 | 71.4% | 1,642 | 74.0% | 1,725 | 72.4% | 2,277 | 71.3% |
| Aflwyddiannus | 723 | 27.6% | 767 | 26.0% | 734 | 28.6% | 578 | 26.0% | 658 | 27.6% | 915 | 28.7% |
| **Cyfanswm** | **2,619** | | **2,953** | | **2,569** | | **2,220** | | **2,383** | | **3,192** | |

**Tabl 9c:** **Erlyniadau cam-drin plant – Troseddau Rhywiol**

| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Collfarnau | 3,133 | 75.7% | 3,551 | 74.1% | 3,530 | 75.8% | 3,070 | 75.8% | 3,344 | 76.5% | 3,975 | 73.8% |
| Aflwyddiannus | 1,004 | 24.3% | 1,243 | 25.9% | 1,125 | 24.2% | 981 | 24.2% | 1,027 | 23.5% | 1,412 | 26.2% |
| **Cyfanswm** | **4,137** | | **4,794** | | **4,655** | | **4,051** | | **4,371** | | **5,387** | |

**Tabl 9d:** **Erlyniadau cam-drin plant – Cyfanswm cam-drin plant**

| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Collfarnau | 6,043 | 74.8% | 6,855 | 74.2% | 6,444 | 75.1% | 5,755 | 76.1% | 6,096 | 76.2% | 7,469 | 74.4% |
| Aflwyddiannus | 2,036 | 25.2% | 2,380 | 25.8% | 2,137 | 24.9% | 1,803 | 23.9% | 1,902 | 23.8% | 2,576 | 25.6% |
| **Cyfanswm** | **8,079** | | **9,235** | | **8,581** | | **7,558** | | **7,998** | | **10,045** | |

Dynion oedd y diffynyddion mewn 76% o erlyniadau lladdiad; 75% o droseddau yn erbyn yr unigolyn a 98% o droseddau rhywiol.

**Arfer da:**

- Mae arweinydd Cam-fanteisio Rhywiol ar Blant Ardal Gogledd Orllewin Lloegr yn rhan o dîm Operation Phoenix ac Operation Doublet – ymchwiliad Heddlu ar raddfa fawr i rai dan amheuaeth am “wastrodi” yn Rochdale.

- Mae Uned Achosion Cymhleth Gogledd Orllewin Lloegr yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer achosion cam-fanteisio rhywiol ar blant o’r fath, yn arbennig y rhai sy’n cynnwys sefydliadau, pobl amlwg, a gangiau/grwpiau cyfundrefnol.

- Yn Ardal Tafwys a Chiltern, cynhaliwyd Adolygiad Achos Difrifol ar Operation Bullfinch i gael canfod arfer da.

## Gweithredu trawslywodraethol ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae gwaith y CPS ar gam-drin rhywiol ar blant yn rhan o ymdrech ehangach ar draws y Llywodraeth i ymateb i drais rhywiol yn erbyn plant a phobl fregus. Yn dilyn achosion Savile, sefydlodd Y Swyddfa Gartref Grŵp Cenedlaethol Trais Rhywiol yn Erbyn Plant a Phobl Fregus (SVAVC). Cyhoeddir cynllun gweithredu wedi ei adnewyddu yn fuan ac mae'n debygol o roi sylw i ddefnyddio gwrandawiadau rheolau sylfaenol, sydd yn awr yn cael eu cynnwys yn y Rheolau Gweithdrefn Droseddol diwygiedig i'w cyhoeddi yn Ebrill 2015. Mae'r CPS yn aelod o'r Grŵp.

Ym Mawrth 2015, sefydlodd y Swyddfa Gartref Grŵp Cyfarwyddwyr CSA sy'n edrych ar greu strategaeth i'r system gyfan drawslywodraethol. Mae'r adrannau sy'n cyfrannu yn cynnwys y CPS, MOJ, y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg, yr Adran Iechyd a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Comisiynodd y grŵp waith ym mhob adran, gyda'r tri phrif faes sy'n cael pwyslais canlynol:

- Crynhoi ymchwil i ddangos beth sy'n gweithio ar draws y sbectrwm o rai sy'n cam-drin a'u dioddefwyr - i atal cam-drin, cynyddu gwytnwch ac atal y tramgwyddwyr;
- Mapio'r system ar draws iechyd, llywodraeth leol, gwasanaethau plant, addysg, y sector gwirfoddol, yr heddlu, erlynyddion a'r system cyfiawnder troseddol. Ceisio dynodi costau a lifrau ar bob cam;
- Beth ellid ei wneud i greu peiriant canolog i gynhyrchu newid diriaethol gan ganolbwyntio ar leihau cam-drin a chefnogi dioddefwyr a'u teuluoedd.

Mae hyn i gyd yn cael ei wneud i helpu i ddeall y mannau ymyrryd allweddol, costau a'r nifer o achosion cam-drin plant. Daeth dyheadau clir cyffredin i'r golwg o'r gwaith hwn hyd yn hyn: gan roi mwy o bwyslais ar ymyrryd yn uwch i fyny – atal cam-drin cyn i'r niwed gael ei wneud; defnyddio dull amlasiantaethol, amlddisgyblaeth ar bob lefel; ymdrechion diflino i wella ansawdd arferion rheng flaen; a chasglu ein tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio trwy ymchwil, dadansoddi, cynlluniau treialu, gwerthusiadau.

Penodwyd Ustus Lowell Goddard yn gadeirydd ar yr Ymchwiliad Panel Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Sefydlwyd yr Ymchwiliad statudol i Gam-drin Plant yn Rhywiol i ystyried a yw cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill nad ydynt yn perthyn i'r wladwriaeth wedi cymryd eu dyletswydd gofal i ddiogelu plant rhag cam-drin rhywiol yng Nghymru a Lloegr o ddifrif ac i ba raddau.

**Achosion heb fod yn ddiweddar a gyflawnwyd gan droseddwyr mewn sefyllfa lle'r oedd ymddiriedaeth ynddynt**

- Dedfrydwyd cyn offeiriad o Swydd Derby i 15 mlynedd o garchar am dros ugain o droseddau rhywiol yn erbyn pobl ifanc rhwng chwech ac 14 mlwydd oed rhwng 1957 a 1991.Roedd wedi ffoi pan oedd ar fechnïaeth yn 1991 ond cafwyd hyd iddo yn Tenerife ac yn 2013 fe'i arestiwyd ar Warant Arestio Ewropeaidd i wynebu cyhuddiadau gan dri o'i ddioddefwyr. O ganlyniad i'r newyddion yma, daeth pedwar o ddioddefwyr eraill ymlaen i roi adroddiadau am droseddau yr oedd wedi eu cyflawni yn eu herbyn hwy. Llediodd yn euog wythnos cyn yr achos llys oedd yn golygu nad oedd ei ddioddefwyr yn gorfod mynd trwy'r profiad o ddisgrifio'r hyn a ddigwyddodd iddynt yn y llys.

- Cynyddwyd dedfryd athro dawns a ddedfrydwyd i orchymyn cymunedol am droseddau cam-drin plant i bedair blynedd o garchar yn y Llys Apêl. Roedd y diffynnydd wedi gwastrodi a chael perthynas rywiol â dau ddisgybl 15 oed. Roedd y CPS yn ystyried bod y ddedfryd wreiddiol yn rhy ysgafn a chyfeiriwyd yr achos at y Twrnai Cyffredinol i'w ystyried, a'i cyfeiriodd i'r Llys Apêl.

## Deddfwriaeth

Bu nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth yn ystod 2014-15 sydd o ddefnydd mewn achosion cam-drin plant ac fe ddiweddarwyd y cyfarwyddyd.

- **Gwastrodi:** Mae Adran 36 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 yn diwygio adran 15 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (y drosedd o gyfarfod plentyn yn dilyn gwastrodi ac ati) fel bod y nifer o droeon cychwynnol y mae'n rhaid i'r diffynnydd gyfarfod neu gyfathrebu â'r plentyn dan sylw er mwyn cyflawni'r drosedd yn gostwng o ddau i un – mewn grym o 13 Ebrill 2015.

**Gwastrodi a Chyfryngau Cymdeithasol**

- Dedfrydwyd dau ddyn a bachgen 17 mlwydd oed yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr am eu rhan wrth wastrodi a cham-drin chwech o ferched bregus dan oed. Carcharwyd y ddau ddiffynnydd am wyth mlynedd. Cafwyd y diffynnydd ifanc yn euog o ddau gyfrif o drefnu neu hwyluso cyflawni trosedd rywiol ar blentyn. Fe'i dedfrydwyd i dair blynedd mewn sefydliad troseddwyr ifanc. Rhoddwyd SOPO i'r tri.

- **Cam-fanteisio yn rhywiol ar blant:** O 3 Mai 2015 mae Adran 68(1) i (6) o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 yn diwygio Deddf Troseddau Rhywiol 2003 i gael gwared ar gyfeiriadau at 'buteindra plant' a 'pornograffi plant'. Cyfeirir at y termau yma yn nheitlau adrannau 48 (achosi neu gymell puteindra neu bornograffi plant), 49 (rheoli putain sy'n blentyn neu blentyn sy'n cymryd rhan mewn pornograffi) a 50 (trefnu neu hwyluso puteindra neu bornograffi plant) o

Ddeddf 2003, ac yng nghorff yr adrannau hynny (a hefyd adran 51, sy'n cynnwys diffiniadau). Mae'r diwygiadau i'r adrannau hynny yn disodli'r termau hyn gyda chyfeiriadau at gam-fanteisio rhywiol ar blant, ond nid ydynt yn newid cwmpas y troseddau perthnasol. Bwriedir i'r newidiadau i'r termau a ddefnyddir adlewyrchu dealltwriaeth fodern o sefyllfa plant sy'n ymwneud â gweithgareddau o'r fath. Ond nid ydynt yn newid yr ymddygiad y mae'r troseddau yn berthnasol iddo, sy'n parhau yn recordio delwedd anweddus o unigolyn neu gynnig neu ddarparu gwasanaethau rhywiol i unigolyn arall am daliad neu addewid o daliad.

- **Camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol:** Mae Adrannau 20-25 ac Atodlen 4 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 yn creu dwy drosedd newydd o gamdriniaeth neu esgeulustod bwriadol sy'n berthnasol i weithwyr gofal unigol (a20) a sefydliadau sy'n darparu gofal (a21).
- **Creulondeb ac esgeulustod:** O 3 Mai 2015: Mae Adran 66 Deddf Troseddau Difrifol 2015 yn egluro, diweddaru a moderneiddio peth o iaith adran 1 Deddf 1933. Effaith y newidiadau a wnaed i adran 66 yw ei gwneud yn hollol glir:
    - bod creulondeb sy'n achosi dioddefaint neu niwed seicolegol neu gorfforol yn cael ei gynnwys;
    - y gall yr ymddygiad sy'n angenrheidiol i sefydlu rhan camdriniaeth y drosedd beidio â bod yn gorfforol (er enghraifft cyfnod parhaus o ymddygiad heb fod yn gorfforol, gan gynnwys, er enghraifft, cadw ar ei ben ei hun, gwaradwyddo neu fwlio, os yw'n debygol o achosi dioddefaint diangen neu niwed i iechyd);
    - bod unigolyn yn cael ei ystyried yn un sydd wedi esgeuluso plentyn os bydd dan ddylanwad "cyffuriau a waherddir" ac mae'n berthnasol ble bynnag yr oedd yr oedolyn a'r plentyn yn cysgu (er enghraifft os oedd yn cysgu ar soffa).

**Cam-drin plant yn rhywiol a chreulondeb at blant**

- Carcharwyd dyn am 12 mlynedd a hanner am gyflawni troseddau rhywiol a chreulondeb at blentyn. Roedd chwech o ddioddefwyr a'r cyfan dan 16 oed ar adeg y troseddau; roedd y troseddau wedi eu cyflawni dros 20 mlynedd ac roedd y creulondeb at blant sadistig yn cynnwys curo cyson ac wedi digwydd dros ddeng mlynedd. Llwyddodd yr erlynydd i herio'r 'chwedlau a stereoteipiau' sy'n cael eu defnyddio yn aml mewn achosion cam-drin rhywiol o ran yr oedi hir cyn rhoi adroddiad, rhoi adroddiad am bobl eraill sy'n cam-drin ond nid yr un hwn, a pheidio â rhoi adroddiad pan oedd cyfle ar gael.

Mae'r CPS hefyd yn cefnogi cyflwyno deddfwriaeth i wneud negeseuon rhywiol rhwng oedolion a phlant yn drosedd a bu mewn cysylltiad cyson â'r NSPCC cyn i'r drosedd gael ei chyflwyno fel diwygiad i'r Mesur Troseddau Difrifol. Mae amgyffrediad bod bwlch yn y gyfraith bresennol gan nad yw'n cael ei ystyried yn drosedd pan fydd oedolyn yn anfon neges rywiol at blentyn ar hyn o bryd. Byddai'r drosedd newydd arfaethedig yn galluogi ymyrraeth ynghynt. Derbyniodd 'Cyfathrebiadau Rhywiol gyda Phlentyn' y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Mawrth 2015 ond nid oes dyddiad cychwyn iddo wrth i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi.

O Ebrill 2015, bydd darpariaeth newydd a ychwanegwyd at y Rheolau Gweithdrefn Droseddol yn galluogi erlynyddion i wneud cais i farnwr am ‘Wrandawiad Rheolau Sylfaenol’. Byddai’r math newydd hwn o wrandawiad Llys y Goron yn ymdrin â’r ffordd fwyaf effeithiol o holi tyst; byddai’n pennu pa gwestiynau fyddai’n cael eu gofyn wrth groesholi a byddai’n sicrhau na fyddai holi maith ac ailadroddus mewn sefyllfa lle mae nifer o ddiffynyddion yn digwydd. Byddai barnwyr hefyd yn gallu gosod cyfyngiadau amser ar hyd y croesholi.

## Rhwydwaith Cam-Drin Plant Yn Rhywiol

Yn 2013-14 sefydlwyd rhwydwaith genedlaethol o erlynyddion CSA i rannu arfer da. Rhoddwyd hyfforddiant i’r holl erlynyddion arbenigol ar y gwersi oedd yn deillio o achos Jimmy Savile.

## Protocolau

Mae’r Protocol a Model Arferion Da ar ddatgelu gwybodaeth mewn achosion honedig o gam-drin plant (yn rhywiol a heb fod yn rhywiol) a chyfarwyddiadau gwrandawiadau cysylltiedig (troseddol a gofal) hefyd wedi eu cyhoeddi. Bellach disgwylir i’r heddlu ac erlynyddion rannu a cheisio gwybodaeth briodol am bobl ifanc fregus gydag a gan y gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a llysoedd teulu yn unol â’r protocol a model arferion da. Mae Ardaloedd CPS lleol yn y broses o lofnodi protocolau gydag asiantaethau lleol a’r farnwriaeth deuluol.

Fel rhan o’r Cynllun Tystion Ifanc dan arweiniad y farnwriaeth mae’r CPS, ers 1 Ebrill 2013, wedi llumanu pob achos sy’n ymwneud â thystion 10 oed ac iau, gan ganiatáu iddynt gael blaenoriaeth, yn arbennig pan fydd dadl am yr achos. Cytunwyd ar brotocol newydd rhwng yr heddlu, HMCTS a’r CPS i gyflymu’r achosion yma ac mae mewn grym o Ebrill 2015 - *Young Witness Initiative Protocol*.

## Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol

Lansiodd yr heddlu a’r DPP y Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol ym Mehefin 2013. Ffurfiwyd y Panel yn sgil datgeliadau achos Jimmy Savile ac wrth ymateb i nifer o achosion amlwg a dynnodd sylw at yr angen i’r heddlu ac erlynyddion sicrhau dull ar sail gwybodaeth a ffres o ymdrin ag ymchwiliadau ac erlyn troseddau rhywiol. Mae’r Panel yn cynnig cyfle i ganiatáu adolygiad o droseddau lle gall penderfyniadau blaenorol gael eu hailasesu mewn cymhariaeth â’r cyfarwyddyd presennol.

Ers creu’r Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol Cenedlaethol ar 11 Mehefin 2013 derbyniodd ysgrifenyddiaeth y panel 70 o atgyfeiriadau hyd at 31 Mawrth 2014. O 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015, derbyniwyd 22 o atgyfeiriadau pellach.

**Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant**

- Dedfrydwyd dau ddyn am droseddau rhywiol yn erbyn merch yn ei harddegau, ac roedd dyn arall wedi ei gael yn euog o fwriadu gwyrdroi cwrs cyfiawnder am fygwth saethu'r ddioddefwraig petai'n siarad â'r heddlu. Arestiwyd y dynion i gyd fel rhan o ymchwiliad Operation Bullfinch sy'n parhau i gam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Dedfrydwyd un i dair blynedd o garchar a dau i 18 mis o garchar. Roedd hyn flwyddyn ar ôl i saith o ddynion gael eu barnu'n euog o ddwsinau o droseddau yn erbyn menywod yn Rhydychen.

- Collfarnwyd pump o ddynion a bachgen yn ei arddegau am droseddau cam-fanteisio yn rhywiol ar blant yn Ardal Tafwys a Chiltern. Digwyddodd y troseddau rhwng 2009 a 2014 – targedwyd dioddefwyr rhwng 12-16 oed yn weithredol a'u gwastrodi trwy gyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook a WhatsApp. Ar ôl ffurfio cyfeillgarwch, roedd perthynas rywiol yn cael ei sefydlu cyn i'r merched gael eu defnyddio a'u cam-drin i roi boddhad rhywiol i'r diffynyddion ac eraill. Arweiniodd hyn at ddedfrydau o garchar o rhwng tair a naw mlynedd yr un.

## Panel Eiriolwyr Erlyn

Mae cylch gorchwyl eiriolwyr trais ar y Panel Eiriolwyr wedi ei ymestyn i gynnwys troseddau rhyw eraill yn ymwneud â phlant, sy'n golygu y bydd eiriolwyr sy'n erlyn pob achos CSA yn awr yn arbenigwyr ac wedi cael hyfforddiant addas.

Mewn achosion mwy cymhleth, cynhaliwyd cyfarfodydd adolygu achos ar y cyd yn achlysurol rhwng y CPS a'r heddlu, er mwyn gwirio cynnydd a rhoi cyngor ar faterion yr achos.

## Hyfforddiant

Rhoddwyd hyfforddiant penodol ar erlyn achosion CSA i gyfreithwyr arbenigol o ran y gwersi yn deillio o achos Savile a chanllawiau cyfreithiol y CSA. Datblygodd y CPS gwrs e-ddysgu newydd oedd yn orfodol i bob cyfreithiwr ac erlynyddion cysylltiol. Yn ychwanegol, datblygwyd ail fodwl e-ddysgu yn ystod 2014 wedi ei anelu yn benodol at erlynyddion arbenigol sy'n ymdrin â'r mathau hyn o achosion.

## Gangiau

Yn ystod 2014-15, mae'r CPS wedi gweithio yn barhaus gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Gartref yng nghyswllt rhaglen waith Dirwyn Trais Gangiau ac Ieuenctid i Ben (EGYV), yn arbennig o ran materion yn ymwneud â menywod, merched a gangiau.

Mae llawer o'r ardaloedd EGYV yn Llundain, ac mae CPS Llundain yn gweithio yn rhagweithiol i ymateb i droseddau gangiau. Datblygodd CPS Llundain, gyda chydweithwyr o Fwrdd Lleihau Troseddu Llundain, 'becyn o gamau' i wella'r ffordd y mae achosion troseddau gangiau yn cael eu trin. Mae'r pecyn o gamau yn cynnwys

defnyddio Datganiad Effaith Cymunedol ar ffurf templed, er mwyn rhoi gwybodaeth i'r llys sy'n dedfrydu am effaith troseddau'r gang ar y gymuned.

Mae'r cyfarwyddyd CPS diwygiedig i erlynyddion am gam-drin domestig, yn cynnwys gwell cyfarwyddyd ar faterion yn ymwneud â rhai yn eu harddegau sydd mewn perthynas lle mae cam-drin a rhai yn eu harddegau sydd mewn gangiau. Mae'r cyfarwyddyd diwygiedig ar gael ar wefan y CPS.

**Arfer da:**

- Trefnodd Mersi a Swydd Caer gyfres o ddyddiau cynllunio gweithredu ym mis Gorffennaf ac Awst 2014 mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Lerpwl a grŵp menter gymdeithasol sy'n gweithio yn uniongyrchol gyda menywod ifanc y mae gangiau yn effeithio arnynt.

# Masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth

Ers Ebrill 2010, mae'r CPS wedi llumanu a monitro pob achos o fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth[92]. Cododd y nifer o atgyfeiriadau masnachu mewn pobl gan yr heddlu i 234 yn 2014-15 – cynnydd o 36.8% ers 2013-14; y nifer uchaf erioed. Cyhuddwyd 195 (83.3% o'r atgyfeiriadau hyn), cynnydd o 92 o'r flwyddyn ddiwethaf (89.3%) a hefyd y nifer uchaf erioed.

Cyrhaeddodd y nifer o erlyniadau masnachu pobl a gwblhawyd yn 2014-15 gyfanswm o 187 - gostyngiad o 226 yn 2013-14. Ond efallai bod nifer o ddiffynyddion i bob achos a gall hyn amrywio, o achos i achos, yn flynyddol. Roedd gostyngiad hefyd yn nifer y deilliannau masnachu pobl llwyddiannus o 155 yn 2013-14 i 130 yn 2014-15 (68.6% yn 2013-14 cododd i 69.5% yn 2014-15).

**Tabl 10: Erlyniadau masnachu mewn pobl a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 73 | 70.9% | 94 | 66.2% | 99 | 71.2% | 155 | 68.6% | 130 | 69.5% |
| Aflwyddiannus | 30 | 29.1% | 48 | 33.8% | 40 | 28.8% | 71 | 31.4% | 57 | 30.5% |
| **Cyfanswm** | **103** | | **142** | | **139** | | **226** | | **187** | |

Roedd 74.3% o'r holl ddiffynyddion y cofnodwyd eu rhyw yn ddynion[93]. Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed. Cofnodwyd 192 o ddioddefwyr, gyda 79% yn cofnodi eu rhyw, nad yw'n ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Erlynir troseddwyr a'u collfarnu am droseddau difrifol ar wahân i fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth, pan fydd cysylltiadau gyda masnachu yn cynnwys, er enghraifft, cynllwyn i fasnachu, carcharu ar gam, rheoli puteindra ar gyfer enillion a threisio. Gall troseddau eraill fod yn fwy cywir i'r troseddu gwirioneddol, fod â chosbau mwy difrifol a bod yn llawer haws i'w hesbonio – yn arbennig i reithgorau.

## Gwaith trawslywodraethol

Mae'r Grŵp Rhyngadrannol Gweinidogol ar Gaethwasiaeth Fodern yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn arwain ar waith ar draws y llywodraeth am fasnachu pobl a chaethwasiaeth.

---

[92] Ni chedwir data troseddau yn ôl diffynnydd na chanlyniad; felly sefydlwyd lluman i ddarparu data deilliant yn ôl diffynnydd. Y troseddau wedi eu llumanu yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Adran 57, 58 a 59) a Deddf Lloches a Mewnfudo [Triniaeth Hawlwyr] 2004 Adran 4(1), (2) a (3) a Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 adran 71. Gweler y diffiniad wedi ei ddiweddaru yn yr eirfa. Gosodir y lluman ar gychwyn yr achos; bydd y lluman hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng yn dilyn hynny. Os yw achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylai'r achos gael ei lumanu ar y cam hwnnw. Fel gydag unrhyw system fonitro gymharol newydd, mae angen amser iddi sefydlu er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio yn gywir. Felly mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data yn ofalus. O Ionawr 2013, roedd cywirdeb llumanu yn cael ei wirio'n chwarterol.
[93] Cofnodwyd rhyw mewn 99% o achosion; ond sylwer bod y niferoedd yn isel.

Cyfrannodd y CPS at strategaeth gaethwasiaeth fodern y llywodraeth a lansiwyd ym mis Tachwedd 2014. Mae'r ymrwymiadau yn y strategaeth yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau partner ar draws y system cyfiawnder troseddol yma a thramor i atal masnachu trwy amharu ac erlid trwy erlyn trwy:

- sicrhau bod pob cyfle i gynnwys strategaethau gwahanol yn cael eu hystyried gan erlynyddion mewn achosion masnachu, ac wrth gynghori ar orfodi'r gyfraith mewn ymchwiliadau cyn cyhuddo;
- gweithio mewn gwledydd sy'n cael blaenoriaeth gydag awdurdodau gorfodi'r gyfraith i ganolbwyntio ar ddynodi ac atafaelu asedau tramor; a
- chysylltu gyda'r Asiantaeth Troseddau Genedlaethol, i ddynodi rhwystrau a gwella'r cymorth cyfreithiol i'n gilydd.

Mae'r CPS hefyd yn cyfrannu at waith sylweddol trawslywodraethol i ymateb i Gam-fanteisio Rhywiol ar Blant – sy'n cynnwys masnachu mewnol - trwy waith y Grŵp Trais Rhywiol yn erbyn Plant a Phobl Fregus, dan arweiniad Gweinidog y Swyddfa Gartref. Un llinyn penodol y mae'r CPS yn arwain arno yw lleihau'r gofid i ddioddefwyr trais rhywiol a sicrhau bod cefnogaeth addas ar gael mewn camau troseddol.

Mae'r CPS yn gefnogol i'r adolygiad o'r Peirianwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) i wella'r modd y mae dioddefwyr masnachu a chaethwasiaeth yn cael eu hadnabod a'u cefnogi. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar y canfyddiadau ym mis Tachwedd 2014. Bu'r CPS yn gweithio gyda rhanddeiliaid wrth ystyried sut y gall y rhain gael eu gweithredu ac wrth ddatblygu cynlluniau treialu sydd i ddigwydd yn hwyrach yn 2015.

## Deddfwriaeth

Bu'r CPS yn cydweithio'n glos gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill i ddatblygu cymalau yn Neddf Caethwasiaeth Fodern 2015, y rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol iddi ym Mawrth 2015. Mae'r CPS yn gefnogol i'r Ddeddf sy'n dwyn yr holl droseddau masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth at ei gilydd; gan eu bod, cyn hyn, dan 3 Deddf wahanol. Cyflwynodd y DPP ddatganiadau ar brofiad ymarferol y CPS i roi gwybodaeth ar gyfer datblygu'r troseddau.

Mae'r cymalau eraill yn y Ddeddf a fydd yn effeithio ar ymchwilio ac erlyn yn cynnwys cynyddu'r cosbau i'r rhai a gollfarnwyd am droseddau masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth i garchar am oes a chreu rhagor o bwerau i gefnogi'r heddlu wrth iddynt ymchwilio. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys cyflwyno gorchmynion risg ac atal, yn gosod gwaharddiadau ar weithgareddau sy'n cael eu hamau o fod yn rhai troseddol ac yn cynyddu'r pwerau i orfodi'r gyfraith. Mae'n creu'r rôl o Gomisiynydd Gwrth-gaethwasiaeth annibynnol a fydd yn ganolog i annog arfer da wrth atal, darganfod, ymchwilio ac erlyn y troseddau hyn. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd yn barod rhwng y Comisiynydd, y DPP ac eraill yn y CPS i drafod sut orau i gefnogi cyflawni ei ymrwymiadau.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno nifer o gymalau ar gyfer diogelu dioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys amddiffyniad statudol i ddioddefwyr masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth a fydd yn rhedeg yn gyfochrog â pholisi'r CPS ar beidio ag erlyn dioddefwyr sydd wedi cyflawni trosedd o ganlyniad i'w sefyllfa o ran masnachu. Mae'r camau arbennig wedi cael eu hestyn i'r holl ddioddefwyr masnachu a chaethwasiaeth. Tanlinellodd y dystiolaeth gan erlynyddion bod masnachwyr mewn

pobl yn targedu'r rhai sydd yn fwyfwy bregus, fel anawsterau dysgu neu anabledd corfforol, sy'n heriol wrth gyflwyno achosion. Mae'r dioddefwyr yma yn allweddol i lwyddiant erlyniad ac mae angen mwy o feddwl creadigol sy'n mynd tu hwnt i gamau arbennig. Mae'r CPS yn gweithio gyda swyddogion o adrannau eraill y llywodraeth ar wella mynediad at Gamau Arbennig a chynlluniau eraill i gynorthwyo dioddefwyr masnachu mewn camau cyfreithiol. Yn ychwanegol bydd y cyfarwyddyd newydd ar ddioddefwyr VAWG bregus a amlinellir yn adran Treisio'r adroddiad o ddefnydd.

## Cyfarwyddyd a hyfforddiant cyfreithiol

Cyflwynodd y CPS hyfforddiant wyneb yn wyneb i erlynyddion ar draws Cymru a Lloegr ar fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern, wedi ei dargedu ar erlynyddion sy'n gweithio yn ein hadrannau arbenigol sydd fwyaf tebygol o ymdrin â'r achosion hyn. Datblygir sesiynau hyfforddi eraill o ran darpariaethau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Mae'r CPS yn gweithio gyda'r arweinydd plismona cenedlaethol a'r Coleg Plismona ar ddatblygu cyfarwyddyd a digwyddiadau hyfforddi i gefnogi'r Ddeddf pan ddaw i rym. Rhoddodd y DPP ymrwymiad hefyd i weithio'n glos gyda'r heddlu i gynyddu'r nifer o ymchwiliadau ac erlyniadau am droseddau nad ydynt yn gam-fanteisio rhywiol ar blant trwy gyfarwyddyd ar y cyd.

**Arfer da:**

- Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Mewn Pobl oedd thema cynhadledd Cymdeithas Genedlaethol Erlynyddion y Goron Du.
- Yng Nghymru, mae'r CPS yn gweithio gydag Uwch Ddarlithwyr ar gyrsiau Gweithwyr Cymdeithasol i ychwanegu sesiynau masnachu mewn pobl at fodylau myfyrwyr – gobeithir y bydd hyn yn cael ei raeadru trwy Gymru.
- Bu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Gorllewin Canolbarth Lloegr yn gweithio gyda'r CPS i gynnal Cynhadledd Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant a Masnachu Mewn Pobl.

## Gwaith ar draws y Deyrnas Unedig

Cyfarfu'r DPP gyda phenaethiaid gwasanaethau erlyn o Ogledd Iwerddon, yr Alban ac Iwerddon yn Hydref 2014 i drafod sut y gallwn gydweithio yn nes at ein gilydd trwy ymrwymiadau traws-awdurdodaeth y cytunwyd arnynt, i roi gwell ymateb yn y Deyrnas Unedig. Mae'r ymrwymiadau yma yn cael eu datblygu yn barod a'u symud ymlaen trwy gyfarfodydd cyson. Mae'r holl awdurdodaethau yn gweithredu deddfwriaeth newydd sy'n rhoi cyfle i gyfnewid a rhannu arfer da wrth ddatblygu polisi.

## Gwaith rhyngwladol

Mae gwaith rhyngwladol y CPS yn cynyddu'r gallu yn llawer o'r gwledydd lle mae dioddefwyr masnachu mewn pobl yn cael eu recriwtio, trwy Adran Ryngwladol y CPS (ID). Mae ID yn gweithio gydag ymchwilwyr ac erlynyddion yn y gwledydd hynny i wella'r ffordd y maent yn ymchwilio ac erlyn; i amharu ar fasnachwyr mewn pobl ar y ddaear a chryfhau gweithrediad y gyfraith yn eu gwledydd. Llwyddwyd i wella'r adfer asedau trwy gynyddu'r gallu mewn gwledydd eraill trwy gysylltu Timau Adfer Asedau Rhanbarthol (RART) gydag ymchwilwyr masnachu mewn pobl yn well i wella ymchwiliadau ariannol.

**Masnachu rhywiol**

- Dedfrydwyd dau ddiffynnydd a gyfaddefodd i fasnachu dwy o fenywod i Gymru at ddibenion puteindra i 15 mis a dwy flynedd a saith mis yn eu tro. Llwyddodd y menywod a fasnachwyd i gael cefnogaeth gan elusen sy'n cynnig cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin, ac yn y pen draw arweiniodd hynny at gyfraniad yr heddlu.

# Puteindra

Yn 2014-15 cychwynnwyd 83 erlyniad am reoli puteindra o gymharu â 58 yn y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd y nifer o erlyniadau a gychwynnwyd am blagio ochr y stryd ychydig o 237 o droseddau a erlynwyd yn 2013-14 i 227 yn 2014-15. Cynyddodd y troseddau cadw puteindy. Gostyngodd yr erlyniadau am droseddau hysbysebu puteindra (trwy roi cardiau mewn mannau cyhoeddus) o 91 yn 2013-14 i 37.

Mae Tabl 11 yn amlinellu data'r CPS a gasglwyd ar buteindra[94].

**Tabl 11: Erlyniadau Troseddau VAWG: troseddau puteindra**

| | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **A Rheoli puteindra** | | | | | | |
| Deddf troseddau rhywiol (2003) {52} | 11 | 24 | 19 | 11 | 9 | 25 |
| Deddf troseddau rhywiol (2003) {53} | 87 | 87 | 61 | 39 | 49 | 58 |
| **CYFANSWM** | **98** | **111** | **80** | **50** | **58** | **83** |

| B Cadw puteindai | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf troseddau rhywiol 1956 {33} | 39 | 48 | 35 | 31 | 19 | 19 |
| Deddf troseddau rhywiol 1956 {33A o ac Atodlen 2} | 70 | 106 | 92 | 54 | 31 | 72 |
| Deddf troseddau rhywiol 1956 {34} | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 1 |
| Deddf troseddau rhywiol {35(1)} | 2 | 3 | 3 | 1 | 2 | 2 |
| Deddf troseddau rhywiol {36} | 3 | 0 | 2 | 1 | 3 | 2 |
| Deddf troseddau rhywiol 2003 { 53A }[95] | 0 | 40 | 7 | 8 | 0 | 3 |
| **CYFANSWM** | **114** | **197** | **140** | **97** | **55** | **99** |

[94] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynnwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd, deilliant na data cydraddoldeb. Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau System Gwybodaeth Reoli yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes awgrym o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad a brofwyd yn y diwedd. Daeth y data hwn o system TG weinyddol y CPS sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn cynnwys camgymeriadau posib wrth lwytho data a'i brosesu. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.
[95] Yn 2010 gwnaeth trosedd newydd A53A y Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 y rhai sy'n addo talu am wasanaethau rhywiol gan butain sy'n amodol i orfodaeth neu gam-fanteisio yn droseddwyr.

| C Plagio pen stryd | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf troseddau rhywiol 1985 {1(1)(a)} | 375 | 161 | 7 | 2 | 0 | 0 |
| Deddf troseddau rhywiol 1985 {1(1)(b)} | 21 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Deddf troseddau rhywiol 1985 {2(1)} | 23 | 38 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Deddf troseddau rhywiol 2003 {51A}[96] | 0 | 123 | 305 | 230 | 237 | 227 |
| **CYFANSWM** | **419** | **327** | **314** | **233** | **237** | **227** |

| D Hysbysebu puteindra | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 {46} | 457 | 331 | 149 | 80 | 91 | 37 |

Newidiodd y dull cyffredinol o ymdrin â phuteindra dros y blynyddoedd diwethaf, gan anelu at ymateb heb ymateb cyfiawnder troseddol, wedi ei seilio ar ddiogelu polisïau a chanolbwyntio ar y rhai sy'n rheoli puteindra. Gwelwyd cynnydd bychan yn y flwyddyn ddiwethaf o'r rhai sy'n rheoli puteindra.

Fel yr adroddwyd y llynedd, ers 2011, gall yr heddlu gyhuddo amrywiaeth o droseddau heb gyfeirio'r achos at y CPS. Gallai hyn fod wedi effeithio ar y nifer o achosion a erlynwyd, ynghyd â newidiadau mewn blaenoriaethau plismona, yn dilyn newidiadau o ran adnoddau a newidiadau yn y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn Ebrill 2010.

Mae'r dull yn pwysleisio fod unrhyw un sydd wedi ei gam-drin a cham-fanteisio arno trwy buteindra angen help a chefnogaeth o ran iechyd a lles er mwyn gadael puteindra. Yn ogystal, mae argymhellion i fabwysiadu ymagwedd partneriaeth gydag awdurdodau lleol a sefydliadau statudol ac anstatudol eraill i ganfod ffyrdd allan o buteindra yn hytrach na'u cyhuddo.

Mae troseddau hysbysebu puteindra (trwy osod cardiau mewn mannau cyhoeddus) yn droseddau y gall yr heddlu benderfynu cyhuddo rhywun ohonynt neu gyhoeddi rhybudd, heb eu hatgyfeirio at y CPS. Yn unol â'r polisi diogelu, pan fydd grŵp o fenywod yn gweithio mewn puteindra oddi ar y stryd gyda morwyn nad yw'n rheoli na'n cam-fanteisio ar y menywod, yr arfer cyhuddo yw nad yw er lles y cyhoedd i erlyn.

Mae'r drosedd dan adran 53A y Ddeddf Troseddau Rhyw (talu am wasanaethau rhywiol putain) yn un pan all yr heddlu benderfynu a ydynt am gyhuddo neu gyhoeddi rhybudd. Er ein bod yn parhau yn gefnogol i'r bwriad sydd tu ôl i gyflwyno'r drosedd hon i ddiogelu'r rhai sy'n ymwneud â phuteindra rhag niwed a cham-fanteisio, mae heriau yn parhau o ran sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu yn effeithiol. Adlewyrchir hyn yn y nifer isel (ac sy'n gostwng) o droseddau.

[96] O ran erlyniadau, cyflwynwyd trosedd newydd A51A Deddf Troseddau Rhyw 2003 yn 2010 i unigolyn ar y stryd neu mewn man cyhoeddus sy'n ceisio caffael gwasanaeth rhywiol fel putain gan rywun arall. Mae hyn yn cynnwys unigolyn mewn cerbyd modur yn y stryd neu mewn lle cyhoeddus, a chymerodd le troseddau plagio pen stryd a loetran cyson dan A1 a 2 SOA 1985.

## Materion cenedlaethol

Y mae'n dal yn arferiad defnyddio Gorchmynion Ymgysylltu â Chefnogaeth (ESO) yn gynyddol fel dedfryd wahanol i ddirwy i'r rhai sy'n cael collfarn am loetran neu lithio yn y stryd yn gyson. Mae'r gorchmynion hyn yn delio ag achosion gwreiddiol puteindra ar gyfer pob gweithiwr rhyw ac yn canfod ffyrdd iddynt adael byd puteindra.

**Puteindra:**

- Carcharwyd dyn am bedair blynedd, rhoddwyd SOPO iddo am ddeng mlynedd, ac fe'i rhoddwyd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw am oes ar ôl pledio yn euog i weithred rywiol gyda phlentyn. Roedd ei droseddau yn cynnwys 19 cyfrif o weithred rywiol gyda phlentyn, un cyfrif o achosi neu gymell puteindra neu bornograffi plant ac un cyfrif o dynnu ffotograffau anweddus o blentyn. Roedd y troseddau yn ymwneud â thair merch yn eu harddegau.

# Pornograffi ac anweddustra

Yn 2014-15 cafwyd cynnydd o 1,207 mewn troseddau o ddelweddau cam-drin plant o 20,373 yn 2013-14 i 21,580; roedd hyn yn cynnwys cychwyn erlyniadau ar gyfer 16,129 o droseddau o gam-fanteisio rhywiol ar blant trwy ffotograffau; yn cynnwys cynnydd mewn erlyniadau am y drosedd fwyaf diweddar o feddiant o ddelwedd waharddedig o blentyn o 534 i 631.

Mae Tabl 12 yn amlinellu data'r CPS ar droseddau delweddau cam-drin plant yn gyffredinol[97].

**Tabl 12: Troseddau cam-drin plant trwy ddelweddau**

| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (160) – Meddu ar ffotograff anweddus o blentyn | 4,117 | 4,543 | 3,885 | 3,849 | 4,265 | 4,820 |
| Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (62) – Meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn [98] | 0 | 21 | 179 | 394 | 534 | 631 |
| **Cam-fanteisio rhywiol ar blant trwy ffotograffau ac o'r rhain:** | | | | | | |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(a)) – Tynnu ffotograff anweddus o blentyn | 13,652 | 15,768 | 14,570 | 13,596 | 14,443 | 14,518 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(b)) – Dosbarthu ffotograff anweddus o blentyn | 804 | 670 | 695 | 803 | 907 | 1,318 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(c)) – Dangos ffotograffau anweddus o blant | 137 | 410 | 333 | 294 | 224 | 292 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1(1)(d)) – cyhoeddi hysbyseb sy'n debygol o awgrymu bod yr hysbysebwr yn dosbarthu neu'n dangos ffotograffau anweddus o blant | 2 | 3 | 1 | 1 | 0 | 1 |

Yn ystod 2014–15, erlynwyd nifer o droseddau pornograffi ac eraill a chyrhaeddodd o leiaf un wrandawiad mewn Llysoedd Ynadon dan nifer o Ddeddfau[99]. Mae cofnodion y CPS yn nodi faint o achosion a gychwynnwyd dan y troseddau unigol, ond heb

---

[97] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, pan gychwynnwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd na deilliant. Troseddau a gofnodwyd yn y Bydysawd Troseddau yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes awgrym o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad a brofwyd yn y diwedd. Daeth y data hwn o system TG weinyddol y CPS sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn cynnwys camgymeriadau posib wrth lwytho data a'i brosesu. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

[98] Dan Adran 62 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 ('y Ddeddf') crëwyd trosedd newydd, sef meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn, un y mae modd ei chosbi gyda hyd at dair blynedd o garchar. Daeth y drosedd hon i rym ar 6 Ebrill 2010.

[99] Deddf Amddiffyn Plant 1978; Deddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959; Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988; Deddf (Rheoli) Arddangosiadau Cyhoeddus Anweddus 1981; Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008; Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a Deddf Cyfathrebu 2003.

wahaniaethu rhwng ‘cyfathrebiadau’n ymwneud â phornograffi’ a’r rheiny nad ydynt. Yn gyffredinol roedd cynnydd o ychydig dan 6% o ddelweddau cam-drin plant a chynnydd o 21.4% o droseddau anwedduster.

**Cysylltiadau rhwng cam-drin plant yn rhywiol a delweddau anweddus**

- Carcharwyd cyn-ddirprwy brifathro a gofalwr maeth am 14 mlynedd am droseddau rhyw gan gynnwys trefnu i drosedd rhyw plentyn gael ei chyflawni, talu am wasanaethau rhywiol plentyn, dosbarthu, tynnu a gwneud delweddau anweddus o blant, ymosodiad rhywiol ar blentyn a sarhau gwedduster cyhoeddus. Bydd yn treulio cyfnod o ddeng mlynedd yn y carchar, gyda phedair blynedd arall ar drwydded. Fe’i rhoddwyd ar y gofrestr troseddwyr rhyw am oes a’i wahardd rhag gweithio gyda phlant fyth eto.

- Carcharwyd dyn am dair blynedd ar ôl lawrlwytho delweddau anweddus o blant i’w gyfrifiadur a rhoddwyd SOPO deng mlynedd iddo a bydd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw am gyfnod amhenodol. Darganfu’r heddlu hefyd ei fod wedi cyflawni gweithredoedd o anweddustra difrifol gyda merch ifanc flynyddoedd ynghynt. Plediodd yn euog i dair trosedd anweddustra gyda phlentyn, meddu ar ffotograffau anweddus o blentyn, a phedair trosedd o wneud ffotograffau anweddus o blentyn. Roedd y ferch ieuengaf tua thair blwydd oed. Cyfaddefodd hefyd i gyhuddiad arall o feddu delwedd bornograffig eithafol.

- Carcharwyd dyn am ddeng mlynedd am ymosod ar ddwy ferch a meddu miloedd o ddelweddau cam-drin plant ar ei liniaduron, rhai gyda phlant mor ifanc â thair blwydd oed. Ymosododd ar un ferch pan oedd yn saith oed am tua blwyddyn a chyfaddefodd hefyd iddo ymosod ar ferch arall ar un achlysur pan oedd yn un ar ddeg oed yn 1996. Roedd llawer o’r delweddau ar y lefelau mwyaf difrifol. Yn dilyn ei arestio, fe’i rhoddwyd ar fechnïaeth ac atafaelwyd ei gyfrifiaduron. Aeth allan a phrynu gliniadur arall a lawrlwytho rhagor o ddelweddau rhyw o blant. Rhoddwyd SOPO iddo oedd yn cynnwys gwaharddiad ar gysylltu â’r dioddefwr ieuengaf a chael unrhyw gyswllt heb oruchwyliaeth â phlant. Rhaid iddo hefyd lofnodi’r Gofrestr Troseddwyr Rhyw am oes.

Mae Tabl 13 yn amlinellu data’r CPS[100] ar droseddau anweddustra[101]. Roedd cynnydd yn y troseddau anweddustra a erlynwyd o 4,764 i 5,782. Dros y blynyddoedd

[100] Gweler troednodyn 97.
[101] Mae Deddfau Cyhoeddiadau Anweddus (OPA) 1959 a 1964 yn nodi beth yw’r gyfraith yng nghyswllt cyhoeddiadau anweddus. Nodir y prawf am anweddustra yn adran 1(1) Deddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959. Crëwyd y troseddau dan adran 2 OPA 1959 ac mae modd eu cosbi gyda charchariad am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Mae pob deunydd cyhoeddedig yn ddarostyngedig i’r Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus (OPA) 1959. Dan y Ddeddf hon mae’n drosedd cyhoeddi unrhyw erthygl y credir ei bod yn anweddus; sef erthygl y tybia’r llysoedd ei bod yn tueddu i ‘lygru’ unigolyn sy’n debygol o’i gweld, ei chlywed neu ei darllen. Mae adrannau 63 i 67 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 yn ei gwneud yn drosedd i feddu delweddau pornograffig sy’n dangos gweithred sy’n bygwth bywyd rhywun, gweithredoedd sy’n arwain at neu’n debygol o arwain at anaf difrifol i anws, bronnau neu organau cenhedlu rhywun, bwbechni neu gorffgarwch; maent hefyd yn darparu ar gyfer eithrio

diwethaf, gyda'r cynnydd yn y defnydd o dechnoleg a'r rhyngrwyd, erlynwyd mwy o droseddau dan adran 127 y Ddeddf Cyfathrebiadau[102] ac adran 1 y Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988[103] gyda llai o erlyniadau dan y Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus ar gyfer cyhoeddiadau anweddus. Dan a127, yn 2014-15 roedd cynnydd mewn cyfathrebiadau anweddus iawn neu anllad o 41.2% mewn cymhariaeth â gostyngiad bychan o 7.7% o achosi aflonyddwch, anghyfleustra neu bryder diangen i rywun arall. Ar y cyfan cynyddodd y troseddau dan a127 o 19.7% ac a1 o 31%.

Cafwyd cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf yn y nifer o erlyniadau dan yr adrannau newydd, a gyflwynwyd yn Ionawr 2009, yn ymwneud â delweddau pornograffig eithafol, a gyrhaeddodd 1,564 yn 2014-15.

**Tabl 13:** **Troseddau anweddustra**

| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 Adrannau (1 (1)(a) & (1)(b)) - Deunydd anweddus neu dramgwyddus iawn | 899 | 1,273 | 1,301 | 1,250 | 1,210 | 1,586 |
| Deddf cyhoeddiadau anweddus 1959 (2 (1) ) – Cyhoeddiadau anweddus | 82 | 71 | 76 | 34 | 33 | 88 |
| Deddf Cyfathrebiadau 2003 (127 (1)(a), (1)(b) & (3)) Cyfathrebiadau tramgwyddus neu anweddus iawn | 1,315 | 1,869 | 1,924 | 1,909 | 1,190 | 1,680 |
| Deddf Cyfathrebiadau 2003 (127 (2)(a), (2)(b), (2)(c) a (3)) - Achosi blinder, anhwylustod neu bryder diangen i unigolyn arall | 888 | 1,037 | 1,181 | 1,003 | 936 | 864 |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (63 (1), (7)(d) a 67(3)) – Meddu ar ddelweddau pornograffig eithafol[104] | 270 | 1,165 | 1,319 | 1,312 | 1,395 | 1,564 |

## Gwaith trawslywodraethol

Cyfrannodd y CPS at yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ganllawiau troseddau rhywiol y Cyngor Dedfrydu (a ddaeth i rym yn Ebrill 2014) oedd yn cynnwys materion yn ymwneud â delweddau ymosodol.

Mae'r CPS yn cefnogi Cronfa Ddata Delweddau Cam-drin Plant (CAID). Mae CAID yn un gronfa ddata ddiogel o ddelweddau anghyfreithlon o blant, a fydd yn helpu'r heddlu mewn gwahanol rannau o'r wlad i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol ac mae'r CPS yn gweithio gyda'r heddlu i'w gyflwyno yn genedlaethol. Bydd CAID yn

ffilmiau wedi eu dosbarthu ac ati ac yn sefydlu amddiffyniadau a chosbau ar gyfer y drosedd. Daeth y drosedd hon i rym ar 26 Ionawr 2009.

[102] Mae Adran 127 Deddf Cyfathrebu 2003 yn creu trosedd o anfon, 'trwy rwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus, neges neu fater sy'n ffiaidd iawn neu o gymeriad anweddus, aflan neu fygythiol.' Gellir cymhwyso'r drosedd i'r "cyfryngau ehangach" ac mae ganddi elfen o "gyfredbedd", hyd yn oed "amddiffyniad i'r dyfodol" nad ydynt yn amodau mwy rhagnodol deddfwriaeth arall.

[103] Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus yn gwneud anfon llythyr, cyfathrebiad electronig [h.y. e-bost] neu eitem arall anweddus, aflan neu fygythiol i rywun arall yn drosedd.

[104] Dim ond isadran o ddata adran 63 a adroddwyd mewn Adroddiadau Troseddau VAWG blaenorol – mae'r data wedi ei addasu yn yr adroddiad hwn i gynnwys pob trosedd dan Adran 63.

lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn graddio difrifoldeb yr un ddelwedd ar gyfer dibenion dedfrydu dro ar ôl tro.

## Deddfwriaeth newydd

'Pornograffi dial': O 13 Ebrill 2015 mae Adrannau 33-35 ac Atodlen 8 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015, yn creu trosedd newydd o ddatgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol personol heb gydsyniad unigolyn sy'n ymddangos ynddynt gyda'r bwriad o achosi gofid i'r unigolyn hwnnw neu honno. Yn nodweddiadol gall yr amgylchiadau gynnwys cyn-bartner o oedolyn yn uwchlwytho delweddau rhywiol personol iawn o'r dioddefwr ar y rhyngrwyd, i achosi cywilydd neu waradwydd i'r dioddefwr. Gall yr achosion hyn sy'n cynnwys 'pornograffi dial' gael eu hystyried dan y canllawiau cyfryngau cymdeithasol [105]sydd wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r drosedd newydd hon. Mae i'r drosedd uchafswm dedfryd o garchar o ddwy flynedd wrth gael collfarn.

**Pornograffi Dial**

- Dedfrydwyd dyn 18 mlwydd oed i orchymyn cymunedol tair blynedd am flacmelio merch 14 mlwydd oed gyda phornograffi dial a thrwy wneud delweddau anweddus. Rhoddwyd gorchymyn cyrffyw 16 wythnos iddo hefyd, SOPO deng mlynedd a gorchmynnwyd iddo lofnodi'r gofrestr troseddwyr rhyw am bum mlynedd. Roedd wedi cysylltu â'r ddioddefwraig ar Facebook gan ddefnyddio cyfrif ffug. Defnyddiodd ddelweddau o'r ddioddefwraig i'w blacmelio i anfon rhagor o ddelweddau rhywiol, pan wrthododd hi wneud hynny fe wnaeth fygwth eu rhoi ar-lein. Pan wnaeth yr heddlu atafaelu ei gyfrifiadur, daethpwyd o hyd i nifer o ddelweddau anweddus o blant

Mae Adran 32 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 yn diwygio adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 o 13 Ebrill 2015[106]. Mae'r adran A1 MCA newydd yn drosedd naill ffordd neu'r llall ac mae'n cynyddu'r gosb waethaf posibl i 2 flynedd o garchar a/neu ddirwy. Bydd hyn yn caniatáu rhagor o amser i ymchwilio, a bydd cosb fwy difrifol ar gael mewn achosion addas.

'Pornograffi treisio': O 13 Ebrill 2015, mae Adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 yn diwygio'r drosedd o fod â delweddau pornograffig eithafol yn eich meddiant yn adran 63 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008, fel

[105] Mae'r drosedd sy'n groes i a. 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 yn gorgyffwrdd ag a.1 o Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988, a.127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ac a.2 ac a.4 o Ddeddf Aflonyddu 1997.

[106] Mae Adran 1 o Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 yn ei gwneud yn drosedd i unigolyn gyda'r bwriad o achosi gofid neu bryder, i anfon rhai eitemau i unigolyn arall sy'n cyfleu neges anweddus neu sy'n dramgwyddus iawn neu sydd ynddynt eu hunain yn anweddus neu yn dramgwyddus iawn, neu sy'n cyfleu bygythiad neu wybodaeth sy'n ffug ac y mae'r anfonwr yn gwybod neu yn credu ei fod yn ffug. Ar hyn o bryd mae'r drosedd yn un dditiadwy yn unig y gellir ei chosbi gydag uchafswm o 6 mis o garchar neu ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol, neu'r ddau.

bod, yng Nghymru a Lloegr, y drosedd yn gallu cael ei chyflawni trwy fod â delweddau eithafol yn eich meddiant yn darlunio cyfathrach heb gydsyniad a threisio. O 3 Mai 2015: Mae Adran 69 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 yn creu trosedd newydd o fod â llawlyfr pedoffil yn eich meddiant, sydd yn unrhyw eitem sy'n cynnwys cyngor neu gyfarwyddyd am gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys gwastrodi.
Fel y darlunnir yn yr adran cam-drin plant, mae'r CPS yn cefnogi cyflwyno deddfwriaeth i wneud negeseuon rhywiol rhwng oedolion a phlant yn drosedd. Buom mewn cysylltiad cyson â'r NSPCC cyn i'r drosedd gael ei chyflwyno fel diwygiad i'r Mesur Troseddau Difrifol. Mae amgyffrediad bod bwlch yn y gyfraith bresennol gan nad yw'n cael ei ystyried yn drosedd pan fydd oedolyn yn anfon neges rywiol at blentyn ar hyn o bryd. Byddai'r drosedd newydd arfaethedig yn galluogi ymyrraeth ynghynt. Derbyniodd 'Cyfathrebiadau Rhywiol gyda Phlentyn' y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Mawrth 2015 ond nid oes dyddiad cychwyn iddo wrth i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi.

**Ffotograffau anweddus o fabanod a phlant**

- Rhoddwyd dedfryd o garchar estynedig o 14 mlynedd i ddyn a gyflawnodd droseddau rhyw ar fabi o ferch. Fe'i ychwanegwyd at y gofrestr troseddwyr rhyw hefyd a rhoddwyd SOPO iddo. Ymosododd y diffynnydd yn rhywiol ar y plentyn bach iawn a thynnu ffotograff ohono ei hun yn gwneud hynny. Daethpwyd o hyd i'r ffotograffau ar ei gyfrifiadur ymhlith lliaws o bornograffi plant oedd yn peri cymaint o ofid fel bod rhai o'r swyddogion heddlu angen siarad â gwasanaeth cynghori ar ôl ei weld.

- Dedfrydwyd dyn i bum mlynedd o garchar ar ôl pledio'n euog i drefnu neu hwyluso cyflawni trosedd rywiol ar blentyn, gweithred rywiol gyda phlentyn ac wyth trosedd o wneud ffotograffau anweddus o blentyn. Fe'i rhoddwyd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw hefyd gyda SOPO am gyfnod amhenodol. Defnyddiodd y rhyngrwyd i drefnu ac annog eraill, o America yn bennaf, i gam-drin a threisio eu plant eu hunain. Rhoddodd ddelweddau anweddus o blant i ddau ddyn i dalu iddynt am dreisio eu merched eu hunain. Yn ffodus roedd y ddau ddyn yn ymchwilwyr rhyngrwyd cudd, a'u rôl oedd efelychu gweithredoedd y tramgwyddwyr ac felly fe wnaethant ei ddal a chasglu tystiolaeth gref yn ei erbyn.

## Hyfforddiant

Datblygodd y CPS nifer o fodylau e-ddysgu newydd, Erlyn Gwastrodi ar-lein a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol a lansiwyd i erlynyddion yn ystod 2014-15.

# Atodiad 1: Erlyniadau'n ôl Ardal

O 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Dinas Llundain (CLP) a Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r CLP a'r BTP.

### Erlyniadau VAWG yn ôl Ardaloedd CPS

| Trais yn erbyn menywod a merched | 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Cymru** | 5124 | 74.5% | 1754 | 25.5% | 6878 |
| **Dwyreiniol** | 6039 | 80.0% | 1512 | 20.0% | 7551 |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 6025 | 75.2% | 1985 | 24.8% | 8010 |
| **Llundain** | 9417 | 66.0% | 4843 | 34.0% | 14260 |
| **Glannau Mersi a Swydd Caer** | 4303 | 78.5% | 1181 | 21.5% | 5484 |
| **Gogledd Ddwyrain Lloegr** | 4428 | 70.4% | 1862 | 29.6% | 6290 |
| **Gogledd Orllewin Lloegr** | 10899 | 77.8% | 3105 | 22.2% | 14004 |
| **De Ddwyrain Lloegr** | 4327 | 71.1% | 1761 | 28.9% | 6088 |
| **De Orllewin Lloegr** | 4452 | 75.2% | 1469 | 24.8% | 5921 |
| **Tafwys a Chiltern** | 4370 | 70.7% | 1812 | 29.3% | 6182 |
| **Wessex** | 3970 | 71.7% | 1568 | 28.3% | 5538 |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 7608 | 72.0% | 2957 | 28.0% | 10565 |
| **Swydd Efrog a Glannau Humber** | 7811 | 75.6% | 2522 | 24.4% | 10333 |
| **Cyfanswm** | **78773** | **73.5%** | **28331** | **26.5%** | **107104** |

| Trais yn erbyn menywod a merched | Erlyniadau VAWG yn ôl ardaloedd lluoedd heddlu 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Avon a Gwlad yr Haf | 2085 | 74.8% | 704 | 25.2% | 2789 |
| Swydd Bedford | 613 | 69.3% | 271 | 30.7% | 884 |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydain | 261 | 79.6% | 67 | 20.4% | 328 |
| Swydd Caergrawnt | 893 | 79.7% | 228 | 20.3% | 1121 |
| Swydd Caer | 1576 | 80.7% | 378 | 19.3% | 1954 |
| Heddlu Dinas Llundain | 31 | 70.5% | 13 | 29.5% | 44 |
| Cleveland | 985 | 76.7% | 299 | 23.3% | 1284 |
| Cumbria | 814 | 83.9% | 156 | 16.1% | 970 |
| Swydd Derby | 1527 | 76.7% | 463 | 23.3% | 1990 |
| Dyfnaint a Chernyw | 1789 | 75.2% | 590 | 24.8% | 2379 |
| Dorset | 859 | 73.7% | 306 | 26.3% | 1165 |
| Durham | 984 | 76.4% | 304 | 23.6% | 1288 |
| Dyfed Powys | 595 | 72.2% | 229 | 27.8% | 824 |
| Essex | 2679 | 78.9% | 717 | 21.1% | 3396 |
| Swydd Caerloyw | 584 | 76.9% | 175 | 23.1% | 759 |
| Manceinion Fwyaf | 6589 | 77.9% | 1873 | 22.1% | 8462 |
| Gwent | 856 | 79.0% | 228 | 21.0% | 1084 |
| Hampshire | 2364 | 69.9% | 1018 | 30.1% | 3382 |
| Swydd Hertford | 1375 | 76.8% | 416 | 23.2% | 1791 |
| Glannau Humber | 1252 | 82.0% | 275 | 18.0% | 1527 |
| Caint | 1922 | 72.3% | 738 | 27.7% | 2660 |
| Swydd Caerhirfryn | 3488 | 76.2% | 1089 | 23.8% | 4577 |
| Swydd Gaerlŷr | 1179 | 77.3% | 346 | 22.7% | 1525 |
| Swydd Lincoln | 749 | 79.1% | 198 | 20.9% | 947 |
| Glannau Mersi | 2714 | 77.4% | 792 | 22.6% | 3506 |
| Heddlu Metropolitan | 9248 | 65.8% | 4798 | 34.2% | 14046 |
| Norfolk | 1318 | 79.2% | 346 | 20.8% | 1664 |
| Swydd Northampton | 771 | 71.5% | 307 | 28.5% | 1078 |
| Northumbria | 2451 | 66.2% | 1254 | 33.8% | 3705 |
| Gogledd Cymru | 1173 | 76.4% | 363 | 23.6% | 1536 |
| Gogledd Swydd Efrog | 752 | 79.9% | 189 | 20.1% | 941 |
| Swydd Nottingham | 1805 | 73.0% | 668 | 27.0% | 2473 |
| De Cymru | 2495 | 72.8% | 931 | 27.2% | 3426 |
| De Swydd Efrog | 1995 | 74.1% | 698 | 25.9% | 2693 |
| Swydd Stafford | 1387 | 67.9% | 657 | 32.1% | 2044 |
| Suffolk | 1140 | 83.9% | 218 | 16.1% | 1358 |
| Surrey | 842 | 66.5% | 424 | 33.5% | 1266 |
| Sussex | 1546 | 72.4% | 588 | 27.6% | 2134 |
| Dyffryn Tafwys | 2363 | 67.7% | 1126 | 32.3% | 3489 |
| Swydd Warwick | 470 | 79.5% | 121 | 20.5% | 591 |
| Gorllewin Mersia | 1452 | 77.4% | 424 | 22.6% | 1876 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 4285 | 70.9% | 1755 | 29.1% | 6040 |
| Gorllewin Swydd Efrog | 3766 | 73.6% | 1353 | 26.4% | 5119 |
| Wiltshire | 748 | 75.9% | 238 | 24.1% | 986 |
| Cyfanswm | **78770** | **73.5%** | **28331** | **26.5%** | **107101** |

**Erlyniadau DA yn ôl Ardaloedd CPS:**

| Cam-drin Domestig | 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cymru | 4598 | 75.6% | 1488 | 24.4% | 6086 |
| Dwyreiniol | 5349 | 80.6% | 1287 | 19.4% | 6636 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 5287 | 75.0% | 1764 | 25.0% | 7051 |
| Llundain | 7871 | 66.3% | 4006 | 33.7% | 11877 |
| Glannau Mersi a Swydd Caer | 3775 | 78.1% | 1058 | 21.9% | 4833 |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 3934 | 70.7% | 1633 | 29.3% | 5567 |
| Gogledd Orllewin Lloegr | 9854 | 79.0% | 2616 | 21.0% | 12470 |
| De Ddwyrain Lloegr | 3607 | 71.4% | 1442 | 28.6% | 5049 |
| De Orllewin Lloegr | 3819 | 75.5% | 1239 | 24.5% | 5058 |
| Tafwys a Chiltern | 3739 | 70.5% | 1563 | 29.5% | 5302 |
| Wessex | 3420 | 72.4% | 1302 | 27.6% | 4722 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 6643 | 71.6% | 2635 | 28.4% | 9278 |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | 6705 | 75.8% | 2145 | 24.2% | 8850 |
| Cyfanswm | **68601** | **73.9%** | **24178** | **26.1%** | **92779** |

| Cam-drin Domestig | Erlyniadau DA yn ôl ardal llu heddlu2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Avon a Gwlad yr Haf | 1779 | 75.7% | 572 | 24.3% | 2351 |
| Swydd Bedford | 531 | 69.2% | 236 | 30.8% | 767 |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydain | 128 | 81.0% | 30 | 19.0% | 158 |
| Swydd Caergrawnt | 763 | 80.3% | 187 | 19.7% | 950 |
| Swydd Caer | 1391 | 80.1% | 345 | 19.9% | 1736 |
| Heddlu Dinas Llundain | 20 | 90.9% | 2 | 9.1% | 22 |
| Cleveland | 851 | 77.0% | 254 | 23.0% | 1105 |
| Cumbria | 699 | 83.4% | 139 | 16.6% | 838 |
| Swydd Derby | 1331 | 76.3% | 413 | 23.7% | 1744 |
| Dyfnaint a Chernyw | 1544 | 74.8% | 519 | 25.2% | 2063 |
| Dorset | 766 | 74.7% | 259 | 25.3% | 1025 |
| Durham | 872 | 78.1% | 245 | 21.9% | 1117 |
| Dyfed Powys | 533 | 72.3% | 204 | 27.7% | 737 |
| Essex | 2451 | 79.9% | 615 | 20.1% | 3066 |
| Swydd Caerloyw | 502 | 77.3% | 147 | 22.7% | 649 |
| Manceinion Fwyaf | 6007 | 79.4% | 1554 | 20.6% | 7561 |
| Gwent | 769 | 79.8% | 195 | 20.2% | 964 |
| Hampshire | 2036 | 70.6% | 847 | 29.4% | 2883 |
| Swydd Hertford | 1204 | 77.0% | 359 | 23.0% | 1563 |
| Glannau Humber | 1038 | 83.8% | 201 | 16.2% | 1239 |
| Caint | 1604 | 71.8% | 630 | 28.2% | 2234 |
| Swydd Caerhirfryn | 3148 | 77.1% | 936 | 22.9% | 4084 |
| Swydd Gaerlŷr | 1026 | 77.3% | 301 | 22.7% | 1327 |
| Swydd Lincoln | 650 | 78.6% | 177 | 21.4% | 827 |
| Glannau Mersi | 2373 | 77.1% | 703 | 22.9% | 3076 |
| Heddlu Metropolitan | 7797 | 66.1% | 4001 | 33.9% | 11798 |
| Norfolk | 1118 | 79.1% | 296 | 20.9% | 1414 |
| Swydd Northampton | 647 | 71.2% | 262 | 28.8% | 909 |
| Northumbria | 2208 | 66.1% | 1130 | 33.9% | 3338 |
| Gogledd Cymru | 1036 | 78.8% | 279 | 21.2% | 1315 |
| Gogledd Swydd Efrog | 599 | 80.6% | 144 | 19.4% | 743 |
| Swydd Nottingham | 1642 | 73.0% | 608 | 27.0% | 2250 |
| De Cymru | 2254 | 73.6% | 809 | 26.4% | 3063 |
| De Swydd Efrog | 1764 | 74.4% | 608 | 25.6% | 2372 |
| Swydd Stafford | 1215 | **66.9%** | **602** | **33.1%** | 1817 |
| Suffolk | 1009 | 84.3% | 188 | 15.7% | 1197 |
| Surrey | 716 | 67.0% | 352 | 33.0% | 1068 |
| Sussex | 1272 | 73.8% | 451 | 26.2% | 1723 |
| Dyffryn Tafwys | 1992 | 67.3% | 968 | 32.7% | 2960 |
| Swydd Warwick | 396 | 80.0% | 99 | 20.0% | 495 |
| Gorllewin Mersia | 1201 | 76.9% | 360 | 23.1% | 1561 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 3819 | 70.8% | 1574 | 29.2% | 5393 |
| Gorllewin Swydd Efrog | 3274 | 73.4% | 1186 | 26.6% | 4460 |
| Wiltshire | 626 | 76.6% | 191 | 23.4% | 817 |
| Cyfanswm | **68601** | **73.9%** | **24178** | **26.1%** | **92779** |

## Erlyniadau treisio yn ôl Ardal CPS:

| Treisio | 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cymru | 150 | 54.3% | 126 | 45.7% | 276 |
| Dwyreiniol | 165 | 62.0% | 101 | 38.0% | 266 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 186 | 68.6% | 85 | 31.4% | 271 |
| Llundain | 400 | 49.3% | 411 | 50.7% | 811 |
| Glannau Mersi a Swydd Caer | 96 | 67.1% | 47 | 32.9% | 143 |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 108 | 50.5% | 106 | 49.5% | 214 |
| Gogledd Orllewin Lloegr | 295 | 53.1% | 261 | 46.9% | 556 |
| De Ddwyrain Lloegr | 187 | 57.0% | 141 | 43.0% | 328 |
| De Orllewin Lloegr | 166 | 57.8% | 121 | 42.2% | 287 |
| Tafwys a Chiltern | 157 | 59.0% | 109 | 41.0% | 266 |
| Wessex | 90 | 40.7% | 131 | 59.3% | 221 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 263 | 66.1% | 135 | 33.9% | 398 |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | 318 | 63.7% | 181 | 36.3% | 499 |
| Cyfanswm | **2581** | **56.9%** | **1955** | **43.1%** | **4536** |

| Treisio | Erlyniadau treisio yn ôl ardaloedd lluoedd heddlu 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Avon a Gwlad yr Haf | 86 | 54.8% | 71 | 45.2% | 157 |
| Swydd Bedford | 20 | 55.6% | 16 | 44.4% | 36 |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydain | 0 | 0.0% | 1 | 100.0% | 1 |
| Swydd Caergrawnt | 36 | 69.2% | 16 | 30.8% | 52 |
| Swydd Caer | 26 | 70.3% | 11 | 29.7% | 37 |
| Heddlu Dinas Llundain | 2 | 40.0% | 3 | 60.0% | 5 |
| Cleveland | 23 | 47.9% | 25 | 52.1% | 48 |
| Cumbria | 29 | 80.6% | 7 | 19.4% | 36 |
| Swydd Derby | 50 | 69.4% | 22 | 30.6% | 72 |
| Dyfnaint a Chernyw | 59 | 60.2% | 39 | 39.8% | 98 |
| Dorset | 15 | 45.5% | 18 | 54.5% | 33 |
| Durham | 30 | 51.7% | 28 | 48.3% | 58 |
| Dyfed Powys | 13 | 48.1% | 14 | 51.9% | 27 |
| Essex | 54 | 48.6% | 57 | 51.4% | 111 |
| Swydd Caerloyw | 22 | 64.7% | 12 | 35.3% | 34 |
| Manceinion Fwyaf | 168 | 48.3% | 180 | 51.7% | 348 |
| Gwent | 32 | 68.1% | 15 | 31.9% | 47 |
| Hampshire | 50 | 38.5% | 80 | 61.5% | 130 |
| Swydd Hertford | 26 | 47.3% | 29 | 52.7% | 55 |
| Glannau Humber | 64 | 61.5% | 40 | 38.5% | 104 |
| Caint | 81 | 59.6% | 55 | 40.4% | 136 |
| Swydd Caerhirfryn | 100 | 57.1% | 75 | 42.9% | 175 |
| Swydd Gaerlŷr | 32 | 64.0% | 18 | 36.0% | 50 |
| Swydd Lincoln | 24 | 72.7% | 9 | 27.3% | 33 |
| Glannau Mersi | 68 | 66.0% | 35 | 34.0% | 103 |
| Heddlu Metropolitan | 398 | 49.4% | 407 | 50.6% | 805 |
| Norfolk | 40 | 69.0% | 18 | 31.0% | 58 |
| Swydd Northampton | 29 | 69.0% | 13 | 31.0% | 42 |
| Northumbria | 55 | 50.9% | 53 | 49.1% | 108 |
| Gogledd Cymru | 47 | 50.5% | 46 | 49.5% | 93 |
| Gogledd Swydd Efrog | 31 | 62.0% | 19 | 38.0% | 50 |
| Swydd Nottingham | 52 | 69.3% | 23 | 30.7% | 75 |
| De Cymru | 59 | 53.6% | 51 | 46.4% | 110 |
| De Swydd Efrog | 71 | 62.3% | 43 | 37.7% | 114 |
| Swydd Stafford | 33 | 58.9% | 23 | 41.1% | 56 |
| Suffolk | 33 | 78.6% | 9 | 21.4% | 42 |
| Surrey | 28 | 57.1% | 21 | 42.9% | 49 |
| Sussex | 78 | 54.5% | 65 | 45.5% | 143 |
| Dyffryn Tafwys | 112 | 62.9% | 66 | 37.1% | 178 |
| Swydd Warwick | 27 | 71.1% | 11 | 28.9% | 38 |
| Gorllewin Mersia | 63 | 65.6% | 33 | 34.4% | 96 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 140 | 67.0% | 69 | 33.0% | 209 |
| Gorllewin Swydd Efrog | 150 | 66.4% | 76 | 33.6% | 226 |
| Wiltshire | 25 | 43.1% | 33 | 56.9% | 58 |
| Cyfanswm | **2581** | **56.9%** | **1955** | **43.1%** | **4536** |

## Erlyniadau troseddau rhywiol yn ôl Ardal CPS:

| Troseddau Rhywiol | 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cymru | 376 | 72.9% | 140 | 27.1% | 516 |
| Dwyreiniol | 525 | 80.9% | 124 | 19.1% | 649 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 552 | 80.2% | 136 | 19.8% | 688 |
| Llundain | 1146 | 72.9% | 426 | 27.1% | 1572 |
| Glannau Mersi a Swydd Caer | 432 | 85.0% | 76 | 15.0% | 508 |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 386 | 75.8% | 123 | 24.2% | 509 |
| Gogledd Orllewin Lloegr | 750 | 76.7% | 228 | 23.3% | 978 |
| De Ddwyrain Lloegr | 533 | 75.0% | 178 | 25.0% | 711 |
| De Orllewin Lloegr | 467 | 81.1% | 109 | 18.9% | 576 |
| Tafwys a Chiltern | 474 | 77.2% | 140 | 22.8% | 614 |
| Wessex | 460 | 77.3% | 135 | 22.7% | 595 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 702 | 79.0% | 187 | 21.0% | 889 |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | 788 | 80.1% | 196 | 19.9% | 984 |
| Cyfanswm | **7,591** | **77.5%** | **2,198** | **22.5%** | **9,789** |

| Troseddau Rhywiol | Erlyniadau troseddau rhywiol yn ôl ardal llu heddlu 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Avon a Gwlad yr Haf | 220 | 78.3% | 61 | 21.7% | 281 |
| Swydd Bedford | 62 | 76.5% | 19 | 23.5% | 81 |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydain | 133 | 78.7% | 36 | 21.3% | 169 |
| Swydd Caergrawnt | 94 | 79.0% | 25 | 21.0% | 119 |
| Swydd Caer | 159 | 87.8% | 22 | 12.2% | 181 |
| Heddlu Dinas Llundain | 9 | 52.9% | 8 | 47.1% | 17 |
| Cleveland | 111 | 84.7% | 20 | 15.3% | 131 |
| Cumbria | 86 | 89.6% | 10 | 10.4% | 96 |
| Swydd Derby | 146 | 83.9% | 28 | 16.1% | 174 |
| Dyfnaint a Chernyw | 186 | 85.3% | 32 | 14.7% | 218 |
| Dorset | 78 | 72.9% | 29 | 27.1% | 107 |
| Durham | 82 | 72.6% | 31 | 27.4% | 113 |
| Dyfed Powys | 49 | 81.7% | 11 | 18.3% | 60 |
| Essex | 174 | 79.5% | 45 | 20.5% | 219 |
| Swydd Caerloyw | 60 | 78.9% | 16 | 21.1% | 76 |
| Manceinion Fwyaf | 414 | 74.9% | 139 | 25.1% | 553 |
| Gwent | 55 | 75.3% | 18 | 24.7% | 73 |
| Hampshire | 278 | 75.3% | 91 | 24.7% | 369 |
| Swydd Hertford | 145 | 83.8% | 28 | 16.2% | 173 |
| Glannau Humber | 150 | 81.5% | 34 | 18.5% | 184 |
| Caint | 237 | 81.7% | 53 | 18.3% | 290 |
| Swydd Caerhirfryn | 240 | 75.5% | 78 | 24.5% | 318 |
| Swydd Gaerlŷr | 121 | 81.8% | 27 | 18.2% | 148 |
| Swydd Lincoln | 75 | 86.2% | 12 | 13.8% | 87 |
| Glannau Mersi | **273** | 83.5% | 54 | 16.5% | 327 |
| Heddlu Metropolitan | 1053 | 73.0% | 390 | 27.0% | 1443 |
| Norfolk | 160 | 83.3% | 32 | 16.7% | 192 |
| Swydd Northampton | 95 | 74.8% | 32 | 25.2% | 127 |
| Northumbria | 188 | 72.6% | 71 | 27.4% | 259 |
| Gogledd Cymru | 90 | 70.3% | 38 | 29.7% | 128 |
| Gogledd Swydd Efrog | 122 | 82.4% | 26 | 17.6% | 148 |
| Swydd Nottingham | 111 | 75.0% | 37 | 25.0% | 148 |
| De Cymru | 182 | 71.9% | 71 | 28.1% | 253 |
| De Swydd Efrog | 160 | 77.3% | 47 | 22.7% | 207 |
| Swydd Stafford | 139 | 81.3% | 32 | 18.7% | 171 |
| Suffolk | 98 | 82.4% | 21 | 17.6% | 119 |
| Surrey | 98 | 65.8% | 51 | 34.2% | 149 |
| Sussex | 196 | 73.1% | 72 | 26.9% | 268 |
| Dyffryn Tafwys | 259 | 73.8% | 92 | 26.2% | 351 |
| Swydd Warwick | 47 | 81.0% | 11 | 19.0% | 58 |
| Gorllewin Mersia | 188 | 85.8% | 31 | 14.2% | 219 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 326 | 74.4% | 112 | 25.6% | 438 |
| Gorllewin Swydd Efrog | 342 | 79.0% | 91 | 21.0% | 433 |
| Wiltshire | 97 | 87.4% | 14 | 12.6% | 111 |
| Cyfanswm | **7588** | 77.5% | **2,198** | 22.5% | **9786** |

# Geirfa

## Ffrydiau trais yn erbyn menywod a merched

**Mae pob adran yn nhrefn yr wyddor oni nodir fel arall.**

Cam-drin domestig:

O Ebrill 2013:
unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad, trais neu gam-drin sy'n rheoli, gorfodi, neu'n bygwth rhwng y rhai sy'n 16 mlwydd oed neu drosodd sy'n bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu'n aelodau teulu waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall hyn ymgorffori'r mathau canlynol o gam-drin ond nid yw'n gyfyngedig iddynt: seicolegol; corfforol; rhywiol; ariannol; emosiynol.

*Mae ymddygiad sy'n rheoli yn: amrywiaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud rhywun yn israddol ac/neu yn ddibynnol trwy eu hynysu o ffynonellau cefnogaeth, ymelwa ar eu hadnoddau a'u gallu er elw personol, eu hamddifadu o'r moddion angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthwynebiad a ffoi ac yn rheoli eu hymddygiad o ddydd i ddydd.*

*Ymddygiad gorfodol yw: gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, cywilyddio ac aflonyddu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu ddychryn y dioddefwr.*

*Diffinnir aelodau o'r teulu fel mam, tad, mab, merch, brawd, chwaer a neiniau a theidiau boed yn perthyn yn uniongyrchol, yn deulu yng nghyfraith neu lys-deulu.*

*Mae'r diffiniad hwn, nad yw'n ddiffiniad cyfreithiol, yn cynnwys yr hyn a elwir yn drais ar sail 'anrhydedd', FGM (FGM) a phriodas dan orfod, ac mae'n glir nad yw'r dioddefwyr yn cael eu cyfyngu i un rhyw neu grŵp ethnig.*

Cam-drin plant:

Unrhyw drosedd sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf a welir yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant ac sy'n ymwneud â dioddefwr dan 18 oed.

Mae cam-drin plant yn cynnwys troseddau – boed yn gorfforol, emosiynol neu rywiol - yn ogystal ag esgeuluso plentyn. Byddai achosion o'r fath fel arfer yn cynnwys, er enghraifft:

- ymosodiad gan riant pan na fydd cerydd resymol yn amddiffyniad;
- troseddau rhywiol;
- lladdiad plant;
- creulondeb yn erbyn plentyn, gan gynnwys esgeulustod;
- puteindra plant;
- aflonyddu;
- cefnu ar blentyn;
- priodas dan orfod yn cynnwys unigolyn dan 18 oed;
- pornograffi plant;
- plant sy'n cael eu masnachu;
- cipio teuluol; a
- cham-drin plant hanesyddol a'r dioddefwr bellach yn oedolyn.

Mae'r achosion na chaent, fel arfer, eu llumanu yn cynnwys:

- troseddau moduro pan fo'r plentyn wedi ei anafu neu wedi'i ladd;
- esgeulustod meddygol; a
- throseddau eiddo.

Masnachu mewn pobl:

Defnyddir y lluman masnachu mewn pobl yn achos:

- Troseddau a lumanir yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Adran 57, 58 a 59),
- Deddf Lloches a Mewnfudo [Triniaeth Hawlwyr] 2004 Adran 4(1), (2) a (3); a'r
- Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 Adran 71

Gosodir y lluman ar gychwyn yr achos a bydd y lluman hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng yn dilyn hynny. Os yw achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylai'r achos gael ei lumanu ar y cam hwnnw.

O Ebrill 2013:
Disodlwyd Adrannau 57, 58 a 59 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 ganA59A SOA; ac
fe ddiddymwyd Adrannau 4(1), (2) a (3) Deddf Lloches a Mewnfudo [Trin Hawlwyr] 2004; a chymerodd A4(1A)(1B)(1C) A&IA ei lle.

Priodas Dan Orfod:

Dylai'r lluman gael ei defnyddio gydag unrhyw achos pan:

- Ystyrir bod troseddau dan A121 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn cael eu hystyried wrth benderfynu cyn cyhuddo neu eu cyhuddo; a
- Torri Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod dan A120 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (A63CA Deddf Cyfraith Teulu 1996).

Dylai'r lluman gael ei rhoi o ddechrau'r achos, a bydd yn aros yn ei lle hyd yn oed os bydd y cyhuddiadau hynny yn cael eu diwygio neu eu gollwng yn ddiweddarach. Os yw achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o briodas dan orfod dylid gosod lluman ar y cam hwnnw.

Yn ychwanegol, dylai'r lluman gael ei defnyddio hefyd pan fydd unrhyw drosedd o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) a ddigwyddodd yng nghyd-destun priodas dan orfod, naill ai:

- i orfodi parti/partïon i briodi heb eu caniatâd, a fuasai'n cael ei erlyn am y drosedd benodol a gyflawnwyd, e.e. aflonyddu, cipio, bygwth lladd; *neu*
- ar ôl priodas dan orfod heb ganiatâd un neu'r ddau barti a lle mae gorfodaeth yn ffactor, a fuasai yn cael ei erlyn am y drosedd benodol e.e. treisio, ymosodiad rhywiol.

Y diffiniad o briodas dan orfod yw: "Priodas heb gydsyniad un neu ddau o'r partïon pan fydd gorfodaeth yn ffactor". Gorfodaeth yw: 'a yw meddwl yr ymgeisydd wedi'i lethu, sut bynnag yr achoswyd hynny'. Pan fydd priodas dan orfod o fewn y teulu, a/neu yn cynnwys cam-drin plant, a/neu droseddwr ifanc, yna rhaid rhoi pob lluman berthnasol.

Trais ar sail anrhydedd:

Bydd unrhyw drosedd ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) a ddigwyddodd felly ac a elwir yn drosedd anrhydedd yn cael ei

llumanu fel trais ar sail anrhydedd. Byddai achosion yn cael eu herlyn am y drosedd benodol a gyflawnwyd, e.e. ymosodiad cyffredin, GBH, aflonyddu, herwgipio, treisio, bygythiad i ladd, llofruddiaeth.

Y diffiniad o drais ar sail urddas i'w ddefnyddio yw'r diffiniad a fabwysiadwyd gan yr Uned Priodas dan Orfod yn y Swyddfa Gartref: "Mae'r hyn a elwir yn drais ar sail urddas yn drosedd neu ddigwyddiad, sydd wedi neu a allai fod wedi ei gyflawni i ddiogelu neu amddiffyn urddas y teulu ac/neu gymuned".

Treisio: unrhyw ddiffynnydd sy'n cael ei gyhuddo o un neu fwy o'r troseddau canlynol -

- Adran1 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
- Adran5 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
    - Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod dan y Ddeddf Ymgeisiau Troseddol 1981
- Adran1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- Adran5 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- A30(3) Deddf Troseddau Rhywiol 2003
    - Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod dan y Ddeddf Ymgeisiau Troseddol 1981

Ysgogi neu gynllwynio i gyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod

Troseddau rhywiol ac eithrio treisio: unrhyw ddiffynnydd y mae categori ei brif drosedd, ar adeg ei chwblhau, yn drosedd rywiol ac eithrio treisio.

## Termau rheoli perfformiad

Difrod troseddol: Mae 'Difrod troseddol' yn cynnwys troseddau megis llosgi bwriadol, difrod troseddol neu faleisus, a llosgi bwriadol neu ddifrod troseddol sy'n peryglu bywyd.

Lladdiad: Mae 'Lladdiad' yn cynnwys nifer o droseddau a chan gynnwys – llofruddiaeth ac ymgais i lofruddio, bygwth lladd, lladdiad, cynllwynio neu gymell i gyflawni llofruddiaeth ac achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus.

**Llumanau monitro:** mae mathau sensitif o achosion wedi'u dynodi gan nifer o lumanau monitro, a'u defnyddio gydag achosion priodol yn ystod y cam cyn cyhuddo. Mae'r llumanau yn caniatáu i reolwyr fonitro gweithrediadau yn ystod oes yr erlyniad, a galluogi adrodd ar ddeilliannau yn dilyn cwblhau'r achos. Mae'r data yn gywir yn unig i'r graddau y mae'r lluman wedi cael ei defnyddio yn gywir; efallai bod nifer fechan o achosion pan nad yw'r lluman wedi cael ei defnyddio.

**Prif droseddau:** Categori prif drosedd: bydd troseddau a gyhuddir yn cael eu dyrannu i un o ddeuddeg categori trosedd er mwyn dangos y math o drosedd a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddwynir yn erbyn y diffynnydd. Mae'r Categori Prif Drosedd yn dangos y drosedd fwyaf difrifol y cyhuddwyd y diffynnydd ohoni **ar adeg cwblhau**. Pan fo natur y cyhuddiadau'n newid yn ystod oes yr achos, efallai y bydd y Brif Drosedd adeg cwblhau yn wahanol i'r hyn a ymddangosai'n briodol ar adeg flaenorol yn y camau. Yn yr holl achosion o'r fath, y categori Prif Drosedd a gofnodir yw'r un sy'n berthnasol **ar adeg cwblhau**, boed yn fwy difrifol neu'n llai difrifol na'r hyn oedd yn berthnasol ynghynt yn oes yr achos.

Pan fo diffynnydd yn wynebu nifer o gyhuddiadau dan wahanol Gategorïau Prif Drosedd, dewiser yr un fwyaf difrifol **yn ôl y drefn flaenoriaeth a ganlyn**:

Troseddau rhywiol: Mae 'Troseddau Rhywiol' yn cynnwys nifer o droseddau gan gynnwys - treisio, sodomiaeth, ymosodiad rhywiol, deuwriaeth/dwywreiciaeth, caffael ac anweddustra difrifol gyda phlentyn.

Troseddau trefn gyhoeddus: Mae 'Troseddau Trefn Gyhoeddus' yn cynnwys terfysg, anhrefn treisgar neu achosi ffrwgwd.

Troseddau yn erbyn yr unigolyn: Mae 'Troseddau yn erbyn yr unigolyn' yn cynnwys nifer o droseddau gan gynnwys – niwed corfforol difrifol, ymosodiad gan achosi niwed corfforol gwirioneddol, ymosodiad cyffredin, meddiannu dryll gyda'r bwriad o achosi ofn trais a chipio plentyn.

### Deilliannau achosion

Arall: nid yw canlyniad y penderfyniad cyhuddo wedi ei gofnodi neu nid yw wedi ei ddiffinio.

Cwblhau Gwaith Gweinyddol: nid yw'r sawl a amheuir wedi ateb mechnïaeth ac mae gwarant yn aros neu mae'r achos wedi ei derfynu yn weinyddol am amrywiol resymau.

Dim erlyniad: achosion pan fydd y CPS yn penderfynu na ddylid erlyn, am resymau tystiolaethol neu am resymau budd y cyhoedd.

**Penderfyniadau cyn cyhuddo**: Mae Canllaw'r Cyfarwyddwr ar gyhuddo (4ydd Rhifyn) yn datgan y gall yr heddlu gyhuddo unrhyw drosedd Ddiannod yn unig (un y gellir delio â hi yn y llys ynadon) waeth beth yw'r ple ac unrhyw drosedd y naill ffordd neu'r llall (y gellir ei phrofi naill ai yn y llys ynadon neu Lys y Goron) pan ragwelir ple euog a'i fod yn addas i gael dedfryd yn y llys ynadon yn amodol ar eithriadau penodol fel trais domestig, troseddau casineb ac achos yn ymwneud â marwolaeth. Rhaid i erlynyddion y CPS wneud y penderfyniadau cyhuddo ym mhob achos ditiadwy yn unig (yr achosion hynny na ellir eu profi ond yn Llys y Goron), troseddau naill ffordd neu'r llall nad ydynt yn addas ar gyfer y llys ynadon a phan ragwelir ple ddieuog

Wedi'i gyhuddo: achosion pan benderfynodd y CPS y dylid cyhuddo.

Ymdrin ag achosion y tu allan i'r llys: pan roddwyd rhybudd, rhybudd amodol, cerydd neu rybudd terfynol neu pan mae'r drosedd wedi ei hystyried parthed cyhuddiadau eraill.

**Erlyniadau**: yr holl ddiffynyddion a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs ac y cwblhawyd yr achos yn llys yr ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a aeth ymlaen i dreial neu bledio'n euog, y rhai a gwblhawyd a'r rhai na ellid bwrw ymlaen â nhw.

<u>Achosion a ddadleuwyd ac eithrio gyda phleon cymysg</u>: (a) Mae'r Diffynnydd yn rhoi pleon dieuog yn unig, A

| | |
|---|---|
| Dieuog a Dadl: | (b) mae achos llys yn digwydd |
| <u>Achosion a ddadleuwyd yn cynnwys pleon cymysg</u><br>Cymysg Euog/Dieuog a Dadl: | (a) Mae’r Diffynnydd yn rhoi o leiaf un ble euog i set o gyhuddiadau, a<br>(b) ple ddieuog i un neu fwy o gyhuddiadau, a<br>(c) nid yw’r pleon yma yn dderbyniol i’r CPS, a<br>(d) mae’r mater yn symud ymlaen i’r llys |
| <u>Deilliannau aflwyddiannus</u>: | yr holl erlyniadau a gwblhawyd pan na chafwyd y diffynnydd yn euog, sy’n cynnwys y canlynol: |
| Barnwr yn rhoi cyfarwyddyd i ryddfarnu: | achosion pan, ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, y gwneir argymhelliad llwyddiannus o ‘ddim achos’ neu ‘anniogel’ ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i’r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor. |
| Cwblhau gwaith gweinyddol: | pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi’i chyflwyno i’w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw, neu nad yw’n ffit i bledio: neu pan fydd achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol. Os bydd Gwarant gan y Fainc yn cael ei chyflawni mae’n bosib ail agor yr achos. |
| Dim achos i’w ateb: | achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio’n ddieuog ac y gwrandewir tystiolaeth yr erlyniad, ond y gwrthodir yr achos gan yr ynadon heb wrando achos yr amddiffyniad. |
| Gwrthod ar ôl treial llawn: | achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio’n ddieuog ac y bydd yr ynadon yn gwrthod yr achos ar ôl gwrando achos yr amddiffyniad. |
| Rhyddfarnu gan reithgor: | pan fydd y diffynnydd yn pledio’n ddieuog ac, yn dilyn treial, yn cael rhyddfarn gan y rheithgor. |
| Terfynu a thynnu’n ôl: | Gall ystyried y dystiolaeth a budd y cyhoedd arwain y CPS i benderfynu terfynu achosion ar unrhyw adeg cyn dechrau’r treial. Yn gynwysedig yma mae achosion a derfynwyd yn ffurfiol cyn y gwrandawiad, y rheiny na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth ynddynt, a’r rheiny a dynnwyd yn ôl yn ystod yr achos llys. Yma hefyd cynhwysir achosion pan gafodd y diffynnydd ei rwymo i gadw’r heddwch. |
| Traddodebau a ryddhawyd: | achosion traddodi pan fo’r diffynnydd yn cael ei ryddhau. Yn dilyn rhyddhau, gellir ailgychwyn achos. |
| Yr holl ddeilliannau aflwyddiannus eraill: | yn cynnwys terfyniadau gweinyddol, traddodebau a ryddhawyd, a dim achos i’w ateb. |
| <u>Collfarnau:</u> | achosion pan gollfernir y diffynnydd yn dilyn erlyniad, sy’n cynnwys: |
| Collfarn yn dilyn treial: | achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio’n ddieuog, ond yn cael ei ddyfarnu’n euog ar ôl gwrando’r dystiolaeth. |
| Ple euog: | pan fydd y diffynnydd yn pledio’n euog. |
| Prawf yn absenoldeb: | troseddau llai yw’r rhain a glywir gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd. |

**Rhesymau am ddeilliannau aflwyddiannus**

| | |
|---|---|
| Dioddefwr ddim yn mynychu: | gelwir y dioddefwr yn dyst mewn achos, ond nid yw'n mynychu'r llys. |
| Dioddefwr yn tynnu'n ôl: | pan fydd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, y dioddefwr yn gwrthod cael ei alw i dystio, neu'n tynnu'n ôl, neu'n tynnu'r gŵyn yn ôl. |
| Elfen Gyfreithiol Allweddol ar Goll | Elfen gyfreithiol allweddol ar goll (addaswyd y 'teitl rheswm' yn Ebrill 2013 i 'Penderfyniad cyhuddo anghywir – elfen gyfreithiol ar goll'; roedd y canllaw diwygiedig yn egluro na ddylid defnyddio'r rheswm hwn pan fydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl, ddim yn mynychu neu os nad yw ei dystiolaeth yn cyrraedd safon prawf). |
| Gwrthdaro tystiolaeth | Gwrthdaro yn nhystiolaeth yr erlyniad (o Ebrill 2013, fe addaswyd y canllaw i egluro na ddylid defnyddio'r rheswm hwn pan fydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl, neu os nad yw'n mynychu neu os nad yw ei dystiolaeth yn cyrraedd safon prawf). |
| Rhyddfarnau ar ôl yr achos: | mae'r diffynnydd yn cael ei farnu yn ddieuog gan yr ynadon neu reithgor ar ôl gwrandawiad sy'n cael ei herio pan fo'r amddiffyniad yn cael ei alw i gyflwyno'i achos. (Ni chynhwysir achosion wedi eu gwrthod, dim achos i'w ateb neu'r barnwr wedi cyfarwyddo rhyddfarn). |
| Tyst annibynadwy | Tyst neu dystion annibynadwy (Addaswyd y 'teitl rheswm' Yn Ebrill 2013 i: 'Tyst allweddol (nid y dioddefwr) yn gwrthod rhoi tystiolaeth/tynnu'n ôl/ddim yn cyrraedd safon prawf' i ddarparu eglurder). |
| Tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos: | nid yw tystiolaeth y dioddefwr am y drosedd yn cefnogi erlyn y diffynnydd, gan arwain at ddeilliant aflwyddiannus, ond, serch hynny, nid yw'r dioddefwr wedi tynnu'n ôl.<br>(diwygiwyd y 'teitl rheswm' ym mis Ebrill 2013 i: Nid yw tystiolaeth y dioddefwr yn cyrraedd safon prawf, ond nid yw wedi ei dynnu'n ôl). |

**Termau cyfreithiol**

| | |
|---|---|
| Achlust | Adran 116(1) Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.Mewncamau troseddol mae datganiad na wnaed mewn tystiolaeth lafar yn y camau cyfreithiol yn dderbyniol fel tystiolaeth o unrhyw fater a nodir – os<br>(a) byddai tystiolaeth lafar a roddwyd yn yr achos gan yr unigolyn a wnaeth y datganiad yn dderbyniol fel tystiolaeth o'r mater hwnnw,<br>(b) yw'r unigolyn a wnaeth y datganiad (yr unigolyn perthnasol) yn cael ei ddynodi i fodloni'r llys, a<br>(c) bydd unrhyw un o'r pum amod a grybwyllir yn isadran (2) yn cael eu bodloni. |
| Res gestae | Unrhyw reol cyfraith y bydd datganiad yn dderbyniol mewn camau troseddol fel tystiolaeth o unrhyw fater a ddatganir os–<br>(a) gwnaed y datganiad gan unigolyn y mae emosiwn digwyddiad wedi ei drechu fel y gellid diystyru'r posibilrwydd o greu neu ysgiwio,<br>(b) bod y datganiad ynghlwm â gweithred y gellir ei gwerthuso yn briodol fel tystiolaeth os caiff ei hystyried ar y cyd â'r datganiad, neu<br>(c) mae'r datganiad yn ymwneud â theimlad corfforol neu gyflwr meddyliol (fel bwriad neu emosiwn). |

# Geirfa byrfoddau

| | |
|---|---|
| BME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| CEOP | Canolfan Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant a Diogelu Ar-lein |
| CJA | Deddf Cyfiawnder Troseddol |
| CJS | System Cyfiawnder Troseddol |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| CPSD | Gwasanaeth Erlyn y Goron Uniongyrchol |
| CQSM | Monitro Safonau Ansawdd Craidd |
| CSA | Cam-drin Plant yn Rhywiol |
| CSE | Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant |
| DA | Cam-drin domestig |
| DCV | Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr |
| DPP | Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus |
| ECG | Grŵp Ymgynghori Allanol |
| EDCEM | Rheolwyr Ymgysylltu Cymunedol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| ESO | Gorchymyn Ymgysylltu a Chefnogaeth |
| FGM | Anffurfio Organau Rhywiol Menywod |
| FM | Priodas dan Orfod |
| HBV | Trais Seiliedig ar Urddas |
| HMCPSI | Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi |
| HO | Swyddfa Gartref |
| IDVA | Cynghorydd Cam-drin Domestig Annibynnol |
| IQA | Asesiad Ansawdd Unigol |
| ISVA | Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol |
| JDA | Rhyddfarnau dan Gyfarwyddyd Rheithgor |
| LSIP | Paneli craffu ac ymgysylltiad lleol |
| MARAC | Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| PHA | Deddf Atal Aflonyddu |
| PPT (ppt) | Pwynt Canrannol |
| PPU | Uned Diogelu'r Cyhoedd |
| RASSO | Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol |
| SDVC | Llysoedd Arbenigol Cam-drin Domestig |
| SOA | Deddf Troseddau Rhywiol |
| SV | Trais rhywiol |
| TSJ | Trawsnewid Cyfiawnder Diannod |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| WCU | Uned Gofal Tystion |
| WSC | Amodau Penodol i Fenywod |
| VAWG | Trais yn erbyn Menywod a Merched |
| VPS | Datganiad Personol y Dioddefwr |
| VRR | Hawl Dioddefwyr i Adolygiad |

## Gwasanaeth Erlyn y Goron

**Mae copïau pellach o'r adroddiad ar gael i'w lawrlwytho mewn PDF Adobe Acrobat ar wefan y CPS**

**www.cps.gov.uk**

Mehefin 2015

# Cynnwys


Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus 3

Crynodeb gweithredol 6

Cyflwyniad 15

Trais yn erbyn menywod a merched 17

Cam-drin domestig 28

Stelcio ac aflonyddu 43

Treisio 49

Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 67

Priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod 74

Cam-drin plant 81

Masnachu mewn pobl 89

Puteindra 93

Pornograffi ac anweddustra 96

Atodiad 1: Erlyniadau'n ôl Ardal 101

Geirfa 109

Geirfa byrfoddau 115

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Mae achosion trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) yn gyfran gynyddol o waith Gwasanaeth Erlyn y Goron. Maent yn codi rhai o'r penderfyniadau mwyaf cymhleth a sensitif y byddwn yn eu gwneud. Yn 2014-15 fe wnaethom gyrraedd y nifer uchaf erioed o atgyfeiriadau heddlu, diffynyddion wedi eu cyhuddo, erlyniadau a chollfarnau VAWG[1]. Llwyddodd gwaith gyda'r heddlu i wrth-droi'r gostyngiad mewn niferoedd a ddynodwyd gan y CPS dros yr ychydig flynyddoedd blaenorol, gan arwain at gollfarnu dros 11,000 yn fwy o ddiffynyddion – cynnydd o 17% ers 2013-14.

Ar gyfer trais domestig, treisio, troseddau rhywiol a cham-drin plant, cyrhaeddodd y collfarnau'r lefelau uchaf erioed. Collfarnwyd cyfanswm o 68,601 o ddiffynyddion am gam-drin domestig, cynnydd o 10,325, ychydig dan 18% ers y flwyddyn flaenorol. Collfarnwyd 2,581 o ddiffynyddion am dreisio, cynnydd o 233, ychydig dan 10% ers y flwyddyn flaenorol. Collfarnwyd 631 yn fwy o ddiffynyddion am gam-drin plant yn rhywiol hefyd – cynnydd o 19%, gan gyrraedd y lefel uchaf erioed ar 3,975. Cynyddodd yr erlyniadau a gychwynnwyd hefyd, o ran troseddau stelcio ac aflonyddu, o 15.1% yn 2014-15 ers 2013-14.[2]

Arhosodd y cyfraddau collfarnu ar gyfer cam-drin domestig yn gymharol gyson ar 73.9% mewn cymhariaeth â'r cynnydd mawr mewn erlyniadau a chollfarnau a gyrhaeddodd record o ran niferoedd. Yn ystod 2014-15 fe wnaethom ddiweddaru ein cyfarwyddyd i erlynyddion ar gam-drin domestig a bwriadwn roi cyfarwyddyd a hyfforddiant pellach yn dilyn y ddeddfwriaeth newydd ar orfodi a rheoli.

Er gwaetha'r cynnydd mewn niferoedd o gollfarnau am dreisio, disgynnodd y gyfradd gollfarnu i 56.9%. Bu gwaith i ymdrin â gwella canlyniadau erlyniadau treisio yn gyffredinol yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaed hyn yn arbennig i ymdrin â'r gostyngiad yn y gyfran o gollfarnau, y dylid ei ystyried yng nghyd-destun y cynnydd sylweddol yn y nifer o erlyniadau a gwblhawyd o bron i 17%.

Yn ystod 2014-15 rydym wedi datblygu rhaglen genedlaethol o waith yn ymwneud â threisio, sy'n ceisio ymdrin â phroblemau ar draws y system cyfiawnder troseddol. Un thema bwysig o'r gwaith hwn yw sicrhau bod dioddefwyr bregus yn cael mynediad cyfartal i gyfiawnder. Pan fydd achosion yn bodloni'r Cod i Erlynyddion y Goron, ni fyddwn yn osgoi eu symud ymlaen, hyd yn oed pan fyddant yn anodd a chymhleth. Byddai gwneud unrhyw beth arall yn tanseilio ein hegwyddorion o hyrwyddo cyfiawnder ac amddiffyn hawliau'r dioddefwyr. Ond, nid oes ateb tymor byr a bydd yn cymryd amser i'r gwaith o'r rhaglen genedlaethol gael effaith ar lefelau'r gwahaniaeth rhwng y niferoedd o achosion a'r rhai sy'n cael eu herlyn, collfarnu a dedfrydu gan y system gyfiawnder troseddol, a gofnodir gan y CPS yn ystod cyfnod yr erlyniad, yn bennaf oherwydd rhyddfarnau gan reithgorau.

[1] Mae data ar gyfer 'troseddau VAWG' wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn cynnwys cam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol.
[2] Nid yw manylion yr erlyniadau stelcio ac aflonyddu a gwblhawyd gan gynnwys erlyniadau, yn ôl diffynnydd, ar gael o gronfeydd data'r CPS.

Yn dilyn gwaith gyda Phanel Craffu Treisio Cenedlaethol[3] fe wnaethom gyflawni Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol, gan ddatblygu strwythurau, offer a systemau gyda'r heddlu i ymdrin â gwelliannau ar bob cam yn y broses droseddol. Cyrhaeddodd y gwaith benllanw mewn cynhadledd amlwg yn Ionawr 2015, gan lansio systemau i sicrhau bod atgyfeirio priodol gan yr heddlu a chyngor wrth gyhuddo, pecynnau offer i heddlu, erlynyddion ac eiriolwyr ar y gyfraith o ran cydsyniad ac ar ymdrin ag achosion yn ymwneud â dioddefwyr bregus. Rydym hefyd wedi adolygu ein Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO) a'r trefniadau i roi cyfarwyddwyd i eiriolwyr o ansawdd. Yn ychwanegol byddwn yn ymgorffori gwersi o'r *Independent Review into the Investigation and Prosecution of Rape in London*, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2015, yn ein strategaeth ar achosion treisio.

Mae ein gwaith VAWG yn gyffredinol yn 2014-15 wedi ymdrin â thair blaenoriaeth y CPS: ein gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion, ansawdd gwaith achos a'r offer a'r sgiliau ar gyfer y gwaith. Rydym wedi canolbwyntio ymhellach ar ddiogelwch, diogelu a chefnogi dioddefwyr VAWG. Mae ein Hunedau Cyswllt Dioddefwyr wedi eu sefydlu ac ar waith ym mhob ardal CPS ac rwyf ar hyn o bryd yn cael trefn derfynol ar ffyrdd i wella ein cefnogaeth i ddioddefwyr yn y llys.

Bu cam-fanteisio ar ddioddefwyr, sy'n fregus oherwydd amrywiaeth eang o resymau, o oedran, cyffuriau ac alcohol hyd at anawsterau dysgu a phroblemau iechyd meddwl, yn thema gyson yn ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cyhoeddi cyfarwyddyd newydd i'n herlynyddion sy'n ymdrin â phroblemau cyffredin a ddynodwyd wrth dargedu dioddefwyr, nid mewn achosion treisio a cham-drin rhywiol ar blant yn unig, ond hefyd mewn puteindra, pornograffi a masnachu rhywiol.

Rydym wedi parhau i weithio ar draws y llywodraeth o ran gwelliannau deddfwriaethol. Cyflwynwyd deddfau newydd ar briodas dan orfod a 'chaethwasiaeth modern' a gwnaed diwygiadau i'r ddeddfwriaeth ar anffurfio organau rhywiol menywod (FGM). Yn Ebrill 2015 cyflwynwyd deddfau newydd hefyd ar bornograffi dial a threisio a gwastrodi, gyda newidiadau eraill wedi eu cynllunio ar wneud negeseuon rhywiol yn drosedd. Yn ychwanegol, rydym wedi gweithio gyda'r Heddlu o ran sefydlu Protocolau Cenedlaethol ar FGM a stelcio.

Mae ein hadroddiad eleni yn tynnu sylw at effaith cyfryngau cymdeithasol ar ddioddefwyr VAWG, gan gynnwys y cysylltiad rhwng delweddau anweddus ar-lein a cham-drin plant yn rhywiol a thargedu dioddefwyr trwy'r rhyngrwyd. Rydym hefyd yn rhoi adroddiad ar ragor o ddiogeliad i ddioddefwyr - gorchmynion gwahardd a ddefnyddir mewn achosion stelcio yn ogystal â cham-drin domestig; cyflwyno Gorchmynion Amddiffyn Ewropeaidd; gorchmynion atal niwed rhywiol; troseddau newydd ar gyfer priodas dan orfod; gorchmynion amddiffyn ar gyfer FGM a gorchmynion atal mewn masnachu pobl.

Hoffwn ddiolch i'n rhanddeiliaid eto am eu cefnogaeth a'u cyngor arbenigol trwy Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG a'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol. Yn lleol diolch i'n Cydlynwyr VAWG penodedig a'r Penaethiaid Unedau RASSO a'u timau. Rydym yn falch o'r newidiadau yr ydym wedi eu gwneud o ran y ffordd yr ydym yn erlyn y troseddau hyn yn 2014-15 ac yn parhau i fod yn ymroddedig i adeiladu ar ein

[3]Cyfarfu Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio, yn cynnwys yr heddlu, erlynyddion, academyddion a grwpiau menywod, yn Ebrill 2014 i ymchwilio i'r gostyngiad blaenorol yn nifer yr achosion o dreisio ac asesu ffyrdd o wella ymchwiliadau i dreisio a'r erlyniadau ar draws y system cyfiawnder troseddol.

llwyddiannau, dysgu gwersi a gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau gwasanaeth gwell i ddioddefwyr y troseddau hyn.

**Alison Saunders CB**
**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**
**Mehefin 2015**

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r Adroddiad Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) yn ymdrin â throseddau sydd wedi cael eu dynodi fel rhai a gyflawnwyd yn bennaf, ond nid yn unig, gan ddynion yn erbyn menywod, o fewn y fframwaith strategol trosfwaol 'VAWG'. Mae'r dull yn cydnabod VAWG fel problem hawliau dynol sylfaenol, gan dynnu ar gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig y mae'r Deyrnas Unedig wedi eu llofnodi a'u cadarnhau. Cydnabyddir VAWG yn fyd-eang, a gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, fel ffurf ar droseddu lle mae rhyw yn chwarae rhan.

Ond, mae'r CPS yn adnabod, cydnabod ac yn helpu'r dioddefwyr hynny nad ydynt o angenrheidrwydd yn cael eu dal dan yr ymbarél "VAWG" – hynny yw y dynion a'r bechgyn a all hefyd ddioddef troseddau VAWG. I'r diben hwnnw, mae'r CPS yn gynhwysol yn ei agwedd. Gweithredir ein holl bolisïau VAWG yn deg a chyfartal i holl ddioddefwyr a chyflawnwyr troseddau – beth bynnag fo eu rhyw.

Mae'r adroddiad yn ddadansoddiad o'r prif faterion erlyn ym mhob maes VAWG – cam-drin domestig (DA), treisio, troseddau rhywiol, stelcio, aflonyddu, priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd, anffurfio organau rhywiol menywod, cam-drin plant, masnachu mewn pobl, puteindra a phornograffi. Rydym yn cydnabod y gall y troseddau hyn gael eu targedu at ddioddefwyr gwrywaidd a thrawsrywiol yn ogystal â dioddefwyr benywaidd ac felly mae'r adroddiad yn cynnwys yr holl ddata am dramgwyddwyr a dioddefwyr. Pan fydd hynny'n bosibl, mae'r data yn cael ei wahanu yng nghorff yr adroddiad, yn ôl rhyw yn ogystal â'r niferoedd cyffredinol a'r cyfrannau. Defnyddir nifer o astudiaethau achos i ddangos rhai arferion da o Ardaloedd.

Yn unol â pholisi'r llywodraeth, rydym yn cyhoeddi'r data gwaelodol a ddefnyddir yn ein hadroddiadau. Gellir dod o hyd i'r data gwaelodol ar gyfer yr adroddiad hwn[4] ar wefan y CPS, yn yr Adran cyhoeddiadau dan Underlying Data/Violence Against Women.

## Trais yn erbyn Menywod a Merched

Yn 2014-15 roedd VAWG yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r CPS a'r llywodraeth, fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Trawslywodraethol VAWG, a oruchwylir gan y Grŵp Rhyngweinidogol VAWG.

Ers cyflwyno cofnodi troseddau VAWG[5], rydym wedi cyrraedd y lefel uchaf o atgyfeiriadau gan yr heddlu o ddiffynyddion VAWG ar gyfer penderfyniadau cyhuddo. Yn 2014-15, atgyfeiriwyd 129,057 o ddiffynyddion i'r CPS – cynnydd o 19,638 o atgyfeiriadau (18%) o 2013-14 ac yn uwch na'r lefel uchaf flaenorol yn 2010-11. Roedd y cynnydd hwn hefyd wedi ei adlewyrchu yn y nifer a'r gyfran a gyhuddwyd[6] –

[4] Cyfeirir at ddata trwy gydol yr adroddiad hwn; darperir unrhyw ddata gwaelodol atodol yn yr atodiad sydd ar gael ar wefan y CPS – gweler y ddolen.
[5] Mae data ar gyfer 'troseddau VAWG' wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn cynnwys cam-drin domestig (y mwyafrif o achosion VAWG o ran niferoedd), treisio a throseddau rhywiol (ac eithrio data cyn cyhuddo ar gyfer troseddau rhywiol) ers 2007-08. Adroddir ar ddata o ffrydiau VAWG eraill ar wahân. Bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng data a lumanwyd ar gyfer cam-drin domestig, treisio, troseddau rhywiol a cham-drin plant, ond nid yw hwn yn nifer sylweddol.
[6] Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau

gan gyrraedd 88,359 (68.5%) – cynnydd o 11,833 (15.5%) o 2013-14 a'r uchaf erioed. Mae gwarediadau allan o'r llys, y penderfynwyd arnynt gan y CPS yn y cam cyn cyhuddo, hefyd wedi cyrraedd y lefel isaf hyd yn hyn (1,473, ychydig dros 1% o'r holl atgyfeiriadau). Mae'r cynnydd mewn niferoedd yn arwydd o lwyddiant y gwaith a wnaed ar draws yr heddlu a'r CPS i wella prosesau atgyfeirio ar gyfer cam-drin domestig a phob trosedd rywiol.

Cododd y nifer o droseddau VAWG a erlynwyd[7] yn 2014-15 o 90,516 yn 2013-14 i 107,104 yn 2014-15, cynnydd o 16,588 o ddiffynyddion wedi eu herlyn – 18.3% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol a'r lefel uchaf erioed. Rhoddir y manylion yn ôl rhyw yng nghorff yr adroddiad. Cynyddodd y nifer a gollfarnwyd hefyd o 11,393, o 67,380 yn 2013-14 i 78,773, cynnydd o 16.9% a'r nifer uchaf erioed.

Mae cydlynwyr VAWG lleol yn cefnogi Ardaloedd, gan ddarparu cyfeiriad strategol ac asesiad ddwywaith y flwyddyn o berfformiad yn uniongyrchol i'r DPP trwy System Sicrwydd VAWG. Mae cydlynwyr VAWG yn gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol drwy Baneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol (LSIP). Rhannwyd amrywiaeth o arferion da o ran VAWG ar draws Ardaloedd:

- Gweithiodd y rhan fwyaf o Ardaloedd yn glos gyda'u Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar ddatblygu'r Cynlluniau Heddlu a Throseddu;
- Cynhaliodd yr holl Ardaloedd CPS hyfforddiant ar y cyd gyda'r heddlu ar briodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod;
- Cynhaliwyd hyfforddiant ar gam-drin rhywiol ar blant hefyd ymhob Ardal;
- Gweithiodd pob Ardal gyda phartneriaid lleol ar draws ystod o faterion VAWG, gan gynnal cynadleddau, seminarau a sesiynau hyfforddi.

## Cam-drin domestig

- Cododd swm yr atgyfeiriadau DA[8] gan yr heddlu i'w lefel uchaf erioed ar 122,898 yn 2014-15 – cynnydd o 19,329 o atgyfeiriadau (18.7%) ers 2013-14.
- Cyhuddwyd 84,711 (68.9% o'r atgyfeiriadau yma), mae hyn yn adlewyrchu'r niferoedd uchaf o achosion a gofnodwyd gan y CPS a chynnydd o 11,806 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (16.2%) ers 2013-14.
- Cododd niferoedd yr erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 i 92,779 o 78,071 – cynnydd o 14,708 o ddiffynyddion (18.8%) ers 2013-14. Cafodd y cynnydd mewn diffynyddion a gyhuddwyd yn ystod 2013-14 effaith bellach ar ganlyniadau erlyniadau yn 2014-15, gan gyrraedd y lefel uchaf erioed. Rhoddir y manylion yn ôl rhyw yng nghorff yr adroddiad.

---

cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i'w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14.

[7] Sylwer fod y niferoedd cyhuddo yn cwmpasu'r achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* i'r CPS yn ystod 2014-15 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo na ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd gyda'r rhai a erlynwyd sy'n cwmpasu achosion yn ôl diffynnydd, *a gwblhawyd* yn ystod 2014-15.

[8] Cyn 2015, nid oedd trosedd benodol o "drais neu gam-drin domestig", felly roedd achosion "trais neu gam-drin domestig" yn cael eu herlyn dan amrywiaeth o droseddau eraill, yn amrywio o ymosodiad cyffredin i lofruddiaeth. Mae'r CPS yn tynnu sylw at bob achos cam-drin domestig, beth bynnag yw'r drosedd, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisi a chyfarwyddyd CPS yn ogystal â monitro perfformiad.

- Mae'r llwyth achosion DA[9] wedi codi ers 2013-14 o 10.7% i 14.1% yn 2014-15.
- Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 68,601 – cynnydd o 10,325 o gollfarnau (17.7%) ers 2013-14 a'r nifer uchaf erioed.
- Rhwng 2005-6[10] a 2014-15, cododd y cyfraddau collfarnu o 59.7% i 73.9% - cynnydd o ychydig dros 14 pwynt canran[11] dros y cyfnod hwn o ddeng mlynedd.
- Gostyngodd y gyfradd gollfarnu ychydig i 73.9%, o 74.6% yn 2013-14, mewn cymhariaeth â'r cynnydd mawr mewn niferoedd.
- Rhwng 2005-06 pan gychwynnwyd cofnodi a 2014-15, mae niferoedd y collfarnau wedi codi o 29,719 i 68,601 – cynnydd o 38,882 o ddiffynyddion wedi eu collfarnu, cynnydd o 131% dros y cyfnod hwn o ddeng mlynedd a'r lefel uchaf erioed.
- Cododd y nifer o bleon euog eto – gan gyrraedd 63,132, cynnydd o 17.7%; er bod y gyfran o'r holl achosion a erlynwyd wedi gostwng ychydig i 68% o 68.7%.
- Mae 92% o'r holl ganlyniadau llwyddiannus o ganlyniad i bleon euog.
- Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i fod yn isel, ar 19.3% o'r holl achosion DA a erlynwyd, yn debyg i'r 19.2% yn 2013-14, yr isaf erioed.
- Mae'r troseddau stelcio a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2012, wedi eu gweithredu a chafwyd cynnydd arwyddocaol yn yr erlyniadau a gychwynnwyd am stelcio, aflonyddu a thorcyfraith yn ymwneud â DA – cynnydd o 20.4% ers 2013-14; ac o'u mewn mae troseddau stelcio wedi codi o ychydig dan 50%.
- Yn Rhagfyr 2014, cyhoeddodd y DPP gyfarwyddyd newydd ar ymdrin ag achosion cam-drin domestig. Mae'r canllawiau newydd yn cyfeirio erlynyddion at yr amrywiaeth o ffyrdd y gall y rhai sy'n cam-drin reoli a gorfodi eu dioddefwyr trwy gyflawni troseddau clir heb ymosod yn gorfforol o angenrheidrwydd. Bydd hyn yn cefnogi'r drosedd newydd o ymddygiad sy'n gorfodi a rheoli sydd i'w gweithredu yn 2015-16.
- Cynhaliwyd adolygiad o Lysoedd Trais Domestig Arbenigol yn 2014-15 a bydd y canfyddiadau yn cael eu hasesu a bydd gweithredu arnynt yn 2015-16.
- Wedi eu hamlinellu yng nghorff yr adroddiad hwn mae astudiaethau achos ac arfer da o nifer o Ardaloedd CPS yn dangos sut mae'r Ardaloedd wedi gwella canlyniadau erlyniadau – yn cynnwys achosion sy'n defnyddio tystiolaeth achlust; herwgipio, a cham-drin mewn perthynas rhwng rhai yn eu harddegau yn ogystal â chynlluniau lleol ehangach.

## Stelcio ac aflonyddu

- Cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 12,122 trosedd aflonyddu a stelcio yn 2014-15; sy'n gynnydd o 1,587 trosedd (15.1%) ers 2013-14 pan gychwynnwyd 10,535 o erlyniadau.
- O'r rhain, cychwynnwyd 1,103 o erlyniadau dan y troseddau stelcio newydd (cynnydd o bron i 50% ers y flwyddyn ddiwethaf).
- Cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 13,559 o droseddau torri gorchmynion atal, cynnydd o 1,908 (16.4%) o 11,651 yn 2013-14.
- O'r holl erlyniadau aflonyddu a stelcio, roedd 8,230 (67.9%) yn ymwneud â DA – cynnydd o 1,505 yn ymwneud â DA (22.4%) o 6,725 yn y flwyddyn flaenorol.

[9] Llwyth achosion cam-drin domestig fel % o'r holl erlyniadau yn y llys.
[10] Cychwynnodd y cofnodi sy'n parhau ar erlyniadau cam-drin domestig gan y CPS yn 2005-06.
[11] Cyfeirir at newidiadau mewn canrannau fel newidiadau i bwyntiau canrannol (ppt).

- Cychwynnodd 763 o erlyniadau yn gysylltiedig â DA dan y troseddau stelcio.
- Cychwynnwyd erlyn 13,559 o droseddau torri gorchymyn atal, cynnydd o 16.4% o 11,651 yn 2013-14; roedd 82.1% yn gysylltiedig â DA.
- O'r 13,126 achos o dorri gorchmynion atal (a wnaed wrth gollfarnu); cynnydd o 18.0% o 2013-14, roedd 10,796 (82.2%) yn achosion DA.
- O'r 433 achos o dorri gorchmynion atal (a wnaed ar ryddfarn); cynnydd o 34.5% o 2013-14, roedd 336 (77.6%) mewn achosion DA.
- Cychwynnwyd erlyn 7,013 achos o dorri gorchmynion peidio aflonyddu, o gymharu â 6,498 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 7.9%; 89.7% ohonynt yn gysylltiedig â DA.
- Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am 2014 ar orchmynion atal ac erlyn stelcio, aflonyddu a thorri gorchmynion atal yn cael ei gynnwys yng nghorff yr adroddiad.
- Ym mis Tachwedd 2014 lansiwyd protocol ar y cyd gan yr heddlu a'r CPS ar stelcio.
- Yn Ebrill 2014 lansiwyd modwl e-ddysgu am stelcio.
- Cynhaliwyd Diwrnod Ymwybyddiaeth Stelcio Cenedlaethol yn Ebrill 2014.

## Treisio

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau treisio gan yr heddlu i 6,159 yn 2014-15 – cynnydd o 309 o atgyfeiriadau (5.3%) ers 2013-14.
- Cyhuddwyd 3,648 (59.2% o'r atgyfeiriadau hyn), y niferoedd uchaf erioed a chynnydd o 27 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (0.75%) ers 2013-14.
- Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 i 4,536 – cynnydd o 645 o erlyniadau (16.6%) o 2013-14, gan gyrraedd y nifer uchaf erioed. Rhoddir y manylion yn ôl rhyw yng nghorff yr adroddiad.
- Mae'r llwyth achosion[12] treisio wedi codi ers 2013-14 o 11.1% i 12.8% yn 2014-15.
- Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 2,581 - cynnydd o 9.9% ers 2013-14 a hefyd yn cyrraedd y nifer uchaf erioed.
- Mae'r ystadegau treisio cenedlaethol swyddogol gan yr MoJhttps://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2014 yn dangos, ym mlwyddyn galendr 2014 i 3,538 o ddiffynyddion, ar sail prif drosedd[13], [14],[15],[16] gael eu herlyn am dreisio mewn llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 3,081 yn 2013. Anfonwyd 3,459 o achosion i Lys y Goron i'w profi, o gymharu â 3,020 yn 2013. Yn 2014

[12] Llwyth achosion treisio fel % o'r holl erlyniadau ditiadwy yn unig.

[13] Mae'r ffigurau am achosion llys yn ymwneud ag unigolion yr oedd y troseddau hyn yn brif droseddau yr oeddynt yn cael eu cyhuddo ohonynt. Pan fydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Pan weithredir yr un gosb am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddewisir yw'r un gyda'r uchafswm cosb statudol mwyaf difrifol.

[14] Gwneir pob ymgais i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynir yn gywir a chyflawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y data hwn wedi ei dynnu o systemau data gweinyddol mawr a grëwyd gan y llysoedd a lluoedd heddlu. O ganlyniad, dylid bod yn ofalus bod prosesau casglu data a'u cyfyngiadau anochel yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio'r data.

[15] Gall y nifer o ddiffynyddion a geir yn euog mewn blwyddyn benodol fod yn fwy na'r nifer y cychwynnir achos yn eu herbyn gan i'r achos yn y llys ynadon ddigwydd mewn blwyddyn gynharach a bod y diffynyddion wedi eu cael yn euog yn Llys y Goron yn y flwyddyn ganlynol; neu fod y diffynyddion wedi eu cael yn euog o drosedd wahanol i'r achos gwreiddiol yn eu herbyn.

[16] Oherwydd gwelliannau wrth brosesu data, efallai na fydd canlyniadau 2014 yn cyfateb i'r rhai a gyhoeddwyd o'r blaen.

cafwyd 1,164 o droseddwyr yn euog o dreisio yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 1,121 yn 2013, gan arwain at gymhareb erlyniad i gollfarn yn 2014 o 33% – gostyngiad o 36% yn 2013. Nid yw'r gymhareb hon yn ystyried diffynyddion a erlynwyd am dreisio ond a gollfarnwyd yn Llys y Goron am drosedd arall. Mae data erlyn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwneud ag achosion pan fydd y gwrandawiad wedi ei gwblhau yn y Llys Ynadon yn 2014, ac felly mae'n cynnwys achosion sydd wedi eu cwblhau ac achosion sy'n dal yn fyw yn Llys y Goron.

- Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion a gyhuddwyd a'u llumanu fel treisio o'r cychwyn, ond hefyd achosion pan gafwyd collfarn am drosedd arall neu lai. Defnyddir y data i ddibenion rheoli achosion y CPS, ochr yn ochr â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gollfarnau mewn achosion a gyhuddwyd ac a gollfarnwyd am dreisio. Gosodir lluman ar yr achos o'i gychwyn; bydd y lluman yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiad o dreisio'n cael ei ddiwygio wedi hynny, o ran dibenion gofal dioddefwyr. Darperir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i osod cyd-destun i ddata perfformiad y CPS. Mae hyn ar gyfer blwyddyn galendr, yn hytrach nag ariannol, a dim ond ar gyfer yr achosion hynny pan oedd y gollfarn derfynol am dreisio.
- Rhwng 2007-8[17] a 2014-15, mae cyfraddau collfarnau'r CPS[18] wedi gostwng o 57.7% i 56.9%; gostyngiad o 60.3% yn 2013-14; ond mae'n bwysig i'r gostyngiad gael ei asesu mewn cymhariaeth â'r cynnydd o 16.6% yn y nifer o erlyniadau a chynnydd o 9.9% yn y nifer o gollfarnau a gofnodwyd.
- Rhwng 2007-08 a 2014-15, mae nifer y collfarnau wedi codi o 2,021 i 2,581, cynnydd o 560 o gollfarnau, a'r nifer uchaf ers i'r cofnodion ddechrau.
- Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i ostwng gan gyrraedd y lefel isel o 13.3% o'r holl achosion treisio a erlynwyd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol a oedd ar ei lefel isaf erioed ar 13.1%.
- Gyda'r lefel sylweddol is o bleon euog mewn achosion o dreisio mewn cymhariaeth â throseddau eraill (34% yn 2014-15, gostyngiad o 35.9% y flwyddyn flaenorol), mae mwy o achosion yn mynd trwy achos llys.
- O'r holl ddeilliannau aflwyddiannus[19], mae'r gyfran o ganlyniad i ryddfarn gan reithgor wedi codi o 60.3% yn 2013-14 i 62.7% yn 2014-15; mae'r gyfran sydd oherwydd problemau dioddefwr wedi gostwng o 18% i 17%.
- Adolygwyd Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO) yn 2014 a bwriedir gweithredu ymhellach i wella erlyniadau treisio yn 2015-16.
- Parhaodd y rhwydwaith o Arweinyddion Unedau RASSO, i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn, gyda chylchlythyrau RASSO.
- Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Treisio ym Mehefin 2014, yn dilyn Panel Craffu Cenedlaethol a gynhaliwyd yn Ebrill 2014.
- Diwygiwyd a lansiwyd y protocol ar y cyd gan yr Heddlu a'r CPS ar gyfer ymchwilio ac erlyn achosion o dreisio yn Ionawr 2015.
- Cynhaliwyd cynhadledd yn Ionawr 2015 yn lansio cynlluniau allweddol yn deillio o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Treisio:
    - Taflen gyhoeddus a phecynnau offer ar gydsyniad i'r heddlu, erlynyddion ac eiriolwyr;

---

[17] Cychwynnwyd cofnodi achosion treisio yn hwyrach nag ar gyfer cam-drin domestig
[18] Deilliannau o gyhuddo i gollfarn.
[19] Rhoddir y diffiniadau ar gyfer canlyniadau aflwyddiannus yn yr eirfa; mae amrywiaeth o resymau yn cynnwys problemau dioddefwyr, gwrthddweud yn y dystiolaeth a rhyddfarnau, wedi eu rhannu yn rhai a bennwyd gan farnwr a rhyddfarnau gan reithgor.

  - Pecyn offer ar ddioddefwyr VAWG bregus;
  - Systemau i ymdrin â rhoi cyfarwyddyd i eiriolwyr addas mewn achosion o dreisio;
  - Gwneud y cyfarwyddyd ar gyngor ymchwiliol cynnar a chyhuddo i'r heddlu ac erlynyddion yn fwy clir;
  - Rhoi data i Ardaloedd am brydlondeb achosion treisio i'w trin yn lleol.
- Ym Mawrth 2015, dosbarthodd Grŵp Monitro Treisio Cenedlaethol traws-asiantaethol ddata treisio y System Cyfiawnder Troseddol o 2009-2014 i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac asiantaethau lleol y System Cyfiawnder Troseddol i graffu ar ymchwiliadau ac erlyniadau treisio a'u gwella. Mae'r CPS yn aelod o'r Grŵp Monitro Treisio ac fe gyfrannodd at yr adroddiad.
- Cynhaliwyd adolygiad annibynnol i ymchwilio ac erlyn treisio yn Llundain a chyhoeddwyd yr adroddiad ym Mehefin 2015.Rydym yn gweithio gyda'r heddlu, i bennu pa wersi eraill y gellir eu dysgu o'r adroddiad.
- Cynhaliwyd rhagor o weminarau i erlynyddion Unedau RASSO yn ymdrin â honiadau ffug honedig o droseddau treisio a cham-drin domestig a barhaodd i gael eu monitro yn system sicrwydd VAWG trwy gydol 2013-14.
- Cyhoeddwyd cyfarwyddyd cyfreithiol diwygiedig ar honiadau ffug honedig o dreisio a DA yn Ebrill 2015.
- Datblygwyd rhaglen hyfforddi ar drais i'w gweithredu yn 2015-16.
- Yn yr adroddiad hwn, mae nifer o astudiaethau achos yn trafod mater cydsyniad, dioddefwyr bregus, cyfryngau cymdeithasol, achosion treisio heb fod yn ddiweddar ac arferion da yn lleol.

## Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

- Ni all y CPS gofnodi unrhyw ddata cyn cyhuddo ar gyfer troseddau rhywiol[20].
- Erlynwyd 9,789 o ddiffynyddion yn 2014-15 am droseddau rhywiol, ac eithrio treisio; cynnydd o 8,554 yn 2013-14; gan gyrraedd y nifer uchaf erioed;
- Cododd erlyniadau troseddau rhywiol o 1.2% yn 2013-14 i 1.5% o lwyth achosion y CPS [21] yn 2014-15. Rhoddir y manylion yn ôl rhyw yng nghorff yr adroddiad pan fydd hynny'n bosibl.
- Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 7,591 – y nifer uchaf erioed a chynnydd o 12.4% ers 2013-14; mewn cymhariaeth â gostyngiad bychan yn y gyfran (77.5%).
- Cyhoeddwyd cyfarwyddyd newydd ar erlyn achosion pan fydd cosb enwol yn ganlyniad tebygol ym Medi 2014.
- Rhoddir nifer o astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn darlunio achosion yn ymwneud â throseddau rhywiol pan oedd camddefnydd o ymddiriedaeth, dioddefwyr bregus a thargedu ar y rhyngrwyd.

[20] Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys unrhyw awgrym o benderfyniadau cyn cyhuddo ynghylch troseddau rhywiol (ac eithrio treisio), gan mai dim ond ar ôl gorffen yr achos erlyn mae'r prif gategori o 'droseddau rhywiol' sy'n cynnwys treisio a phob trosedd rhywiol yn cael ei ddyrannu i achosion.
[21] Llwyth achosion troseddau rhywiol fel % o holl erlyniadau'r CPS.

# Priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod[22]

## Priodas dan Orfod

- Mae data'r CPS ar briodas dan orfod yn cynnwys pob achos a lumanwyd fel 'priodas dan orfod' ac nid y rhai oedd yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth priodas dan orfod newydd a gyflwynwyd yn 2014.
- Cododd y nifer o atgyfeiriadau priodas dan orfod gan yr heddlu i 82 yn 2014-15 – o 67 yn 2013-14.
- Cyhuddwyd 48 (58.5% o'r atgyfeiriadau hyn), y nifer uchaf erioed i'w gofnodi ond gostyngiad bychan yn y gyfran mewn cymhariaeth â 2013-14.
- Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 i 46 – cynnydd o 45 yn 2013-14. Rhoddir y manylion yn ôl rhyw yng nghorff yr adroddiad.
- Roedd 63% yn llwyddiannus, gostyngiad o 71% yn 2013-14.
- Gostyngodd yr achosion a derfynwyd o 41.5% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11, i 21.7% yn 2014-15.
- Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd i wneud priodas dan orfod yn drosedd ym Mehefin 2014 a chollfarnwyd y diffynnydd cyntaf yng Nghymru.
- Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd hefyd ar erlyn torri Gorchmynion Amddiffyn Priodas dan Orfod hefyd a chynhaliwyd yr erlyniadau cyntaf yng Ngogledd Orllewin Lloegr.
- Adnewyddwyd cyfarwyddyd cyfreithiol y CPS a'r modylau hyfforddi e-ddysgu yn ystod haf 2014.
- Cynhaliwyd gweithdai Heddlu/CPS ar briodasau dan orfod, trais ar sail anrhydedd a FGM ar draws pob ardal CPS trwy gydol 2014.
- Rhoddir nifer o astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn darlunio priodas dan orfod.

## Trais ar sail anrhydedd[23]

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu o droseddau yn ymwneud â thrais ar sail anrhydedd (HBV) i 251 yn 2014-15 – o 240 yn 2013-14.
- Cyhuddwyd 157 (62.5% o'r atgyfeiriadau hyn); tua'r un nifer â'r flwyddyn ddiwethaf (158).
- Erlynwyd 225 o ddiffynyddion, cynnydd o 206 y llynedd. Rhoddir y manylion yn ôl rhyw yng nghorff yr adroddiad.
- Collfarnwyd 129 o ddiffynyddion, y nifer uchaf erioed, ond gwelwyd gostyngiad yn y gyfran a gollfarnwyd i 57.3% o 59.7% yn 2013-14.
- Gostyngodd achosion a derfynwyd o 40.6% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11 i 29.8% yn 2014-15.

## Anffurfio organau rhywiol menywod

- Arweiniodd yr erlyniad cyntaf am anffurfio organau rhywiol menywod (FGM) pan gafwyd y ddau ddiffynnydd yn ddieuog, at adolygiad yn dilyn yr achos i fod yn sail ar gyfer arferion yn y dyfodol.

---

[22] Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.
[23] Rhoddir lluman ar achosion trais ar sail anrhydedd yn y CPS.

- Arweiniodd hefyd at ddatblygu rhagor o gyfarwyddyd i ymarferwyr meddygol.
- Cyflwynwyd diwygiadau i gryfhau'r troseddau yn y Ddeddf FGM yn Neddf Troseddau Difrifol 2015, a dderbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ym Mawrth 2015.
- Cyflwynwyd Gorchymyn Diogelu FGM sifil newydd.
- Cytunwyd ar brotocolau ar y cyd gyda'r heddlu ym mhob Ardal CPS, a chwblhawyd hyfforddiant ar y cyd fel rhan o roi cynlluniau gweithredu cenedlaethol ar waith.
- Cynhaliwyd galwadau cynadledda cyson gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus gyda'r CCP i fonitro cynnydd ar FGM.
- Mae ardaloedd wedi cynnal amrywiaeth o gynlluniau i ymdrin ag erlyniadau, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth, cynadleddau, seminarau a hyfforddiant ar FGM.

## Cam-drin plant[24]

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau cam-drin plant gan yr heddlu i 12,840 yn 2014-15 – cynnydd o 1,653 (14.8%) ers 2013-14.
- Cyhuddwyd 8,696 (67.7% o'r atgyfeiriadau hyn), cynnydd o 965 (12.5% o ran nifer) ers 2013-14, gan gyrraedd y nifer uchaf erioed.
- Cyrhaeddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 10,045 - cynnydd o 2,047 (25.6%) ers 2013-14, gan gyrraedd y nifer uchaf erioed. Rhoddir y manylion yn ôl rhyw yng nghorff yr adroddiad pan fydd hynny'n bosibl.
- Roedd cynnydd yn nifer y deilliannau llwyddiannus yn yr achosion cam-drin plant yn gyffredinol i 7,469 yn 2014-15 o 6,096 yn 2013-14 – y nifer uchaf erioed a chynnydd o 22.5%.
- Yn 2014-15 dim ond 17 o erlyniadau dynladdiad cam-drin plant a welwyd[25], o 35 yn 2013-14, gyda deilliannau llwyddiannus ar 58.8%.
- Roedd cynnydd yn y nifer o droseddau yn erbyn y person (o 2,383 i 3,192); gyda deilliannau llwyddiannus yn gostwng o 72.4% i 71.3%, o gymharu â 2013-14; mewn cymhariaeth â'r nifer uchaf erioed.
- Cynyddodd yr erlyniadau troseddau rhywiol cam-drin plant yn 2014-15 o 4,371 i 5,387 – cynnydd o 23.2%.
- Cynyddodd y deilliannau llwyddiannus am gam-drin plant yn rhywiol (CSA) o 3,344 i 3,975 - ond bu gostyngiad yn y gyfradd gollfarnu o 76.5% i 73.8% mewn cymhariaeth â'r nifer uchaf erioed – cynnydd o 18.9%.
- Roedd y CPS yn gweithio ar CSA fel rhan o ymdrech ehangach ar draws y Llywodraeth i ymateb i drais rhywiol yn erbyn plant.
- Cyflwynwyd ystod o ddeddfwriaeth gysylltiedig yn ymwneud â gwastrodi a cham-fanteisio rhywiol ar blant.
- Hyfforddwyd yr holl arbenigwyr CSA i weithredu'r cyfarwyddyd cyfreithiol.
- Mae astudiaethau achos o Ardaloedd yn yr adroddiad hwn yn darlunio erlyniadau cam-drin heb fod yn ddiweddar, gangiau, gwastrodi ac achosion CSA.

[24] Llumanir achosion cam-drin plant yn y CPS.
[25] Gweler yr eirfa am ddiffiniadau.

## Masnachu mewn pobl a phuteindra

- Ers Ebrill 2010, mae'r CPS wedi llumanu a monitro pob achos o fasnachu mewn pobl[26].
- Cododd y nifer o ddiffynyddion masnachu mewn pobl a atgyfeiriwyd gan yr heddlu i 234 yn 2014-15 – cynnydd o 36.8% o 171 o atgyfeiriadau yn 2013-14.
- Cyhuddwyd 195 (83.3% o'r atgyfeiriadau hyn), cynnydd o 92 o'r flwyddyn ddiwethaf (89.3%).
- Cyrhaeddodd y nifer o erlyniadau masnachu pobl a gwblhawyd yn 2014-15 gyfanswm o 187 - gostyngiad o 226 yn 2013-14. Rhoddir y manylion yn ôl rhyw yng nghorff yr adroddiad pan fydd hynny'n bosibl.
- Roedd gostyngiad hefyd yn nifer y deilliannau masnachu pobl llwyddiannus o 155 yn 2013-14 i 130 yn 2014-15 (68.6% yn 2013-14 cododd i 69.5% yn 2014-15).
- Roedd cynnydd yn nifer y troseddau yn gysylltiedig â phuteindra[27] i'w herlyn o 441 yn 2013-14 i 446 yn 2015-16.
- Cyfrannodd y CPS at strategaeth caethwasiaeth fodern y llywodraeth a lansiwyd ym mis Tachwedd 2014.
- Bu'r CPS yn gweithio ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol i ymdrin â materion masnachu mewn pobl.
- Rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ym Mawrth 2015; bwriedir cyhoeddi cyfarwyddyd diwygiedig a hyfforddiant.
- Mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn cynnwys enghreifftiau o fasnachu a phuteindra.

## Pornograffi

- Yn 2014-15 roedd cynnydd mewn erlyniadau am ddelweddau cam-drin plant o 20,373 i 21,580, yn cynnwys cychwyn erlyniadau ar gyfer 16,129 o droseddau o gam-fanteisio ar blant trwy luniau; yn cynnwys cynnydd mewn erlyniadau am y drosedd fwyaf diweddar o feddu delwedd waharddedig o blentyn o 534 i 631.
- Roedd cynnydd yn y troseddau anweddustra a erlynwyd o 4,764 i 5,782.
- Yn gyffredinol roedd cynnydd o ychydig dan 6% o ddelweddau cam-drin plant a lleihad o 21.4% o droseddau anlladrwydd a gyrhaeddodd wrandawiad cyntaf.
- Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd yn Ebrill 2015 ar bornograffi dial, pornograffi treisio a throsedd newydd o feddu llawlyfr pedoffil yn ogystal â diwygiadau i dynhau'r Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus.
- Datblygwyd nifer o fodylau e-ddysgu newydd, Erlyn Gwastrodi Ar-lein a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol a bydd yn cael ei lansio ar gyfer erlynyddion yn ystod 2014-15.
- Mae astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn darlunio erlyniadau cam-drin plant yn rhywiol a delweddau anweddus a phornograffi dial.

---

[26] Gweler y rhestr termau am y troseddau sydd wedi eu llumanu. Fel gydag unrhyw system fonitro gymharol newydd, mae angen amser iddi sefydlu er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio yn gywir. Felly mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data yn ofalus. O Ionawr 2013, roedd cywirdeb llumanu yn cael ei wirio'n chwarterol.

[27] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynnwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd, deilliant na data cydraddoldeb. Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau System Gwybodaeth Reoli yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes awgrym o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad a brofwyd yn y diwedd.

# Cyflwyniad

Yr Adroddiad Troseddau yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) hwn gan y CPS yw'r wythfed argraffiad i'w gyhoeddi gan y CPS. Mae'r adroddiad yn ymdrin â materion yn Strategaeth VAWG gyffredinol y CPS - y fframwaith a lansiwyd yn 2008. Mae'r strategaeth yn cydnabod VAWG fel mater hawliau dynol sylfaenol, gan dynnu ar gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig y mae'r Deyrnas Unedig wedi eu llofnodi a'u cadarnhau. Cydnabyddir rhyddid rhag trais a chamdriniaeth yn glir mewn deddfau rhyngwladol o ran hawliau dynol a rhyw. Cydnabyddir VAWG trwy'r byd, a gan lywodraeth y Deyrnas Unedig, fel ffurf ar droseddu lle mae rhyw yn chwarae rhan.

Fel y mae'r Cenhedloedd Unedig yn ei ddisgrifio: *Mae trais yn erbyn menywod yn arddangos y berthynas hanesyddol anghyfartal rhwng dynion a merched, sydd wedi arwain at dra-arglwyddiaethu a gwahaniaethu yn erbyn menywod gan ddynion ac at atal menywod rhag mynd yn eu blaenau i'r graddau y gallent, a...trais yn erbyn menywod yw un o'r peirianweithiau cymdeithasol a ddefnyddir i orfodi menywod i safle israddol mewn cymhariaeth â dynion.*

Mae polisïau'r drosedd yn eistedd yn fframwaith trosfwaol 'VAWG' i ymdrin â throseddau sydd wedi cael eu dynodi fel rhai a gyflawnwyd yn bennaf, ond nid yn unig, gan ddynion yn erbyn menywod. Ond, mae'r CPS yn adnabod, cydnabod ac yn helpu'r dioddefwyr hynny nad ydynt o angenrheidrwydd yn cael eu dal gan yr ymbarél "VAWG" - hynny yw, y dynion a'r bechgyn a all fod yn dioddef troseddau VAWG hefyd. I'r diben hwnnw, mae'r CPS yn gynhwysol yn ei agwedd. Mae ein holl bolisïau VAWG yn cael eu gweithredu yn deg a chyfartal yng nghyswllt yr holl dramgwyddwyr a dioddefwyr - beth bynnag fo eu rhyw. Mae'r adroddiad felly yn cynnwys data am yr holl dramgwyddwyr a'r holl ddioddefwyr.

Fel y gwnaeth mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n trafod amrediad o ffrydiau VAWG:

- cam-drin domestig (DA)
- stelcio ac aflonyddu
- treisio a throseddau rhywiol
- priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod
- cam-drin plant
- masnachu mewn pobl, gyda ffocws ar fasnachu mewn pobl i ddiben cam-fanteisio rhywiol
- puteindra
- pornograffi.

Mae'r adroddiad yn darparu data a sylwebaeth mewn adrannau ar wahân ar bob un o'r meysydd VAWG, gan gynnwys nifer o astudiaethau achos ac arfer dda. Mae'r prif faterion a gafodd eu dynodi yn 2014-15 wedi'u hamlygu ym mhob adran a gallant wahaniaethu o ffrwd i ffrwd. Mae'r CPS yn casglu data[28] i gynorthwyo mewn

[28] Casglwyd data ar droseddau VAWG o System Reoli Achosion (CMS) y CPS a System Gwybodaeth Rheoli (MIS) cysylltiedig sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn agored i wallau posibl wrth gofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigurau hyn yn rhai dros dro a gallant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

rheolaeth effeithiol o'i swyddogaethau erlyn. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cael eu cyfrif yn ystadegau swyddogol fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007[29]. Rydym yn ymroddedig i wella ansawdd ein data ac o ganol Mehefin 2015 fe wnaethom gyflwyno trefn sicrhau ansawdd data newydd a all esbonio peth amrywio annisgwyl mewn setiau data yn y dyfodol.

Mae proffiliau cydraddoldeb diffynyddion, yn ôl rhyw ac ethnigrwydd, yn cael eu hasesu a rhoddir adroddiad arnynt yn yr adroddiad hwn. Rhoddir data am ddioddefwyr pan fydd ar gael ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd i wella'r data yn ymwneud â dioddefwyr sy'n cael ei gasglu yn y system cyfiawnder troseddol. Dros y pum mlynedd diwethaf dengys cofnodion y CPS bod y rhan fwyaf (84%) o ddioddefwyr y troseddau hyn, pan gofnodir rhyw, yn fenywaidd, a bron y cyfan (93%) o'r tramgwyddwyr yn wrywaidd. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data am yr holl ddioddefwyr a thramgwyddwyr, beth bynnag fo eu rhyw. Pan fydd hynny'n bosibl, mae'r data yn cael ei wahanu yng nghorff yr adroddiad yn ôl rhyw yn ogystal â'r niferoedd a'r cyfrannau.

## Cynlluniau trawslywodraethol

Ym Mawrth 2015, cyhoeddodd y llywodraeth adroddiad ar ei gwaith VAWG dros y pum mlynedd diwethaf – A Call to End Violence against Women Progress report 2010-2015. Goruchwyliwyd y gwaith o weithredu'r camau hyn gan y Grŵp VAWG Rhyngweinidogaethol. Roedd yr Adroddiad yn cynnwys uchafbwyntiau o ran llwyddiannau'r CPS, gan gynnwys gweld y gyfradd gollfarnu ar gam-drin domestig yn cyrraedd y lefel uchaf erioed; sefydlu unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO); y cynnydd mewn erlyniadau stelcio a datblygu pecynnau offer i erlynyddion ar faterion cydsyniad mewn achosion o dreisio.

[29] Cedwir yr ystadegau swyddogol yn ymwneud â throseddau a phlismona gan y Swyddfa Gartref ac mae'r ystadegau swyddogol yn ymwneud â dedfrydu, achosion llysoedd troseddol, y troseddwyr a ddaeth ger bron eu gwell, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cadw gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Trais yn erbyn Menywod a Merched

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ymdrin â'r dull cyffredinol o ymdrin â throseddau a ddosbarthwyd fel rhai 'VAWG; gyda'r cafeat a amlinellwyd yn y cyflwyniad. Parhaodd gwaith VAWG i fod yn flaenoriaeth o fewn cynlluniau busnes Ardal a Chenedlaethol y CPS yn 2014-15. Llwyddwyd i lunio dull prif-ffrwd o ymdrin â materion VAWG, gyda pherchenogaeth ac atebolrwydd gan yr ardaloedd. Mae'r gwaith wedi ymdrin â blaenoriaethau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) ar wasanaethau i ddioddefwyr a thystion, ansawdd gwaith achos, a sicrhau bod gan erlynyddion yr offer a'r sgiliau iawn ar gyfer y gwaith.

Roedd y gwaith yn 2014-15 yn ymdrin â'r gostyngiad mewn achosion VAWG a atgyfeirir gan yr heddlu. Arweiniodd hyn at y nifer uchaf o droseddau VAWG i gael eu cyhuddo, eu herlyn a'u collfarnu erioed. Bu gwaith penodol ar dreisio, cam-drin plant yn rhywiol, stelcio a FGM yn cael blaenoriaeth uchel dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r holl waith polisi ar yr agenda VAWG yn awr wedi ei resymoli yng Nghyfarwyddiaeth Gweithrediadau Prif Swyddfa'r CPS.

**Cydlynwyr VAWG:**
Cydlynwyr VAWG sy'n arwain ar faterion VAWG ar lefel Ardal. Maent yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn fel rhwydwaith i ddelio â materion allweddol, yn ogystal â gweithio gyda'u Prif Erlynyddion y Goron i ddarparu adroddiadau ddwywaith y flwyddyn yn uniongyrchol i'r DPP trwy'r system sicrhau VAWG.

**Cefnogaeth rhanddeiliaid:**
Ar lefel genedlaethol, parhaodd Grŵp Ymgynghori Allanol (ECG) VAWG, yn cynnwys Grwpiau arbenigol VAWG allweddol, i gynghori tîm VAWG y CPS fel is-grŵp o'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol ehangach.

**Cysylltiadau ar draws materion VAWG:**
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi canolbwyntio ar ddeall pa mor fregus yw dioddefwyr VAWG a'r modd y maent yn teimlo dan fygythiad. Yn 2014-15 fe wnaethom gyhoeddi cyfarwyddyd ar ddull oedd yn canolbwyntio ar y troseddwr, gan adolygu achosion VAWG ar sail hygrededd yr honiad cyffredinol, yn hytrach na chanolbwyntio ar y dioddefwr. Bu cam-fanteisio ar ddioddefwyr bregus yn thema gyson. Mae ein cyfarwyddyd newydd yn ymdrin â phroblemau cyffredin wrth dargedu dioddefwyr gan droseddwyr, nid mewn achosion treisio a cham-drin rhywiol ar blant yn unig, ond hefyd mewn puteindra, pornograffi a masnachu rhywiol.

Dynodwyd bod defnyddio'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol yn un o'r prif ddulliau o dargedu a cham-drin dioddefwyr. Cyflwynwyd rheolau newydd yn Ebrill 2015 ar bornograffi dial, pornograffi treisio, gwastrodi ac mae rhai yn yr arfaeth ar wneud anfon negeseuon rhywiol yn drosedd.

**Trawsnewid Cyfiawnder Diannod:**
Pan fydd oedi diangen wrth i achosion gael eu clywed mewn llysoedd ynadon, gall hyn achosi gofid ychwanegol i ddioddefwyr a thystion. Mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn gweithio i leihau oedi yn y Llysoedd Ynadon, cynnal llai o wrandawiadau i bob achos a chynyddu'r nifer o achosion sy'n symud yn eu blaenau y tro cyntaf y byddant yn cael eu rhestru. Gelwir y rhaglen hon yn Drawsnewid Cyfiawnder Diannod ac mae yn weithredol ers Mai 2015. Cyflwynwyd y rhaglen

drawsnewid i sicrhau bod pawb yn y system cyfiawnder troseddol yn chwarae ei ran yn fwy effeithiol. Y nod yw cael system gyfiawnder troseddol gyda llai o oedi, llai o wrandawiadau ac achosion llys mwy effeithiol. Ar gyfer dioddefwyr VAWG, bydd y rhaglen drawsnewid yn cynnig cyfiawnder cyflymach a llai o ofid i ddioddefwyr a thystion, gan y dylai achosion llys gael eu rhestru yn gynt a bod yn fwy tebygol o symud ymlaen ar y diwrnod.

**Safonau Ansawdd Gwaith Achos:**
Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau Ansawdd Craidd, datblygodd y CPS system newydd o Asesiadau Ansawdd Unigol (IQA) a gyflwynwyd ym Mai 2014. Ar hyn o bryd mae'r IQA yn y cyfnod treialu a byddant yn cael eu gweithredu yn llawn trwy'r CPS i gyd yn 2015-16. Bydd asesiadau IQA yn seiliedig ar waith aelodau unigol o staff a bydd disgwyl i reolwyr asesu gwaith unigolion sy'n ymwneud â rolau heblaw eiriolaeth ar bedwar achlysur y flwyddyn ac eiriolwyr ar ddau achlysur bob blwyddyn. Bydd IQA yn ymdrin â'r agweddau canlynol o'r broses erlyn.

- Gwaith cynghori;
- Penderfyniadau Cyhuddo ac Adolygu (gan gynnwys penderfyniadau i barhau);
- Paratoi Gwaith Achos;
- Cyflwyno Achos (ym mhob gwrandawiad ac nid mewn achosion llys yn unig).

**Both gwaith achos VAWG:**
Yn unol â blaenoriaeth y DPP o sicrhau bod gan erlynyddion yr offer a'r sgiliau ar gyfer y gwaith, sefydlwyd adran VAWG ar foth gwaith achos y CPS. Adnodd ar-lein yw both gwaith achos y CPS ac mae'r adran VAWG yn rhoi cymorth ymarferol i erlynyddion yn ymwneud â pharatoi gwaith achos. Mae'n cynnwys enghreifftiau o arfer da yn ogystal â dolenni at arweinyddion lleol, cydlynwyr, cyfarwyddyd cyfreithiol, pecynnau offer a chylchlythyrau VAWG. Byddwn yn parhau i adolygu ac adeiladu ar y wybodaeth a roddir i sicrhau ei bod yn hygyrch a pherthnasol.

**CPS Direct (CPSD):**
Mae CPSD yn cynnig cyngor ar gyhuddo i'r heddlu 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Y nhw sy'n gyfrifol am gyhuddo yn y rhan fwyaf o achosion DA. Bydd CPSD yn atgyfeirio achosion sy'n ymwneud â threisio a throseddau rhywiol difrifol eraill i Unedau RASSO, oni bai bod cyhuddiad ar y prawf trothwy yn angenrheidiol tu allan i oriau swyddfa. Yn ystod 2014-2015 roedd 46% o lwyth achosion y CPSD yn dod i'r categori VAWG. Sefydlwyd Bwrdd Ansawdd Gwaith Achos VAWG ochr yn ochr ag Asesiadau Ansawdd Unigol cadarn ar benderfyniadau gwaith achos VAWG. Derbyniodd yr holl reolwyr ac erlynyddion hyfforddiant ar erlyniadau ar sail tystiolaeth gyda golwg ar wella ansawdd llunio penderfyniadau a sicrhau bod achosion yn barod i'w symud ymlaen yn y llys. Mae CPSD yn anelu at ddod yn ganolfan ragoriaeth i waith VAWG:

## Perfformiad VAWG

Yn 2014-15, parhaodd Ardaloedd CPS i fonitro'u perfformiad yn defnyddio mesur dilysu VAWG oedd yn asesu deilliannau llwyddiannus ar gyfer DA, troseddau rhywiol a threisio. Yn benodol mae'r data yn yr adran hon felly yn ymdrin â cham-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol, wedi eu dosbarthu gyda'i gilydd fel 'VAWG'. Asesir y dull dilysu ochr yn ochr â nifer yr erlyniadau, gan gynnig monitro mwy manwl yn y broses sicrhau VAWG ddwywaith y flwyddyn. Bu'r oruchwyliaeth hon yn ganolog i gyflawni gwelliannau parhaus ar y gwaith pwysig hwn.

Asesir ardaloedd ymhellach ar ystod eang o gamau gan gynnwys ystyried tueddiadau mewn perfformiad ar lwythi achos a chyfraddau collfarnu, mewn cymhariaeth â'r cyfartaledd cenedlaethol a'u gosod mewn trefn yn ôl eu perfformiad VAWG. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o atgyfeiriadau heddlu, cyhuddo, erlyniadau a deilliannau, gan gynnwys collfarnau, yr achosion nad ydynt yn cael eu herlyn, collfarnu neu ddedfrydu oherwydd materion yn gysylltiedig â dioddefwyr, ar gyfer pob trosedd rywiol, rhyddfarnau gan reithgorau. Mae'r Ardaloedd yn cynnig sylwebaeth ar eu perfformiad cyffredinol ac yn dynodi camau i ymdrin â gwelliannau. Maent hefyd yn rhoi manylion eu gwaith ar draws yr holl ffrydiau VAWG. Bydd ardaloedd yn cael adborth ar eu hadroddiadau sicrwydd gan y tîm DPP a VAWG ac mae'n ofynnol iddynt lunio a darparu tri phwynt gweithredu yn dilyn pob asesiad bob hanner blwyddyn.


Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r mwyafrif (86.6%) o droseddau sydd wedi eu grwpio dan VAWG[30], i ddibenion rheoli perfformiad yn gam-drin domestig gyda threisio ar 4.2% a throseddau rhywiol ac eithrio treisio, ar 9.2%.

Ers cyflwyno cofnodi troseddau VAWG rydym wedi cyrraedd y lefel uchaf o atgyfeiriadau gan yr heddlu o ddiffynyddion VAWG ar gyfer penderfyniadau cyhuddo. Yn 2014-15, atgyfeiriwyd 129,057 o ddiffynyddion at y CPS – cynnydd o 19,638 (18%) o 2013-14 ac yn uwch na'r lefel uchaf flaenorol yn 2010-11. Roedd y cynnydd hwn hefyd wedi ei adlewyrchu yn y nifer a'r gyfran a gyhuddwyd – gan gyrraedd 88,359 (68.5%) – cynnydd o 11,833 (15.5%) ers 2013-14 a'r uchaf erioed[31]. Mae gwarediadau allan o'r llys, y penderfynwyd arnynt gan y CPS yn y cam cyn cyhuddo, hefyd wedi cyrraedd y lefel isaf hyd yn hyn (1,473, ychydig dros 1% o'r holl atgyfeiriadau). Mae'r cynnydd mewn niferoedd yn arwydd o lwyddiant y gwaith a wnaed ar draws yr heddlu a'r CPS i wella prosesau atgyfeirio ar gyfer cam-drin domestig a phob trosedd rywiol. Ceir rhagor o fanylion am y camau a gymerwyd mewn rhannau o'r adroddiad.

Mae Graff 1 yn dangos y newidiadau yn nifer yr atgyfeiriadau a'r rhai a gyhuddwyd ers 2008-09.


[30] Mae data ar gyfer 'troseddau VAWG' yn cynnwys cam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol
[31] Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i'w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14.

**Graff 1: Nifer o atgyfeiriadau heddlu a diffynyddion a gyhuddir VAWG**




Asesir niferoedd yr achosion VAWG fel cyfran o gyfanswm gwaith achos y CPS fel y 'llwyth achosion VAWG'. Cynyddodd y llwyth o achosion VAWG yn 2014-15 gan gyrraedd y lefel uchaf erioed ar 16.3%, fel y gwelir yng Ngraff 2.

**Graff 2: Llwyth achosion VAWG fel % o gyfanswm y llwyth achosion yn 2008-09 i 2014-15.**




**LLWYTH ACHOSION VAWG Blynyddol FEL % O'R CYFANSWM**

| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CPS YN GENEDLAETHOL** | **7.6%** | **8.7%** | **9.9%** | **10.2%** | **10.3%** | **12.5%** | **16.3%** |

Cododd y nifer o droseddau VAWG a erlynwyd[32] o 90,516 yn 2013-14 i 107,104 yn 2014-15, cynnydd o 16,588 o ddiffynyddion wedi eu herlyn – 18.3% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol a'r lefel uchaf erioed. O'r 107,104 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 99,680 o'r diffynyddion yn ddynion, 7,329 yn fenywod ac nid oedd rhyw 95 o'r


[32] Sylwer fod y niferoedd cyhuddo yn cwmpasu'r achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* i'r CPS yn ystod 2014-15 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo na ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd gyda'r rhai a erlynwyd sy'n cwmpasu achosion yn ôl diffynnydd, *a gwblhawyd* yn ystod 2014-15.

diffynyddion wedi ei gofnodi[33]. O'r rhai y cofnodwyd eu rhyw roedd 93% yn ddynion a 7% yn fenywod. [34]

Cynyddodd y nifer a gollfarnwyd hefyd o 11,393, o 67,380 yn 2013-14 i 78,773[35], cynnydd o 16.9% a'r nifer uchaf erioed.


Mae Graff 3 yn dynodi'r niferoedd cynyddol, gan wyrdroi'r dirywiad cynharach o 2010-11.

**Graff 3: Nifer y collfarnau a'r erlyniadau am droseddau VAWG o 2008-09 i 2014-15.**




Mae'r gyfradd collfarnau VAWG ar 73.5% o ddeilliannau llwyddiannus yn 2014-15, er ei fod yn ostyngiad bychan o 74.4% yn 2013-14 yn cael ei asesu mewn cymhariaeth â'r cynnydd o 16.9% yn y nifer o ddiffynyddion a gollfarnwyd – 11,393 yn fwy. Mae Graff 4 yn dangos y patrwm cynyddol o gyfraddau collfarnau dros y saith mlynedd diwethaf.

**Graff 4: Cyfraddau collfarnau am droseddau VAWG o 2008-09 i 2014-15.**




[33] Nid yw'n bosibl rhoi data am ryw dioddefwyr yng nghyswllt rhyw y diffynnydd o'r systemau data presennol. Rhoddir data dioddefwyr yn yr adran Cydraddoldeb ar dudalen 21.
[34] Mae'r ffigwr yr un fath os caiff ei gyfrifo ar sail y cyfanswm, gan gynnwys rhai lle na chofnodwyd rhyw.
[35] Nid yw'r data yn cael ei wahanu yn ôl rhyw ar hyn o bryd.

Roedd 90.3% o ddeilliannau llwyddiannus oherwydd pleon euog. Mae mwy o bleon euog yn golygu y gellir dod ag achosion i'r llys yn gyflymach ac ar gost sylweddol is, gan eu bod yn galw am lai o waith paratoi. Mae hyn yn fanteisiol i'r dioddefwr gan nad oes rhaid iddynt fynychu'r llys i roi tystiolaeth.

## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tablau ar dudalen 98-99 yn rhoi data erlyniadau VAWG yn ôl Ardal ac ardaloedd lluoedd heddlu. O 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Dinas Llundain (CLP) a Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r CLP a'r BTP.

Mae'r atodiad cysylltiedig, a roddwyd ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol, yn rhoi data cyn cyhuddo Ardaloedd ac ardaloedd lluoedd heddlu. Yn 2014-15, roedd yr asesiad sicrwydd VAWG yn cynnwys data cyn cyhuddo yn ogystal ag wedi cyhuddo.

## Materion cydraddoldeb

**Rhyw**
O'r 107,104 diffynnydd a erlynwyd, roedd 99,680 yn ddynion, 7,329 yn fenywod, ac nid oedd rhyw 95 o ddiffynyddion wedi ei gofnodi[36]. O'r rhai lle'r oedd y rhyw wedi ei gofnodi, - roedd 93% o'r diffynyddion yn ddynion, yn debyg i'r gyfran yn 2013-14 a 7% yn fenywod. [37]

Ar gyfer data dioddefwyr, o'r System Rheoli Tystion, cofnodwyd 98,314 o ddioddefwyr[38]. O'r holl ddioddefwyr, roedd 69,007 yn fenywod, 13,154 yn ddynion a 16,153 heb eu cofnodi. Cofnodwyd 84% o ryw dioddefwyr yn 2014-15 – cynnydd o 83% yn 2013-14. O'r rhai y cofnodwyd rhyw ar eu cyfer, roedd y gyfran o ddioddefwyr oedd yn fenywod yn 84% a dynion oedd yn ddioddefwyr yn 16%, yn debyg i'r hyn a gofnodwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

**Ethnigrwydd**
Yn 2014-15, dosbarthwyd 77% o ddiffynyddion[39] troseddau VAWG fel Gwyn, gan nodi fod 72% yn Wyn Prydeinig (yn debyg i'r flwyddyn flaenorol). Dynodwyd 6% o ddiffynyddion yn Asiaidd, ac ychydig dan 6% yn Ddu, ffigyrau tebyg i'r flwyddyn flaenorol[40]. Ni chofnodwyd ethnigrwydd ychydig dan hanner y dioddefwyr, felly ni adroddwyd ar y data hwn yn yr adroddiad hwn.

---

[36] Nid yw'n bosibl rhoi data ar ryw y dioddefwyr yng nghyswllt rhyw y diffynnydd o'r systemau data presennol.
[37] Mae'r ffigwr hwn yr un fath os caiff ei gyfrifo ar sail y cyfanswm, gan gynnwys y rhai heb gofnodi rhyw.
[38] Mae'r data dioddefwyr yn cynnwys trais domestig a threisio, ond nid yw'r data am droseddau rhywiol heblaw treisio, ar gael o'r systemau data.
[39] Mae data ethnigrwydd ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau CJS cytunedig ar gyfer y categorïau ethnig 16+1.
[40] Ni ddatganodd 4% o ddiffynyddion ethnigrwydd wrth gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ethnigrwydd diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu mewn ychydig dros 5% o'r achosion.

**Oedran**
Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (71%) a 18-24 (22%). Roedd 25% o ddiffynyddion (26,785) dan 24 oed, gyda 3,295 (3%) o ddiffynyddion yn 14-17 oed a 212 (0.2%) yn 10-13 oed. O'r dioddefwyr hynny gydag oedran wedi ei gofnodi[41], roedd y mwyafrif rhwng 25-59 oed (66%) a 18-24 (23%). Yn debyg i oedran diffynyddion, roedd 29.3% o ddioddefwyr (23,558) dan 24 oed, gyda 3,733 (5%) o ddioddefwyr yn 14-17 oed ac 895 (1%) yn 10-13 oed a 228 dan 10 (0.3%).

## Gwaith VAWG rhyngwladol

Yn 2014-15 datblygwyd strategaeth VAWG Ryngwladol i erlyn achosion VAWG gydag elfen ryngwladol yn effeithiol. Mae'r strategaeth yn ymdrin ag achosion pan fydd y dystiolaeth neu'r tystion dramor, pan fydd troseddwyr yn ffoi dramor neu pan fydd y troseddau yn digwydd dan awdurdodaeth wahanol yn ogystal â gwaith gydag awdurdodaethau gwahanol i wella erlyn troseddau VAWG o'r dechrau. Y nod yw sicrhau bod erlyniadau VAWG y CPS gydag elfen ryngwladol mor effeithlon â phosibl, gan wneud mwy o ddefnydd o'i rwydwaith o erlynyddion a ddefnyddir dramor, a gweithio yn glos gydag Ardaloedd CPS, Adrannau Gwaith Achos, ar draws San Steffan a llywodraethau eraill.

Mae'r both gwaith achos yn cynnig mynediad rhwydd at wybodaeth hanfodol benodol i wlad a ffaith i gyfreithwyr sy'n gwneud gwaith rhyngwladol.

Amlinellir y gwaith i gyflwyno Gorchmynion Diogelu Ewropeaidd yn yr adran cam-drin domestig o'r adroddiad hwn a rhoddir manylion gwaith rhyngwladol yn yr adran masnachu pobl.

**Cysylltiadau rhyngwladol:**

- Yn 2014-2015 rhoddodd y CPS gyngor a chymorth mewn achosion VAWG yng nghyswllt y gwledydd canlynol: Awstralia, Brasil, Canada, Y Weriniaeth Siec, Gweriniaeth Dominica, Yr Aifft, Ffrainc, Hong Kong, Iwerddon, Yr Eidal, Israel, Jamaica, Kenya, Mauritius, Mongolia, Seland Newydd, Norwy, Portiwgal, Rwmania, Sbaen, Twrci, UAE ac UDA.

  Roedd hyn yn cynnwys ymholiadau i gael datganiadau tystion, cyfweliadau ABE i ddioddefwyr, cyfweld rhai dan amheuaeth, sefydlu dolenni fideo ar gyfer tystiolaeth fyw, cael tystiolaeth feddygol, cael data cyfathrebu, ceisiadau cyfraith cymharol mewn achosion awdurdodaeth tu allan i wladwriaethau, ceisiadau datgelu trydydd parti, materion awdurdodaeth a throsglwyddo camau cyfreithiol i wledydd eraill.

## Materion dioddefwyr

Ymdrinnir â materion dioddefwyr ym mhob adran o'r adroddiad. Yn ogystal, mae nifer o faterion dioddefwyr cyffredinol o bwysigrwydd wrth erlyn achosion VAWG.

**Gwella gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion:** parhaodd y pwyslais ar ansawdd gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion yn ystod 2014-15 yn unol â blaenoriaethau'r DPP.

[41] Cofnodwyd 82% o oedrannau dioddefwyr yn 2014-15 – cynnydd o 81% yn 2013-14.

**Ymrwymiad traws-system gyfiawnder troseddol y llywodraeth i ddioddefwyr:** Cyfrannodd y CPS at yr ymrwymiad hwn a gyhoeddwyd ym Medi 2014. Yn y CPS bydd yr holl staff perthnasol yn cael amcan sy'n rhoi pwyslais ar y dioddefwr yn 2015-16.

**Strategaeth a chynllun gweithredu CJS:** Mae'r CPS yn gweithio gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr a phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol i sicrhau cydymffurfiad â Chod y Dioddefwyr a Siarter y Tystion.

**Hawl Dioddefwyr i Adolygiad:** Sefydlwyd y cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR) ym Mehefin 2013 i'w gwneud yn haws i ddioddefwyr geisio adolygiad o benderfyniad y CPS i beidio erlyn. Cynhelir yr adolygiadau i gychwyn gan yr Ardal a gall yr achos gael ei adolygu ymhellach gan yr Uned Apeliadau ac Adolygiad, ar gais y dioddefwr, yn dilyn penderfyniad yr Ardal. Mae perfformiad yn cael ei fonitro i adlewyrchu'r nifer o achosion pan gadarnhawyd y VRR yn llwyddiannus fel canran o achosion pan nodwyd y dioddefwr. Mae'r ARU wedi darparu adroddiadau ar berfformiad yr holl ardaloedd i Fwrdd y CPS fel rhan o Adolygiadau Perfformiad Ansawdd yr Ardaloedd. Roedd y rhain yn tanlinellu'r penderfyniadau yn ymwneud â throseddau rhywiol a dderbyniwyd ac a wrth-drowyd gan yr ARU ac yn cynnwys dadansoddiad ac adroddiad ar y tueddiadau wrth wneud penderfyniadau. Yn ychwanegol, rhoddodd erlynydd treisio arbenigol o'r ARU adborth a hwyluso trafodaeth mewn cyfarfod o Benaethiaid Unedau RASSO. Rhoddir y newyddion diweddaraf yn gyson i Ardaloedd, i wersi gael eu rhannu.

**Unedau Cyswllt Dioddefwyr:** sefydlwyd Unedau Cyswllt Dioddefwyr ar draws yr holl Ardaloedd CPS i sicrhau fod dioddefwyr yn cael cyfathrebiadau amserol, llawn empathi pan benderfynwn atal achos neu addasu'r cyhuddiadau'n sylweddol. Mae'r unedau hyn yn 'siop un stop' i ddioddefwyr y rhan fwyaf o droseddau parthed ein cyfathrebiadau yn dilyn cwblhau. Mae'r unedau hefyd yn rheoli cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygu, polisi adborth a chwynion y CPS a gwaith gweinyddu cynlluniau eraill sy'n ymwneud â dioddefwyr megis cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth.

**Cynllun Cyfathrebu a Chyswllt Dioddefwyr:** gweithredwyd y Cynllun Cyfathrebu a Chyswllt newydd ar draws holl Ardaloedd y CPS. Dan y cynllun, sy'n cymryd lle'r cynllun Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr, bydd y CPS yn parhau i roi gwybod i ddioddefwyr am benderfyniadau i atal neu i newid cyhuddiadau yn sylweddol, gan roi gwasanaethau gwell wedi eu teilwrio i'r dioddefwyr sydd fwyaf o angen cefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys dioddefwyr VAWG.

**Siarad â thystion yn y llys:** fel rhan o'n hymrwymiad i wella'r profiad 'yn y llys' i ddioddefwyr, rydym wedi datblygu cynigion i roi gwell cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion yn y llys. Rydym yn eu cyfarfod, yn esbonio rôl yr erlyniad, ac yn eu cynnwys pan fydd hynny'n bosibl mewn penderfyniadau allweddol am sut i symud yr achos ymlaen. Rydym yn rhoi rhagor o wybodaeth iddynt am natur achos yr amddiffyniad cyn iddynt roi tystiolaeth. Mae'r cynigion wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac mae'r ymatebion a gafwyd yn awr yn cael eu hystyried gan y CPS.

**Datganiadau Personol Dioddefwr (VPS):** mae'r CPS wedi cytuno ar brotocol amlasiantaethol a'i weithredu i sicrhau bod rhagor o ddioddefwyr yn cael y cyfle i wneud a darllen VPS yn y llys. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gallu rhoi gwybod i'r llys am effaith y drosedd ar eu bywydau a'u lles.

**Camau arbennig:** cyhoeddwyd cyfarwyddyd wedi ei ddiweddaru i erlynyddion parthed camau arbennig ym Mai 2015. Mae'r canllaw diwygiedig yn ystyried yr argymhellion a wnaethpwyd yn dilyn ymchwil y CPS i ddefnyddio camau arbennig, ac yn cynnwys gwybodaeth a chyfarwyddyd ymarferol gwell i erlynyddion, yn arbennig parthed cyfryngwyr. Yn ogystal, mae'r cyfarwyddyd yn rhoi gwybodaeth bellach i erlynyddion am drafodaethau camau arbennig gyda'r heddlu a ffactorau i erlynyddion eu hystyried wrth bennu a ddylid cynnal cyfarfodydd camau arbennig gyda thystion.

**Porth Eiriolwyr:** mae'r CPS yn dal i gyfrannu at y Porth Eiriolwyr, sy'n rhoi cyfarwyddyd ymarferol i ymarferwyr cyfiawnder troseddol ar dystion bregus a diffynyddion.

**Arolwg bodlonrwydd dioddefwyr a thystion cenedlaethol:** cynhaliodd y CPS arolwg bodlonrwydd cenedlaethol i asesu lefel y bodlonrwydd gan ddioddefwyr a thystion o'r gwasanaeth y maent wedi ei dderbyn gan y CPS. Gwnaed y gwaith maes – cymerodd tua 8,000 o ddioddefwyr a thystion ran yn yr arolwg – ac mae'r gwaith ar ddadansoddi'r canfyddiadau ar y gweill. Roedd yr arolwg yn cynnwys holi dioddefwyr cam-drin/trais domestig a rhywiol. Cyhoeddir y canfyddiadau yn 2015-16.

**Canllawiau ar erlyn achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol:**
Mae'r canllawiau ar erlyn achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol a gyhoeddwyd ym Mehefin 2013 wedi cael eu defnyddio ar draws y materion VAWG. Dylid darllen y canllawiau cyfryngau cymdeithasol ar y cyd â'r Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron sy'n nodi ffactorau lles y cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys a oedd y drosedd wedi ei hysgogi gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn y dioddefwr yn cynnwys gwahaniaethu ar sail rhyw. Fe ystyrir ffactorau lles y cyhoedd yng nghyswllt cyfathrebiadau yr ystyrir eu bod yn hynod sarhaus, anweddus, aflednais neu ffug.

Amlinellir cyfreithiau newydd yn ymwneud â gwastrodi, negeseuon rhywiol, cyfathrebiadau maleisus, pornograffi treisio a dial yn yr adrannau cam-drin plant a phornograffi/cyhoeddiadau aflednais o'r adroddiad hwn.

Datblygodd y CPS nifer o fodylau e-ddysgu newydd ar erlyn gwastrodi ar-lein a defnyddio cyfryngau cymdeithasol a lansiwyd i erlynyddion yn ystod 2014-15.

**Cyfryngau cymdeithasol:**

- Carcharwyd dyn am 13 a hanner o flynyddoedd am dreisio ac ymosod yn rhywiol ar fenyw 19 oed. Roedd wedi cysylltu â hi trwy Facebook, gan greu proffil ffug fel au pair benywaidd. Roedd y dioddefwr wedi derbyn cynnig o lifft gan y diffynnydd yr oedd hi'n ei feddwl oedd yn au pair benywaidd. Fe wnaeth y diffynnydd ymddangos yn y man cyfarfod gan ddarbwyllo'r fenyw bod ei ffrind ar Facebook wedi gofyn iddo fynd i'w nôl hi. Gyrrodd i dir amaethyddol unig cyn cyflawni troseddau rhywiol trwy rym arni. Honnodd i ddechrau ei fod eisoes wedi cyfarfod y ddioddefwraig a'i bod wedi cydsynio i weithgaredd rhywiol. Ond, roedd y dystiolaeth mor gryf fel ei fod wedi pledio yn euog yn y llys i'r troseddau mwyaf difrifol yn ei erbyn.

**Pecyn offer i erlynyddion sy'n ymdrin ag achosion VAWG yn ymwneud â dioddefwyr bregus:** Datblygwyd y pecyn offer trwy bartneriaeth gyda grŵp Ymgynghori Allanol VAWG y CPS. Ei nod yw sicrhau bod hygrededd yr honiad cyffredinol, yn unol â'r Cod i Erlynyddion y Goron, yn cael ei asesu yn briodol a bod dioddefwyr bregus yn cael eu cefnogi i roi eu tystiolaeth orau. Rhoddir y manylion yn adran treisio'r adroddiad hwn, gan iddo gael ei lansio yn y Gynhadledd Dreisio Genedlaethol ym mis Ionawr.

## Gwaith Ardal VAWG

Yn 2014-15, parhaodd Cydlynwyr VAWG Ardal i arwain erlyniadau VAWG yn lleol a gweithio gyda Rheolwyr Ymgysylltu Cymunedol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth VAWG (EDCEM) i redeg Paneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol (LSIPau). Mae gan bob Ardal baneli yn delio â materion VAWG – yn bennaf yn delio â DA ac erlyniadau treisio – ond roedd rhai hefyd yn canolbwyntio ar drais yn seiliedig ar urddas.

Cynhaliwyd cyfarfod bord gron yng Ngorffennaf 2014 ar gyfer Cydlynwyr VAWG i drafod gweithrediad camau ar lefel leol. Fe'u gwahoddwyd hefyd i'r Gynhadledd Dreisio Genedlaethol yn Ionawr 2015.

## Arfer da

Darparodd gwaith gyda grwpiau cymunedol trwy LSIP ac ymgysylltiad cymunedol ystod o arfer da sydd wedi ei rannu ar draws Ardaloedd. Ymhlith yr enghreifftiau o arfer da mae:

- Mae pob Ardal yn cynnal LSIP – yn ymdrin â cham-drin domestig, treisio a throseddau VAWG eraill;
- Gweithiodd y rhan fwyaf o Ardaloedd yn glos gyda'u Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar ddatblygu'r Cynlluniau Heddlu a Throseddu;
- Cynhaliodd yr holl Ardaloedd CPS hyfforddiant ar briodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod;
- Cynhaliwyd hyfforddiant ar gam-drin rhywiol ar blant hefyd ymhob Ardal;

- Gweithdy i reolwyr ar agwedd gyson at ansawdd yng nghyswllt achosion VAWG ym mis Tachwedd a hyfforddiant ar 'Erlyniadau heb Ddioddefwyr' yn Chwefror a Mawrth 2015 (CPSD);
- Trefnodd y CPS weithdy gyda grwpiau cefnogi i helpu'r CPS chwalu'r chwedlau am droseddau VAWG (Glannau Mersi a Swydd Gaer).

# Cam-drin domestig

Cyn 2015, nid oedd trosedd benodol o “drais neu gam-drin domestig”, felly roedd achosion “trais neu gam-drin domestig” yn cael eu herlyn dan amrywiaeth o droseddau eraill, yn amrywio o ymosodiad cyffredin i lofruddiaeth. Mae’r CPS yn llumanu pob achos cam-drin domestig, beth bynnag yw’r drosedd, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisi a chyfarwyddyd y CPS yn ogystal â monitro perfformiad. Gan i ddeddfwriaeth ar gam-drin domestig am orfodi a rheoli gael ei chyflwyno, bydd pob achos a erlynir yn y dyfodol yn cynnwys y troseddau hyn yn y system lumanu.

Yn 2014-15, roedd y patrwm cyffredinol o erlyniadau DA yn dynodi gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn, unwaith eto, mewn erlyniadau. Cododd nifer yr atgyfeiriadau DA gan yr heddlu i’w lefel uchaf erioed ar 122,898 yn 2014-15 – cynnydd o 19,329 o atgyfeiriadau (18.7%) ers 2013-14. Roedd 84,711 (68.9% o’r atgyfeiriadau hyn) wedi eu cyhuddo[42]. Mae hyn yn adlewyrchu’r niferoedd uchaf o achosion a gofnodwyd gan y CPS a chynnydd o 11,806 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (16.2%) ers 2013-14[43]. Nododd pob Ardal gynnydd mewn niferoedd o ran atgyfeiriadau a chyhuddiadau; ond dim ond pedair Ardal a gynyddodd y gyfran a gyhuddwyd[44].

Y nifer cyfartalog o ddyddiau i gyhuddo yn 2014-15 oedd 4.31 o ddyddiau mewn cymhariaeth â 4.57 o ddyddiau yn 2013-14; gyda naw Ardal yn gostwng y nifer o ddyddiau[45] a dwy yn aros yr un fath[46]. Trafodwyd prydlondeb cyhuddo[47] yn y broses sicrwydd VAWG yn 2014-15.

---

[42] Mae’r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy’n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i’w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i’r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14.

[43] Sylwer fod y niferoedd cyhuddo yn cwmpasu’r achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* i’r CPS yn ystod 2013-14 ar gyfer
penderfyniadau cyhuddo na ellir eu cymharu’n uniongyrchol o ran niferoedd gyda’r rhai a erlynwyd sy’n cwmpasu achosion yn ôl diffynnydd, a *gwblhawyd* yn ystod 2013-14.


[44] Cynyddodd y Dwyrain, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Llundain a De Ddwyrain Lloegr y % a gyhuddwyd o’r atgyfeiriadau.

[45] Gostyngodd Cymru, y Dwyrain, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Llundain, Gogledd Ddwyrain Lloegr, De Orllewin Lloegr, Tafwys a Chiltern Wessex a Swydd Efrog a Glannau Humber yr amser a gymerwyd i gyhuddo diffynyddion cam-drin domestig.

[46] yng Ngogledd Orllewin Lloegr a De Ddwyrain Lloegr - arhosodd yr amser i gyhuddo yn gyson.


[47] Mae data CMS yn adrodd cyfartaledd y nifer o ddyddiau calendr sydd wedi mynd ers i’r penderfyniad cyntaf gael ei geisio gan yr heddlu, hyd y dyddiad pan oedd y penderfyniad olaf a wnaed yn un i gyhuddo. Ni all y system gofnodi ar wahân brydlondeb yr achosion hynny oedd yn destun i gyngor a rhagor o waith cyn i benderfyniad i gyhuddo gael ei wneud a’i gofnodi fel y penderfyniad olaf.

**Graff 5: Nifer o atgyfeiriadau DA a diffynyddion a gyhuddwyd2008-09 i 2014-15**




Mae'r gyfran o achosion DA[48] wedi codi o flwyddyn i flwyddyn; o 10.7% yn 2013-14 i 14.1% yn 2014-15, fel y dynodwyd yn y tabl isod ac yng ngraff 6.

**Graff 6: Llwyth achosion DAfel % o gyfanswm y llwyth achosion yn 2008-09 i 2014-15.**




**LLWYTH ACHOSION DA Blynyddol fel % O'R CYFANSWM**

| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CPS YN GENEDLAETHOL** | **6.5%** | **7.5%** | **8.6%** | **8.9%** | **8.9%** | **10.7%** | **14.1%** |

Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 i 92,779 o 78,071 – cynnydd o 14,708 o ddiffynyddion (18.8%) o 2013-14, fel y dynodwyd yn nhabl 1 a graff 7. Cafodd y cynnydd mewn diffynyddion a gyhuddwyd yn ystod 2013-14 effaith bellach ar ganlyniadau erlyniadau yn 2014-15, gan gyrraedd y lefel uchaf erioed.

O'r 92,779 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 85,687 yn ddynion, 7,013 yn fenywod, nid oedd rhyw 79 o'r diffynyddion wedi ei gofnodi[49]. O'r rhai gyda rhyw wedi ei gofnodi roedd 92.4% yn ddynion a 7.6% yn fenywod.[50]


[48] Llwyth achosion cam-drin domestig fel % o'r holl erlyniadau yn y llys.
[49] Nid yw'n bosibl rhoi data ar ryw dioddefwyr yng nghyswllt rhyw y diffynnydd o'r systemau data presennol. Rhoddir data dioddefwyr yn yr adran Cydraddoldeb ar dudalen 31.

Mae Tabl 1 yn rhoi data o 2009-10 i 2014-15.

**Tabl 1: Erlyniadau DA a gwblhawyd yn ôl deilliant 2009-10 i 2014-15**

| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Collfarnau | 53,347 | 72.0% | 59,101 | 71.9% | 58,138 | 73.3% | 52,549 | 74.3% | 58,276 | 74.6% | 68,601 | 73.9% |
| Aflwyddiannus | 20,766 | 28.0% | 23,086 | 28.1% | 21,130 | 26.7% | 18,153 | 25.7% | 19,795 | 25.4% | 24,178 | 26.1% |
| **Cyfanswm** | **74,113** | | **82,187** | | **79,268** | | **70,702** | | **78,071** | | **92,779** | |

**Graff 7: Niferoedd DA 2008-09 i 2014-15**





Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 68,601[51] - cynnydd o 10,325 o gollfarnau (17.7%) ers 2013-14. Gostyngodd y gyfradd gollfarnu ychydig i 73.9%, o 74.6% yn 2013-14, mewn cymhariaeth â'r cynnydd mawr mewn niferoedd. Rhwng 2005-6 pan gychwynnwyd cofnodi a 2014-15, mae'r niferoedd collfarnau wedi codi o 29,719 i 68,601 – cynnydd o 38,882 o ddiffynyddion wedi eu collfarnu – cynnydd o 131% dros y cyfnod hwn o ddeng mlynedd a'r lefel uchaf erioed.

[50] Mae'r ffigwr yr un fath os caiff ei gyfrifo ar sail y cyfanswm, gan gynnwys rhai pan na chofnodwyd rhyw.
[51] Nid yw'r data ar  hyn o bryd yn cael ei wahanu yn ôl rhyw.

Mae Graff 8 yn darlunio'r duedd gyffredinol ar i fyny o ran collfarnau.

**Graff 8:** **Cyfraddau collfarnau DA 2008-09 i 2014-15**




Cododd y nifer o bleon euog eto – gan gyrraedd 63,132, cynnydd o 17.7%; er bod y gyfran o'r holl achosion a erlynwyd wedi gostwng ychydig i 68% o 68.7%.
Mae 92% o'r holl ganlyniadau llwyddiannus o ganlyniad i bleon euog.Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i fod yn isel, ar 19.3% o'r holl achosion DA a erlynwyd, yn debyg i'r 19.2% yn 2013-14, yr isaf erioed. Mae rhwymiadau wedi gostwng dros y blynyddoedd (6.6% yn 2007-08) i 0.8% yn 2014-15.

Yn y cyfnod hwn, fel yn y blynyddoedd blaenorol, troseddau yn erbyn y person oedd y troseddau a erlynwyd amlaf, yn cynrychioli 72% o droseddau DA. Roedd troseddau difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn gyfrifol am 12% a 5% arall yn ôl eu trefn[52].

Roedd gostyngiad bychan yn y rhesymau am ddeilliannau aflwyddiannus oedd oherwydd problemau dioddefwyr[53] - o 54.8% yn 2013-14 i 53.7% yn 2014-15.Roedd hyn yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn y gyfran a fu'n aflwyddiannus oherwydd i'r dioddefwyr dynnu yn ôl (o 28.1% i 26.8%).

O'r *holl* achosion a erlynwyd, mae'r gyfradd oedd yn aflwyddiannus oherwydd problemau dioddefwr[54] wedi cynyddu ychydig o 13.9% yn 2013-14 i 14.0% yn 2014-15, cyfran debyg i'r un o 2008-2011. Mae cefnogaeth i ddioddefwyr drwy broses y llys yn allweddol i leihau'r tynnu'n ôl ac mae gwaith gyda Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) yn lleol yn allweddol i wella erlyniadau. Nodwyd ffyrdd o ddelio ag erlyniadau yn dilyn tynnu'n ôl yn ystod 2013-14 ac maent wedi eu cynnwys yn yr adolygiad o'r canllaw cyfreithiol DA yn 2014. Roedd hyn yn cynnwys gwella defnydd o dystiolaeth heblaw un y dioddefwr, hybu ymwybyddiaeth erlynyddion o faterion tynnu'n ôl a sut i'w atal, sut i ddelio ymhellach â diogelwch dioddefwyr, rhoi cyngor ar ddefnydd priodol o wysion a systemau cyfathrebu amlasiantaethol gyda dioddefwyr a'u gwasanaethau.

---

[52] Gweler yr Eirfa am ddiffiniadau'r CPS o'r 'brif drosedd' a'r gwahanol gategorïau.
[53] Mae materion dioddefwyr yn cynnwys y dioddefwr yn tynnu yn ôl, diffyg presenoldeb y dioddefwr a 'thystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos'.
[54] Achosion aflwyddiannus oherwydd i'r dioddefwr dynnu'n ôl; peidio mynd i'r llys neu pan na fydd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos.

**Tystiolaeth Achlust**

- Rhoddodd y troseddwr ddyrnod i'w gyn-bartner yn ei hwyneb tu allan i ysgol gynradd o flaen pobl eraill gan gynnwys dau fab ei gyn-bartner. Rhoddodd y dioddefwr adroddiad ar lafar ac fe roddodd tyst ddatganiad hefyd, ond roedd y ddau ofn y byddai canlyniadau gan y tramgwyddwr felly fe roddwyd eu datganiadau fel tystiolaeth achlust. Dedfrydwyd y diffynnydd i 24 wythnos o garchar, a ohiriwyd am ddwy flynedd a gorchymyn atal heb derfyn penodol.

Mae 'achlust' mewn camau troseddol yn 'ddatganiad na wnaed mewn tystiolaeth lafar yn y camau cyfreithiol sy'n dystiolaeth o unrhyw fater a nodir'. Mae adran 116 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn nodi cyfres o gategorïau lle mae tystiolaeth achlust, boed yn llafar neu ddogfennol, yn dderbyniol, ar yr amod nad yw'r tyst ar gael i roi tystiolaeth am reswm a nodir. Gellir rhoi datganiad dioddefwr dan A 116 (2) (e) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 os yw'r dioddefwr mewn ofn; a thystiolaeth arall, e.e. gan dyst sy'n drydydd parti dan A114 (1) (d), os yw er budd cyfiawnder. Gweler yr eirfa am ddiffiniad llawn.

## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tablau ar dudalen 100-101 yn rhoi data erlyniadau DA yn ôl Ardal ac ardaloedd lluoedd heddlu. O 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Dinas Llundain (CLP) a Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r CLP a'r BTP.Mae'r atodiad cysylltiedig, a roddwyd ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol, yn rhoi data cyn cyhuddo Ardaloedd ac ardaloedd lluoedd heddlu.

**Tystiolaeth Achlust**

- Mewn achos arall, roedd y tramgwyddwr wedi dyrnu a chicio ei wraig yn barhaus yn ystod dadl yn y car. Rhoddodd y dioddefwr gofnod wedi ei lofnodi yn llyfr nodiadau'r heddlu ond fe wrthododd roi datganiad arall ar y sail y gallai'r gam-driniaeth gynyddu. Rhoddwyd ei datganiad fel tystiolaeth achlust (A 116 (2) (e)) ac fe'i dedfrydwyd i 16 wythnos o garchar, wedi ei ohirio am 18 mis, 150 awr o waith di-dâl i'w gwblhau cyn pen 12 mis, a 18 mis o oruchwyliaeth.

- Ac mewn trydydd achos, fe wnaeth dioddefwr dri galwad 999 i'r heddlu pan ddisgrifiodd ei hun yn cael ei chrogi gan ei chariad. Gwrthododd roi datganiad tyst gan fod ganddi ofn am ei diogelwch hi ei hun a'i mab. Darganfu'r heddlu nifer o sgyrsiau trwy negeseuon testun lle'r oedd yr un dan amheuaeth yn ymddangos fel pe bai yn cyfaddef yr ymosodiad, llwyddodd eiriolwr yr erlyniad i ddarbwyllo'r ynadon i dderbyn y galwad 999 a datganiadau'r swyddogion fel tystiolaeth res gestae. Dedfrydwyd y diffynnydd i gyfnod o 16 wythnos o garchar ar unwaith. Gosododd hyn gynsail newydd bod raid i'r llys nid yn unig sicrhau achos teg i'r diffynnydd ond hefyd ystyried y risg y bydd dioddefwyr yn dioddef rhagor o niwed o gydweithredu gydag awdurdodau erlyn.

Mae datganiadau res-gestae yn dderbyniol - rhai wedi eu gwneud gan yr achwynydd neu drydydd parti o gwmpas amser y drosedd sydd â chymaint o gysylltiad fel ei bod yn annhebygol y byddant wedi eu hystumio nac eu dyfeisio. Gweler yr eirfa am ddiffiniad llawn.

## Materion cydraddoldeb

**Rhyw**

O'r 92,779 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 85,687 o'r diffynyddion yn ddynion, 7,013 yn fenywod, nid oedd rhyw wedi ei gofnodi ar gyfer 79 o ddiffynyddion[55]. Yn 2014-15, o'r rhai y cofnodwyd eu rhyw roedd 92.4% yn ddynion a 7.6% yn fenywod[56], yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol.

O ran data dioddefwyr, o'r System Rheoli Tystion, cofnodwyd 92,597 o ddioddefwyr. O'r holl ddioddefwyr roedd 65,205 yn fenywod, 12,631 yn ddynion a 14,761 heb eu cofnodi. Parhaodd cofnodi rhyw dioddefwyr yn gyson ar 84% yn 2014-15. O'r rhai gyda'u rhyw wedi ei gofnodi, roedd y gyfran o ddioddefwyr oedd yn fenywod yn 84% a dynion yn 16%, yn debyg i'r hyn a gofnodwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

**Ethnigrwydd**
Yn 2014-15, dynodwyd 78.8% o ddiffynyddion DA fel Gwyn (gostyngiad bychan o 79.5% yn 2013-14), gyda 74% yn cael eu nodi i fod yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig. Dynodwyd 5.5% o ddiffynyddion yn Ddu, gostyngiad bychan o'r flwyddyn flaenorol a 5.5% yn Asiaidd, yr un fath ag yn 2013-14[57]. Nid yw ethnigrwydd ychydig dan hanner y dioddefwyr yn cael ei gofnodi ac felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Oedran**
Roedd mwyafrif y diffynyddion rhwng 25-59 oed (73%) a 18-24 (22%). Roedd 25% o ddiffynyddion (23,382) dan 24 oed, gyda 2,549 (3%) o ddiffynyddion yn 14-17 oed a 111 (0.1%) yn 10-13 oed.

O'r dioddefwyr hynny gydag oed cofnodedig[58], roedd y mwyafrif rhwng 25-59 oed (64%) a 18-24 (22%). Yn debyg i oedran diffynyddion, roedd 28% o ddioddefwyr (21,283) dan 24 oed, gyda 2,908 (4%) o ddioddefwyr yn 14-17 oed a 570 (0.7%) yn 10-13 oed a 161 dan 10 (0.2%).

---

[55] Nid yw'n bosibl rhoi data ar ryw dioddefwyr yng nghyswllt rhyw y diffynnydd o'r systemau data presennol. Rhoddir data dioddefwyr yn yr adran Cydraddoldeb ar dudalen 31.
[56] Mae'r ffigwr yr un fath os caiff ei gyfrifo ar sail y cyfanswm, gan gynnwys rhai pan na chofnodwyd rhyw.
[57] Ni ddatganodd 3.2% o ddiffynyddion ethnigrwydd wrth gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ethnigrwydd ychydig dros 4% o ddiffynyddion i'r CPS gan yr heddlu.
[58] Cofnodwyd 82.4% o oedrannau dioddefwyr yn 2014-15 – cynnydd o 81.8% yn 2013-14.

**Cam-drin mewn perthynas yn yr arddegau**

- Roedd diffynnydd 16 mlwydd oed wedi bod mewn “perthynas dreisgar yn gorffen ac ail-ddechrau yn gyson” gyda dioddefwr 15 oed, ac fe gawsant blentyn gyda’i gilydd. Gofynnodd y ddioddefwraig i’r diffynnydd adael ei chartref, gan ei bod wedi cael ar ddeall ei fod wedi beichiogi menyw arall. Y diwrnod wedyn gadawodd y dioddefwr ei chariad yn ôl a gadael iddo roi bwyd i’r babi, ond nid oedd yn fodlon iddo fynd â’r babi allan oherwydd ei bod yn gynnar. Ar yr adeg hon, ymosododd y diffynnydd ar y ddioddefwraig, gan ei brathu a thynnu ei gwallt. Rhedodd i nôl ei mam, a phan ddychwelodd roedd y diffynnydd yn gafael yn y babi. Aeth ati wedyn i dorri basged y babi, ffôn a theledu, cyn mynd ar ôl y ddioddefwraig i ystafell ffrynt yr eiddo, gan ymosod arni eto. Oherwydd hyn fe wnaeth hi gwympo ar ei brawd anabl. Gofynnodd mam y ddioddefwraig i’r diffynnydd adael. Fe wnaeth ei bygwth hi, ac yna gadael yr eiddo, gan dorri’r drws ar ei ffordd allan. Plediodd y diffynnydd yn euog ar ddiwrnod yr achos llys. Dedfrydwyd ef i fynychu cyfarfod panel troseddwyr ifanc am naw mis.

Gweithredwyd mwyafrif y camau a ddatblygwyd yn y Panel Craffu Cenedlaethol ar gam-drin mewn perthynas rhwng rhai yn eu harddegau yn 2012 trwy’r cyfarwyddyd cam-drin domestig diwygiedig a’r hyfforddiant a gynllunnir at y dyfodol, yn ogystal â chynlluniau i ystyried treialu ymateb arbenigol gan y System Cyfiawnder Troseddol i achosion ieuenctid.

## Perthynas

Nid yw cofnodi’r berthynas rhwng y tramgwyddwr a’r dioddefwr yn ddigon cadarn eto i asesu, ond mae cofnodi yn y gronfa ddata CPS wedi gwella eto, o 17% yn 2010-11 i 57% yn 2014-15. Bydd Ardaloedd yn cael eu hannog i wella casglu data ymhellach i helpu i ddynodi achosion yn ymwneud â pherthynas un rhyw a gwahaniaethu rhwng aelodau o’r teulu a phartneriaid agos.

## Materion trawslywodraethol:

### Deddfwriaeth ar ymddygiad sy’n rheoli a gorfodi

Cyfrannodd y CPS at ddatblygu trosedd cam-drin domestig newydd sef ymddygiad sy’n rheoli a gorfodi a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref ym mis Mawrth 2015.

Cyflwynwyd trosedd newydd o’r enw ymddygiad sy’n gorfodi neu reoli mewn perthynas deuluol neu gorfforol yn Neddf Troseddau Difrifol 2015 a bydd yn dod i rym yn ddiweddarach yn 2015-16. Mae unigolyn yn cyflawni trosedd os bydd yn ymddwyn yn barhaus neu dro ar ôl tro mewn modd sy’n gorfodi neu’n rheoli. Eu bod ar adeg yr ymddygiad â chysylltiad personol, a bod yr ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar yr unigolyn arall. Mae’r drosedd wedi ei llunio yn fwy eang i gynnwys ymddygiad mewn perthynas deuluol neu gorfforol ac fe ellir ei phrofi’r naill ffordd neu’r llall gydag uchafswm cosb (ar gollfarn ar dditiad) o bum mlynedd o garchar.

Mae'r CPS yn cydweithio'n glos gyda'r Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona Cenedlaethol ar roi cyfarwyddyd ar ddehongli'r drosedd hon. Defnyddir enghreifftiau o ymddygiad a'r dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi'r elfennau o'r drosedd. Bydd hyn o gymorth i swyddogion heddlu sy'n ymchwilio, erlynyddion wrth lunio achos ac yn y pen draw yn arwain at erlyniadau llwyddiannus.

## Adolygiad o gyfarwyddyd cyfreithiol DA y CPS

Yn Rhagfyr 2014, cyhoeddodd y DPP gyfarwyddyd newydd ar ymdrin ag achosion cam-drin domestig yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r cyfarwyddyd yn ymdrin â gwelliannau yn ansawdd gwaith achos a'r gefnogaeth i ddioddefwyr a thystion a bydd hyfforddiant yn dilyn i sicrhau bod gan erlynyddion y sgiliau ar gyfer y gwaith.

Mae'r canllawiau newydd yn cyfeirio erlynyddion at yr amrywiaeth o ffyrdd y gall y rhai sy'n cam-drin reoli a gorfodi eu dioddefwyr, trwy gyflawni troseddau clir heb ymosod yn gorfforol o angenrheidrwydd. Bydd hyn yn cefnogi'r drosedd newydd o ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli.

Er mwyn gwella ansawdd gwaith achos, rhoddir dolenni i Restr Wirio Tystiolaeth Cam-drin Domestig gan y CPS a'r Heddlu ar y cyd a manylion am ddioddefwyr yn tynnu'n ôl o achosion, gan amlinellu camau priodol i'w cymryd. Mae'r cyfarwyddyd hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y materion sy'n ymwneud â grwpiau penodol o bobl gan gynnwys, am y tro cyntaf, cyfarwyddyd gwell ar faterion sy'n ymwneud â phlant dioddefwyr sy'n oedolion, rhai yn eu harddegau sydd mewn perthynas pan fydd cam-drin a rhai yn eu harddegau mewn gangiau.

**Herwgipio**

- Dedfrydwyd dyn yn Swydd Efrog a Glannau Humber i 30 mis o garchar am herwgipio. Dioddefodd ei bartner gam-drin domestig sylweddol a difrifol a ddechreuodd gyda bygythiadau llafar ac yna aeth ymlaen i drais corfforol, gan arwain at ddigwyddiad dychrynllyd pan wnaeth glymu ei choesau a'i chloi yn ei gartref.

### Gwaith gyda'r Heddlu

Ers 2014-15, mae'r Heddlu wedi bod yn datblygu eu diwygiad o'u Harfer Proffesiynol Awdurdodedig ar gam-drin domestig. Mae'r CPS yn gweithio gyda nhw i ddiwygio a diweddaru'r Rhestr Wirio ar y Cyd gan yr Heddlu a'r CPS yn sgil y ddeddfwriaeth newydd. Mae'r rhestr yn annog swyddogion yr heddlu ac erlynyddion i gasglu'r holl dystiolaeth sydd ar gael ar ddechrau ymchwiliad, gan gydnabod y gall y dioddefwr ar ryw adeg benderfynu peidio cefnogi'r erlyniad.

Mae'r CPS yn parhau i weithio'n lleol gyda'r heddlu ar sut i gael y gwerth mwyaf o dystiolaeth mewn achosion cam-drin domestig, yn arbennig yr hyn a gofnodir gan fideo ar y corff gan swyddogion.

## Datrysiadau tu allan i'r llys

Cychwynnodd prawf Fframwaith Datrys Tu Allan i’r Llys ym mis Tachwedd 2014 mewn tair Ardal llu heddlu, Swydd Gaerlŷr, Swydd Stafford a Gorllewin Swydd Efrog. Trefnwyd i’r treial barhau am 12 mis ac mae’n berthnasol i amrywiaeth o droseddau y gellir ymdrin â nhw ar hyn o bryd trwy ddatrysiadau tu allan i’r llys. Yn ychwanegol mae’r tri llu heddlu yn cael defnyddio dulliau gwahanol o ymdrin â throseddau yn ymwneud â thrais domestig a throseddau casineb. Dan y drefn bresennol, gall swyddogion heddlu roi rhybudd syml am droseddau o’r fath ond dim rhybudd amodol. Am gyfnod y treial, rhoddwyd eithriad o gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar rybuddion amodol i’r tri llu heddlu sy’n eu caniatáu i ddefnyddio’r dull hwn yn hytrach na rhybudd syml, pan fydd hyn yn gam priodol. Argymhellir gweithredu positif mewn achosion o gam-drin domestig a/neu gam-drin i sicrhau diogelwch y dioddefwyr a phlant.

Os nad yw cam tystiolaethol y prawf Cod Llawn yn cael ei fodloni yna yn anaml y bydd yn briodol ymdrin â’r achos trwy ddatrysiad tu allan i’r llys mewn achosion cam-drin domestig. Fodd bynnag, lle glynwyd at bolisi gweithredu cadarnhaol ond nad yw'r dioddefwr yn cefnogi erlyniad, ac na fyddai'r dystiolaeth sydd ar gael (gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ychwanegol a ddygwyd gerbron) ond yn cefnogi cyhuddo o drosedd fach iawn, gall datrysiad tu allan i’r llys gael ei ystyried yn hytrach na phenderfyniad i beidio cymryd unrhyw gamau pellach.

Mae’r cyfarwyddyd yn nodi y dylid hefyd ystyried gwneud cais am Rybudd/Gorchymyn Diogelu Cam-drin Domestig i sicrhau diogelwch y dioddefwr. Gan mai cam sifil yw hyn gall redeg yn gyfochrog â chamau troseddol.

Mae rhai egwyddorion trosfwaol y mae’n rhaid i’r cynlluniau treialu gadw atynt o ran diogelwch dioddefwyr wrth benderfynu symud ymlaen at ddatrysiad tu allan i’r llys. Mae dwy lefel o ddatrysiad tu allan i’r llys – datrysiadau cymunedol a rhybuddion amodol:

- Ni ellir defnyddio datrysiadau cymunedol ar gyfer cam-drin partner corfforol; os defnyddir unrhyw fath o drais neu os oes gan y troseddwr unrhyw hanes o gam-drin domestig;
- Defnydd cyfyngedig sydd i rybuddion amodol a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan oruchwyliwr heddlu profiadol.

Rhoddir esboniad hefyd am ddefnyddio cyfiawnder adferol:

- Ni all cyfiawnder adferol gael ei ddefnyddio mewn achos o gam-drin partner corfforol ac argymhellir ei fod yn eithriad i’w ddefnyddio mewn cam-drin teuluol ar lefel eithriadol o isel, yn dilyn asesiadau risg trylwyr ac yn cael ei gynnal gan hwylusydd sydd wedi ei hyfforddi a’i achredu yn llawn.

Bydd y cynlluniau treialu yn rhedeg hyd ddiwedd 2015 a bydd adroddiadau ar y canfyddiadau wedyn.

**Gwyrdroi Cwrs Cyfiawnder:**

- Dedfrydwyd dyn 80 oed i 18 mlynedd o garchar am dalu i ddau ddyn ifanc daflu asid dros ei gyn-bartner. Cafwyd ef a'i gyd-droseddwyr yn euog o achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol iddi. Fe'i cafwyd yn euog hefyd o fwriadu gwyrdroi cwrs cyfiawnder cyhoeddus gan ei fod wedi gofyn i rywun roi datganiad ffug i'r heddlu o ran pwy oedd yn gyfrifol am yr ymosodiad.

## Llysoedd Arbenigol DV[59]

Yn ystod 2014-15, parhaodd y CPS, fel rhan o'r Grŵp Llywio Cenedlaethol Trawslywodraethol; gyda'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i oruchwylio'r Llysoedd DV Arbenigol (SDVC). Mewn ymateb i'r cynlluniau i gau rhai llysoedd ynadon ers Ebrill 2011, datblygodd y Grŵp Llywio SDVC Cenedlaethol ganllaw i SDVC i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn cael eu trosglwyddo i'r trefniadau llys newydd a goruchwyliodd y cam nesaf o drosglwyddo yn ystod 2014-15 – gan ymweld â SDVC i gymeradwyo eu system newydd.

Yn ogystal, datblygwyd gwaith i archwilio'r gefnogaeth ofynnol ar gyfer SDVC i fodloni cyflawniad yr holl elfennau SDVC i sicrhau bod diogelwch a chyfiawnder yn cael eu cyflawni yn effeithiol. Datblygwyd holiadur adolygu a'i anfon at SDVC ar ddiwedd 2013-14 ar gyfer asesu'r gefnogaeth sy'n ofynnol yn ystod 2014-15. Cyflwynir y canlyniadau terfynol i'r Gweinidogion yn 2015-16.

Yn dilyn holiadur i'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ac ymarfer rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid lleol yn 2013-14, mae'r CPS wedi paratoi cynigion yn amlinellu elfennau allweddol model Llys Ieuenctid Arbenigol DV. Ystyriwyd hyn gan y Grŵp Llywio SDVC Cenedlaethol yn 2014-15 i bennu posibiliadau ar gyfer treialu posibl yn 2015-16.

# Hyfforddiant

Bydd y modylau hyfforddi cam-drin domestig craidd yn cael eu diweddaru o ganlyniad i gyfarwyddyd DA diwygiedig a'r ddeddfwriaeth newydd. Bydd y diweddariadau yn cynnwys dwy fodwl hyfforddi newydd i rai yn eu harddegau mewn perthynas lle mae cam-drin a cham-drin domestig sy'n cael ei brofi gan ddioddefwyr hŷn, sydd hefyd yn cynnwys cam-drin teuluol.

Cynhaliodd rhai Ardaloedd CPS ddigwyddiadau hyfforddi ar wahân i ategu at yr adnoddau hyfforddi cenedlaethol. Gydag achosion cam-drin domestig dros 40% o waith cyhuddo CPSD, maent wedi rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant, gan gynnal sesiynau ar gymeriad drwg, achlust a defnyddio tystiolaeth o gamerâu a wisgir ar y corff.

[59] Mae Llysoedd Trais Domestig Arbenigol, sy'n cael eu crynhoi yn SDVC, yn parhau i gael yr enw hwn, er bod y term am 'drais domestig' wedi newid i 'gam-drin domestig'.

Mae nifer o erlynyddion CPS hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddi IDVA ddwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn helpu'r IDVA i sicrhau fod ganddynt ddealltwriaeth gywir o'r broses erlyn a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r system gyfiawnder droseddol ehangach gan eu galluogi i roi gwybodaeth gywir i ddioddefwyr ynglŷn â'r gyfraith a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â rôl y CPS wrth erlyn achosion DV. Yn Ebrill 2014, cyflwynodd y CPS hyfforddiant i IDVA ym Mryste, Leeds a Llundain. Darparwyd yr hyfforddiant gan y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi gyda mewnbwn gan ddau gydlynydd DA. Cynhaliwyd hyfforddiant pellach ym mis Tachwedd 2014 ym Mryste, Manceinion a Llundain, yn cynnwys saith o erlynyddion DA. Dangoswyd bod cefnogaeth benodol gan IDVA yn cael effaith bositif ar ddiogelwch dioddefwyr.

## Materion dioddefwyr

Nodwyd nifer o fentrau lleol fel arfer da trwy gydol 2014-15.

- Dynododd CPS Mersi a Swydd Gaer faterion dioddefwyr trwy eu hunedau gofal tystion gan gynnal adolygiad byr o benderfyniadau NFA yr heddlu gan arwain at broses sicrhau ansawdd fwy cadarn;
- Fe wnaethant hefyd sefydlu tîm cam-drin domestig o eiriolwyr arbenigol hyfforddedig a chyfreithwyr paratoi penodol ar eu cyfer.
- Mae Ardal CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr yn gweithio gyda fforwm o 35 ISVA/IDVA sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i rannu arfer da, gwybodaeth a datblygu achosion;
- Mae eu Huned Gofal Tystion yn gwirio pob achos cam-drin domestig bythefnos cyn yr achos llys i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddioddefwyr ddod i'r llys.
- Lluniodd CPS Dwyreiniol becyn offer cam-drin domestig i erlynyddion.
- Sefydlodd CPS Llundain systemau i gynyddu cyflymder achosion llys, gan gynnwys darparu recordiadau galwadau 999 yn ddigidol a delweddau o gamerâu a wisgir ar y corff.
- Yn Nyffryn Tafwys, mae'r heddlu, y CPS, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (HMCTS) ac asiantaethau dioddefwyr yn gweithio i sicrhau y bydd yr holl achosion cam-drin domestig yn cael eu rhestru ar gyfer gwrandawiad cyntaf yn y Llys Cam-drin Domestig Arbenigol Lleol, cyn pen 14 diwrnod o'r dyddiad pan gyhuddwyd yr un dan amheuaeth. Ar gyfer achosion sy'n mynd ymlaen i'r llys, y nod fydd rhestru ar gyfer y llys cyn pen dwy neu dair wythnos o'r gwrandawiad cyntaf yn hytrach na'r chwech i wyth wythnos sy'n digwydd ar hyn o bryd.

**Modelau rôl**

- Collfarnwyd pencampwr bocsio ar ôl iddo gyfaddef ymosod ar ei gariad. Yn wreiddiol roedd wedi gwadu ymosod arni ac nid oedd y ddioddefwraig yn barod i fynd â'r achos yn ei flaen ond penderfynodd y CPS ei fod er budd y cyhoedd erlyn. Fel pencampwr bocsio, byddai grym unrhyw ymosodiad yn cael effaith sylweddol ar y ddioddefwraig yn ogystal ag anfon neges negyddol i bobl ifanc. Galwyd ar dystion oedd wedi gweld yr ymosodiad a'r ymosodiad llafar i roi tystiolaeth. Fe'i collfarnwyd a chafodd orchymyn cymunedol 12 mis gan gynnwys cymryd rhan mewn sesiynau "adeiladu gwell perthynas" oedd yn cael eu rhedeg gan y Gwasanaeth Prawf ac fe'i gorchmynnwyd i dalu £300 o gostau.

## Ymchwil i arfer da

Ym mis Ionawr 2015 dosbarthodd Arweinydd Dioddefwyr a Thystion Prif Erlynydd y Goron y CPS holiadur cam-drin domestig o fewn y CPS, yn dilyn ychydig o ddadansoddi a fu ar yr effaith y mae'r achosion hyn yn ei gael ar ddeilliannau gwaith achos CPS.

Roedd yr holiadur yn targedu canolfannau llys penodol oedd yn cael cyfraddau collfarnu uchel gyda'r nod o ddeall yn well pam bod yr ardaloedd yma yn perfformio mor dda a dynodi unrhyw arfer da. Roedd yr holiadur yn rhoi data am y ganolfan ac yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth am:

- Y trosolwg o weithgareddau allweddol a all gyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol;
- Manylion am beth ynglŷn â'r gweithgaredd sy'n cyfrannu at y llwyddiant.

O'r holiaduron hyn, dynodwyd pump llys ar gyfer rhagor o ymchwil yn 2015-16, i archwilio yn fwy manwl pam eu bod yn cael canlyniadau mor dda. Bydd ymweliadau gan dîm o ymarferwyr o'r System Gyfiawnder Troseddol yn cael eu cynnal i gyfarfod nifer o asiantaethau allweddol yn ogystal â chynnal ymweliad llys ac efallai siarad â dioddefwyr sydd wedi ymwneud ag achosion yn llwyddiannus. Nod y prosiect yw datblygu rhestr wirio o arfer da y gellir ei rhannu ar draws y system gyfiawnder troseddol wedyn.

## Aflonyddu a stelcio DA

Mae'r adran nesaf o'r adroddiad hwn ar 'Stelcio ac Aflonyddu' yn rhoi data cyffredinol ar droseddau stelcio ac aflonyddu[60] a gorchmynion atal. O'r holl erlyniadau aflonyddu

[60] Y cafeat yng nghyswllt data trosedd yw:
Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau MIS yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau a gofnodwyd mewn llysoedd ynadon, lle cychwynnwyd erlyn, fel y'i cofnodwyd ar y CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd na deilliant. Troseddau a gofnodwyd yn Rhanbarth Troseddau'r MIS yw'r rhai a gyhuddir ar unrhyw adeg ac sy'n cyrraedd o leiaf un gwrandawiad - bydd y drosedd hon yn parhau i gael ei chofnodi boed y drosedd honno wedi mynd i'r llys neu beidio ac nid oes unrhyw awgrym o ddeilliant terfynol neu os oedd y drosedd a

a stelcio y cychwynnwyd eu herlyn, roedd 8,230 (67.9%) yn ymwneud â DA – cynnydd o 1,505 yn ymwneud â DA (22.4%) o 6,725 yn y flwyddyn flaenorol.

Amlinellir y troseddau stelcio ac aflonyddu, pan gychwynnwyd erlyniad, fel achosion DA, isod.

Mae Tabl 2a isod yn dangos, yn 2014-15:

- Roedd 6,242 o droseddau a lumanwyd fel cyhuddiad DA dan a2 y Ddeddf Atal Aflonyddu (PHA) 1997 – ymddygiad yn cyfateb i aflonyddu - (o gymharu â 5,257 yn 2013-14);
- Llumanwyd 1,225 o droseddau fel cyhuddiad DA dan a4 y Ddeddf Atal Aflonyddu (PHA) 1997 – achosi i bobl ofni trais – (o gymharu â 952 yn 2013-14);
- Roedd hyn yn gynnydd o 18.7% mewn erlyniadau A2 PHA 1997 a 28.7% mewn erlyniadau a4 PHA 1997 a gychwynnwyd;
- Cyhuddwyd 471 o droseddau a lumanwyd fel DA am stelcio gydag ofn/dychryn neu aflonyddu ac erlynwyd 292 o droseddau DA o stelcio yn ymwneud ag ofn o drais neu ddychryn difrifol neu ofid (mewn cymhariaeth â 384 a 132 yn 2013-14);
- Roedd 11,132 o'r toriadau gorchmynion atal yn ymwneud â DA; cynnydd o 23.6% o 2013-14;
- O'r rhain, roedd 10,796 yn torri gorchmynion atal a wnaed ar gollfarn; 336 yn torri gorchymyn atal a wnaed ar ryddfarn, cynnydd o 245 yn 2013-14;
- Cychwynnwyd erlyn 6,294 achos o dorri gorchymyn peidio aflonyddu yn ymwneud â DA, o gymharu â 5,584 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 12.7%.

**Tabl 2a: Troseddau aflonyddu a stelcio a gyhuddwyd ac yn cyrraedd gwrandawiad cyntaf mewn llysoedd ynadon - Lluman DA**

| | | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
| Deddf Cyfraith Teulu 1996 { 42A(1) a (5) } | Torri gorchymyn peidio aflonyddu – Deddf Cyfraith Teulu 1996 | 4,262 | 4,333 | 4,414 | 5,584 | 6,294 |
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 2(1) a (2) } | Aflonyddu heb drais | 4,822 | 4,710 | 4,217 | 5,257 | 6,242 |
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 4(1) a (4) } | Aflonyddu – achosi ofn trais | 1,423 | 1,056 | 775 | 952 | 1,225 |
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 2A(1) a (4) } | Stelcio gydag ofn / dychryn / gofid | - | - | 52 | 384 | 471 |
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 4A(1)(a)(b)(i) a (5) } | Stelcio yn ymwneud ag ofn trais | - | - | 8 | 49 | 98 |
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 4A(1)(a)(b)(ii) a (5) } | Stelcio gyda dychryn / gofid difrifol | - | - | 7 | 83 | 194 |

gyhuddwyd yn drosedd a brofwydl wrth derfynu. Mae'r cafeatau hyn yn berthnasol i unrhyw ddata trosedd arall a ddefnyddir drwy'r adroddiad hwn.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) } | Aflonyddu - torri gorchymyn atal ar gollfarn | 3,962 | 6,163 | 7,154 | 8,761 | 10,796 |
| Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) } | Aflonyddu – torri gorchymyn atal ar ôl rhyddfarn | 93 | 202 | 220 | 245 | 336 |

**Stelcio A4A PHA 1997**

- Dedfrydwyd dyn i chwe blynedd a hanner o garchar am stelcio ei ddioddefwr, dan a4A PHA 1997, ac am wyrdroi cwrs cyfiawnder. Roedd yr achos yn ymwneud â nifer o negeseuon e-bost a negeseuon testun ac roedd yn eithriadol o gymhleth yn dechnegol. Roedd wedi anfon negeseuon testun parhaus o natur rywiol i'w gyn-gariad ar ôl iddi orffen eu perthynas a bygwth trais ar ei mam. Defnyddiodd wefan i wneud iddi ymddangos fel petai'r dioddefwyr wedi bod yn aflonyddu arno ef gyda negeseuon testun ac e-bost. Roedd yr achos yn amlwg yn heriol oherwydd, ar yr wyneb, roedd y negeseuon yn edrych yn ddilys. Ond, trwy ddatgelu 'ôl troed' electronig y negeseuon defnyddiwyd hyn fel tystiolaeth ac arweiniodd at gollfarn lwyddiannus.

## Gorchmynion atal

Gellir gwneud cais am orchmynion atal ar gollfarn neu ryddfarn[61]. Darperir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer 2014 ar orchmynion atal ar gollfarn a rhyddfarn yn yr adran stelcio ac aflonyddu isod. Mae'r cyfarwyddyd cyfreithiol DA diwygiedig hefyd yn rhoi cyngor i erlynyddion ar dermau priodol i'w defnyddio wrth ddelio ag achosion yn ymwneud â dioddefwyr a diffynyddion yn eu harddegau. Yn lleol roedd Ardaloedd yn cofnodi gorchmynion atal ar ryddfarniad.

## Gorchmynion Ymddygiad Troseddol

Cyflwynodd Rhan 2 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 y Gorchymyn Ymddygiad Troseddol (CBO). Mae'r CBO yn orchymyn wrth gollfarnu, sydd ar gael yn dilyn collfarn am unrhyw drosedd mewn unrhyw lys troseddol. Daeth y CBO i rym ar 20 Hydref 2014, ac mae'n cymryd lle'r Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) wrth gollfarnu.

Bydd nifer fechan o achlysuron pan fydd yn addas defnyddio CBO yng nghyswllt achosion cam-drin domestig. Er enghraifft, gall CBO fod yn addas pan fydd y cam-drin domestig yn cael effaith ar y gymuned ehangach. Pan fydd dioddefwr a enwir a'r drosedd yn un sy'n dod dan ddiffiniad bras bod yn ddigwyddiad domestig, mae cais am orchymyn atal yn fwy priodol.

[61] Diwygiodd adran 12 y Ddeddf Cam-drin domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004 adran 5 y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, gan alluogi'r llysoedd i gyhoeddi gorchymyn atal ar ryddfarn.

**Aflonyddu yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol**

- Roedd y diffynnydd wedi cyfarfod y ddioddefwraig ar wefan trefnu dêt. Dim ond unwaith yr oeddynt wedi cyfarfod a chyfnewid nifer o negeseuon trwy'r diwrnod canlynol trwy neges testun/galwad ffôn. Pan nad atebodd y ddioddefwraig un o'i negeseuon y noson honno, gan ei bod yn cysgu, fe wnaeth y diffynnydd ei boddi gyda dros 700 o negeseuon testun, y rhan fwyaf ohonynt yn ymosodol iawn ac yn fygythiol, gan gynnwys bygwth llosgi ei thŷ i'r llawr. Roedd hi wedi anfon ychydig o luniau personol iawn yn ystod eu cyswllt ac fe wnaeth fygwth eu cyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol. Fe'i cyhuddwyd o aflonyddu heb drais. Plediodd yn euog yn y llys a rhoddwyd chwe wythnos yn y ddalfa yn ddedfryd, wedi ei ohirio am 18 mis ynghyd â gorchymyn goruchwylio 18 mis a gorchymyn atal.

# Stelcio ac aflonyddu

Dengys data perfformiad y CPS bod cynnydd wedi digwydd mewn erlyniadau a gychwynnwyd parthed stelcio, aflonyddu a thorri gorchmynion yn 2014-15. Rhoddir data'r CPS isod, ac yna yr ystadegau cenedlaethol swyddogol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder am y flwyddyn galendr 2014.

Yn 2014-15[62]:

- Cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 12,122 trosedd aflonyddu a stelcio yn 2014-15; sy'n gynnydd o 1,587 trosedd (15.1%) ers 2013-14 pan gychwynnwyd 10,535 o erlyniadau;
- Cychwynnodd erlyniad yng nghyswllt 9,180 o droseddau a gyhuddwyd dan a2 PHA 1997 am aflonyddu heb drais – cynnydd o 10.6% o 8,303 yn 2013-14; roedd 68% o'r achosion hyn yn gysylltiedig â DA;
- Cychwynnwyd 1,839 o erlyniadau dan a4 PHA 1997 – aflonyddu gan godi ofn trais ar bobl – cynnydd o 23.5% o 1,489 yn 2013-14; roedd 67% o'r troseddau hyn yn gysylltiedig â DA;
- Cychwynnwyd 1,103 o erlyniadau dan y troseddau stelcio newydd (cynnydd o bron i 50% ers y flwyddyn ddiwethaf);
- O blith y troseddau hyn roedd 676 gydag ofn/dychryn/gofid (cynnydd o 27.8%); roedd 70% yn gysylltiedig â DA;
- Mae 427 o'r troseddau hyn yn ymwneud ag ofn trais/dychryn difrifol neu ofid (cynnydd o bron i 100% ers y llynedd); roedd 74% o achosion ofn trais a 66% o'r rhai gyda dychryn neu ofid difrifol yn gysylltiedig â DA;
- O'r holl erlyniadau aflonyddu a stelcio, roedd 8,230 (67.9%) yn gysylltiedig â DA – cynnydd o 1,505 yn gysylltiedig â DA (22.4%) o 6,725 yn y flwyddyn flaenorol;
- Cychwynnwyd erlyn 13,559 o droseddau torri gorchymyn atal, cynnydd o 16.4% o 11,651 yn 2013-14; roedd 82.1% yn gysylltiedig â DA;
- O'r 13,126 achos o dorri gorchmynion atal (a wnaed wrth gollfarnu); cynnydd o 18.0% o 2013-14, roedd 82.2 (82.2%) yn achosion DA;
- O'r holl achosion torri gorchmynion, roedd 433 yn torri gorchymyn atal a wnaed ar ryddfarn; cynnydd o 34.5% o 2013-14; 78% yn gysylltiedig â DA; a
- Cychwynnwyd erlyn 7,013 achos o dorri gorchmynion peidio aflonyddu, o gymharu â 6,498 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 7.9%; 89.7% ohonynt yn gysylltiedig â DA.

Yn Nhabl 2b ceir manylion yr holl droseddau gan gynnwys y ganran o'r rhai a lumanwyd fel rhai DA.

[62] Troseddau sydd yn cyrraedd gwrandawiad yw'r rhai a gofnodwyd yn Rhanbarth Troseddau System Rheoli Gwybodaeth y CPS. Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau a gofnodwyd mewn llysoedd ynadon, lle cychwynnwyd erlyn, yn y gronfa ddata CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd na deilliant. Y troseddau a gofnodir yn Rhanbarth Troseddau'r MIS yw'r rhai a gyhuddir ar unrhyw adeg ac sy'n cyrraedd o leiaf un gwrandawiad. Bydd y drosedd hon yn parhau wedi ei chofnodi boed wedi mynd ymlaen â'r drosedd honno neu beidio, ac nid oes awgrym o'r deilliant terfynol neu os yw'r drosedd a gyhuddwyd yn drosedd wirioneddol wrth gwblhau'r achos.

**Tabl 2b: Troseddau aflonyddu a stelcio a gyhuddwyd a gyrhaeddodd wrandawiad cyntaf mewn llysoedd ynadon – Cyfanswm y Nifer a Chanran o'r cyfanswm a lumanwyd fel DA.**

| | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | % DA | Nifer | % DA | Nifer | % DA | Nifer | % DA | Nifer | % DA |
| Deddf Cyfraith Teulu 1996 {42A(1) a (5)} | Torri gorchymyn peidio aflonyddu – Deddf Cyfraith Teulu 1996 | 5,281 | 80.7 | 5,323 | 81.4 | 5,563 | 79.3 | 6,498 | 85.9 | 7,013 | 89.7 |
| PHA[63] 1997 { 2(1) a (2)} | Aflonyddu heb drais | 8,039 | 60.0 | 7,713 | 61.1 | 7,159 | 58.9 | 8,303 | 63.3 | 9,180 | 68.0 |
| PHA 1997 {4(1) a (4)} | Aflonyddu – achosi ofn trais | 2,199 | 64.7 | 1,632 | 64.7 | 1,398 | 55.4 | 1,489 | 63.9 | 1,839 | 66.6 |
| PHA 1997 {2A(1) a (4) } | Stelcio gydag ofn / dychryn / gofid | - | - | - | - | 72 | 72.2 | 529 | 72.6 | 676 | 69.7 |
| PHA 1997 {4A(1)(a)(b)(i) a (5)} | Stelcio yn ymwneud ag ofn trais | - | - | - | - | 9 | 88.9 | 65 | 75.4 | 133 | 73.7 |
| PHA 1997 {4A(1)(a)(b)(ii) a (5)} | Stelcio gyda dychryn / gofid difrifol | - | - | - | - | 10 | 70.0 | 149 | 55.7 | 294 | 66.0 |
| PHA 1997 {5(5) a (6)} | Aflonyddu - torri gorchymyn atal ar gollfarn | 5,768 | 68.7 | 8,447 | 73.0 | 9,962 | 71.8 | 11,329 | 77.3 | 13,126 | 82.2 |
| PHA 1997 {5(5) a (6)} | Aflonyddu – torri gorchymyn atal ar ôl rhyddfarn | 154 | 60.4 | 286 | 70.6 | 313 | 70.3 | 322 | 76.1 | 433 | 77.6 |

Nid yw data'r drosedd ar gael yn ôl rhyw y diffynnydd na'r dioddefwr.

[63] PHA – Deddf Diogelu Rhag Aflonyddu

## Ystadegau'r MoJ[64]:

Mae data Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn trafod blwyddyn galendr.
Mae data erlyniadau'r MoJ am achosion pan erlynwyd y diffynnydd yn 2014.
Mae data'r MoJ am achosion a gollfarnwyd yn 2014 (gall rhai collfarnau yn 2014 fod am achosion a erlynwyd cyn 2014; (a bydd rhai erlyniadau yn y data sydd heb eu cwblhau eto).

Mae data'r CPS yn Nhablau 2a a 2b uchod yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol (2014-15) sy'n cynnwys yr *holl* droseddau yn *cychwyn* erlyniad yn hytrach nag wedi eu cwblhau. Mae'r data yn ôl trosedd ac nid yw'n rhoi data yn ôl diffynnydd. Gall pob diffynnydd fod wedi cyflawni nifer o droseddau.

## Stelcio ac Aflonyddu:

Yn 2014, dengys ystadegau'r MoJ ar gyfer Cymru a Lloegr i 6,660 o ddiffynyddion gael eu herlyn am droseddau a2 PHA (aflonyddu heb drais) (o gymharu â 5,895 yn 2013). Cododd y gymhareb gollfarnu i 77%.

Erlynwyd 1,215 o ddiffynyddion am droseddau a4 PHA (aflonyddu – creu ofn o drais) yn 2014 (o gymharu â 1062 yn 2013); gyda 779 wedi eu collfarnu (o gymharu â 641 yn 2013). Cododd y gymhareb gollfarnu o 60% i 64%.

Erlynwyd 509 o ddiffynyddion am droseddau a2A PHA (Stelcio gydag ofn/dychryn/gofid) yn 2014 ac mewn cymhariaeth â 293 yn 2013. Collfarnwyd 348 (68%), mewn cymhariaeth â 196 yn 2013.

Erlynwyd 94 o ddiffynyddion yn 2014 dan a4A (stelcio gydag ofn o drais) mewn cymhariaeth â 57 yn 2013; gyda 38 o gollfarnau, mewn cymhariaeth â 16 yn 2013 – cynnydd i gymhareb collfarnu o 40% mewn cymhariaeth â 29% yn y flwyddyn flaenorol.

Erlynwyd 218 o ddiffynyddion yn 2014 dan a4A (stelcio yn cynnwys ofn neu ofid difrifol) mewn cymhariaeth â 100 yn 2013; gyda 109 o gollfarnau, mewn cymhariaeth â 37 yn 2013 – cynnydd i gymhareb collfarnu o 50% o 37%.

[64] Mae'r ffigurau am achosion llys yn ymwneud ag unigolion yr oedd y troseddau hyn yn brif droseddau yr oeddynt yn cael eu cyhuddo ohonynt. Pan fydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Pan weithredir yr un gosb am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddewisir yw'r un gyda'r uchafswm cosb statudol mwyaf difrifol.
Gwneir pob ymgais i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynir yn gywir a chyflawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y data hwn wedi ei dynnu o systemau data gweinyddol mawr a grëwyd gan y llysoedd a lluoedd heddlu. O ganlyniad, dylid bod yn ofalus bod prosesau casglu data a'u cyfyngiadau anochel yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio'r data.
Gall y nifer o ddiffynyddion a geir yn euog mewn blwyddyn benodol fod yn fwy na'r nifer y cymerir camau yn eu herbyn gan i'r achos yn y llys ynadon ddigwydd mewn blwyddyn gynharach ac i'r diffynyddion gael eu dyfarnu yn euog yn Llys y Goron yn y flwyddyn ganlynol; neu fod y diffynyddion wedi eu cael yn euog o drosedd wahanol i'r achos gwreiddiol yn eu herbyn.
Oherwydd gwelliannau wrth brosesu data, efallai na fydd canlyniadau cyn 2014 yn cyfateb i'r rhai a gyhoeddwyd o'r blaen.

### Gorchmynion atal a'u torri:

Dengys ystadegau'r MoJ ar gyfer Cymru a Lloegr am 2014 bod 19,410 o orchmynion atal wedi eu cyhoeddi ar gollfarn (o gymharu â 18,656 yn 2013) a 2,062 ar ryddfarn (o gymharu â 1,667 yn 2013).

Yn ystod 2014, roedd 8,265 o erlyniadau am dorri gorchmynion atal a gyflwynwyd ar gollfarn, gyda 7,371 o gollfarnau. Roedd hyn yn gynnydd o 7,251 o erlyniadau yn 2013 gyda 6,348 o gollfarnau.

Yn ystod 2014, cafwyd 241 o erlyniadau am dorri gorchmynion atal yn ymwneud â'r rhai a gyhoeddwyd yn dilyn rhyddfarn y diffynnydd, gyda 172 yn cael collfarn. Roedd hyn yn gynnydd o 236 erlyniad yn 2013, er bod y nifer o gollfarnau yn uwch, gyda 183 yn 2013.

Ar y cyfan, arweiniodd 89% o'r holl erlyniadau am dorri gorchymyn at gollfarn eleni.

Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwneud ag achosion a erlynwyd pan oedd gorchmynion atal yn brif drosedd. Mae data'r CPS yn Nhabl 2a a 2b yn cynnwys yr *holl* doriadau yn *cychwyn* erlyniad, nid y rhai pan oedd gorchymyn atal yn brif drosedd yn unig.

**Pornograffi dial**

- Carcharwyd dyn am aflonyddu heb drais ar ôl iddo roi lluniau noeth o fenyw ar y cyfryngau cymdeithasol. Fe'i dedfrydwyd i 12 wythnos yn y carchar a rhoddwyd gorchymyn atal iddo, gan ei atal rhag cysylltu â'r ddioddefwraig. Cyfeirir at y math o droseddu yn yr achos hwn yn aml fel 'pornograffi dial' ac mae'n dilyn cyfarwyddyd ar gyfryngau cymdeithasol a eglurodd sut i ddefnyddio deddfwriaeth sy'n bodoli i erlyn y rhai sy'n cyflawni'r troseddau hyn.

## Deddfwriaeth

Yn Ionawr 2015, daeth y Gorchymyn Diogelu Ewropeaidd i rym. Mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth gyffredinol rhwng aelod wladwriaethau'r UE o 'gamau diogelu' mewn achosion troseddol. Yn eu hanfod, mae'r camau diogelu yma yn gamau i atal unigolion rhag mynd i mewn i ardaloedd neu gysylltu neu fynd at 'unigolyn a ddiogelir'. Yng Nghymru a Lloegr mae hyn yn cynnwys Gorchmynion Atal a wnaed dan Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 neu amodau mechnïaeth.

Gall yr 'unigolyn a ddiogelir' sydd yn cael budd o un o'r diogeliadau hyn ofyn i'r llysoedd gyhoeddi EPO os bydd yn bwriadu byw neu aros mewn aelod wladwriaeth wahanol (y wladwriaeth 'weithredol'). Bydd unigolyn sy'n cael EPO wedi ei gyhoeddi yn un aelod wladwriaeth yn medru teithio i aelod wladwriaeth arall yn yr UE (y wladwriaeth weithredol), ac eithrio Denmarc sydd wedi dewis peidio â bod yn rhan o hyn, a chael diogeliad cyfatebol i'r hyn a roddir gan y cam diogelu cartref, heb yr angen am achos newydd yn y llys.

Gall yr unigolyn sydd mewn perygl neu ei gynrychiolydd wneud cais. Gall y CPS weithredu fel cynrychiolydd ond ar gais yr unigolyn a ddiogelir yn unig. Rhoddir anogaeth i erlynyddion gasglu, cyn gynted ag sy'n bosibl cyn y gwrandawiad y gwneir y cais am orchymyn diogelu ynddo, a yw dioddefwr yn bwriadu symud i awdurdodaeth wahanol yn yr UE yn y dyfodol agos ac a oes angen EPO.

## Protocol stelcio

Roedd y cyfarwyddyd ar droseddau stelcio 2012 yn canolbwyntio ar y gwahaniaethau rhwng stelcio ac aflonyddu, yr amgylchiadau pan fyddai cyhuddiad o stelcio yn ddewis gwell nag un o aflonyddu, a phwysigrwydd ymgysylltu â'r dioddefwr trwy gydol y broses gyfiawnder troseddol[65].

Ym mis Tachwedd 2014 lansiwyd protocol ar y cyd gan yr heddlu a'r CPS ar ymchwilio i stelcio a'i erlyn – offeryn defnyddiol i'r heddlu ac erlynyddion. Mae'r Cydlynwyr VAWG Ardal yn gweithredu fel Un Man Cyswllt (SPOC) i weithio gyda'r heddlu ar achosion stelcio. Roedd y protocol yn canolbwyntio ar sut y bydd yr heddlu a'r CPS yn gwella gwasanaethau i ddioddefwyr, adeiladu achosion cryfach o'r dechrau fel bod erlyniadau llwyddiannus am stelcio ac aflonyddu. Gan fod y CPS yn ymroddedig i sicrhau diogelwch dioddefwyr a thystion, rhoddwyd anogaeth i erlynyddion wneud cais am orchmynion atal wrth gollfarnu a rhyddfarnu pan yn addas.

**Stelcio A4A PHA 1997**

- Cyhuddwyd un fu'n stelcio cyflwynydd newyddion amlwg gan yr heddlu am aflonyddu a2. Newidiodd y CPS hyn i a4A (1)(b)(ii)(stelcio yn cynnwys codi ofn/gofid difrifol). Ystyriwyd cyfarwyddyd y CPS ar stelcio/aflonyddu trwy gydol yr achos. Yn ystod yr achos daeth y protocol stelcio i rym ac fe'i cylchredwyd i'r heddlu a'r cwnsel i sicrhau eu bod yn gwybod am y camau gofynnol. Fe wnaeth yr heddlu drafod camau arbennig yn addas gyda'r ddioddefwraig ac fe'u gweithredwyd (sgriniau) gan gynnig cymryd Datganiad Personol Dioddefwr. Collfarnwyd y diffynnydd ar ôl treial a'i ddedfrydu i ddedfryd ohiriedig a gorchymyn atal.

## Hyfforddiant

Yn Ebrill 2014, lansiwyd modwl e-ddysgu penodol ar stelcio i gyd-fynd â'r cwrs seiber stelcio gorfodol. Mae'r modwl e-ddysgu yn delio â throseddau stelcio ac aflonyddu, adeiladu achos cryf, gweithio'n agos gyda'r heddlu ac ymgysylltu â dioddefwyr trwy gydol y broses gyfreithiol. Datblygwyd y modwl gyda chymorth gan Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh a roddodd astudiaethau achos.

[65] Cyflwynodd Adran 2A y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 drosedd newydd o stelcio (trosedd ddiannod) ac fe gyflwynodd Adran 4A y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 drosedd newydd o stelcio yn ymwneud ag ofn o ddychryn neu ofid difrifol sydd wedi cael effaith andwyol sylweddol ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd arferol (trosedd naill ffordd). Mae'r elfen atodol yn yr adran 4A newydd yn galluogi erlyn achosion yn bennaf pan fydd ymddygiad y diffynnydd heb gyrraedd ofn o drais ond ei fod er hynny yn achosi dychryn neu ofid difrifol i'r dioddefwr.

## Ymwybyddiaeth

Cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol ‘*Stalking - Working without Fear’* i nodi’r Diwrnod Ymwybyddiaeth Stelcio Cenedlaethol yn Ebrill 2014 i godi ymwybyddiaeth am y drosedd o stelcio. Rhoddodd y CPS gyflwyniad ar erlyn troseddau stelcio. Roedd nifer o asiantaethau cefnogi, dioddefwyr, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid yn y sector cymunedol a chyfiawnder troseddol yn bresennol.

# Treisio

Yn 2014-15 roedd patrwm cyffredinol erlyniadau treisio yn awgrymu cynnydd yn y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu, diffynyddion a gyhuddwyd ac erlyniadau, gan arwain at y nifer uchaf a gollfarnwyd erioed. Collfarnwyd 233 o ddiffynyddion am dreisio yn 2014-15 mewn cymhariaeth â 2013-14, ond gostwng wnaeth y gyfran o ddiffynyddion a erlynwyd a gollfarnwyd. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi'r data ac yn trafod rhai o'r camau a gymerwyd i ymdrin â phroblemau a ddynodwyd.

Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion yn arwain at gollfarn am dreisio, ond hefyd achosion a gafodd eu llumanu fel treisio o'r cychwyn, pan gafwyd collfarn am drosedd arall neu lai. Defnyddir y data i ddibenion rheoli achosion y CPS, ochr yn ochr â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gollfarnau mewn achosion a gyhuddwyd ac a gollfarnwyd am dreisio yn unig. Gosodir y lluman ar ffeiliau'r CPS o gychwyn yr achos; bydd y lluman yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r penderfyniad i gyhuddo am drosedd nad yw'n dreisio neu os yw'r drosedd o dreisio'n cael ei ddiwygio wedi hynny. Mae cywirdeb llumanu achosion wedi gwella yn ystod y flwyddyn, gan godi o 97.4% erbyn Ch4 2013-14 i 99.6% erbyn Ch4 2014-15. Rhoddir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn yr adran nesaf fel yr ystadegau cenedlaethol swyddogol am dreisio er mwyn rhoi cyd-destun i ddata perfformiad y CPS. Mae hyn ar gyfer blwyddyn galendr, yn hytrach nag ariannol, a dim ond ar gyfer yr achosion hynny pan oedd y gollfarn derfynol am dreisio – esbonnir rhagor o fanylion am y gwahaniaethau rhwng data'r CPS a'r MoJ yn adran y MoJ.

Cododd y nifer o atgyfeiriadau treisio gan yr heddlu i 6,159 yn 2014-15 – cynnydd o 309 o atgyfeiriadau (5.3%) o'r swm o 5,850 yn 2013-14. Nododd naw Ardal gynnydd mewn atgyfeiriadau[66]. Cyhuddwyd 3,648 o ddiffynyddion[67], cynnydd o 27 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (0.75%) o 2013-14. O'r holl atgyfeiriadau gan yr heddlu, cyhuddwyd 59.2%. Dyma'r nifer uchaf erioed o gyhuddiadau am dreisio. Gwelodd saith Ardal gynnydd yn y nifer a gyhuddwyd[68].

Mae gwaith gyda'r heddlu wedi dynodi ffyrdd o sicrhau bod cyngor cynnar ar ymchwilio yn cael ei roi gan y CPS a chyngor addas ar gyhuddo yn cael ei roi. Rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r dull yn seiliedig ar deilyngdod yng nghyd-destun y Cod i Erlynyddion y Goron.


[66] Gwelodd yr Ardaloedd Dwyreiniol, Mersi a Swydd Caer, Gogledd Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr, De Orllewin Lloegr, Tafwys a Chiltern, Wessex, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau gan yr heddlu mewn achosion treisio.

[67] Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i'w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14.

[68] Gwelodd yr Ardaloedd Dwyreiniol, Dwyrain Canolbarth Lloegr Mersi a Swydd Caer, De Ddwyrain Lloegr, Tafwys a Chiltern, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber gynnydd yn nifer yr achosion treisio y bu cyhuddiad ynddynt.


Mae Graff 9 yn amlinellu'r newidiadau yn niferoedd yr atgyfeiriadau ac erlyniadau o 2008-09 i 2014-15.

**Graff 9: Nifer o atgyfeiriadau treisio a diffynyddion a gyhuddwyd2008-09 i 2014-15**




Mae'r gyfran o achosion treisio, fel % o'r holl erlyniadau trwy dditiad yn unig, wedi codi o flwyddyn i flwyddyn i 12.8% yn 2014-15.

**Graff 10: Llwyth achosion treisio fel % o'r cyfanswm o ddeilliannau ditiadwy yn unig llys y goron 2008-09 i 2014-15**




**Llwyth achosion blynyddol treisio fel % O GYFANSWM DEILLIANNAU DITIADWY YN UNIG LLYS Y GORON**

| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CPS YN GENEDLAETHOL | 8.6% | 9.4% | 10.0% | 9.9% | 9.8% | 11.1% | 12.8% |

**Tabl 3: Erlyniadau treisio a gwblhawyd yn ôl deilliant**


| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Collfarnau | 2,270 | 59.4% | 2,465 | 58.6% | 2,414 | 62.5% | 2,333 | 63.2% | 2,348 | 60.3% | 2,581 | 56.9% |
| Aflwyddiannus | 1,549 | 40.6% | 1,743 | 41.4% | 1,450 | 37.5% | 1,359 | 36.8% | 1,543 | 39.7% | 1,955 | 43.1% |
| **Cyfanswm** | **3,819** | | **4,208** | | **3,864** | | **3,692** | | **3,891** | | **4,536** | |

Yn 2014-15 roedd cyfradd gollfarnau treisio'r CPS[69] yn 56.9%, gostyngiad o 63.2% yn 2012-13 (Graff 12), y gyfradd gollfarnu uchaf gan y CPS ers i gofnodi ddechrau. Ond mae hyn yn cael ei asesu mewn cymhariaeth â nifer yr erlyniadau a chollfarnau am dreisio. Yn 2014-15[70] cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd i 4,536 – cynnydd o 645 o ddiffynyddion (16.6%) o 2013-14, gan gyrraedd y nifer uchaf erioed (Graff 11 a Thabl 3). Arweiniodd y cynnydd mawr mewn diffynyddion a gyhuddwyd y llynedd (cynnydd o 25.3% ers 2012-13) at gynnydd mawr dilynol mewn erlyniadau yn 2014-15. O ddata'r CPS, cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 2,581[71] – cynnydd o 2,348 o gollfarnau (9.9%) yn 2013-14. Dyma'r nifer uchaf erioed o gollfarnau.

O'r 4,536 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 4,474 o'r diffynyddion yn ddynion, 60 yn fenywod, nid oedd rhyw dau ddiffynnydd wedi ei gofnodi[72]. O'r rhai yr oedd eu rhyw wedi ei gofnodi roedd 98.6% yn ddynion a 1.3% yn fenywod.[73]

Wrth ddilyn y patrwm dros nifer o flynyddoedd, mae'n ymddangos bod y cynnydd mewn cyfradd gollfarnu yn 2012-13 yn cyd-daro â gostyngiad yn y niferoedd i'r lefel isaf ers 2008-09.


**Graff 11: Niferoedd treisio 2008-09 i 2014-15**




69 Deilliannau o gyhuddo i gollfarn; gweler y manylion uchod.
70 Sylwer fod y niferoedd cyhuddo yn cwmpasu'r achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a anfonwyd ymlaen i'r CPS yn ystod 2014-15 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo na ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd gyda'r rhai a erlynwyd sy'n cwmpasu achosion yn ôl diffynnydd, a gwblhawyd yn ystod 2014-15.
71 Nid yw'r data ar hyn o bryd yn cael ei wahanu yn ôl rhyw.
72 Nid yw'n bosibl rhoi data ar ryw dioddefwyr yng nghyswllt rhyw y diffynnydd o'r systemau data presennol. Rhoddir data dioddefwyr yn yr adran Cydraddoldeb ar dudalen 54.
73 Mae'r ffigwr yr un fath os caiff ei gyfrifo ar sail y cyfanswm, gan gynnwys rhai pan na chofnodwyd rhyw.

Mae Graff 12 yn dangos y duedd yng nghollfarnau treisio'r CPS dros y saith mlynedd diwethaf.

**Graff 12: Cyfraddau collfarnu treisio 2008-09 i 2014-15**




O ddata'r CPS am 2014-15, erlynwyd 4,320 (97.8%) o achosion a lumanwyd yn gyntaf fel treisio yn y pen draw am y categorïau prif drosedd[74] 'troseddau rhywiol, yn cynnwys treisio' neu brif droseddau mwy difrifol o 'laddiad' neu 'droseddau yn erbyn y person'. O'r rhain roedd 3,982 am droseddau rhywiol gan gynnwys treisio; pump am laddiad a 333 am droseddau yn erbyn yr unigolyn.

**Deilliannau llwyddiannus[75]:**
Gostyngodd pledion euog ychydig o 35.9% yn 2013-14 i 34.0% yn 2014-15, er i nifer y diffynyddion yn pledio'n euog godi i 1,540 – yn debyg i'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed yn 2010-11 (sef 1,542). O'r holl ddeilliannau llwyddiannus, roedd 59.7% o ganlyniad i bledion euog.

**Deilliannau aflwyddiannus:**
Gall deilliannau fod yn aflwyddiannus am nifer o resymau – efallai na fydd y CPS yn parhau â nhw ar ôl penderfyniad i gyhuddo, gall y nifer sy'n osgoi mynd i'r llys ddigwydd oherwydd materion dioddefwyr (fel yr effaith pan fydd dioddefwr yn tynnu ei gefnogaeth i'r achos yn ôl) neu ryddfarn mewn achos llys. Mae'r adran isod yn archwilio'r prif faterion, gan ganolbwyntio yn fanwl ar y prif reswm dros ganlyniadau aflwyddiannus rhyddfarnau gan reithgor. Rhoddir y grynodeb o ddata isod mewn tablau mwy manwl ar wefan y CPS – gwelir y ddolen yn y Crynodeb Gweithredol.

Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i ostwng gan gyrraedd y lefel isel o 13.3% o'r holl achosion treisio a erlynwyd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol a oedd ar ei lefel isaf erioed ar 13.1%.

[74] Gweler yr Eirfa am ddiffiniadau'r CPS o'r 'brif drosedd' a'r gwahanol gategorïau. Mae'r data categori prif drosedd a gofnodir gan y CPS yn y System Rheoli Achosion yn or-gynnil wrth gymharu â'r niferoedd o erlyniadau cyffredinol yn yr un cyfnod. Mae deilliannau a arweiniodd at derfyniad gweinyddol neu achosion anghyflawn, pan na ddyrannir categori prif drosedd, wedi eu heithrio.
[75] Mae'r atodiadau data ar gael yn y ddolen ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol.

O'r holl ganlyniadau aflwyddiannus, mae'r gyfran o ganlyniad i ryddfarn gan reithgor[76] wedi codi o flwyddyn i flwyddyn – o 60.3% yn 2013-14 i 62.7% yn 2014-15. Gwnaed mwy o waith ar gyflwyno achosion yn y llys yn 2014-15 i ymdrin â'r mater hwn – rhoddir manylion isod.

O'r deilliannau aflwyddiannus, gostyngodd y rhai oherwydd materion dioddefwyr o 18% yn 2013-14 i 17% yn 2014-15; ac o'r rhai hynny roedd 10.3% oherwydd i'r dioddefwr dynnu yn ôl.

O'r *holl* achosion a erlynwyd, mae'r gyfradd oedd yn aflwyddiannus oherwydd problemau'r dioddefwr[77] wedi codi ychydig o 7.1% y llynedd i 7.3%. Mae cefnogaeth i ddioddefwyr drwy broses y llys, trwy Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) yn allweddol i leihau'r nifer sy'n tynnu'n ôl ac fe ddisgrifir gwaith i wella hyn, a nodwyd trwy'r Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio, isod.

Yn gyffredinol mae'r data yn dynodi, yn y cynnydd mawr mewn erlyniadau, bod cyfran lai o ddiffynyddion wedi pledio yn euog, gan olygu bod mwy o achosion wedi mynd ger bron rheithgor.
Er eglurder, mae tablau 4 a 5 yn rhoi data ar achosion a ddadleuwyd[78] ers 2010-11 i ategu at y data a roddwyd uchod ar sail erlyniadau a deilliannau aflwyddiannus. Un modd o fesur pa mor addas yw'r achosion yr ydym yn eu symud ymlaen yw'r lefel isel o ryddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr (JDA)[79]. Mae'r gyfradd o JDA yn gostwng fel y dynodir yn nhablau 4 a 5.

**Tabl 4: Achosion a ddadleuwyd ac eithrio gyda phleon cymysg[80]**

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Collfarn yn dilyn achos llys | 793 | 854 | 849 | 936 | 1,016 |
| % Collfarnau yn dilyn achos llys | 46.6% | 52.3% | 51.5% | 49.2% | 44.5% |
| Barnwr yn rhoi cyfarwyddyd i ryddfarnu | 72 | 45 | 35 | 38 | 41 |
| % JDA | 4.2% | 2.8% | 2.1% | 2.0% | 1.8% |
| Rhyddfarnu gan Reithgor | 838 | 733 | 763 | 930 | 1,225 |
| % Rhyddfarnu Gan Reithgor | 49.2% | 44.9% | 46.3% | 48.8% | 53.7% |
| Cyfanswm y Rhyddfarnau yn dilyn achos llys | 910 | 778 | 798 | 968 | 1,266 |
| % Cyfanswm Rhyddfarnau | 53.4% | 47.7% | 48.5% | 50.8% | 55.5% |
| **CYFANSWM Achosion a ddadleuwyd** | **1,703** | **1,632** | **1,647** | **1,904** | **2,282** |

[76] Roedd yr holl 'ddeilliannau aflwyddiannus oherwydd rhyddfarnau' a amlinellwyd mewn adroddiadau blaenorol yn cynnwys 'rhyddfarn gan reithgor' a 'gwrthodwyd wedi achos diannod llawn' – cododd hyn o 61.0% yn 2013-14 i 63.7% yn 2014-15
[77] Mae achosion aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr yn cynnwys y rhai pan fydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl; peidio mynd i'r llys neu pan na fydd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos.
[78] Nid yw data achosion a ddadleuwyd Llys y Goron yn cynnwys unrhyw ddadleuon a glywyd ac a gwblhawyd mewn llysoedd ynadon.
[79] Achosion pan fydd y barnwr yn rhoi cyfarwyddyd i ryddfarnu yw achosion pan, ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, y gwneir argymhelliad llwyddiannus o 'ddim achos' neu 'anniogel' ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i'r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor.
[80] Mae 'ac eithrio gyda phleon cymysg' yn golygu achosion diffynyddion pan roddir ple 'dieuog' i bob cyhuddiad ac mae achos llys yn dilyn hynny.

**Tabl 5: Achosion a ddadleuwyd yn cynnwys pleon cymysg**[81]

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Collfarn yn dilyn achos llys | 939 | 1,012 | 986 | 1,113 | 1,200 |
| % Collfarnau yn dilyn achos llys | 50.1% | 55.5% | 54.7% | 52.9% | 48.0% |
| Barnwr yn rhoi cyfarwyddyd i ryddfarnu | 74 | 48 | 35 | 40 | 41 |
| % JDA | 4.0% | 2.6% | 1.9% | 1.9% | 1.6% |
| Rhyddfarnu gan Reithgor | 860 | 763 | 780 | 951 | 1,260 |
| % Rhyddfarnu Gan Reithgor | 45.9% | 41.9% | 43.3% | 45.2% | 50.4% |
| Cyfanswm y Rhyddfarnau yn dilyn achos llys | 934 | 811 | 815 | 991 | 1,301 |
| % Cyfanswm Rhyddfarnau | 49.9% | 44.5% | 45.3% | 47.1% | 52.0% |
| **CYFANSWM Achosion a ddadleuwyd** | **1,873** | **1,823** | **1,801** | **2,104** | **2,501** |

Mae Tablau 4 a 5 uchod yn cynnig ffordd wahanol o edrych ar ryddfarnau gan reithgor – gan ganolbwyntio ar yr achosion a ddadleuwyd, i ategu at y data blaenorol ar y gyfran o achosion aflwyddiannus. Maent yn awgrymu bod rheithgorau'r un mor debygol o gollfarnu ag o ryddfarnu, (er sylwer, yn y ddau dabl bod y rhyddfarnau wedi cynyddu o bron i 5% yn 2014-15 o'r flwyddyn flaenorol, i 53.7% o ryddfarnau gan reithgor mewn achosion pan roddwyd pleon dieuog yn unig gan ddiffynyddion (Tabl 4), neu 50.4% os cynhwysir achosion llys pan fydd pleon cymysg o euog a dieuog i dditiadau yn cael eu cynnwys (Tabl 5)).

Ond, mae'r data ar y dudalen flaenorol, sy'n edrych ar resymau am erlyniadau aflwyddiannus yn dynodi bod y mwyafrif o ganlyniad i ryddfarn gan reithgorau (62.7% yn 2014-15) yn hytrach na pheidio â pharhau gan y CPS, materion dioddefwyr nag unrhyw reswm arall. Mae'n bwysig felly nodi nad yw'r tebygolrwydd sydd bron yn gyfartal o gollfarnau neu ryddfarnau gan reithgor yn dileu'r angen i ymdrin â'r *prif* reswm pam bod erlyniadau yn aflwyddiannus, o gyhuddiad i achos llys, sef rhyddfarn yn y llys gan y rheithgor.

Arweiniodd hyn at waith yn ystod y flwyddyn i ymdrin ag ansawdd ac arbenigedd yr eiriolwyr, yn ogystal â herio'r chwedlau ac ymdrin â materion allweddol y ddadl. Yn ychwanegol rydym wedi cydnabod, wrth i rai achosion mwy cymhleth gael eu symud ymlaen y gall fod yn anos darbwyllo rheithgorau o hygrededd dioddefwyr bregus pan fydd stereoteipiau mor gyffredin ac na all tystiolaeth arbenigol fod yn dderbyniol i esbonio eu hymddygiad.

[81] Mae 'yn cynnwys pleon cymysg' yn golygu bod y diffynnydd yn cofnodi ple neu bleon euog i rai cyhuddiadau a phleon dieuog i gyhuddiadau eraill. Nid yw'r pleon hyn yn dderbyniol i'r Goron ac mae'r achos yn mynd ymlaen i gael ei brofi yn y llys.

## Prydlondeb penderfyniadau cyn cyhuddo[82]

Am y tro cyntaf, yn 2013-14, cafodd prydlondeb penderfyniadau cyn cyhuddo eu monitro o fewn system sicrwydd VAWG. Y nifer cyfartalog o ddyddiau i gyhuddo yn 2013-14 oedd 39.6 o ddyddiau. Cynyddodd hyn i 55.1 o ddyddiau yn 2014-15. Gofynnwyd i'r Ardaloedd lunio cynlluniau i wella perfformiad ac mae'r cynnydd yn cael ei fapio trwy'r broses sicrwydd VAWG. Mae'r penderfyniadau cyhuddo yn yr achosion hyn yn galw am sylw manwl a gall gynnwys ystyried tystiolaeth gymhleth, yn arbennig mewn achosion nad ydynt yn ddiweddar (y bu cynnydd mewn atgyfeiriadau mewn cysylltiad â nhw). Rydym nawr yn cynghori ar achosion o dreisio ar ddechrau, yn hytrach na diwedd, ymchwiliad er mwyn helpu'r heddlu i adeiladu achosion cryfach, a fydd yn sicr o ymestyn cyfraniad y CPS. Yn ogystal, mae angen amser i wylio cyfweliadau a recordiwyd gyda dioddefwyr, a all fod yn hirfaith iawn, cyflawni dadansoddiad fforensig o gyfathrebiadau ar gyfryngau cymdeithasol a ffonau yn ogystal ag asesu deunydd perthnasol megis adroddiadau gwasanaethau cymdeithasol fel rhan o ddyletswydd yr erlyniad i ddatgelu. Mae nifer o Ardaloedd wedi cyflwyno rhestrau gwirio'r heddlu er mwyn archwilio'r holl bosibiliadau yn gynnar i geisio osgoi oedi.

Yn ein gwaith ar y Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol ymdriniwyd â phrydlondeb ac fe amlinellir y gwaith isod.

# Ystadegau cenedlaethol swyddogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder[83] [84] [85] [86]

Mae'r ystadegau treisio cenedlaethol swyddogol gan yr MoJ https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2014 yn dangos, ym mlwyddyn galendr 2014 i 3,538 o ddiffynyddion, ar sail prif drosedd, gael eu herlyn am dreisio mewn llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 3,081 yn 2013. Anfonwyd 3,459 o achosion i Lys y Goron i'w profi, o gymharu â 3,020 yn 2013. Yn 2014 cafwyd 1,164 o droseddwyr yn euog o dreisio yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 1,121 yn 2013, gan arwain at gymhareb erlyniad i gollfarn yn 2014 o 33% – gostyngiad o 36% yn 2013. Nid yw'r gymhareb hon yn ystyried diffynyddion a erlynwyd am dreisio ond a gollfarnwyd yn Llys y Goron am drosedd arall.

---

[82] Mae data CMS yn adrodd cyfartaledd y nifer o ddyddiau calendr sydd wedi mynd ers i'r penderfyniad cyntaf gael ei geisio gan yr heddlu, hyd y dyddiad pan oedd y penderfyniad olaf a wnaed yn un i gyhuddo. Ni all y system gofnodi ar wahân brydlondeb yr achosion hynny oedd yn destun i gyngor a rhagor o waith cyn i benderfyniad i gyhuddo gael ei wneud a'i gofnodi fel y penderfyniad olaf.

[83] Mae'r ffigurau am achosion llys yn ymwneud ag unigolion yr oedd y troseddau hyn yn brif droseddau yr oeddynt yn cael eu cyhuddo ohonynt. Pan fydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Pan weithredir yr un gosb am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddewisir yw'r un gyda'r uchafswm cosb statudol mwyaf difrifol.

[84] Gwneir pob ymgais i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynir yn gywir a chyflawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y data hwn wedi ei dynnu o systemau data gweinyddol mawr a grëwyd gan y llysoedd a lluoedd heddlu. O ganlyniad, dylid bod yn ofalus bod prosesau casglu data a'u cyfyngiadau anochel yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio'r data.

[85] Gall y nifer o ddiffynyddion a geir yn euog mewn blwyddyn benodol fod yn fwy na'r nifer y cychwynnir achos yn eu herbyn gan i'r achos yn y llys ynadon ddigwydd mewn blwyddyn gynharach a bod y diffynyddion wedi eu cael yn euog yn Llys y Goron yn y flwyddyn ganlynol; neu fod y diffynyddion wedi eu cael yn euog o drosedd wahanol i'r achos gwreiddiol yn eu herbyn.

[86] Oherwydd gwelliannau wrth brosesu data, efallai na fydd canlyniadau 2014 yn cyfateb i'r rhai a gyhoeddwyd o'r blaen.

Sylwer - mae data'r CPS yn wahanol i ddata'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o ran:

- Mae data'r CPS am y flwyddyn ariannol; mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am y flwyddyn galendr;
- Mae data'r CPS am erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15; mae data erlyn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwneud ag achosion pan fydd y gwrandawiad wedi ei gwblhau yn y Llys Ynadon yn 2014, ac felly mae'n cynnwys achosion sydd wedi eu cwblhau ac achosion sy'n dal yn fyw yn Llys y Goron;
- Mae collfarnau CPS am achosion gyda lluman treisio sy'n cael collfarn am dreisio, neu am drosedd arall neu lai; mae collfarnau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am achosion a gollfarnwyd am dreisio;
- Cyfradd gollfarnu'r CPS yw'r gyfran o gollfarnau allan o erlyniadau gyda lluman treisio a *gwblhawyd* yn 2014-15; cyfradd gollfarnu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r nifer o ddiffynyddion a gollfarnwyd am dreisio wedi ei rannu â'r nifer o ddiffynyddion a erlynwyd (fel sy'n cael ei ddiffinio uchod).

## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tablau ar dudalennau 102-103 yn rhoi data erlyniadau treisio yn ôl Ardal ac ardaloedd lluoedd heddlu. O 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Dinas Llundain (CLP) a Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r CLP a'r BTP.Mae'r atodiad cysylltiedig, a roddwyd ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol, yn rhoi data cyn cyhuddo Ardaloedd ac ardaloedd lluoedd yr heddlu.

**Arfer da**

- Yn Swydd Efrog a Glannau Humber, rhoddwyd hyfforddiant CPS i aelodau'r Panel Craffu Treisio ar berthnasedd deunyddiau trydydd parti ar arfer gorau wrth ymdrin ag achosion.
- Yn CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr cynhaliwyd cyfres o weithdai ar chwedlau treisio a stereoteipiau i staff i nodi Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Menywod.
- Cynhaliodd CPS Llundain ddigwyddiad yng Ngorffennaf 2014, gyda dioddefwyr ac ISVA yn rhannu eu profiad o'r System Gyfiawnder a'r Barnwr Rook yn amlinellu'r cynlluniau ar gyfer hyfforddiant ar draws y system gyfiawnder yng nghyswllt dioddefwyr bregus.

## Materion cydraddoldeb

**Rhyw**
O'r 4,536 diffynnydd a erlynwyd, roedd 4,474 yn ddynion, 60 yn fenywod, nid oedd rhyw dau ddiffynnydd wedi ei gofnodi[87]. O'r rhai yr oedd eu rhyw wedi ei gofnodi roedd 98.6% yn ddynion a 1.3% yn fenywod[88], yn debyg i'r hyn a gofnodwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

O ran data'r dioddefwyr, o'r System Reoli Tystion, cofnodwyd 5,717 o ddioddefwyr. O'r holl ddioddefwyr, roedd 3,802 yn fenywod, 523 yn ddynion a 1,392 heb eu cofnodi Nid yw cofnodi rhyw dioddefwyr, ar 76%, yn ddigon cadarn i gynnwys y gyfran o bob rhyw yn yr adroddiad hwn.

**Ethnigrwydd**
Yn 2014-15, dosbarthwyd 59% o ddiffynyddion troseddau treisio fel Gwyn, gyda 54% wedi eu nodi fel perthyn i'r dosbarth Gwyn Prydeinig, ychydig dan ddau bwynt canrannol yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Nodwyd bod 7.6% o'r diffynyddion yn Asiaidd – gostyngiad o 1.2ppt o 2013-14, a nodwyd 9.7% fel Du – gostyngiad o 0.8ppt[89]. Roedd gostyngiad o dros 5.0ppt mewn cofnodi ethnigrwydd diffynyddion. Nid yw ethnigrwydd wedi ei gofnodi ar gyfer 67% o ddioddefwyr, felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Oedran**
Roedd mwyafrif y diffynyddion rhwng 25-59 oed (59%) a 18-24 (21%). Roedd 30% o'r diffynyddion (1,361) dan 24, gyda 354 (ychydig dan 8%) o ddiffynyddion yn 14-17 mlwydd oed a 56 (1%) yn 10-13 oed. Nid yw oedran 27% o ddioddefwyr yn cael ei gofnodi; felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Asesiad ansoddol o achosion treisio

Yn 2014-15 gofynnwyd i'r Ardaloedd ganolbwyntio ar welliannau ansoddol yn eu gwaith achos a gwirio yn erbyn 15% o'u hachosion treisio[90]. Cyfarfu penaethiaid Unedau RASSO yn ystod 2014-15 i ymdrin â materion yn deillio o sicrhau VAWG a gwaith ar draws y system gyfiawnder troseddol.

## Materion trawslywodraethol

Roedd y CPS yn rhan o waith trawslywodraethol trwy strategaeth a chynllun gweithredu'r MoJ ar dreisio a'r Grŵp Cenedlaethol ar Drais Rhywiol yn Erbyn Plant a Phobl Fregus a oruchwylir gan y Swyddfa Gartref, yn ogystal ag wedi ei gysylltu â'r Grŵp Rhyngweinidogol VAWG.

---

[87] Nid yw'n bosibl rhoi data ar ryw dioddefwyr yng nghyswllt rhyw y diffynnydd o'r systemau data presennol.
[88] Mae'r ffigwr yr un fath os caiff ei gyfrifo ar sail y cyfanswm, gan gynnwys rhai pan na chofnodwyd rhyw.
[89] Ni ddatganodd 8.7% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ethnigrwydd 11.9% o ddiffynyddion i'r CPS gan yr heddlu – y ddau wedi codi ers 2013-14.
[90] O Ionawr 2011 – Mawrth 2013, aseswyd 25% o achosion treisio i nodi materion i'w datrys; o Ebrill 2013 symudodd hyn i ffocws ar weithredu'r casgliadau, gan barhau i asesu yn erbyn 15% o'u hachosion.

Yn ychwanegol at hyn mae'r CPS yn rhan o'r Grŵp Monitro Treisio Cenedlaethol dan gadeiryddiaeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC). Ym Mawrth 2015, rhyddhawyd data treisio'r CJS o 2009-10 i 2013-14 gan yr heddlu, CPS a MOJ i ardal pob llu heddlu. Rhoddwyd y data a gyhoeddwyd i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac asiantaethau CJS lleol i sicrhau mynediad cyfartal at y data a fydd yn caniatáu iddynt ddadansoddi a chraffu sut y mae treisio yn cael ei drin yn eu hardal leol. Y nod yw dynodi ac ymdrin â gwelliannau pellach i ymchwiliadau, erlyniadau a'r gwasanaethau a roddir i ddioddefwyr.

## Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio a'r Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol

Yn Ebrill 2014 cynhaliwyd Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio gan y CPS i ddeall yn well y gostyngiad a fu yn y nifer o achosion treisio a atgyfeiriwyd gan yr heddlu i erlynyddion am gyngor ar gyhuddo a'r materion ehangach sy'n ymwneud ag ymchwilio ac erlyn treisio. Bu'r heddlu, erlynyddion, academyddion a grwpiau dioddefwyr ar y panel. Yn dilyn canfyddiadau'r panel, lansiodd y CPS a'r heddlu Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Treisio ym Mehefin 2014, yn ymdrin â thri maes yn fras i'w gwella ymhellach:

- Sicrhau cydbwysedd: Ymchwiliadau sy'n canolbwyntio ar y troseddwr wrth sicrhau ymateb effeithiol i'r dioddefwr;
- Offer ar gyfer y gwaith: Ymchwilwyr ac Erlynyddion ar Ddelio ag Achosion Treisio;
- Gwelliant parhaus: Goruchwyliaeth ac Atebolrwydd.

Goruchwyliwyd y gwaith o gyflawni'r camau gan grŵp llywio yn cynnwys academyddion a chynrychiolwyr o grwpiau dioddefwyr, yn ogystal â heddlu ac erlynyddion. Cwblhawyd y mwyafrif o'r camau erbyn dechrau 2015 a datblygwyd nifer o gynlluniau i ymdrin ag ansawdd gwaith achos, cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion ac offer a sgiliau ar gyfer y gwaith. Cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol yn Ionawr 2015 i lansio'r cynlluniau allweddol, a amlinellir dan y tair thema isod:

### Sicrhau cydbwysedd: Ymchwiliadau sy'n canolbwyntio ar y troseddwr wrth sicrhau ymateb effeithiol i ddioddefwyr.

Canfu'r panel bod strategaeth effeithiol wrth ymchwilio ac erlyn i dreisio yn gofyn am bwyslais ar weithredoedd, a thactegau'r troseddwyr, yn hytrach na dim ond ymddygiad y dioddefwr.

#### Cydsyniad:

Datblygodd yr heddlu, erlynyddion, eiriolwyr mewnol a chynrychiolwyr o'r trydydd sector daflen ar gyfer y cyhoedd a phecynnau offer i'r heddlu, erlynyddion ac eiriolwyr yng nghyswllt cydsyniad. Roedd y pecynnau offer yn amlinellu'r materion allweddol i ymchwilwyr, goruchwylwyr yr heddlu, cyfreithwyr adolygu RASSO ac arbenigwyr o Eiriolwyr treisio mewnol i ymdrin ag achosion treisio. Yn benodol, mae'r pecynnau offer yn amlinellu ffyrdd o asesu ac ymdrin â rhyddid a gallu dioddefwyr i roi cydsyniad a sefydlu pa gamau, os o gwbl, a gymerodd yr un dan amheuaeth i gael cydsyniad yr achwynydd a sut y mae'n rhaid i'r erlyniad brofi nad oedd gan yr un dan amheuaeth gred resymol bod yr achwynydd yn cydsynio. Trafododd y pecynnau offer

gyd-destun treisio a pha mor fregus yw nifer o'r dioddefwyr a dargedir. Y bwriad yw y gellir rhoi'r cyflwyniad ar y gyfraith yn gysylltiedig â materion cydsyniad i reithgorau yn glir ac i naratif sy'n canolbwyntio ar y troseddwr gael ei rhoi yn erbyn yr amddiffyniad, fel sy'n briodol.

Rhoddwyd yr holl ddogfennau cydsyniad ar foth gwaith achos a gwybodaeth y CPS yn ogystal â'u rhannu i Unedau RASSO ac eiriolwyr mewnol. Yn 2015 datblygwyd hyfforddiant i Unedau RASSO ac eiriolwyr ar gydsyniad, dulliau sy'n canolbwyntio ar y troseddwr, natur fregus y dioddefwyr a chwedlau a stereoteipiau treisio. Yn ychwanegol amlinellir hyfforddiant pellach isod.

**Cydsyniad**

Mae nifer o achosion yn darlunio pwysigrwydd herio materion cydsyniad – ar sail iechyd meddwl, anawsterau dysgu ac alcohol:

***Iechyd meddwl:***

- Carcharwyd cyn nyrs wrywaidd am 12 mlynedd a chwe mis am ymosod yn rhywiol ar ddwy glaf iechyd meddwl oedd dan ei ofal. Rhoddwyd Gorchymyn Atal Troseddau Rhywiol (SOPO) iddo hefyd am ei oes ac mae ar y Gofrestr o Droseddwyr Rhyw am oes hefyd. Mae hyn yn enghraifft o amser pan nad oedd gan y dioddefwr y gallu i gydsynio.

***Anableddau dysgu:***

- Dedfrydwyd dyn 28 mlwydd oed i 11 mlynedd a saith mis o garchar am dreisio dieithryn ar ferch 14 mlwydd oed gydag anableddau dysgu difrifol a gorchmynnwyd iddo lofnodi'r Gofrestr Troseddwyr Rhywiol ac mae'n ddarostyngedig i SOPO am ei oes. Nododd yr erlyniad y byddai'n gwybod yn iawn pa mor fregus oedd y ddioddefwraig ifanc ac felly ni allai fod wedi cael ei chydsyniad pan wnaeth ei thargedu yn fwriadol a gwneud iddi ddioddef y profiad hwn, gan nad oedd ganddi'r gallu i gydsynio.

**Cydsyniad**

***Alcohol:***

- Carcharwyd tri o ddynion am chwe mlynedd yr un am dreisio ac ymosod yn rhywiol ar fenyw 23 mlwydd oed yn dilyn digwyddiad a barhaodd am 20 awr. Y mater canolog i achos yr erlyniad oedd nad oedd gan y ddioddefwraig y gallu i gydsynio i'r gweithgaredd rhywiol. Aed â'r ddioddefwraig, oedd wedi bod yn yfed, gan y dynion mewn tacsi i fflat lle digwyddodd yr ymosodiadau. Gohiriwyd yr achos llys am nifer o ddyddiau ar ôl i'r barnwr bennu nad oedd digon o dystiolaeth i'w roi gerbron rheithgor ar y sail nad oedd diffyg cofio yn cyfateb i ddiffyg gallu i gydsynio. Ceisiodd yr erlyniad ddyfarniad gan y Llys Apêl ar ddigonolrwydd tystiolaeth yr achos, gan ddadlau bod angen ystyried y cyd-destun llawn wrth ystyried y mater o gydsyniad, gan gynnwys fideo oddi ar ffôn symudol a ffilmiwyd gan un o'r diffynyddion a phrofion gwaed yn dangos y lefel uchel o alcohol yng ngwaed y ddioddefwraig. Roeddent yn dangos nad oedd ganddi'r gallu i roi cydsynaid i weithgaredd rhywiol. Dyfarnodd y Llys Apêl o blaid yr erlyniad ac aeth yr achos llys yn ei flaen.

- Carcharwyd dyn am gyfanswm o naw mlynedd am dreisio ac ymosodiad rhywiol difrifol ac mae'n rhaid iddo hefyd lofnodi'r Gofrestr Troseddwyr Rhyw am oes. Am 3am aeth at fenyw 18 oed tu allan i glwb nos wrth iddi aros am dacsi. Dilynodd hi i'r tacsi a phan ddaethant allan, fe wnaeth ymosod arni mewn parc cyn mynd â hi yn ôl i westy ac ymosod arni eto. Roedd ffilm teledu cylch cyfyng yn ei ddangos yn cario'r ddioddefwraig dros ei ysgwydd trwy ganol y dref ac roedd yn amlwg nad oedd y ddioddefwraig yn gallu rhoi cydsyniad i weithgaredd rhywiol oherwydd ei chyflwr.

### Dioddefwyr bregus:

Lansiwyd pecyn offer i erlynyddion sy'n ymdrin ag achosion VAWG (gan gynnwys treisio), yn ymwneud â dioddefwyr bregus yn y gynhadledd genedlaethol. Nod y pecyn offer yw sicrhau bod hygrededd yr honiad cyffredinol, yn unol â'r Cod i Erlynyddion y Goron, yn cael ei asesu yn briodol a bod dioddefwyr bregus yn cael eu cefnogi i roi eu tystiolaeth orau. Mae'r pecyn offer yn rhoi gwybodaeth am y mathau o dactegau ac ymddygiad y gall troseddwr eu defnyddio neu eu dangos i leihau'r risg o gosb a dylid eu hystyried ochr yn ochr â Chyfarwyddyd Cyfreithiol perthnasol y CPS. Yn ychwanegol mae'r pecyn offer yn ystyried materion yn ymwneud â fersiwn dioddefwr bregus gan gynnwys ffyrdd y gall trawma effeithio ar eu pwerau i gofio/ganolbwyntio, eu hymwybyddiaeth o'r digwyddiadau a'u gallu i gyfathrebu.

**Dioddefwyr bregus**

- Dedfrydwyd dau ddyn i 14 mlynedd o garchar yr un am bob un o ddau gyfrif o dreisio menyw ifanc oedd newydd gyrraedd y Deyrnas Unedig. Er mwyn gwneud proses y llys yn haws i'r ddioddefwraig rhoddwyd ei phrif dystiolaeth trwy fideo wedi ei recordio ymlaen llaw ac fe roddodd dystiolaeth arall yn fyw o'r tu ôl i sgriniau.

- Dedfrydwyd dyn i 18 mlynedd o garchar am dreisio un fenyw ac am geisio treisio ac ymosod yn rhywiol ar fenyw arall. Roedd wedi manteisio ar y ddwy fenyw yma pan oeddent yn fregus oherwydd diod. Yn y ddau achos roedd wedi cynnig lifft adref i'r menywod ac roeddent yn credu ei fod yn yrrwr tacsi dilys.

## Dioddefwyr yn tynnu'n ôl:

Aseswyd data dioddefwyr yn tynnu'n ôl gan y CPS yn 2013-14 gyda chefnogaeth gan yr Athro Betsy Stanko. Roedd y data yn dynodi, allan o'r holl ddiffynyddion a erlynwyd dim ond 7.1% a fu'n aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr (tynnu'n ôl, peidio â bod yn bresennol neu eu tystiolaeth ddim yn cefnogi'r achos). Roedd hyn yn cyfateb i ddeg neu lai o achosion yn ystod y flwyddyn ym mhob ardal llu heddlu, oherwydd bod dioddefwyr wedi tynnu'n ôl, heblaw Llundain a Manceinion[91] a bu pump neu lai o achosion yn aflwyddiannus pan oedd tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos, heblaw am yn Llundain.

Ond, er gwaethaf y niferoedd isel mae'r mater yn allweddol yng nghyswllt hyder dioddefwyr. Felly cynhaliwyd ymchwil i'r rhesymau pam bod dioddefwyr yn tynnu'n ôl mewn achosion o dreisio ar y cyd â'r Athro Liz Kelly, o'r Brifysgol Metropolitan. Anfonwyd holiadur allan i Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) am farn y dioddefwyr rhwng Medi a Thachwedd 2014. Derbyniwyd 90 o ymatebion yn dynodi, mewn achosion pan oedd y dioddefwr yn tynnu'n ôl yn gynnar ac yn hwyr eu bod yn dynodi'r rhesymau eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu credu/eu bod yn cael eu barnu ac ofn rhoi tystiolaeth yn y llys. Ond i'r rhai oedd yn tynnu'n ôl yn hwyrach y prif reswm oedd yr oedi cyn mynd i'r llys, sydd wedi cael sylw yn ystod 2014-15, fel yr amlinellir isod.

## Eiriolwyr allanol:

Adolygwyd trefniadau'r CPS ar gyfer rhoi cyfarwyddyd i eiriolwyr mewn achosion treisio i sicrhau bod eiriolwyr gyda'r sgiliau, agweddau a hyfforddiant perthnasol yn cael cyfarwyddyd ar y cam priodol. Cynhaliwyd dadansoddiad o'r holl ganlyniadau a gyflawnwyd gan eiriolwyr allanol yn ystod 2013/14, i helpu i roi gwybodaeth i Ardaloedd yn eu hadolygiadau perfformiad. Diwygiwyd y cyfarwyddyd ar *Errant Conduct and Poor Performance by External Advocates* a'i ail gyhoeddi i gynnwys mwy o bwyslais ar ymdrin â pherfformiad eiriolwyr, gan gynnwys sicrhau canlyniadau.

[91] Yn 2013-14, yn Llundain roedd 49 allan o 730 erlyniad yn aflwyddiannus oherwydd i'r dioddefwr dynnu yn ôl ac ym Manceinion 12 allan o 274; yn Llundain roedd 24 allan o 730 erlyniad yn aflwyddiannus gan nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos.

**Cyfryngau Cymdeithasol**

- Rhoddwyd dedfryd o garchar estynedig o ddeng mlynedd i ddyn 19 oed a dreisiodd dair o fenywod. Roedd y dyn wedi targedu menywod a merched bregus yr oedd wedi eu cyfarfod trwy fforymau sgwrsio ar gyfryngau cymdeithasol. Ar ôl iddynt gytuno i'w gyfarfod, roedd yn gorfodi ei hun ar ei ddioddefwyr. Treisiodd ferch 15 oed, oedd mewn gofal, merch 17 mlwydd oed a menyw 21 mlwydd oed yn ei chartref. Ymosododd ar ferch 17 mlwydd oed arall, gan roi llygad du iddi, ac fe fu'n ymwneud â gweithgaredd rhywiol gyda merch 13 mlwydd oed. Nododd y barnwr ei fod wedi dibynnu ar y ffaith y byddai gan ei ddioddefwyr ormod o gywilydd i roi adroddiad amdano.

## Offer ar gyfer y Gwaith: Ymchwilwyr ac Erlynyddion ar Ddelio ag Achosion Treisio.

### Arfer Proffesiynol Awdurdodedig yr Heddlu ar Dreisio

Yn 2014-15 datblygodd yr Heddlu ddiweddariadau i'w Harfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) ar dreisio, i'w gyhoeddi yn 2015. Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Treisio datblygwyd cynigion ar gyfer strategaethau gadael yn dilyn penderfyniad i beidio â gweithredu ymhellach, i asesu'r risg o aildroseddu ac i ddiogelu dioddefwyr rhag unrhyw gam-drin pellach.

### Cyngor ymchwilio cynnar a chyhuddo

Cyhoeddwyd cyfarwyddyd i'r heddlu ac erlynyddion ar geisio cyngor ymchwilio cynnar a chyhuddo, gan egluro yn fanwl Gyfarwyddyd Cyhuddo'r Cyfarwyddwr, i heddlu ac erlynyddion yn hwyr yn 2014 i helpu i ddatblygu cyhuddo addas a chyflym.

### Protocol treisio

Cyhoeddwyd Protocol Treisio heddlu/CPS wedi ei ddiweddaru ar gyfer y CPS a'r heddlu yn Ionawr 2015, gan nodi sut i ymdrin â phob achos treisio o'r gŵyn wreiddiol hyd ar ôl y ddedfryd mewn achos llys.

## Gwelliant Parhaus: Goruchwyliaeth ac Atebolrwydd

### Adolygu Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO)

Cynhaliwyd adolygiad mewnol o Unedau RASSO ym mhob Ardal CPS yn 2014. Diben yr adolygiad oedd ystyried strwythur yr unedau a'r adnoddau ar eu cyfer. Roedd yn cynnwys y trefniadau gwylio'r adwy, y broses ar gyfer cyflwyno a darparu cyngor ymchwilio cynnar a phenderfyniadau cyhuddo, er mwyn cael cysondeb o ran dull a gweithredu arfer gorau yn genedlaethol.

Mae argymhellion yr adolygiad yn cael eu gweithredu trwy gydol 2015 a byddant yn cyfrannu at sicrhau gwelliannau mewn strwythur a swyddogaethau. Mae'r cynllun yn cynnwys datblygu Model Adnoddau RASSO cenedlaethol i helpu Ardaloedd i sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau lleol.

Bwriedir cynnal arolygiad o Unedau RASSO, yn dilyn yr Adolygiad yn 2014, yn ystod 2015-16 gan Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI).

### Hawl Dioddefwyr i Adolygiad

Tynnwyd y gwersi o Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR) at ei gilydd a'u rhannu i Unedau RASSO a bydd y gwersi yn y dyfodol o'r VRR yn cael eu rhoi yn uniongyrchol i Ddirprwy Brif Erlynydd y Goron yn yr Ardal (DCCP), gyda'r arweinydd VAWG, i'w rhannu ar draws Unedau RASSO.

### Prydlondeb o gyhuddo i'r llys

Darparwyd y data cyffredinol ar brydlondeb achosion treisio o gyhuddo i'w cwblhau, ar draws Cymru a Lloegr, gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder o 2010-11 i 2013-14. Er mwyn ymdrin ymhellach â mater prydlondeb o gyhuddo i achos llys, cafwyd data gan Ardaloedd CPS am gyfnod o bythefnos ym mis Tachwedd 2014, a oedd hefyd yn trafod a oedd achosion llys yn cael dyddiadau penodol.

O ddata'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae'n ymddangos bod y prydlondeb o gyhuddo i gwblhau yn gymharol gyson ar draws y pedair blynedd diwethaf[92]. Yn y darlun bychan cryno a roddir gan y CPS mae'n ymddangos eu bod yn rhagweld gostyngiad yn yr amser a gynllunnir i achosion gyrraedd y llys. Ond, roedd cyfartaledd yr amser a gymerwyd o gyhuddo i gwblhau tua naw mis yn 2013-14. Y prif oedi yn y broses oedd rhwng anfon i Lys y Goron a'r prif wrandawiad.

| | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Data'r MoJ - Amser[93] canolrifol mewn dyddiau o gyhuddo i gwblhau** | **212** | **220** | **214** | **219** |

Rhoddwyd data i Ardaloedd am yr amser a gymerwyd o atgyfeirio hyd gyhuddo a hefyd am yr amser a gymerwyd o gyhuddo hyd achos yn y llys, yn ystod yr asesiad am bythefnos ym mis Tachwedd. Gofynnwyd i'r Ardaloedd ddefnyddio'r data yma, wedi ei rannu yn ardaloedd lluoedd heddlu a llysoedd, i helpu i asesu ble mae angen gwelliannau a thrafod ar lefel system cyfiawnder troseddol yn lleol.

## Cyfarwyddyd Cyfreithiol

Mae'r cyfarwyddyd cyfreithiol yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddaru. Yn 2014-15, rhoddwyd mwy o esboniad ar y dull 'ar sail teilyngdod' gan ailadrodd ei fod yn cefnogi ac yn adeiladu ar y Prawf Cod Llawn fel y mae'n cael ei nodi yn y Cod ar Gyfer

[92] Sylwer nad yw'r data ar gyfer 2014-15 ar gael wrth gyhoeddi

[93] Y canolrif yw gwerth sydd yng nghanol y dosbarthiad o ddata; mae hanner yr amseroedd a gofnodwyd yn y cyfnod o amser yn hwy na'r canolrif, ac mae eu hanner yn llai. Nid yw gwerthoedd eithafol yn effeithio llawer ar y canolrif ac mae'n fwy addas fel dull mesur o'r 'cyfartaledd' ar gyfer data sydd wedi ei sgiwio yn drwm.

Erlynyddion y Goron. Mae’r dull yn berthnasol i bob achos, ond gall fod yn arbennig o bwysig mewn achosion treisio. Mae’n adlewyrchu’r gofyn i dybio y bydd pob achos yn cael ei ystyried gan dribiwnlys gwrthrychol, diduedd a rhesymol. Nid yw hyn yn cyfateb i erlynydd yn gohirio ei ddyfarniad, ond mae’n gofyn iddo wneud penderfyniadau gwrthrychol sy’n deg a rhesymol.

Bydd y cyfarwyddyd cyfreithiol ar dreisio yn cael ei ddiweddaru yn 2015-16 yn unol â chanfyddiadau’r Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol, yr Adolygiad RASSO a’r adolygiad annibynnol ar ymchwiliadau ac erlyniadau treisio yn Llundain. Bydd y cyfarwyddyd hefyd yn cysylltu â deddfwriaeth newydd, e.e. newidiadau cyfreithiol ar bornograffi treisio a gwastrodi, fel yr amlinellir yn nes ymlaen yn yr adroddiad dan yr adrannau cam-drin plant a phornograffi.

**Camddefnyddio Ymddiriedaeth:**

- Carcharwyd dyn 21 mlwydd oed am naw mlynedd am dreisio ac ymosod yn rhywiol ar ddwy fenyw ifanc yn 2013 a 2014. Roedd wedi dod yn ffrind i’r ddwy ddioddefwraig ac ennyn eu hymddiriedaeth dros gyfnod o amser. Gan gymryd arno ei fod yn cerdded gyda nhw i’w cadw yn ddiogel ar ôl nosweithiau allan, roedd wedi denu’r ddwy oddi ar y llwybr arferol gyda’r bwriad o’u rheoli trwy rym corfforol ac ymosod yn rhywiol a threisgar arnynt.

## Hyfforddiant

Lluniwyd rhaglen hyfforddi treisio yn dilyn gweithredu’r Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol gan gynnwys materion fel cydsyniad, y rhai a ddynodwyd yn yr Adolygiad RASSO mewnol a’r adolygiad annibynnol ar ymchwiliadau ac erlyniadau treisio yn Llundain. Dechreuodd y rhaglen waith ar ddiwedd 2014-15, gan archwilio hyfforddiant arbenigwyr ac eiriolwyr RASSO presennol, ac yn 2015 fe’i dilynir gan raglen wedi ei threfnu yn cynnwys:

- Hyfforddiant ymarferol ar sail ymdrin â materion yn ymwneud â chydsyniad, natur fregus y dioddefwyr a defnyddio dull sy’n canolbwyntio ar y troseddwr;
- Gweithdai ar y cyd rhwng y CPS a’r heddlu ar draws pob rhanbarth CPS yn ymdrin â chyngor ymchwilio cynnar, cyhuddo, cefnogi dioddefwyr a thystion, gweithredu’r protocol treisio, lles staff; sicrhau eiriolaeth effeithiol mewn achosion treisio a threfniadau craffu lleol;
- Hyfforddiant adnewyddu gwybodaeth wedi ei ddiweddaru yn ymdrin ag unrhyw arferion a gweithdrefnau newydd gan yr adolygiad RASSO mewnol a’r Adolygiad Metropolitan annibynnol ac wedi eu hamlinellu mewn cyfarwyddyd cyfreithiol diwygiedig;
- Hyfforddiant eiriolaeth yn cael ei redeg gan y Cyngor Hyfforddi Eiriolaeth ar faterion dioddefwyr bregus.

## Dioddefwyr

Mae nifer o LSIPau Ardal yn cynnwys craffu ar achosion treisio fel sail i ddysgu gwersi yn lleol, ochr yn ochr â'r monitro sicrwydd ansoddol ar VAWG a'r asesiad o ymgysylltiad cymunedol lleol. Mae'r arfer da yn cynnwys:

**Arfer da:**

- Yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, hyfforddodd y CPS wirfoddolwyr ar gyfer panel a sefydlwyd i asesu sut y mae achosion treisio yn rhedeg, dan arweiniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r cynllun yn rhedeg o Ionawr i Fehefin 2015 – bydd adroddiad ar faterion sy'n codi a byddant yn cael eu trin yn ddiweddarach yn 2015.

- Gwnaed gwaith hefyd i hysbysu asiantaethau Argyfwng Treisio lleol am therapi cyn achos a datblygwyd protocol cyn achos lleol yn y Gogledd Ddwyrain.

- Yn Swydd Efrog a Glannau Humber mae rhaglen i'r holl gyfreithwyr RASSO ymweld â SARCS a chanolfannau Argyfwng Treisio; mae'r CPS hefyd wedi hyfforddi ISVA lleol.

## Honiadau ffug honedig

Cynhaliwyd gweminarau i erlynyddion yng ngwanwyn 2014 i arbenigwyr treisio gan ddilyn y DVD o'r Dosbarth Meistr a gyflwynwyd ar ddiwedd 2013 ar honiadau ffug honedig.

Diweddarwyd y cyfarwyddyd cyfreithiol *Guidance for Charging Perverting the Course of Justice and Wasting Police Time in Cases Involving Allegedly False Allegations of Rape and / or Domestic Abuse* ac fe'i cyhoeddwyd yn Ebrill 2105 i sicrhau bod erlynyddion yn cael yr offer mwyaf diweddar i wneud y gwaith hwn. Mae'r materion allweddol a ddiweddarwyd yn cynnwys:

- Amlinelliad o'r ystyriaethau craidd gan gynnwys: ymdrin â chwedlau a stereoteipiau; cyd-destun ehangach yr honiad; gwybodaeth gefndir a natur fregus y rhai dan amheuaeth gan gynnwys materion yn ymwneud â'u hiechyd meddwl;
- Egluro'r meini prawf tystiolaethol mewn achosion sy'n cael eu tynnu'n ôl i osgoi erlyn dioddefwyr sy'n tynnu honiadau cywir am dreisio a/neu gam-drin domestig yn ôl;
- Adran ar ddefnyddio tynnu'n ôl fel sail i erlyn i egluro nad oes imiwnedd awtomatig;
- Cyngor ar y lefel gywir o gyhuddiad h.y. a ddylid cyhuddo o Wyrdroi Cwrs Cyfiawnder neu Wastraffu Amser yr Heddlu; a
- Chamau gweithdrefnol, gan gynnwys y broses gadarnhau yn ymwneud â Dirprwy Brif Erlynyddion y Goron, gyda Chynghorydd Cyfreithiol y

Cyfarwyddwr yn cadarnhau pob cyhuddiad o Wyrdroi Cwrs Cyfiawnder mewn achosion sy'n cynnwys honiadau o dreisio a/neu gam-drin domestig.

Cynhaliwyd gweithdy ymarferol dan arweiniad Cynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr a'r cydlynydd VAWG ar gyfer Mersi a Swydd Caer ym Mai 2015 ar gyfer DCCP a Phenaethiaid unedau RASSO, gan edrych ar achosion a gosod safonau gan ganolbwyntio yn benodol ar rai bregus dan amheuaeth.

Parhaodd y monitro ar honiadau ffug honedig trwy system sicrhau ansawdd VAWG gydag adolygiad o sampl ar hap arall ar o leiaf 25% o'r holl benderfyniadau cyhuddo a wnaed ar draws yr Ardaloedd yn hwyr yn 2014. Trafodwyd materion cenedlaethol gydag arweinydd cenedlaethol plismona ar dreisio a thrafodwyd materion lleol gyda Phrif Erlynyddion y Goron yn dilyn y broses sicrhau ansawdd hon. Yng ngwanwyn 2015 gofynnwyd i Ardaloedd sicrhau bod y data yn cael ei gofnodi ar yr achosion hyn a bod y gweithdrefnau cadarnhau yn eu lle ar gyfer cyhuddo. Bydd data yn dal i gael ei gasglu mewn ffurflenni sicrhau ansawdd VAWG yn y dyfodol a bydd sampl ar hap yn cael ei gynnal yn gynnar yn haf 2015.

## Adolygiad Treisio yn yr Ardal Fetropolitan

Comisiynwyd adolygiad annibynnol o ymchwiliadau ac erlyniadau treisio yn Llundain i'w gynnal gan y Fonesig Elish Angiolini QC gan yr Heddlu Metropolitan a'r CPS yn 2014. Cyhoeddwyd adroddiad yn dilyn ei hadolygiad, ynghyd ag ymateb gan y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan a CPS Llundain i'r argymhellion a wnaed, ar 2 Mehefin 2015. Roedd yr ymateb yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: y gwasanaeth a roddwyd i ddioddefwyr; cefnogi'r ymarferwyr; atebolrwydd a gwelliant parhaus a newid deddfwriaethol.

Bydd y gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad yn cael eu rhannu a'u gweithredu yn genedlaethol gan gynnwys trwy gyflwyno rhaglen genedlaethol o waith i roi cyfarwyddyd a hyfforddiant i erlynyddion arbenigol.


# Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys unrhyw awgrym o benderfyniadau cyn cyhuddo ynghylch troseddau rhywiol (ac eithrio treisio), gan mai dim ond ar ôl gorffen yr achos erlyn mae'r prif gategori o 'droseddau rhywiol' sy'n cynnwys treisio a phob trosedd rhywiol yn cael ei ddyrannu i achosion[94].

Erlynwyd 9,789 o ddiffynyddion yn 2014-15 am droseddau rhywiol, ac eithrio treisio; cynnydd o 1,235 o ddiffynyddion (14.4%) o 8,554 yn 2013-14; gan gyrraedd y nifer uchaf erioed. Cynyddodd erlyniadau troseddau rhywiol o 1.2% o lwyth achosion y CPS[95] yn 2013-14 i 1.5% yn 2014-15.

O'r 9,789 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 9,519 yn ddynion, 256 yn fenywod, nid oedd rhyw 14 o ddiffynyddion wedi ei gofnodi. O'r rhai yr oedd eu rhyw wedi ei gofnodi roedd 97.2% yn ddynion a 2.6% yn fenywod[96], yn debyg i'r hyn a gofnodwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

**Graff 13: Llwyth achosion troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) fel % o'r llwyth achosion**




**Troseddau Rhywiol Blynyddol ac eithrio Treisio, LLWYTH ACHOS FEL % O'R CYFANSWM**

| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CPS YN GENEDLAETHOL | 0.8% | 0.8% | 0.9% | 0.9% | 1.0% | 1.2% | 1.5% |

94 Daw data troseddau rhywiol y CPS (ac eithrio treisio) o'r categori prif drosedd 'troseddau rhywiol' trwy eithrio'r diffynyddion gyda lluman treisio. Nid oes lluman monitro ar wahân ar gyfer 'troseddau rhywiol' a weithredir, naill ai wrth i'r CPS dderbyn cais i wneud penderfyniad cyn cyhuddo neu wrth dderbyn y ffeil achos wedi cyhuddo. Dim ond wrth gwblhau achos yr erlyniad y bydd prif drosedd yn cael ei dyrannu, yn seiliedig ar y drosedd fwyaf difrifol y cyhuddir y diffynnydd o'i chyflawni wrth gwblhau.

95 Llwyth achosion troseddau rhywiol fel % o holl erlyniadau'r CPS


96 Mae'r ffigwr yr un fath os caiff ei gyfrifo ar sail y cyfanswm, gan gynnwys rhai pan na chofnodwyd rhyw.

**Tabl 6:** **Erlyniadau troseddau rhywiol a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 6,060 | 76.0% | 6,588 | 74.3% | 6,308 | 75.7% | 5,971 | 76.8% | 6,756 | 79.0% | 7,591 | 77.5% |
| Aflwyddiannus | 1,912 | 24.0% | 2,274 | 25.7% | 2,026 | 24.3% | 1,800 | 23.2% | 1,798 | 21.0% | 2,198 | 22.5% |
| **Cyfanswm** | **7,972** | | **8,862** | | **8,334** | | **7,771** | | **8,554** | | **9,789** | |


Yn 2014-15 gwelwyd y nifer uchaf erioed o gollfarnau (7,591) cynnydd o 835 (12.4%) ers 2013-14 mewn cymhariaeth â gostyngiad bychan yn y gyfran (77.5%), fel yng Ngraffiau 14 ac 15 a Thabl 6.

**Graff 14:** **Niferoedd troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 2008-09 i 2014-15**




Gostyngodd y gyfran o bleon euog ychydig i 65.8%, mewn cymhariaeth â'r nifer uchaf erioed. Roedd 85% o'r holl ddeilliannau llwyddiannus yn bleon euog.

**Graff 15:** **Cyfraddau collfarnu troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 2008-09 i 2014-15**



## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tablau ar dudalen 104-105 yn rhoi data erlyniadau troseddau rhywiol yn ôl Ardal ac ardaloedd lluoedd heddlu. O 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Dinas Llundain (CLP) a Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r CLP a'r BTP. Mae'r atodiad cysylltiedig, a roddwyd ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol, yn rhoi data cyn cyhuddo Ardaloedd ac ardaloedd lluoedd yr heddlu.

## Materion cydraddoldeb

Tynnir y data ar ddioddefwyr o'r Gwasanaeth Rheoli Tystion ond nid yw'n cynnwys cofnod o ddioddefwyr troseddau rhywiol, heblaw treisio, gan mai dim ond ar lefel diffynnydd y mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu.

**Rhyw**
O'r 9,789 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 9,519 yn ddynion, 256 yn fenywod,nid oedd rhyw 14 o'r diffynyddion wedi ei gofnodi. O'r rhai yr oedd eu rhyw wedi ei gofnodi roedd 97.2% yn ddynion a 2.6% yn fenywod[97], yn debyg i'r hyn a gofnodwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

**Ethnigrwydd**
Yn 2014-15, nodwyd bod 61% o ddiffynyddion a erlynwyd am droseddau rhywiol yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig ac roedd 66.9% wedi eu categoreiddio fel Gwyn (gostyngiad o 67.5% yn 2013-14) o'r rhai pan gofnodwyd ethnigrwydd[98]. Nodwyd fod 7% o ddiffynyddion yn Asiaidd (1ppt yn llai na'r flwyddyn flaenorol), ac roedd 5% wedi eu nodi fel Du, (hefyd bron yn 1ppt yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol).

**Oedran**
Roedd y mwyafrif o'r diffynyddion rhwng 25-59 oed (65%) a 18-24 (16%).
Roedd ychydig dros bumed ran o'r diffynyddion (2,042) dan 24 oed, gyda 4% o'r diffynyddion (392) yn 14-17 mlwydd oed a 0.5% (45) yn 10-13 oed.

[97] Mae'r ffigwr yr un fath os caiff ei gyfrifo ar sail y cyfanswm, gan gynnwys rhai pan na chofnodwyd rhyw.
[98] Ni ddatganodd ychydig dan 8% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ethnigrwydd ychydig dan 11% o ddiffynyddion i'r CPS gan yr heddlu – y ddau yn uwch na 2013-14; cyfanswm cynnydd o 2.3% heb eu cofnodi.

**Dioddefwyr Ifanc**

- Carcharwyd dyn am gyfanswm o dair blynedd a phedwar mis am dargedu merched yn eu harddegau ar eu ffordd i'r ysgol neu'r coleg, gan ei rwbio ei hun o'u blaenau a gwneud awgrymiadau anweddus. Ar y bws i'r llys fe gyflawnodd ragor o droseddau. Yn y llys cyfaddefodd i gyhuddiad blaenorol o ymosod yn rhywiol a rhoddwyd dedfryd o ddau fis o garchar iddo wedi ei ohirio am 12 mis. Ar ôl gadael y llys fe'i harestiwyd yn syth wedyn am y troseddau yn gynharach y diwrnod hwnnw ar y ffordd i'r llys. Clywodd y llys hefyd bod ganddo gollfarn flaenorol am geisio treisio yn ôl yn ei wlad enedigol, ac roedd wedi cael ei garcharu am bum mlynedd am hynny. Fe'i rhoddwyd ar y gofrestr troseddwyr rhyw a rhoddwyd SOPO iddo, gan ei atal rhag mynd at fenywod ar fysiau nac mewn unrhyw fan cyhoeddus.

## Troseddau rhywiol nad ydynt yn ddiweddar

Cyhoeddwyd cyfarwyddyd cyfreithiol ar y budd cyhoeddus o erlyn achosion nad ydynt yn rhai diweddar, pan fydd cosb enwol yn ganlyniad tebygol, ym Medi 2014 yn dilyn cyhoeddi ymgynghoriad. Mae'r cyfarwyddyd yn esbonio yn glir y dylai cwyn am Gam-drin Rhywiol ar Blant a wneir flynyddoedd ar ôl y digwyddiad gael ei chymryd yr un mor ddifrifol ag un a wnaed ar y pryd ac y dylai barn y dioddefwr a'i ymdeimlad o gyfiawnder fod yn ffactorau i erlynyddion eu hystyried. Mae'r cyfarwyddyd yn cynnwys cydnabod y gall llawer o'r rhai a ddioddefodd gamdriniaeth rywiol ddeall yn union beth a ddigwyddodd neu deimlo yn barod i roi adroddiad amdano yn ddiweddarach yn eu hoes a gall dioddefwyr gydag anawsterau dysgu fod ag ofn peidio â chael eu credu.

Mae'r adran ar gam-drin plant hefyd yn delio â'r panel a sefydlwyd i adolygu achosion nad ydynt yn ddiweddar o gam-drin plant yn rhywiol.

**Treisio nad yw'n ddiweddar**

- Carcharwyd dyn 51 mlwydd oed am 18 mlynedd am dreisio, ymosod ac ymosod yn rhywiol ar fenyw rhwng 1992 a 1994. Roedd wedi defnyddio trais eithafol i'w bwlio a'i rheoli. Fe'i gorfodwyd i ddioddef pob math o weithredoedd rhywiol israddiol ac os byddai'n gwrthod cydymffurfio byddai'n arwain at ei phryfocio, gwaradwyddo a'i churo a wnaeth wneud iddi fod â chymaint o'i ofn fel ei bod yn methu rhoi adroddiad i'r heddlu ar y pryd.

## Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol

Disodlodd y Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol y Gorchymyn Atal Troseddau Rhywiol a'r Gorchymyn Teithio Tramor, a gellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw un a gollfernir neu sy'n cael rhybudd am drosedd rywiol neu dreisgar, gan gynnwys pan fydd y

troseddau yn cael eu cyflawni dramor. Cyflwynwyd y gorchymyn atal sifil fel diwygiad i'r Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona yn Hydref 2014.

Er mwyn gwneud gorchymyn, rhaid i'r llys fod yn fodlon bod ymddygiad yr unigolyn yn golygu ei bod yn angenrheidiol diogelu'r cyhoedd, neu unrhyw aelodau penodol o'r cyhoedd, rhag niwed rhywiol gan y diffynnydd (y prawf ar gyfer rhoi Gorchymyn Atal Troseddau Rhywiol cyn hyn oedd "niwed rhywiol difrifol"), neu ddiogelu plant neu oedolion bregus, rhag niwed rhywiol gan y diffynnydd tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Gall y Gorchymyn gynnwys unrhyw waharddiad y mae'r llys yn ei ystyried yn angenrheidiol i'r diben hwn, gan gynnwys atal teithio dramor.

**Cyfweliad fideo gyda chyfryngwr**

- Cafwyd collfarn mewn achos treisio arloesol pan na alwyd ar y ddioddefwraig 11 mlwydd oed i roi tystiolaeth yn fyw ac ni chafodd ei chroesholi gan yr amddiffyniad. Roedd hyn yn bosibl oherwydd gweithdrefn newydd gyda thystion bregus oedd yn golygu y gallai'r CPS drafod tystiolaeth y ddioddefwraig gyda'r amddiffyniad. Roedd y troseddau wedi digwydd pan oedd y ddioddefwraig yn ddim ond chwech oed; ac yn 11 oed roedd hi wedi cael cyfweliad am yr hyn a ddigwyddodd gyda help cyfryngwr i'w chefnogi. Ffilmiwyd y cyfweliad ac fe'i dangoswyd yn y llys ar ôl i'r ffilm o'i thystiolaeth gael ei chwarae i'r rheithgor, cytunwyd na fyddid yn ei chroesholi gan yr amddiffyniad fel sy'n digwydd fel arfer. Dedfrydwyd y ddau ddiffynnydd i 12 mlynedd a phum mlynedd a hanner yn eu tro.

**Cam-drin gan unigolyn mewn sefyllfa pan fydd ymddiriedaeth ynddo neu pan fydd ganddo rym**

- Manteisiodd meddyg trin canser yn Swydd Gaergrawnt ar 18 o'i gleifion ifanc oedd yn brwydro yn erbyn salwch difrifol trwy eu cam-drin yn rhywiol yn systematig. Cyfaddefodd i 25 o gyhuddiadau, gan gynnwys ymosodiad rhywiol ar blentyn dan 13 mlwydd oed, gweithgaredd rhywiol gyda phlentyn, achosi neu gymell plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol a thynnu ffotograffau anweddus. Fe'i dedfrydwyd i gyfanswm o 22 mlynedd.

- Cafwyd DJ yn euog o droseddau rhywiol yn Llys y Goron Manceinion. Digwyddodd y troseddau yn yr 1960au a'r 1970au gydag 11 o ddioddefwyr. Fe'i cafwyd yn euog o saith cyhuddiad o dreisio ac 11 ymosodiad rhywiol. Defnyddiodd ei statws fel DJ i dargedu merched ifanc a bregus y gallai wneud argraff fawr arnynt. Roedd wedi gwastrodi rhai am gyfnod o amser, tra ymosododd ar eraill yn fuan ar ôl iddo gysylltu â nhw gyntaf. Dim ond 13 oed oedd rhai o'r dioddefwyr.

- Cafwyd llawfeddyg nerfol 50 mlwydd oed yn euog o gam-drin chwech o'i gleifion benywaidd yn rhywiol, roedd rhai ohonynt yn fregus, tra'r oedd yn gweithio mewn ysbytai lleol. Roedd wedi cyflawni archwiliad personol iawn heb wisgo menig ac yn aml byddai'n dweud sylwadau rhywiol anaddas wrth y dioddefwyr. Rhoddodd un ddioddefwraig adroddiad amdano ac fe'i arestiwyd a'i gyhuddo, ac yn dilyn sylw ar y cyfryngau, daeth rhagor o ddioddefwyr ymlaen gan wneud cwynion tebyg o ymosodiad rhywiol i'r heddlu. Mae'r achos yn enghraifft o dorri ymddiriedaeth o'r lefel uchaf posibl.

## Cynllun treialu croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw

Ar hyn o bryd mae croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw yn cael ei dreialu, gan alluogi i ddioddefwr neu dyst bregus gael ei groesholi gan yr amddiffyniad cyn yr achos llys. Mae'r cynllun ar gael yn Llysoedd y Goron Leeds, Lerpwl a Kingston, ac mae o fudd i blant dan 16 oed ymhlith eraill ac fe'i bwriadwyd i wella profiad y dioddefwr neu dyst trwy sicrhau eu bod yn rhoi tystiolaeth mor gynnar â phosibl. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gyflwyno trefniadau o'r fath ar draws Cymru a Lloegr, yn amodol ar ganlyniadau'r cynlluniau treialu.

Y dioddefwyr a thystion sy'n gymwys i gael y croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw yw'r rhai sydd:

- dan 16 oed ar adeg y gwrandawiad;
- yn dioddef o gyflwr meddyliol yn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983;
- ag amhariad arwyddocaol ar eu deallusrwydd a'u gallu cymdeithasol;
- ag anabledd corfforol neu anhwylder corfforol sy'n debygol o leihau ansawdd eu tystiolaeth.

Credir y bydd y camau yn arbennig o ddefnyddiol i ddioddefwyr troseddau rhywiol sy'n aml yn cael croesholi yn brofiad sy'n peri gofid. Mae'r syniad o wneud hyn mewn amgylchedd tawelach, mwy cyfyngedig yn rhywbeth allai helpu. Byddai'r recordiad hefyd yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl wedi'r drosedd honedig a byddai'n cael ei ddangos fel tystiolaeth mewn achosion, sy'n lleihau'r straen a'r trawma i ddioddefwyr ifanc neu fregus.

**Dioddefwr bregus**

- Carcharwyd dyn 64 mlwydd oed, a ymosododd yn rhywiol ar rywun yn ei harddegau yn ei gar, am 14 mis. Roedd wedi bod yn ffrind teuluol i'r ferch 18 oed a'i theulu. Fe'i rhybuddiwyd i gadw draw oddi wrthi ar ôl negeseuon anaddas ar Facebook, ond fe welodd y ferch a chynnig lifft iddi. Roedd y fenyw ifanc yn fregus gan fod ganddi anawsterau dysgu. Fe wnaeth ei chanmol, a'i hannog i yfed potel o alcopop, yna fe wnaeth ei chyffwrdd mewn modd rhywiol. Fe'i rhoddwyd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw am ddeng mlynedd.

**Targedu ar y rhyngrwyd**

- Dedfrydwyd dyn i garchar am naw mlynedd am gyfres o gyhuddiadau, a ddeilliodd o ymchwiliad a gychwynnwyd gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ffederal (FBI) yn Efrog Newydd. Roedd y diffynnydd wedi defnyddio gwefan a ddefnyddir gan y rhai sy'n creu ffantasïau am weithredoedd rhywiol a threisgar amrywiol, gan gynnwys canibaliaeth. Ar ôl dod yn ffrind i ddefnyddiwr ar y safle, yr oedd yn credu mai merch 14 mlwydd oed oedd hi, trefnodd i'w chyfarfod gyda'r bwriad o gyflawni trosedd rywiol arni yn ystod neu ar ôl y cyfarfod hwnnw. Fe'i collfarnwyd gan reithgor o geisio cyfarfod plentyn yn dilyn gwastrodi rhywiol. Deilliai'r cyhuddiad o ymchwiliad gan yr FBI i gyfathrebiadau ar y Rhyngrwyd am dreisio, lladd a chanibaleiddio menywod, gydag un o'r cyfeiriadau e-bost a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad hwnnw yn cael ei olrhain yn ôl i'r diffynnydd.

# Priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac FGM

## Priodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd

Ystyrir perfformiad dan y gyfundrefn sicrwydd ansawdd VAWG gan yr Ardaloedd a'u hadrodd i'r DPP a gweithredir i gywiro pan fydd angen. Llumanir achosion fel priodas dan orfod neu drais ar sail anrhydedd.

### Priodas dan Orfod[99]

Mae'r data isod yn cynnwys pob achos a lumanwyd fel 'priodas dan orfod' ac nid y rhai oedd yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth priodas dan orfod newydd a gyflwynwyd yn 2014 yn unig.

**Tabl 7:** **Erlyniadau priodas dan orfod a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Collfarnau | 20 | 48.8% | 23 | 54.8% | 29 | 70.7% | 32 | 71.1% | 29 | 63.0% |
| Aflwyddiannus | 21 | 51.2% | 19 | 45.2% | 12 | 29.3% | 13 | 28.9% | 17 | 37.0% |
| **Cyfanswm** | **41** | | **42** | | **41** | | **45** | | **46** | |

Cododd nifer yr atgyfeiriadau priodas dan orfod (FM) gan yr heddlu i 82 yn 2014-15 o 67 yn 2013-14. Cyhuddwyd 48 (58.5% o'r rhain yn atgyfeiriadau), y nifer uchaf erioed i'w gofnodi ond gostyngiad bychan yn y gyfran mewn cymhariaeth â 2013-14.

Cododd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 i 46 o 45 yn 2013-14, y nifer uchaf erioed. O'r 46 diffynnydd a erlynwyd, roedd 37 yn ddynion a naw diffynnydd yn fenywod. 80.4% yn ddynion a 19.6% yn fenywod. O ran data dioddefwyr, o'r System Rheoli Tystion, cofnodwyd 45 o ddioddefwyr. O'r holl ddioddefwyr roedd 29 yn fenywod, naw yn ddynion a saith heb gofnodi eu rhyw. Cofnodwyd 84% o ryw'r dioddefwyr yn 2014-15 - cynnydd o 78% yn 2013-14. O'r rhai y cofnodwyd eu rhyw, roedd y gyfran o ddioddefwyr benywaidd yn 76% a dioddefwyr gwrywaidd yn 24%. Sylwer bod y niferoedd isel yn nodi'r angen i fod yn ofalus wrth ddehongli'r data %.

Roedd 63% o'r erlyniadau[100] yn llwyddiannus, gostyngiad o 71% yn 2013-14. Gostyngodd erlyniadau a derfynwyd o 41.5% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11, i 21.7% yn 2014-15.

[99] Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.
[100] Nid yw'r data ar gollfarnau yn cael ei wahanu yn ôl rhyw ar hyn o bryd.

**Gweithio mewn partneriaeth**

- Cymerodd CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr ran mewn Cynhadledd Priodas dan Orfod Genedlaethol a drefnwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Swydd Derby, i gefnogi'r ddeddfwriaeth priodasau dan orfod newydd.

## Deddfwriaeth priodas dan orfod

Daeth trosedd benodol o briodas dan orfod dan a121 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 i rym ym Mehefin 2014. Cyn cyflwyno'r drosedd newydd, roedd erlynyddion yn ymdrin ag achosion priodas dan orfod gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth oedd yn bodoli fel treisio, troseddau rhywiol, carcharu ar gam, herwgipio a throseddau cam-drin pan oedd hyn yn nodwedd o'r troseddu. Mae'r drosedd benodol newydd o briodas dan orfod yn drosedd arall i erlynyddion ei defnyddio. Roedd y gollfarn gyntaf dan y ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru. Mae erlynyddion yn cael eu hannog i ystyried defnyddio'r drosedd priodas dan orfod newydd.

**Erlyniad cyntaf dan y drosedd priodas dan orfod newydd**

- Dedfrydwyd diffynnydd i 16 mlynedd o garchar dan y ddeddfwriaeth priodas dan orfod newydd. Roedd wedi treisio a bygwth y ddioddefwraig am dros chwe mis yn 2014, pan oedd wedi cytuno i briodi dyn arall trwy briodas a drefnwyd ymlaen llaw. Roedd wedi boddi'r ddioddefwraig â negeseuon testun, wedi dwyn ei ffôn symudol ac wedi bygwth y byddai'n trefnu i'w lladd hi, ei theulu a'i chariad os na fyddai'n cytuno i'w briodi ef neu os byddai'n dweud wrth unrhyw un. Fe wnaeth hefyd fygwth rhoi ffotograffau a recordiadau fideo o'r achwynydd a'i theulu yn cael cawod ar y rhyngrwyd. Honnir hefyd bod y diffynnydd wedi tanseilio priodas yr achwynydd trwy honni mai ef oedd cariad yr achwynydd ar y wefan rwydweithio gymdeithasol Facebook, gan nodi ei fod yn hoyw – nad oedd yn wir. Yn y pendraw fe'i gorfodwyd hi i'w briodi ef yn groes i'w hewyllys mewn gweithred o ddwywreiciaeth ar ei ran ef. Plediodd y diffynnydd yn euog i droseddau eraill gan gynnwys pedwar cyfrif o dreisio, un o ddwywreiciaeth ac un o sbecian.

Mae'r drosedd newydd o FM yn berthnasol i unigolyn sy'n gorfodi unigolyn yn fwriadol i'w briodi, gan gredu nad yw'r unigolyn arall yn cydsynio, neu unigolyn sy'n twyllo rhywun i fynd dramor ar gyfer y diben penodol o'i orfodi i briodi. Cyflawnir trosedd os bydd y briodas dan orfod yn digwydd neu beidio. Mae hon yn drosedd 'naill ffordd neu'r llall'[101] gydag uchafswm cosb ar dditiad o saith mlynedd o garchar, neu ddirwy, neu'r ddau. Yn y llys ynadon, mae'r uchafswm statudol yn berthnasol.

---

[101] Mewn trosedd 'naill ffordd neu'r llall' gall achos gael ei brofi yn y llys ynadon neu Lys y Goron.

Yn ychwanegol at y drosedd priodas dan orfod newydd, cyflwynwyd torri Gorchymyn Diogelu Priodas dan Orfod (FMPO). Rhwymedi sifil yw hwn a gyhoeddwyd dan Deddf FM (Diogeliad Sifil) 2007. Mae'n cynnig diogeliad i ddioddefwr rhag pob seremoni sifil neu grefyddol, trwy wahardd yr ymatebwr/wyr eu hunain, neu trwy annog neu gytuno gydag unrhyw unigolyn o gwbl, rhag llunio unrhyw gytundebau yng nghyswllt dyweddïad neu briodas. Gall FMPO gynnwys gwaharddiadau, cyfyngiadau neu ofynion ac unrhyw amodau arall o fath y mae'r llys yn ystyried eu bod yn addas ar gyfer diben y gorchymyn. Gall dioddefwr, unigolyn sy'n cael caniatâd y llys i wneud cais am orchymyn ar ran y dioddefwr, trydydd parti perthnasol neu gan y llys o'i ddewis ei hun wneud cais am FMPO. Mae torri FMPO yn awr yn drosedd (y naill ffordd a'r llall) ac mae iddi gosb uchaf ar dditiad o bum mlynedd o garchar, neu ddirwy, neu'r ddau. Yn y llys ynadon, mae'r uchafswm statudol o chwe mis o garchar a/neu ddirwy yn berthnasol. Roedd yr erlyniadau troseddol cyntaf am dorri FMPO yng Ngogledd Orllewin Lloegr, mewn un achos collfarnwyd dau riant ac mae achos arall ar y gweill hefyd.

## Trais ar sail anrhydedd

Mae'r data isod yn ymwneud â phob achos a lumanwyd fel 'trais ar sail anrhydedd'.

**Tabl 8: Erlyniadau trais ar sail anrhydedd a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 121 | 51.7% | 86 | 50.0% | 126 | 63.0% | 123 | 59.7% | 129 | 57.3% |
| Aflwyddiannus | 113 | 48.3% | 86 | 50.0% | 74 | 37.0% | 83 | 40.3% | 96 | 42.7% |
| **Cyfanswm** | **234** | | **172** | | **200** | | **206** | | **225** | |

Cododd y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu o droseddau yn ymwneud â thrais ar sail anrhydedd (HBV) i 251 yn 2014-15 o 240 yn 2013-14. Cyhuddwyd 157 (62.5% o'r rhain yn atgyfeiriadau); rhywbeth yn debyg i'r nifer y llynedd (158).

Erlynwyd 225 o ddiffynyddion, cynnydd o 206 y llynedd, gyda 129 o gollfarnau[102], yr uchaf erioed. O'r 225 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 190 yn ddynion a 35 diffynnydd yn fenywod. Roedd 84.4% yn ddynion a 15.6% yn fenywod, cynnydd mewn diffynyddion sy'n fenywod dros y pum mlynedd diwethaf. O ran data dioddefwyr, o'r System Rheoli Tystion, cofnodwyd 163 o ddioddefwyr. O'r holl ddioddefwyr, roedd 98 yn fenywod, 35 yn ddynion ac nid oedd rhyw 30 wedi cael ei gofnodi. Cofnodwyd 81.6% o ryw'r dioddefwr yn 2014-15 – gostyngiad o 88.4% yn 2013-14, ond cynnydd ar y tair blynedd flaenorol. O'r rhai gyda rhyw wedi ei gofnodi, roedd y gyfran o ddioddefwyr oedd yn fenywod yn 74% a dynion yn 26%. Mae'r cyfrannau wedi amrywio o 68% - 74% o ddioddefwyr yn fenywod dros y pum mlynedd diwethaf.

Collfarnwyd 57.3% o erlyniadau, gostyngiad o 2.4ppt o 2013-14. Gostyngodd erlyniadau a derfynwyd o 40.6% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11, i 29.8% yn 2014-15. Mewn achosion HBV roedd cynnydd mewn deilliannau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr (o 35% yn 2013-14 i 46% yn 2014-15).

[102] Nid yw'r data ar gollfarnau yn cael ei wahanu yn ôl rhyw ar hyn o bryd.

Yr Ardaloedd wnaeth erlyn y nifer fwyaf o erlyniadau FM a HBV oedd Dwyrain Canolbarth Lloegr, Llundain, Gogledd Orllewin Lloegr, Tafwys a Chiltern, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber.

**Trais ar Sail Anrhydedd**

- Dedfrydwyd dyn 44 mlwydd oed i dair blynedd o garchar am gynllwynio i achosi niwed corfforol gwirioneddol. Ymosodwyd yn dreisgar ar y dioddefwr gan ddau ddyn a'i adael yn anymwybodol ar y palmant wrth iddynt ffoi mewn car oedd yn aros gerllaw. Nid oedd y dynion a gyflawnodd yr ymosodiad wedi cael eu hadnabod ond roedd y diffynnydd wedi trefnu'r ymosodiad hwn am nad oedd yn cymeradwyo perthynas y dioddefwr â'i nith, a chredai bod hynny'n dwyn cywilydd a

## Arferion da Ardaloedd

Mae nifer o Ardaloedd wedi dangos arferion da ar briodas dan orfod a thrais ar sail urddas ac mae rhai Ardaloedd wedi cynnal mentrau lleol.

**Gweithio mewn partneriaeth**

- Chwaraeodd CPS Gogledd Orllewin Lloegr ran amlwg yng nghynhadledd UNICEF y Deyrnas Unedig yng Ngorffennaf 2014 ar FGM/HBV/Priodas dan orfod ym Manceinion.

- Cymerodd cynrychiolwyr y CPS yn Ne Orllewin Lloegr ran mewn cynadleddau cenedlaethol a rhanbarthol a gweithio'n glos gyda phartneriaid o'r sector gwirfoddol.

- Trefnwyd cynhadledd ranbarthol gan PCC De Swydd Efrog 'Protecting the Vulnerable – Unreported Crime' yn canolbwyntio ar HBV, FM a FGM.

- Daeth dros gant a hanner o bobl i gynhadledd yn Swydd Hertford ym Mehefin 2014, i godi ymwybyddiaeth o Briodas Dan Orfod, Trais ar Sail Anrhydedd, ac Anffurfio Organau Rhywiol Menywod (FGM).

## Cyfarwyddyd Cyfreithiol

Mae Cyfarwyddyd Cyfreithiol y CPS a'r modwl hyfforddi e-Ddysgu ar FM a HBV wedi eu hadnewyddu yn ystod haf 2014, i gynnwys y drosedd newydd o FM a gwneud torri FMPO yn drosedd. Mae'r CPS yn parhau i fod ag erlynyddion FM arbenigol sydd wedi'u hyfforddi mewn camau i wella diogelwch dioddefwyr a'u gallu i roi tystiolaeth. Mae'r CPS hefyd yn parhau i lumanu erlyniadau achosion FM ac ystyrir perfformiad dan y gyfundrefn sicrwydd ansawdd VAWG gan yr Ardaloedd a rhoddir adroddiad

arnynt i'r DPP a gweithredir i gywiro pan fydd angen. Llumanir achosion FM a HBV ac maent yn cael eu monitro i ymdrin â gwelliannau mewn erlyniadau.

## Hyfforddiant

I sicrhau bod gan yr erlynyddion y sgiliau ar gyfer y gwaith, cyflwynodd y CPS a'r heddlu ar y cyd nifer o weithdai ar FM, HBV a FGM i'r heddlu ac erlynyddion ac roeddent yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r drosedd FM trwy gydol 2014.

Yn ychwanegol, roedd rhaglen hyfforddi e-ddysgu i erlynyddion yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth FM newydd, cefnogi dioddefwyr HBV ac FM trwy gydol y broses gyfreithiol a sicrhau yr hysbysir y dioddefwyr am gynnydd yr achos.

**Priodas dan Orfod**

- Carcharwyd dyn o Swydd Gaerlŷr am ymosodiad a allai beryglu bywyd ar gwpl ifanc. Cafodd ei ddedfrydu i 23 mlynedd o garchar. Ymosododd ar y cwpl ifanc oedd wedi ffoi o Lundain i ddianc rhag y briodas dan orfod rhwng y fenyw ifanc a'r diffynnydd. Yn yr un achos llys, collfarnwyd tad y fenyw ifanc am ymosodiad cyffredin am roi ei ddwylo am wddf ei ferch cyn iddi ffoi o'u cartref teuluol. Derbyniodd ryddhad amodol am yr ymosodiad, gan iddo fod wedi treulio tri mis ar remand cyn hynny. Dioddefodd y ddau ddioddefwr anafiadau difrifol iawn ac roedd y digwyddiad wedi peri trawma sylweddol iddynt.

## FGM

Rhoddodd y DPP dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Materion Cartref ar FGM a roddodd adroddiad yng Ngorffennaf 2014. Cyfrannodd y CPS at ymateb y llywodraeth a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2014.

Yn ystod 2014-15 mae'r CPS wedi cyflawni'r Cynlluniau Gweithredu FGM a gyhoeddwyd yn 2012 a 2013. Bu'r CPS yn gweithio'n glos gyda'r heddlu, adrannau eraill y llywodraeth a sefydliadau trydydd sector i ddynodi sut y gellir cymryd camau effeithiol i gynyddu ymwybyddiaeth o FGM; gwella'r adrodd arno a chryfhau ymchwilio i arwain at erlyniadau.

Datblygodd y Gynhadledd Merched yng Ngorffennaf 2014 gamau i wella ymateb y CPS a'r heddlu i FGM trwy roi hyfforddiant. Cyflwynwyd hyfforddiant FGM ar y cyd i bob llu heddlu ac ardal CPS rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2014.

Daeth yr achos llys yn yr erlyniad cyntaf am FGM yng Nghymru a Lloegr i ben yn Chwefror 2015; cafwyd y ddau ddiffynnydd yn ddieuog. Cynhaliwyd adolygiad ar ôl yr achos ar 25 Chwefror; bydd y gwersi a ddysgwyd yn sail i gyfarwyddyd yn y dyfodol. Arweiniodd hefyd at gyfarfodydd rhwng y DPP a Choleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynaecolegwyr i roi sail i well cyfarwyddyd i ymarferwyr meddygol.

Cynhaliwyd digwyddiadau Gweinidogol am FGM yn Chwefror 2015 i nodi Diwrnod Goddef Dim FGM. Cynhaliwyd Cynhadledd Goddef Dim FGM Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn Llundain, a bu'r Twrnai Cyffredinol yno. Soniodd y DPP am waith y CPS.

## Protocolau lleol

Cytunodd yr holl Ardaloedd CPS ar brotocolau lleol gyda'u lluoedd heddlu lleol yn sefydlu'r trefniadau ar gyfer ymchwilio ac erlyn FGM yn lleol. Roedd y protocolau hefyd yn amlinellu sut y byddant yn codi ymwybyddiaeth trwy ddigwyddiadau cymunedol lleol.

Penodwyd erlynyddion arweiniol ar gyfer pob Ardal CPS ac maent yn cymryd rhan mewn gwaith ymlyniad cymunedol gydag arweinwyr cymunedol perthnasol i addysgu ac atal FGM yn y lle cyntaf. Mae'r diweddaraf am y ffordd y mae pob Ardal CPS yn cyflawni hyn yn cael eu rhoi trwy alwadau cynhadledd misol rhwng y DPP a'r CCP.

## Deddfwriaeth

Un o'r camau allweddol o'r cynlluniau gweithredu a gyhoeddwyd oedd adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol. Trwy gydweithio clos rhwng y CPS a'r heddlu, yn archwilio achosion y derbyniwyd adroddiad amdanynt ond pan na ellid erlyn, datblygwyd cynigion i gryfhau'r ddeddfwriaeth. Ysgrifennodd y DPP at Weinidogion yn 2014 gan nodi meysydd lle gellid diwygio'r gyfraith ar FGM. Roedd hyn yn cynnwys ymestyn cwmpas troseddau tu allan i ffiniau'r wlad hon fel bod y rhai sydd â statws preswylio dros dro yn y Deyrnas Unedig yn cael eu cynnwys; gan sicrhau y bydd dioddefwyr FGM yn ddienw am oes o'r adeg pan wneir honiad, i annog dioddefwyr i ddod ymlaen i roi adroddiad; rhoi dyletswydd gadarnhaol ar weithwyr proffesiynol meddygol/gofal iechyd i roi adroddiad am achosion o FGM neu pan fydd risg o FGM; a chynnig trosedd newydd o atebolrwydd rhiant, gan roi dyletswydd bositif ar rieni neu ofalwyr i atal eu plentyn rhag cael ei anffurfio gan rywun arall neu ar gymhelliad rhywun arall. Datblygwyd y cynnig ar gyfer y drosedd hon o atebolrwydd rhiant yn dilyn ymchwil i ddynodi arfer da mewn awdurdodaethau eraill ac fe'i hamlygwyd fel trosedd effeithiol yn Sbaen; roedd llawer o'r achosion a atgyfeiriwyd at y CPS pan na ellid erlyn yn cynnwys elfen lle'r oedd y rhieni wedi cytuno ond nad oeddynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer troseddau FGM. Mae'r Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, a dderbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Mawrth 2015, yn cyflwyno'r holl ddarpariaethau hyn. Cam arall a gynigiwyd oedd cyflwyno rhwymedi cyfraith sifil (gorchymyn diogelu FGM) i roi dioddefwr posibl dan ofal y llys. Cyflwynwyd hyn hefyd trwy gyfrwng diwygiad i'r Ddeddf Troseddau Difrifol.

**Gweithio mewn partneriaeth yn lleol**

- Yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr cynhaliwyd cyfarfod gydag asiantaethau cefnogi FGM i sefydlu Fforwm FGM Gogledd Ddwyrain Lloegr. Lluniwyd rhestr o asiantaethau cefnogi ar gyfer y CPS.

- Roedd CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr yn rhan o Gynhadledd Amlasiantaethol Birmingham yn erbyn Anffurfio Organau Rhywiol Menywod a diwrnod proffesiynol i ymarferwyr Heddlu Swydd Stafford a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

- Trefnodd CPS Mersi a Swydd Caer stondin wybodaeth ar y cyd gyda Bydwraig FGM yn Ysbyty Merched Lerpwl ar gyfer Diwrnod Goddef Dim FGM a fwriadwyd i godi ymwybyddiaeth a chwalu chwedlau.

- Bu CPS Cymru yn gweithio gyda'r gwasanaeth iechyd i ddarparu hyfforddiant FGM i feddygon a nyrsys dan hyfforddiant.

- Yn Ne Orllewin Lloegr, bu'r CPS yn gweithio gyda phartneriaid lleol mewn cynadleddau cenedlaethol a rhanbarthol.

# Cam-drin plant

Llumanir pob achos o gam-drin plant[103]; gyda'r rhai pan fydd cam-drin rhywiol ar blant (CSA) yn cael eu dynodi yn ôl unrhyw drosedd rywiol a lumanir fel cam-drin plant[104]. Cododd y nifer o atgyfeiriadau cam-drin plant gan yr heddlu i 12,840 yn 2014-15 – cynnydd o 1,653 o atgyfeiriadau (14.8%) o 11,187 yn 2013-14. Nododd Deuddeng ardal bod cynnydd yn y nifer a atgyfeiriwyd.

Cyhuddwyd 8,696, cynnydd yn y nifer o 965 diffynnydd, o 7,731 yn 2013-14 (cynnydd o 12.5%). Cyhuddwyd 67.7% o'r atgyfeiriadau hyn, gostyngiad bychan o 69.1% yn 2013-14; ond y nifer uchaf erioed. Nododd deg Ardal gynnydd mewn niferoedd[105] a nododd pump ohonynt gynnydd yn y gyfran[106] o ddiffynyddion a gyhuddwyd.

Cyrhaeddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd yn 2014-15 10,045 - cynnydd o 2,047 o ddiffynyddion (25.6%) ers 2013-14, gan gyrraedd y nifer uchaf erioed. Roedd cynnydd yn nifer y deilliannau llwyddiannus yn yr achosion cam-drin plant yn gyffredinol i 7,469 yn 2014-15 o 6,096 yn 2013-14 – y nifer uchaf erioed a chynnydd o 22.5%. Roedd 74.4% o ddeilliannau llwyddiannus yn 2014-15 gan ostwng o 76.2% yn 2013-14.

Yn 2014-15 dim ond 17 o erlyniadau lladdiad cam-drin plant a welwyd[107], gostyngiad o 35 yn 2013-14, gyda deilliannau llwyddiannus ar 58.8%.[108] Roedd cynnydd yn y nifer o erlyniadau cam-drin plant yn erbyn y person (o 2,383 i 3,192 – y nifer uchaf erioed); gyda deilliannau llwyddiannus yn gostwng o 72.4% i 71.3%, o gymharu â 2013-14; mewn cymhariaeth â'r nifer uchaf erioed. Cynyddodd yr erlyniadau troseddau rhywiol cam-drin plant[109] a gwblhawyd yn 2014-15 (o 4,371 i 5,387) – cynnydd mewn niferoedd o 23.2%. Cynyddodd y deilliannau llwyddiannus o 3,344 i 3,975, y nifer uchaf erioed eto a chynnydd o 18.9%, ond bu gostyngiad yn y gyfradd gollfarnu o 76.5% i 73.8%.

Mae Tablau 9a-9d yn rhoi mwy o fanylion.

**Tabl 9a: Erlyniadau cam-drin plant - Lladdiad**

| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 33 | 82.5% | 24 | 88.9% | 15 | 88.2% | 22 | 73.3% | 32 | 91.4% | 10 | 58.8% |
| Aflwyddiannus | 7 | 17.5% | 3 | 11.1% | 2 | 11.8% | 8 | 26.7% | 3 | 8.6% | 7 | 41.2% |
| **Cyfanswm** | **40** | | **27** | | **17** | | **30** | | **35** | | **17** | |

103 Cytunwyd ar ddiffiniad y CPS o "gam-drin plant" ym Mawrth 2010.
104 Gweler yr Eirfa am ddiffiniad o gam-drin plant.
105 Gwelodd pob ardal ar wahân i Lundain, Gogledd Ddwyrain Lloegr a Gogledd Orllewin Lloegr gynnydd yn niferoedd y diffynyddion a gyhuddwyd.
106 Dwyrain Canolbarth Lloegr; Llundain, Mersi Swydd Caer; De Ddwyrain Lloegr a Thafwys a Chiltern
107 Gweler yr eirfa am ddiffiniadau.
108 Dylid bod yn ofalus gyda chanrannau pan fydd nifer yr achosion mor isel
109 Mae gwybodaeth ar gael o'r System Rheoli Achosion [CMS] i ddangos y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd, wedi eu llumanu fel cam-drin plant, a'r rhai pan ddosbarthwyd y brif drosedd fel trosedd rywiol.

**Tabl 9b:** **Erlyniadau cam-drin plant – Troseddau yn erbyn yr unigolyn**

| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 1,896 | 72.4% | 2,186 | 74.0% | 1,835 | 71.4% | 1,642 | 74.0% | 1,725 | 72.4% | 2,277 | 71.3% |
| Aflwyddiannus | 723 | 27.6% | 767 | 26.0% | 734 | 28.6% | 578 | 26.0% | 658 | 27.6% | 915 | 28.7% |
| **Cyfanswm** | **2,619** | | **2,953** | | **2,569** | | **2,220** | | **2,383** | | **3,192** | |

**Tabl 9c:** **Erlyniadau cam-drin plant – Troseddau Rhywiol**

| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 3,133 | 75.7% | 3,551 | 74.1% | 3,530 | 75.8% | 3,070 | 75.8% | 3,344 | 76.5% | 3,975 | 73.8% |
| Aflwyddiannus | 1,004 | 24.3% | 1,243 | 25.9% | 1,125 | 24.2% | 981 | 24.2% | 1,027 | 23.5% | 1,412 | 26.2% |
| **Cyfanswm** | **4,137** | | **4,794** | | **4,655** | | **4,051** | | **4,371** | | **5,387** | |

**Tabl 9d:** **Erlyniadau cam-drin plant – Cyfanswm cam-drin plant**

| | 2009-10 | | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 6,043 | 74.8% | 6,855 | 74.2% | 6,444 | 75.1% | 5,755 | 76.1% | 6,096 | 76.2% | 7,469 | 74.4% |
| Aflwyddiannus | 2,036 | 25.2% | 2,380 | 25.8% | 2,137 | 24.9% | 1,803 | 23.9% | 1,902 | 23.8% | 2,576 | 25.6% |
| **Cyfanswm** | **8,079** | | **9,235** | | **8,581** | | **7,558** | | **7,998** | | **10,045** | |

Dynion oedd y diffynyddion mewn 76% o erlyniadau lladdiad (13 allan o 17); 75% o droseddau yn erbyn yr unigolyn (2,389 allan o 3,192, o’r rheiny roedd pedwar heb gofnodi rhyw) a 98% o droseddau rhywiol (5,284 allan o 5,387, o’r rheiny roedd pedwar heb gofnodi rhyw).

O ran data dioddefwyr, o’r System Rheoli Tystion, cofnodwyd 11,178 o ddioddefwyr cam-drin plant. O’r holl ddioddefwyr, roedd 6,520 yn fenywod, 2,247 yn ddynion a 2,411 heb eu cofnodi. Nid yw cofnodi rhyw'r dioddefwr ar 78.4% yn ddigon cadarn i gynnwys y gyfran o bob rhyw yn yr adroddiad hwn.

Cofnodir adroddiadau diweddar o gam-drin rhywiol, sydd wedi digwydd yn y gorffennol pan oedd y dioddefwr dan 18 oed, fel cam-drin plant, beth bynnag oedd oedran y dioddefwr ar yr adeg y gwnaed yr adroddiad.

**Arfer da:**

- Mae arweinydd Cam-fanteisio Rhywiol ar Blant Ardal Gogledd Orllewin Lloegr yn rhan o dîm Operation Phoenix ac Operation Doublet – ymchwiliad Heddlu ar raddfa fawr i rai dan amheuaeth am "wastrodi" yn Rochdale.

- Mae Uned Achosion Cymhleth Gogledd Orllewin Lloegr yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer achosion cam-fanteisio rhywiol ar blant o'r fath, yn arbennig y rhai sy'n cynnwys sefydliadau, pobl amlwg, a gangiau/grwpiau cyfundrefnol.

- Yn Ardal Tafwys a Chiltern, cynhaliwyd Adolygiad Achos Difrifol ar Operation Bullfinch i gael canfod arfer da.

## Gweithredu trawslywodraethol ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae gwaith y CPS ar gam-drin rhywiol ar blant yn rhan o ymdrech ehangach ar draws y Llywodraeth i ymateb i drais rhywiol yn erbyn plant a phobl fregus. Yn dilyn achosion Savile, sefydlodd Y Swyddfa Gartref Grŵp Cenedlaethol Trais Rhywiol yn Erbyn Plant a Phobl Fregus (SVAVC). Cyhoeddir cynllun gweithredu wedi ei adnewyddu yn fuan ac mae'n debygol o roi sylw i ddefnyddio gwrandawiadau rheolau sylfaenol, sydd yn awr yn cael eu cynnwys yn y Rheolau Gweithdrefn Droseddol diwygiedig i'w cyhoeddi yn Ebrill 2015. Mae'r CPS yn aelod o'r Grŵp.

Ym Mawrth 2015, sefydlodd y Swyddfa Gartref Grŵp Cyfarwyddwyr CSA sy'n edrych ar greu strategaeth i'r system gyfan drawslywodraethol. Mae'r adrannau sy'n cyfrannu yn cynnwys y CPS, MOJ, y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg, yr Adran Iechyd a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Comisiynodd y grŵp waith ym mhob adran, gyda'r tri phrif faes sy'n cael pwyslais canlynol:

- Crynhoi ymchwil i ddangos beth sy'n gweithio ar draws y sbectrwm o rai sy'n cam-drin a'u dioddefwyr - i atal cam-drin, cynyddu gwytnwch ac atal y tramgwyddwyr;
- Mapio'r system ar draws iechyd, llywodraeth leol, gwasanaethau plant, addysg, y sector gwirfoddol, yr heddlu, erlynyddion a'r system cyfiawnder troseddol. Ceisio dynodi costau a llifrau ar bob cam;
- Beth ellid ei wneud i greu peiriant canolog i gynhyrchu newid diriaethol gan ganolbwyntio ar leihau cam-drin a chefnogi dioddefwyr a'u teuluoedd.

Mae hyn i gyd yn cael ei wneud i helpu i ddeall y mannau ymyrryd allweddol, costau a'r nifer o achosion cam-drin plant. Daeth dyheadau clir cyffredin i'r golwg o'r gwaith hwn hyd yn hyn: gan roi mwy o bwyslais ar ymyrryd yn uwch i fyny – atal cam-drin cyn i'r niwed gael ei wneud; defnyddio dull amlasiantaethol, amlddisgyblaeth ar bob lefel; ymdrechion diflino i wella ansawdd arferion rheng flaen; a chasglu ein

tystiolaeth am yr hyn sy’n gweithio trwy ymchwil, dadansoddi, cynlluniau treialu, gwerthusiadau.

Penodwyd Ustus Lowell Goddard yn gadeirydd ar yr Ymchwiliad Panel Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Sefydlwyd yr Ymchwiliad statudol i Gam-drin Plant yn Rhywiol i ystyried a yw cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill nad ydynt yn perthyn i’r wladwriaeth wedi cymryd eu dyletswydd gofal i ddiogelu plant rhag cam-drin rhywiol yng Nghymru a Lloegr o ddifrif ac i ba raddau.

**Achosion heb fod yn ddiweddar a gyflawnwyd gan droseddwyr mewn sefyllfa lle’r oedd ymddiriedaeth ynddynt**

- Dedfrydwyd cyn offeiriad o Swydd Derby i 15 mlynedd o garchar am dros ugain o droseddau rhywiol yn erbyn pobl ifanc rhwng chwech ac 14 mlwydd oed rhwng 1957 a 1991.Roedd wedi ffoi pan oedd ar fechnïaeth yn 1991 ond cafwyd hyd iddo yn Tenerife ac yn 2013 fe’i arestiwyd ar Warant Arestio Ewropeaidd i wynebu cyhuddiadau gan dri o’i ddioddefwyr. O ganlyniad i’r newyddion yma, daeth pedwar o ddioddefwyr eraill ymlaen i roi adroddiadau am droseddau yr oedd wedi eu cyflawni yn eu herbyn hwy. Llediodd yn euog wythnos cyn yr achos llys oedd yn golygu nad oedd ei ddioddefwyr yn gorfod mynd trwy’r profiad o ddisgrifio’r hyn a ddigwyddodd iddynt yn y llys.

- Cynyddwyd dedfryd athro dawns a ddedfrydwyd i orchymyn cymunedol am droseddau cam-drin plant i bedair blynedd o garchar yn y Llys Apêl. Roedd y diffynnydd wedi gwastrodi a chael perthynas rywiol â dau ddisgybl 15 oed. Roedd y CPS yn ystyried bod y ddedfryd wreiddiol yn rhy ysgafn a chyfeiriwyd yr achos at y Twrnai Cyffredinol i’w ystyried, a’i cyfeiriodd i’r Llys Apêl.

## Deddfwriaeth

Bu nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth yn ystod 2014-15 sydd o ddefnydd mewn achosion cam-drin plant ac fe ddiweddarwyd y cyfarwyddyd.

- **Gwastrodi:** Mae Adran 36 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 yn diwygio adran 15 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (y drosedd o gyfarfod plentyn yn dilyn gwastrodi ac ati) fel bod y nifer o droeon cychwynnol y mae’n rhaid i’r diffynnydd gyfarfod neu gyfathrebu â’r plentyn dan sylw er mwyn cyflawni’r drosedd yn gostwng o ddau i un – mewn grym o 13 Ebrill 2015.

**Gwastrodi a Chyfryngau Cymdeithasol**

- Dedfrydwyd dau ddyn a bachgen 17 mlwydd oed yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr am eu rhan wrth wastrodi a cham-drin chwech o ferched bregus dan oed. Carcharwyd y ddau ddiffynnydd am wyth mlynedd. Cafwyd y diffynnydd ifanc yn euog o ddau gyfrif o drefnu neu hwyluso cyflawni trosedd rywiol ar blentyn. Fe’i dedfrydwyd i dair blynedd mewn sefydliad troseddwyr ifanc. Rhoddwyd SOPO i’r tri.

- **Cam-fanteisio yn rhywiol ar blant:** O 3 Mai 2015 mae Adran 68(1) i (6) o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 yn diwygio Deddf Troseddau Rhywiol 2003 i gael gwared ar gyfeiriadau at ‘buteindra plant’ a ‘pornograffi plant’. Cyfeirir at y termau yma yn nheitlau adrannau 48 (achosi neu gymell puteindra neu bornograffi plant), 49 (rheoli putain sy’n blentyn neu blentyn sy’n cymryd rhan mewn pornograffi) a 50 (trefnu neu hwyluso puteindra neu bornograffi plant) o Ddeddf 2003, ac yng nghorff yr adrannau hynny (a hefyd adran 51, sy’n cynnwys diffiniadau). Mae’r diwygiadau i’r adrannau hynny yn disodli’r termau hyn gyda chyfeiriadau at gam-fanteisio rhywiol ar blant, ond nid ydynt yn newid cwmpas y troseddau perthnasol. Bwriedir i’r newidiadau i’r termau a ddefnyddir adlewyrchu dealltwriaeth fodern o sefyllfa plant sy’n ymwneud â gweithgareddau o’r fath. Ond nid ydynt yn newid yr ymddygiad y mae’r troseddau yn berthnasol iddo, sy’n parhau yn recordio delwedd anweddus o unigolyn neu gynnig neu ddarparu gwasanaethau rhywiol i unigolyn arall am daliad neu addewid o daliad.
- **Camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol:** Mae Adrannau 20-25 ac Atodlen 4 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a’r Llysoedd 2015 yn creu dwy drosedd newydd o gamdriniaeth neu esgeulustod bwriadol sy’n berthnasol i weithwyr gofal unigol (a20) a sefydliadau sy’n darparu gofal (a21).
- **Creulondeb ac esgeulustod:** O 3 Mai 2015: Mae Adran 66 Deddf Troseddau Difrifol 2015 yn egluro, diweddaru a moderneiddio peth o iaith adran 1 Deddf 1933. Effaith y newidiadau a wnaed i adran 66 yw ei gwneud yn hollol glir:
    - bod creulondeb sy’n achosi dioddefaint neu niwed seicolegol neu gorfforol yn cael ei gynnwys;
    - y gall yr ymddygiad sy’n angenrheidiol i sefydlu rhan camdriniaeth y drosedd beidio â bod yn gorfforol (er enghraifft cyfnod parhaus o ymddygiad heb fod yn gorfforol, gan gynnwys, er enghraifft, cadw ar ei ben ei hun, gwaradwyddo neu fwlio, os yw’n debygol o achosi dioddefaint diangen neu niwed i iechyd);
    - bod unigolyn yn cael ei ystyried yn un sydd wedi esgeuluso plentyn os bydd dan ddylanwad “cyffuriau a waherddir” ac mae’n berthnasol ble bynnag yr oedd yr oedolyn a’r plentyn yn cysgu (er enghraifft os oedd yn cysgu ar soffa).

**Cam-drin plant yn rhywiol a chreulondeb at blant**

- Carcharwyd dyn am 12 mlynedd a hanner am gyflawni troseddau rhywiol a chreulondeb at blentyn. Roedd chwech o ddioddefwyr a'r cyfan dan 16 oed ar adeg y troseddau; roedd y troseddau wedi eu cyflawni dros 20 mlynedd ac roedd y creulondeb at blant sadistig yn cynnwys curo cyson ac wedi digwydd dros ddeng mlynedd. Llwyddodd yr erlynydd i herio'r 'chwedlau a stereoteipiau' sy'n cael eu defnyddio yn aml mewn achosion cam-drin rhywiol o ran yr oedi hir cyn rhoi adroddiad, rhoi adroddiad am bobl eraill sy'n cam-drin ond nid yr un hwn, a pheidio â rhoi adroddiad pan oedd cyfle ar gael.

Mae'r CPS hefyd yn cefnogi cyflwyno deddfwriaeth i wneud negeseuon rhywiol rhwng oedolion a phlant yn drosedd a bu mewn cysylltiad cyson â'r NSPCC cyn i'r drosedd gael ei chyflwyno fel diwygiad i'r Mesur Troseddau Difrifol. Mae amgyffrediad bod bwlch yn y gyfraith bresennol gan nad yw'n cael ei ystyried yn drosedd pan fydd oedolyn yn anfon neges rywiol at blentyn ar hyn o bryd. Byddai'r drosedd newydd arfaethedig yn galluogi ymyrraeth ynghynt. Derbyniodd 'Cyfathrebiadau Rhywiol gyda Phlentyn' y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Mawrth 2015 ond nid oes dyddiad cychwyn iddo wrth i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi.

O Ebrill 2015, bydd darpariaeth newydd a ychwanegwyd at y Rheolau Gweithdrefn Droseddol yn galluogi erlynyddion i wneud cais i farnwr am 'Wrandawiad Rheolau Sylfaenol'. Byddai'r math newydd hwn o wrandawiad Llys y Goron yn ymdrin â'r ffordd fwyaf effeithiol o holi tyst; byddai'n pennu pa gwestiynau fyddai'n cael eu gofyn wrth groesholi a byddai'n sicrhau na fyddai holi maith ac ailadroddus mewn sefyllfa lle mae nifer o ddiffynyddion yn digwydd. Byddai barnwyr hefyd yn gallu gosod cyfyngiadau amser ar hyd y croesholi.

## Rhwydwaith Cam-Drin Plant Yn Rhywiol

Yn 2013-14 sefydlwyd rhwydwaith genedlaethol o erlynyddion CSA i rannu arfer da. Rhoddwyd hyfforddiant i'r holl erlynyddion arbenigol ar y gwersi oedd yn deillio o achos Jimmy Savile.

## Protocolau

Mae'r Protocol a Model Arferion Da ar ddatgelu gwybodaeth mewn achosion honedig o gam-drin plant (yn rhywiol a heb fod yn rhywiol) a chyfarwyddiadau gwrandawiadau cysylltiedig (troseddol a gofal) hefyd wedi eu cyhoeddi. Bellach disgwylir i'r heddlu ac erlynyddion rannu a cheisio gwybodaeth briodol am bobl ifanc fregus gydag a gan y gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a llysoedd teulu yn unol â'r protocol a model arferion da. Mae Ardaloedd CPS lleol yn y broses o lofnodi protocolau gydag asiantaethau lleol a'r farnwriaeth deuluol.

Fel rhan o'r Cynllun Tystion Ifanc dan arweiniad y farnwriaeth mae'r CPS, ers 1 Ebrill 2013, wedi llumanu pob achos sy'n ymwneud â thystion 10 oed ac iau, gan ganiatáu iddynt gael blaenoriaeth, yn arbennig pan fydd dadl am yr achos. Cytunwyd ar

brotocol newydd rhwng yr heddlu, HMCTS a'r CPS i gyflymu'r achosion yma ac mae mewn grym o Ebrill 2015 - *Young Witness Initiative Protocol*.

## Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol

Lansiodd yr heddlu a'r DPP y Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol ym Mehefin 2013. Ffurfiwyd y Panel yn sgil datgeliadau achos Jimmy Savile ac wrth ymateb i nifer o achosion amlwg a dynnodd sylw at yr angen i'r heddlu ac erlynyddion sicrhau dull ar sail gwybodaeth a ffres o ymdrin ag ymchwiliadau ac erlyn troseddau rhywiol. Mae'r Panel yn cynnig cyfle i ganiatáu adolygiad o droseddau lle gall penderfyniadau blaenorol gael eu hailasesu mewn cymhariaeth â'r cyfarwyddyd presennol.

Ers creu'r Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol Cenedlaethol ar 11 Mehefin 2013 derbyniodd ysgrifenyddiaeth y panel 70 o atgyfeiriadau hyd at 31 Mawrth 2014. O 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015, derbyniwyd 22 o atgyfeiriadau pellach.

**Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant**

- Dedfrydwyd dau ddyn am droseddau rhywiol yn erbyn merch yn ei harddegau, ac roedd dyn arall wedi ei gael yn euog o fwriadu gwyrdroi cwrs cyfiawnder am fygwth saethu'r ddioddefwraig petai'n siarad â'r heddlu. Arestiwyd y dynion i gyd fel rhan o ymchwiliad Operation Bullfinch sy'n parhau i gam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Dedfrydwyd un i dair blynedd o garchar a dau i 18 mis o garchar. Roedd hyn flwyddyn ar ôl i saith o ddynion gael eu barnu'n euog o ddwsinau o droseddau yn erbyn menywod yn Rhydychen.

- Collfarnwyd pump o ddynion a bachgen yn ei arddegau am droseddau cam-fanteisio yn rhywiol ar blant yn Ardal Tafwys a Chiltern. Digwyddodd y troseddau rhwng 2009 a 2014 – targedwyd dioddefwyr rhwng 12-16 oed yn weithredol a'u gwastrodi trwy gyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook a WhatsApp. Ar ôl ffurfio cyfeillgarwch, roedd perthynas rywiol yn cael ei sefydlu cyn i'r merched gael eu defnyddio a'u cam-drin i roi boddhad rhywiol i'r diffynyddion ac eraill. Arweiniodd hyn at ddedfrydau o garchar o rhwng tair a naw mlynedd yr un.

## Panel Eiriolwyr Erlyn

Mae cylch gorchwyl eiriolwyr trais ar y Panel Eiriolwyr wedi ei ymestyn i gynnwys troseddau rhyw eraill yn ymwneud â phlant, sy'n golygu y bydd eiriolwyr sy'n erlyn pob achos CSA yn awr yn arbenigwyr ac wedi cael hyfforddiant addas.

Mewn achosion mwy cymhleth, cynhaliwyd cyfarfodydd adolygu achos ar y cyd yn achlysurol rhwng y CPS a'r heddlu, er mwyn gwirio cynnydd a rhoi cyngor ar faterion yr achos.

## Hyfforddiant

Rhoddwyd hyfforddiant penodol ar erlyn achosion CSA i gyfreithwyr arbenigol o ran y gwersi yn deillio o achos Savile a chanllawiau cyfreithiol y CSA. Datblygodd y CPS gwrs e-ddysgu newydd oedd yn orfodol i bob cyfreithiwr ac erlynyddion cysylltiol. Yn ychwanegol, datblygwyd ail fodwl e-ddysgu yn ystod 2014 wedi ei anelu yn benodol at erlynyddion arbenigol sy'n ymdrin â'r mathau hyn o achosion.

## Gangiau

Yn ystod 2014-15, mae'r CPS wedi gweithio yn barhaus gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Gartref yng nghyswllt rhaglen waith Dirwyn Trais Gangiau ac Ieuenctid i Ben (EGYV), yn arbennig o ran materion yn ymwneud â menywod, merched a gangiau.

Mae llawer o'r ardaloedd EGYV yn Llundain, ac mae CPS Llundain yn gweithio yn rhagweithiol i ymateb i droseddau gangiau. Datblygodd CPS Llundain, gyda chydweithwyr o Fwrdd Lleihau Troseddu Llundain, 'becyn o gamau' i wella'r ffordd y mae achosion troseddau gangiau yn cael eu trin. Mae'r pecyn o gamau yn cynnwys defnyddio Datganiad Effaith Cymunedol ar ffurf templed, er mwyn rhoi gwybodaeth i'r llys sy'n dedfrydu am effaith troseddau'r gang ar y gymuned.

Mae'r cyfarwyddyd CPS diwygiedig i erlynyddion am gam-drin domestig, yn cynnwys gwell cyfarwyddyd ar faterion yn ymwneud â rhai yn eu harddegau sydd mewn perthynas lle mae cam-drin a rhai yn eu harddegau sydd mewn gangiau. Mae'r cyfarwyddyd diwygiedig ar gael ar wefan y CPS.

**Arfer da:**

- Trefnodd Mersi a Swydd Caer gyfres o ddyddiau cynllunio gweithredu ym mis Gorffennaf ac Awst 2014 mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Lerpwl a grŵp menter gymdeithasol sy'n gweithio yn uniongyrchol gyda menywod ifanc y mae gangiau yn effeithio arnynt.

# Masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth

Ers Ebrill 2010, mae'r CPS wedi llumanu a monitro pob achos o fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth[110]. Cododd y nifer o atgyfeiriadau masnachu mewn pobl gan yr heddlu i 234 yn 2014-15 – cynnydd o 36.8% ers 2013-14; y nifer uchaf erioed. Cyhuddwyd 195 (83.3% o'r atgyfeiriadau hyn), cynnydd o 92 o'r flwyddyn ddiwethaf (89.3%) a hefyd y nifer uchaf erioed.

Cyrhaeddodd y nifer o erlyniadau masnachu pobl a gwblhawyd yn 2014-15 gyfanswm o 187 - gostyngiad o 226 yn 2013-14. Ond efallai bod nifer o ddiffynyddion i bob achos a gall hyn amrywio, o achos i achos, yn flynyddol.

O'r 187 diffynnydd a erlynwyd, roedd 139 yn ddynion, 46 o ddiffynyddion yn fenywod ac nid oedd rhyw dau ddiffynnydd wedi ei gofnodi. Cofnodwyd 99% o ryw y diffynyddion. O'r rhai y cofnodwyd eu rhyw, roedd 75.1% yn ddynion a 24.9% yn fenywod, cynnyddodd nifer y diffynyddion sy'n fenywod dros y pum mlynedd.  Roedd mwyafrif y diffynyddion rhwng 25 a 59 oed.

O ran data dioddefwyr, o'r System Rheoli Tystion, cofnodwyd 192 o ddioddefwyr. O'r holl ddioddefwyr, roedd 115 yn fenywod, 36 yn ddynion ac ni chofnodwyd rhyw 41. Nid yw'r cofnod o ryw'r dioddefwyr ar 78.7% yn ddigon cadarn i gynnwys cyfrannau rhyw yn yr adroddiad hwn.

Roedd gostyngiad hefyd yn nifer y deilliannau masnachu pobl llwyddiannus o 155 yn 2013-14 i 130 yn 2014-15 (68.6% yn 2013-14 cododd i 69.5% yn 2014-15).

**Tabl 10:** **Erlyniadau masnachu mewn pobl a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2010-11 | | 2011-12 | | 2012-13 | | 2013-14 | | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 73 | 70.9% | 94 | 66.2% | 99 | 71.2% | 155 | 68.6% | 130 | 69.5% |
| Aflwyddiannus | 30 | 29.1% | 48 | 33.8% | 40 | 28.8% | 71 | 31.4% | 57 | 30.5% |
| **Cyfanswm** | **103** | | **142** | | **139** | | **226** | | **187** | |

Erlynir troseddwyr a'u collfarnu am droseddau difrifol ar wahân i fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth, pan fydd cysylltiadau gyda masnachu yn cynnwys, er enghraifft, cynllwyn i fasnachu, carcharu ar gam, rheoli puteindra ar gyfer enillion a threisio. Gall troseddau eraill fod yn fwy cywir i'r troseddu gwirioneddol, fod â chosbau mwy difrifol a bod yn llawer haws i'w hesbonio – yn arbennig i reithgorau.

[110] Ni chedwir data troseddau yn ôl diffynnydd na chanlyniad; felly sefydlwyd lluman i ddarparu data deilliant yn ôl diffynnydd. Y troseddau wedi eu llumanu yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Adran 57, 58 a 59) a Deddf Lloches a Mewnfudo [Triniaeth Hawlwyr] 2004 Adran 4(1), (2) a (3) a Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 adran 71. Gweler y diffiniad wedi ei ddiweddaru yn yr eirfa. Gosodir y lluman ar gychwyn yr achos; bydd y lluman hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng yn dilyn hynny. Os yw achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylai'r achos gael ei lumanu ar y cam hwnnw. Fel gydag unrhyw system fonitro gymharol newydd, mae angen amser iddi sefydlu er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio yn gywir. Felly mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data yn ofalus. O Ionawr 2013, roedd cywirdeb llumanu yn cael ei wirio'n chwarterol.

## Gwaith trawslywodraethol

Mae'r Grŵp Rhyngadrannol Gweinidogol ar Gaethwasiaeth Fodern yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn arwain ar waith ar draws y llywodraeth am fasnachu pobl a chaethwasiaeth.
Cyfrannodd y CPS at strategaeth gaethwasiaeth fodern y llywodraeth a lansiwyd ym mis Tachwedd 2014. Mae'r ymrwymiadau yn y strategaeth yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau partner ar draws y system cyfiawnder troseddol yma a thramor i atal masnachu trwy amharu ac erlid trwy erlyn trwy:

- sicrhau bod pob cyfle i gynnwys strategaethau gwahanol yn cael eu hystyried gan erlynyddion mewn achosion masnachu, ac wrth gynghori ar orfodi'r gyfraith mewn ymchwiliadau cyn cyhuddo;
- gweithio mewn gwledydd sy'n cael blaenoriaeth gydag awdurdodau gorfodi'r gyfraith i ganolbwyntio ar ddynodi ac atafaelu asedau tramor; a
- chysylltu gyda'r Asiantaeth Troseddau Genedlaethol, i ddynodi rhwystrau a gwella'r cymorth cyfreithiol i'n gilydd.

Mae'r CPS hefyd yn cyfrannu at waith sylweddol trawslywodraethol i ymateb i Gam-fanteisio Rhywiol ar Blant – sy'n cynnwys masnachu mewnol - trwy waith y Grŵp Trais Rhywiol yn erbyn Plant a Phobl Fregus, dan arweiniad Gweinidog y Swyddfa Gartref. Un llinyn penodol y mae'r CPS yn arwain arno yw lleihau'r gofid i ddioddefwyr trais rhywiol a sicrhau bod cefnogaeth addas ar gael mewn camau troseddol.

Mae'r CPS yn gefnogol i'r adolygiad o'r Peirianwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) i wella'r modd y mae dioddefwyr masnachu a chaethwasiaeth yn cael eu hadnabod a'u cefnogi. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar y canfyddiadau ym mis Tachwedd 2014. Bu'r CPS yn gweithio gyda rhanddeiliaid wrth ystyried sut y gall y rhain gael eu gweithredu ac wrth ddatblygu cynlluniau treialu sydd i ddigwydd yn hwyrach yn 2015.

## Deddfwriaeth

Bu'r CPS yn cydweithio'n glos gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill i ddatblygu cymalau yn Neddf Caethwasiaeth Fodern 2015, y rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol iddi ym Mawrth 2015. Mae'r CPS yn gefnogol i'r Ddeddf sy'n dwyn yr holl droseddau masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth at ei gilydd; gan eu bod, cyn hyn, dan 3 Deddf wahanol. Cyflwynodd y DPP ddatganiadau ar brofiad ymarferol y CPS i roi gwybodaeth ar gyfer datblygu'r troseddau.

Mae'r cymalau eraill yn y Ddeddf a fydd yn effeithio ar ymchwilio ac erlyn yn cynnwys cynyddu'r cosbau i'r rhai a gollfarnwyd am droseddau masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth i garchar am oes a chreu rhagor o bwerau i gefnogi'r heddlu wrth iddynt ymchwilio. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys cyflwyno gorchmynion risg ac atal, yn gosod gwaharddiadau ar weithgareddau sy'n cael eu hamau o fod yn rhai troseddol ac yn cynyddu'r pwerau i orfodi'r gyfraith. Mae'n creu'r rôl o Gomisiynydd Gwrth-gaethwasiaeth annibynnol a fydd yn ganolog i annog arfer da wrth atal, darganfod, ymchwilio ac erlyn y troseddau hyn. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd yn barod rhwng y Comisiynydd, y DPP ac eraill yn y CPS i drafod sut orau i gefnogi cyflawni ei ymrwymiadau.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno nifer o gymalau ar gyfer diogelu dioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys amddiffyniad statudol i ddioddefwyr masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth a fydd yn rhedeg yn gyfochrog â pholisi'r CPS ar beidio ag erlyn dioddefwyr sydd wedi cyflawni trosedd o ganlyniad i'w sefyllfa o ran masnachu. Mae'r camau arbennig wedi cael eu hestyn i'r holl ddioddefwyr masnachu a chaethwasiaeth. Tanlinellodd y dystiolaeth gan erlynyddion bod masnachwyr mewn pobl yn targedu'r rhai sydd yn fwyfwy bregus, fel anawsterau dysgu neu anabledd corfforol, sy'n heriol wrth gyflwyno achosion. Mae'r dioddefwyr yma yn allweddol i lwyddiant erlyniad ac mae angen mwy o feddwl creadigol sy'n mynd tu hwnt i gamau arbennig. Mae'r CPS yn gweithio gyda swyddogion o adrannau eraill y llywodraeth ar wella mynediad at Gamau Arbennig a chynlluniau eraill i gynorthwyo dioddefwyr masnachu mewn camau cyfreithiol. Yn ychwanegol bydd y cyfarwyddyd newydd ar ddioddefwyr VAWG bregus a amlinellir yn adran Treisio'r adroddiad o ddefnydd.

## Cyfarwyddyd a hyfforddiant cyfreithiol

Cyflwynodd y CPS hyfforddiant wyneb yn wyneb i erlynyddion ar draws Cymru a Lloegr ar fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern, wedi ei dargedu ar erlynyddion sy'n gweithio yn ein hadrannau arbenigol sydd fwyaf tebygol o ymdrin â'r achosion hyn. Datblygir sesiynau hyfforddi eraill o ran darpariaethau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Mae'r CPS yn gweithio gyda'r arweinydd plismona cenedlaethol a'r Coleg Plismona ar ddatblygu cyfarwyddyd a digwyddiadau hyfforddi i gefnogi'r Ddeddf pan ddaw i rym. Rhoddodd y DPP ymrwymiad hefyd i weithio'n glos gyda'r heddlu i gynyddu'r nifer o ymchwiliadau ac erlyniadau am droseddau nad ydynt yn gam-fanteisio rhywiol ar blant trwy gyfarwyddyd ar y cyd.

**Arfer da:**

- Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Mewn Pobl oedd thema cynhadledd Cymdeithas Genedlaethol Erlynyddion y Goron Du.
- Yng Nghymru, mae'r CPS yn gweithio gydag Uwch Ddarlithwyr ar gyrsiau Gweithwyr Cymdeithasol i ychwanegu sesiynau masnachu mewn pobl at fodylau myfyrwyr – gobeithir y bydd hyn yn cael ei raeadru trwy Gymru.
- Bu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Gorllewin Canolbarth Lloegr yn gweithio gyda'r CPS i gynnal Cynhadledd Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant a Masnachu Mewn Pobl.

## Gwaith ar draws y Deyrnas Unedig

Cyfarfu'r DPP gyda phenaethiaid gwasanaethau erlyn o Ogledd Iwerddon, yr Alban ac Iwerddon yn Hydref 2014 i drafod sut y gallwn gydweithio yn nes at ein gilydd trwy ymrwymiadau traws-awdurdodaeth y cytunwyd arnynt, i roi gwell ymateb yn y Deyrnas Unedig. Mae'r ymrwymiadau yma yn cael eu datblygu yn barod a'u symud ymlaen trwy gyfarfodydd cyson. Mae'r holl awdurdodaethau yn gweithredu

deddfwriaeth newydd sy'n rhoi cyfle i gyfnewid a rhannu arfer da wrth ddatblygu polisi.

## Gwaith rhyngwladol

Mae gwaith rhyngwladol y CPS yn cynyddu'r gallu yn llawer o'r gwledydd lle mae dioddefwyr masnachu mewn pobl yn cael eu recriwtio, trwy Adran Ryngwladol y CPS (ID). Mae ID yn gweithio gydag ymchwilwyr ac erlynyddion yn y gwledydd hynny i wella'r ffordd y maent yn ymchwilio ac erlyn; i amharu ar fasnachwyr mewn pobl ar y ddaear a chryfhau gweithrediad y gyfraith yn eu gwledydd. Llwyddwyd i wella'r adfer asedau trwy gynyddu'r gallu mewn gwledydd eraill trwy gysylltu Timau Adfer Asedau Rhanbarthol (RART) gydag ymchwilwyr masnachu mewn pobl yn well i wella ymchwiliadau ariannol.

**Masnachu rhywiol**

- Dedfrydwyd dau ddiffynnydd a gyfaddefodd i fasnachu dwy o fenywod i Gymru at ddibenion puteindra i 15 mis a dwy flynedd a saith mis yn eu tro. Llwyddodd y menywod a fasnachwyd i gael cefnogaeth gan elusen sy'n cynnig cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin, ac yn y pen draw arweiniodd hynny at gyfraniad yr heddlu.

# Puteindra

Yn 2014-15 cychwynnwyd 83 erlyniad am reoli puteindra o gymharu â 58 yn y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd y nifer o erlyniadau a gychwynnwyd am blagio ochr y stryd ychydig o 237 o droseddau a erlynwyd yn 2013-14 i 227 yn 2014-15. Cynyddodd y troseddau cadw puteindy. Gostyngodd yr erlyniadau am droseddau hysbysebu puteindra (trwy roi cardiau mewn mannau cyhoeddus) o 91 yn 2013-14 i 37. Nid oes data troseddau yn ôl rhyw ar gael ar gyfer diffynyddion na dioddefwyr.

Mae Tabl 11 yn amlinellu data'r CPS a gasglwyd ar buteindra[111].

**Tabl 11: Erlyniadau Troseddau VAWG: troseddau puteindra**

| | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **A Rheoli puteindra** | | | | | | |
| Deddf troseddau rhywiol (2003) {52} | 11 | 24 | 19 | 11 | 9 | 25 |
| Deddf troseddau rhywiol (2003) {53} | 87 | 87 | 61 | 39 | 49 | 58 |
| **CYFANSWM** | **98** | **111** | **80** | **50** | **58** | **83** |

| **B Cadw puteindai** | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf troseddau rhywiol 1956 {33} | 39 | 48 | 35 | 31 | 19 | 19 |
| Deddf troseddau rhywiol 1956 {33A o ac Atodlen 2} | 70 | 106 | 92 | 54 | 31 | 72 |
| Deddf troseddau rhywiol 1956 {34} | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 1 |
| Deddf troseddau rhywiol {35(1)} | 2 | 3 | 3 | 1 | 2 | 2 |
| Deddf troseddau rhywiol {36} | 3 | 0 | 2 | 1 | 3 | 2 |
| Deddf troseddau rhywiol 2003 { 53A }[112] | 0 | 40 | 7 | 8 | 0 | 3 |
| **CYFANSWM** | **114** | **197** | **140** | **97** | **55** | **99** |

[111] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynnwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd, deilliant na data cydraddoldeb. Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau System Gwybodaeth Reoli yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes awgrym o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad a brofwyd yn y diwedd. Daeth y data hwn o system TG weinyddol y CPS sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn cynnwys camgymeriadau posib wrth lwytho data a'i brosesu. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

[112] Yn 2010 gwnaeth trosedd newydd A53A y Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 y rhai sy'n addo talu am wasanaethau rhywiol gan butain sy'n amodol i orfodaeth neu gam-fanteisio yn droseddwyr.

| C Plagio pen stryd | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf troseddau rhywiol 1985 {1(1)(a)} | 375 | 161 | 7 | 2 | 0 | 0 |
| Deddf troseddau rhywiol 1985 {1(1)(b)} | 21 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Deddf troseddau rhywiol 1985 {2(1)} | 23 | 38 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Deddf troseddau rhywiol 2003 {51A}[113] | 0 | 123 | 305 | 230 | 237 | 227 |
| **CYFANSWM** | **419** | **327** | **314** | **233** | **237** | **227** |

| D Hysbysebu puteindra | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 {46} | 457 | 331 | 149 | 80 | 91 | 37 |

Newidiodd y dull cyffredinol o ymdrin â phuteindra dros y blynyddoedd diwethaf, gan anelu at ymateb heb ymateb cyfiawnder troseddol, wedi ei seilio ar ddiogelu polisïau a chanolbwyntio ar y rhai sy'n rheoli puteindra. Gwelwyd cynnydd bychan yn y flwyddyn ddiwethaf o'r rhai sy'n rheoli puteindra.

Fel yr adroddwyd y llynedd, ers 2011, gall yr heddlu gyhuddo amrywiaeth o droseddau heb gyfeirio'r achos at y CPS. Gallai hyn fod wedi effeithio ar y nifer o achosion a erlynwyd, ynghyd â newidiadau mewn blaenoriaethau plismona, yn dilyn newidiadau o ran adnoddau a newidiadau yn y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn Ebrill 2010.

Mae'r dull yn pwysleisio fod unrhyw un sydd wedi ei gam-drin a cham-fanteisio arno trwy buteindra angen help a chefnogaeth o ran iechyd a lles er mwyn gadael puteindra. Yn ogystal, mae argymhellion i fabwysiadu ymagwedd partneriaeth gydag awdurdodau lleol a sefydliadau statudol ac anstatudol eraill i ganfod ffyrdd allan o buteindra yn hytrach na'u cyhuddo.

Mae troseddau hysbysebu puteindra (trwy osod cardiau mewn mannau cyhoeddus) yn droseddau y gall yr heddlu benderfynu cyhuddo rhywun ohonynt neu gyhoeddi rhybudd, heb eu hatgyfeirio at y CPS. Yn unol â'r polisi diogelu, pan fydd grŵp o fenywod yn gweithio mewn puteindra oddi ar y stryd gyda morwyn nad yw'n rheoli na'n cam-fanteisio ar y menywod, yr arfer cyhuddo yw nad yw er lles y cyhoedd i erlyn.

Mae'r drosedd dan adran 53A y Ddeddf Troseddau Rhyw (talu am wasanaethau rhywiol putain) yn un pan all yr heddlu benderfynu a ydynt am gyhuddo neu gyhoeddi rhybudd. Er ein bod yn parhau yn gefnogol i'r bwriad sydd tu ôl i gyflwyno'r drosedd hon i ddiogelu'r rhai sy'n ymwneud â phuteindra rhag niwed a cham-fanteisio, mae heriau yn parhau o ran sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu yn effeithiol. Adlewyrchir hyn yn y nifer isel (ac sy'n gostwng) o droseddau.

[113] O ran erlyniadau, cyflwynwyd trosedd newydd A51A Deddf Troseddau Rhyw 2003 yn 2010 i unigolyn ar y stryd neu mewn man cyhoeddus sy'n ceisio caffael gwasanaeth rhywiol fel putain gan rywun arall. Mae hyn yn cynnwys unigolyn mewn cerbyd modur yn y stryd neu mewn lle cyhoeddus, a chymerodd le troseddau plagio pen stryd a loetran cyson dan A1 a 2 SOA 1985.

## Materion cenedlaethol

Y mae'n dal yn arferiad defnyddio Gorchmynion Ymgysylltu â Chefnogaeth (ESO) yn gynyddol fel dedfryd wahanol i ddirwy i'r rhai sy'n cael collfarn am loetran neu lithio yn y stryd yn gyson. Mae'r gorchmynion hyn yn delio ag achosion gwreiddiol puteindra ar gyfer pob gweithiwr rhyw ac yn canfod ffyrdd iddynt adael byd puteindra.

**Puteindra:**

- Carcharwyd dyn am bedair blynedd, rhoddwyd SOPO iddo am ddeng mlynedd, ac fe'i rhoddwyd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw am oes ar ôl pledio yn euog i weithred rywiol gyda phlentyn. Roedd ei droseddau yn cynnwys 19 cyfrif o weithred rywiol gyda phlentyn, un cyfrif o achosi neu gymell puteindra neu bornograffi plant ac un cyfrif o dynnu ffotograffau anweddus o blentyn. Roedd y troseddau yn ymwneud â thair merch yn eu harddegau.

# Pornograffi ac anweddustra

Yn 2014-15 cafwyd cynnydd o 1,207 mewn troseddau o ddelweddau cam-drin plant o 20,373 yn 2013-14 i 21,580; roedd hyn yn cynnwys cychwyn erlyniadau ar gyfer 16,129 o droseddau o gam-fanteisio rhywiol ar blant trwy ffotograffau; yn cynnwys cynnydd mewn erlyniadau am y drosedd fwyaf diweddar o feddiant o ddelwedd waharddedig o blentyn o 534 i 631.
Nid oes data troseddau yn ôl rhyw ar gael ar gyfer diffynyddion na dioddefwyr.

Mae Tabl 12 yn amlinellu data'r CPS ar droseddau delweddau cam-drin plant yn gyffredinol[114].

**Tabl 12:** **Troseddau cam-drin plant trwy ddelweddau**

| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (160) – Meddu ar ffotograff anweddus o blentyn | 4,117 | 4,543 | 3,885 | 3,849 | 4,265 | 4,820 |
| Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (62) – Meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn [115] | 0 | 21 | 179 | 394 | 534 | 631 |
| **Cam-fanteisio rhywiol ar blant trwy ffotograffau ac o'r rhain:** | | | | | | |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(a)) – Tynnu ffotograff anweddus o blentyn | 13,652 | 15,768 | 14,570 | 13,596 | 14,443 | 14,518 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(b)) – Dosbarthu ffotograff anweddus o blentyn | 804 | 670 | 695 | 803 | 907 | 1,318 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(c)) – Dangos ffotograffau anweddus o blant | 137 | 410 | 333 | 294 | 224 | 292 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1(1)(d)) – cyhoeddi hysbyseb sy'n debygol o awgrymu bod yr hysbysebwr yn dosbarthu neu'n dangos ffotograffau anweddus o blant | 2 | 3 | 1 | 1 | 0 | 1 |

Yn ystod 2014–15, erlynwyd nifer o droseddau pornograffi ac eraill a chyrhaeddodd o leiaf un wrandawiad mewn Llysoedd Ynadon dan nifer o Ddeddfau[116]. Mae cofnodion

[114] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, pan gychwynnwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd na deilliant. Troseddau a gofnodwyd yn y Bydysawd Troseddau yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes awgrym o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad a brofwyd yn y diwedd. Daeth y data hwn o system TG weinyddol y CPS sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn cynnwys camgymeriadau posib wrth lwytho data a'i brosesu. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.
[115] Dan Adran 62 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 ('y Ddeddf') crëwyd trosedd newydd, sef meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn, un y mae modd ei chosbi gyda hyd at dair blynedd o garchar. Daeth y drosedd hon i rym ar 6 Ebrill 2010.
[116] Deddf Amddiffyn Plant 1978; Deddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959; Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988; Deddf (Rheoli) Arddangosiadau Cyhoeddus Anweddus 1981; Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008; Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a Deddf Cyfathrebu 2003.

y CPS yn nodi faint o achosion a gychwynnwyd dan y troseddau unigol, ond heb wahaniaethu rhwng ‘cyfathrebiadau’n ymwneud â phornograffi’ a’r rheiny nad ydynt. Yn gyffredinol roedd cynnydd o ychydig dan 6% o ddelweddau cam-drin plant a chynnydd o 21.4% o droseddau anwedduster.

**Cysylltiadau rhwng cam-drin plant yn rhywiol a delweddau anweddus**

- Carcharwyd cyn-ddirprwy brifathro a gofalwr maeth am 14 mlynedd am droseddau rhyw gan gynnwys trefnu i drosedd rhyw plentyn gael ei chyflawni, talu am wasanaethau rhywiol plentyn, dosbarthu, tynnu a gwneud delweddau anweddus o blant, ymosodiad rhywiol ar blentyn a sarhau gwedduster cyhoeddus. Bydd yn treulio cyfnod o ddeng mlynedd yn y carchar, gyda phedair blynedd arall ar drwydded. Fe’i rhoddwyd ar y gofrestr troseddwyr rhyw am oes a’i wahardd rhag gweithio gyda phlant fyth eto.

- Carcharwyd dyn am dair blynedd ar ôl lawrlwytho delweddau anweddus o blant i’w gyfrifiadur a rhoddwyd SOPO deng mlynedd iddo a bydd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw am gyfnod amhenodol. Darganfu’r heddlu hefyd ei fod wedi cyflawni gweithredoedd o anweddustra difrifol gyda merch ifanc flynyddoedd ynghynt. Plediodd yn euog i dair trosedd anweddustra gyda phlentyn, meddu ar ffotograffau anweddus o blentyn, a phedair trosedd o wneud ffotograffau anweddus o blentyn. Roedd y ferch ieuengaf tua thair blwydd oed. Cyfaddefodd hefyd i gyhuddiad arall o feddu delwedd bornograffig eithafol.

- Carcharwyd dyn am ddeng mlynedd am ymosod ar ddwy ferch a meddu miloedd o ddelweddau cam-drin plant ar ei liniaduron, rhai gyda phlant mor ifanc â thair blwydd oed. Ymosododd ar un ferch pan oedd yn saith oed am tua blwyddyn a chyfaddefodd hefyd iddo ymosod ar ferch arall ar un achlysur pan oedd yn un ar ddeg oed yn 1996. Roedd llawer o’r delweddau ar y lefelau mwyaf difrifol. Yn dilyn ei arestio, fe’i rhoddwyd ar fechnïaeth ac atafaelwyd ei gyfrifiaduron. Aeth allan a phrynu gliniadur arall a lawrlwytho rhagor o ddelweddau rhyw o blant. Rhoddwyd SOPO iddo oedd yn cynnwys gwaharddiad ar gysylltu â’r dioddefwr ieuengaf a chael unrhyw gyswllt heb oruchwyliaeth â phlant. Rhaid iddo hefyd lofnodi’r Gofrestr Troseddwyr Rhyw am oes.

Mae Tabl 13 yn amlinellu data’r CPS[117] ar droseddau anweddustra[118]. Roedd cynnydd yn y troseddau anweddustra a erlynwyd o 4,764 i 5,782. Dros y blynyddoedd

[117] Gweler troednodyn 114.
[118] Mae Deddfau Cyhoeddiadau Anweddus (OPA) 1959 a 1964 yn nodi beth yw’r gyfraith yng nghyswllt cyhoeddiadau anweddus. Nodir y prawf am anweddustra yn adran 1(1) Deddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959. Crëwyd y troseddau dan adran 2 OPA 1959 ac mae modd eu cosbi gyda charchariad am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Mae pob deunydd cyhoeddedig yn ddarostyngedig i’r Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus (OPA) 1959. Dan y Ddeddf hon mae’n drosedd cyhoeddi unrhyw erthygl y credir ei bod yn anweddus; sef erthygl y tybia’r llysoedd ei bod yn tueddu i ‘lygru’ unigolyn sy’n debygol o’i gweld, ei chlywed neu ei darllen. Mae adrannau 63 i 67 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 yn ei gwneud yn drosedd i feddu delweddau pornograffig sy’n dangos gweithred sy’n bygwth bywyd rhywun, gweithredoedd sy’n arwain at neu’n debygol o arwain at anaf difrifol i anws, bronnau

diwethaf, gyda'r cynnydd yn y defnydd o dechnoleg a'r rhyngrwyd, erlynwyd mwy o droseddau dan adran 127 y Ddeddf Cyfathrebiadau[119] ac adran 1 y Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988[120] gyda llai o erlyniadau dan y Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus ar gyfer cyhoeddiadau anweddus. Dan a127, yn 2014-15 roedd cynnydd mewn cyfathrebiadau anweddus iawn neu anllad o 41.2% mewn cymhariaeth â gostyngiad bychan o 7.7% o achosi aflonyddwch, anghyfleustra neu bryder diangen i rywun arall. Ar y cyfan cynyddodd y troseddau dan a127 o 19.7% ac a1 o 31%.

Cafwyd cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf yn y nifer o erlyniadau dan yr adrannau newydd, a gyflwynwyd yn Ionawr 2009, yn ymwneud â delweddau pornograffig eithafol, a gyrhaeddodd 1,564 yn 2014-15.

**Tabl 13: Troseddau anweddustra**

| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 Adrannau (1 (1)(a) & (1)(b)) - Deunydd anweddus neu dramgwyddus iawn | 899 | 1,273 | 1,301 | 1,250 | 1,210 | 1,586 |
| Deddf cyhoeddiadau anweddus 1959 (2 (1) ) – Cyhoeddiadau anweddus | 82 | 71 | 76 | 34 | 33 | 88 |
| Deddf Cyfathrebiadau 2003 (127 (1)(a), (1)(b) & (3)) Cyfathrebiadau tramgwyddus neu anweddus iawn | 1,315 | 1,869 | 1,924 | 1,909 | 1,190 | 1,680 |
| Deddf Cyfathrebiadau 2003 (127 (2)(a), (2)(b), (2)(c) a (3)) - Achosi blinder, anhwylustod neu bryder diangen i unigolyn arall | 888 | 1,037 | 1,181 | 1,003 | 936 | 864 |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (63 (1), (7)(d) a 67(3)) – Meddu ar ddelweddau pornograffig eithafol[121] | 270 | 1,165 | 1,319 | 1,312 | 1,395 | 1,564 |

## Gwaith trawslywodraethol

Cyfrannodd y CPS at yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ganllawiau troseddau rhywiol y Cyngor Dedfrydu (a ddaeth i rym yn Ebrill 2014) oedd yn cynnwys materion yn ymwneud â delweddau ymosodol.

Mae'r CPS yn cefnogi Cronfa Ddata Delweddau Cam-drin Plant (CAID). Mae CAID yn un gronfa ddata ddiogel o ddelweddau anghyfreithlon o blant, a fydd yn helpu'r heddlu mewn gwahanol rannau o'r wlad i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol ac mae'r CPS yn gweithio gyda'r heddlu i'w gyflwyno yn genedlaethol. Bydd CAID yn

---

neu organau cenhedlu rhywun, bwbechni neu gorffgarwch; maent hefyd yn darparu ar gyfer eithrio ffilmiau wedi eu dosbarthu ac ati ac yn sefydlu amddiffyniadau a chosbau ar gyfer y drosedd. Daeth y drosedd hon i rym ar 26 Ionawr 2009.

[119] Mae Adran 127 Deddf Cyfathrebu 2003 yn creu trosedd o anfon, 'trwy rwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus, neges neu fater sy'n ffiaidd iawn neu o gymeriad anweddus, aflan neu fygythiol.' Gellir cymhwyso'r drosedd i'r "cyfryngau ehangach" ac mae ganddi elfen o "gyfredredd", hyd yn oed "amddiffyniad i'r dyfodol" nad ydynt yn amodau mwy rhagnodol deddfwriaeth arall.

[120] Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus yn gwneud anfon llythyr, cyfathrebiad electronig [h.y. e-bost] neu eitem arall anweddus, aflan neu fygythiol i rywun arall yn drosedd.

[121] Dim ond isadran o ddata adran 63 a adroddwyd mewn Adroddiadau Troseddau VAWG blaenorol – mae'r data wedi ei addasu yn yr adroddiad hwn i gynnwys pob trosedd dan Adran 63.

lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn graddio difrifoldeb yr un ddelwedd ar gyfer dibenion dedfrydu dro ar ôl tro.

## Deddfwriaeth newydd

'Pornograffi dial': O 13 Ebrill 2015 mae Adrannau 33-35 ac Atodlen 8 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015, yn creu trosedd newydd o ddatgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol personol heb gydsyniad unigolyn sy'n ymddangos ynddynt gyda'r bwriad o achosi gofid i'r unigolyn hwnnw neu honno. Yn nodweddiadol gall yr amgylchiadau gynnwys cyn-bartner o oedolyn yn uwchlwytho delweddau rhywiol personol iawn o'r dioddefwr ar y rhyngrwyd, i achosi cywilydd neu waradwydd i'r dioddefwr. Gall yr achosion hyn sy'n cynnwys 'pornograffi dial' gael eu hystyried dan y canllawiau cyfryngau cymdeithasol [122]sydd wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r drosedd newydd hon. Mae i'r drosedd uchafswm dedfryd o garchar o ddwy flynedd wrth gael collfarn.

**Pornograffi Dial**

- Dedfrydwyd dyn 18 mlwydd oed i orchymyn cymunedol tair blynedd am flacmelio merch 14 mlwydd oed gyda phornograffi dial a thrwy wneud delweddau anweddus. Rhoddwyd gorchymyn cyrffyw 16 wythnos iddo hefyd, SOPO deng mlynedd a gorchmynnwyd iddo lofnodi'r gofrestr troseddwyr rhyw am bum mlynedd. Roedd wedi cysylltu â'r ddioddefwraig ar Facebook gan ddefnyddio cyfrif ffug. Defnyddiodd ddelweddau o'r ddioddefwraig i'w blacmelio i anfon rhagor o ddelweddau rhywiol, pan wrthododd hi wneud hynny fe wnaeth fygwth eu rhoi ar-lein. Pan wnaeth yr heddlu atafaelu ei gyfrifiadur, daethpwyd o hyd i nifer o ddelweddau anweddus o blant.

Mae Adran 32 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 yn diwygio adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 o 13 Ebrill 2015[123]. Mae'r adran A1 MCA newydd yn drosedd naill ffordd neu'r llall ac mae'n cynyddu'r gosb waethaf posibl i 2 flynedd o garchar a/neu ddirwy. Bydd hyn yn caniatáu rhagor o amser i ymchwilio, a bydd cosb fwy difrifol ar gael mewn achosion addas.

'Pornograffi treisio': O 13 Ebrill 2015, mae Adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 yn diwygio'r drosedd o fod â delweddau pornograffig eithafol yn eich meddiant yn adran 63 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008, fel

---

[122] Mae'r drosedd sy'n groes i a. 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 yn gorgyffwrdd ag a.1 o Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988, a.127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ac a.2 ac a.4 o Ddeddf Aflonyddu 1997.

[123] Mae Adran 1 o Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 yn ei gwneud yn drosedd i unigolyn gyda'r bwriad o achosi gofid neu bryder, i anfon rhai eitemau i unigolyn arall sy'n cyfleu neges anweddus neu sy'n dramgwyddus iawn neu sydd ynddynt eu hunain yn anweddus neu yn dramgwyddus iawn, neu sy'n cyfleu bygythiad neu wybodaeth sy'n ffug ac y mae'r anfonwr yn gwybod neu yn credu ei fod yn ffug. Ar hyn o bryd mae'r drosedd yn un ditiadwy yn unig y gellir ei chosbi gydag uchafswm o 6 mis o garchar neu ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol, neu'r ddau.

bod, yng Nghymru a Lloegr, y drosedd yn gallu cael ei chyflawni trwy fod â delweddau eithafol yn eich meddiant yn darlunio cyfathrach heb gydsyniad a threisio. O 3 Mai 2015: Mae Adran 69 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 yn creu trosedd newydd o fod â llawlyfr pedoffil yn eich meddiant, sydd yn unrhyw eitem sy'n cynnwys cyngor neu gyfarwyddyd am gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys gwastrodi. Fel y darlunnir yn yr adran cam-drin plant, mae'r CPS yn cefnogi cyflwyno deddfwriaeth i wneud negeseuon rhywiol rhwng oedolion a phlant yn drosedd. Buom mewn cysylltiad cyson â'r NSPCC cyn i'r drosedd gael ei chyflwyno fel diwygiad i'r Mesur Troseddau Difrifol. Mae amgyffrediad bod bwlch yn y gyfraith bresennol gan nad yw'n cael ei ystyried yn drosedd pan fydd oedolyn yn anfon neges rywiol at blentyn ar hyn o bryd. Byddai'r drosedd newydd arfaethedig yn galluogi ymyrraeth ynghynt. Derbyniodd 'Cyfathrebiadau Rhywiol gyda Phlentyn' y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Mawrth 2015 ond nid oes dyddiad cychwyn iddo wrth i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi.

**Ffotograffau anweddus o fabanod a phlant**

- Rhoddwyd dedfryd o garchar estynedig o 14 mlynedd i ddyn a gyflawnodd droseddau rhyw ar fabi o ferch. Fe'i ychwanegwyd at y gofrestr troseddwyr rhyw hefyd a rhoddwyd SOPO iddo. Ymosododd y diffynnydd yn rhywiol ar y plentyn bach iawn a thynnu ffotograff ohono ei hun yn gwneud hynny. Daethpwyd o hyd i'r ffotograffau ar ei gyfrifiadur ymhlith lliaws o bornograffi plant oedd yn peri cymaint o ofid fel bod rhai o'r swyddogion heddlu angen siarad â gwasanaeth cynghori ar ôl ei weld.

- Dedfrydwyd dyn i bum mlynedd o garchar ar ôl pledio'n euog i drefnu neu hwyluso cyflawni trosedd rywiol ar blentyn, gweithred rywiol gyda phlentyn ac wyth trosedd o wneud ffotograffau anweddus o blentyn. Fe'i rhoddwyd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw hefyd gyda SOPO am gyfnod amhenodol. Defnyddiodd y rhyngrwyd i drefnu ac annog eraill, o America yn bennaf, i gam-drin a threisio eu plant eu hunain. Rhoddodd ddelweddau anweddus o blant i ddau ddyn i dalu iddynt am dreisio eu merched eu hunain. Yn ffodus roedd y ddau ddyn yn ymchwilwyr rhyngrwyd cudd, a'u rôl oedd efelychu gweithredoedd y tramgwyddwyr ac felly fe wnaethant ei ddal a chasglu tystiolaeth gref yn ei erbyn.

## Hyfforddiant

Datblygodd y CPS nifer o fodylau e-ddysgu newydd, Erlyn Gwastrodi ar-lein a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol a lansiwyd i erlynyddion yn ystod 2014-15.

# Atodiad 1: Erlyniadau'n ôl Ardal

O 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Dinas Llundain (CLP) a Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r CLP a'r BTP.

### Erlyniadau VAWG yn ôl Ardaloedd CPS

| Trais yn erbyn menywod a merched | 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Cymru** | 5124 | 74.5% | 1754 | 25.5% | 6878 |
| **Dwyreiniol** | 6039 | 80.0% | 1512 | 20.0% | 7551 |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 6025 | 75.2% | 1985 | 24.8% | 8010 |
| **Llundain** | 9417 | 66.0% | 4843 | 34.0% | 14260 |
| **Glannau Mersi a Swydd Caer** | 4303 | 78.5% | 1181 | 21.5% | 5484 |
| **Gogledd Ddwyrain Lloegr** | 4428 | 70.4% | 1862 | 29.6% | 6290 |
| **Gogledd Orllewin Lloegr** | 10899 | 77.8% | 3105 | 22.2% | 14004 |
| **De Ddwyrain Lloegr** | 4327 | 71.1% | 1761 | 28.9% | 6088 |
| **De Orllewin Lloegr** | 4452 | 75.2% | 1469 | 24.8% | 5921 |
| **Tafwys a Chiltern** | 4370 | 70.7% | 1812 | 29.3% | 6182 |
| **Wessex** | 3970 | 71.7% | 1568 | 28.3% | 5538 |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 7608 | 72.0% | 2957 | 28.0% | 10565 |
| **Swydd Efrog a Glannau Humber** | 7811 | 75.6% | 2522 | 24.4% | 10333 |
| **Cyfanswm** | **78773** | **73.5%** | **28331** | **26.5%** | **107104** |

| Trais yn erbyn menywod a merched | Erlyniadau VAWG yn ôl ardaloedd lluoedd heddlu 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Avon a Gwlad yr Haf | 2085 | 74.8% | 704 | 25.2% | 2789 |
| Swydd Bedford | 613 | 69.3% | 271 | 30.7% | 884 |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydain | 261 | 79.6% | 67 | 20.4% | 328 |
| Swydd Caergrawnt | 893 | 79.7% | 228 | 20.3% | 1121 |
| Swydd Caer | 1576 | 80.7% | 378 | 19.3% | 1954 |
| Heddlu Dinas Llundain | 31 | 70.5% | 13 | 29.5% | 44 |
| Cleveland | 985 | 76.7% | 299 | 23.3% | 1284 |
| Cumbria | 814 | 83.9% | 156 | 16.1% | 970 |
| Swydd Derby | 1527 | 76.7% | 463 | 23.3% | 1990 |
| Dyfnaint a Chernyw | 1789 | 75.2% | 590 | 24.8% | 2379 |
| Dorset | 859 | 73.7% | 306 | 26.3% | 1165 |
| Durham | 984 | 76.4% | 304 | 23.6% | 1288 |
| Dyfed Powys | 595 | 72.2% | 229 | 27.8% | 824 |
| Essex | 2679 | 78.9% | 717 | 21.1% | 3396 |
| Swydd Caerloyw | 584 | 76.9% | 175 | 23.1% | 759 |
| Manceinion Fwyaf | 6589 | 77.9% | 1873 | 22.1% | 8462 |
| Gwent | 856 | 79.0% | 228 | 21.0% | 1084 |
| Hampshire | 2364 | 69.9% | 1018 | 30.1% | 3382 |
| Swydd Hertford | 1375 | 76.8% | 416 | 23.2% | 1791 |
| Glannau Humber | 1252 | 82.0% | 275 | 18.0% | 1527 |
| Caint | 1922 | 72.3% | 738 | 27.7% | 2660 |
| Swydd Caerhirfryn | 3488 | 76.2% | 1089 | 23.8% | 4577 |
| Swydd Gaerlŷr | 1179 | 77.3% | 346 | 22.7% | 1525 |
| Swydd Lincoln | 749 | 79.1% | 198 | 20.9% | 947 |
| Glannau Mersi | 2714 | 77.4% | 792 | 22.6% | 3506 |
| Heddlu Metropolitan | 9248 | 65.8% | 4798 | 34.2% | 14046 |
| Norfolk | 1318 | 79.2% | 346 | 20.8% | 1664 |
| Swydd Northampton | 771 | 71.5% | 307 | 28.5% | 1078 |
| Northumbria | 2451 | 66.2% | 1254 | 33.8% | 3705 |
| Gogledd Cymru | 1173 | 76.4% | 363 | 23.6% | 1536 |
| Gogledd Swydd Efrog | 752 | 79.9% | 189 | 20.1% | 941 |
| Swydd Nottingham | 1805 | 73.0% | 668 | 27.0% | 2473 |
| De Cymru | 2495 | 72.8% | 931 | 27.2% | 3426 |
| De Swydd Efrog | 1995 | 74.1% | 698 | 25.9% | 2693 |
| Swydd Stafford | 1387 | 67.9% | 657 | 32.1% | 2044 |
| Suffolk | 1140 | 83.9% | 218 | 16.1% | 1358 |
| Surrey | 842 | 66.5% | 424 | 33.5% | 1266 |
| Sussex | 1546 | 72.4% | 588 | 27.6% | 2134 |
| Dyffryn Tafwys | 2363 | 67.7% | 1126 | 32.3% | 3489 |
| Swydd Warwick | 470 | 79.5% | 121 | 20.5% | 591 |
| Gorllewin Mersia | 1452 | 77.4% | 424 | 22.6% | 1876 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 4285 | 70.9% | 1755 | 29.1% | 6040 |
| Gorllewin Swydd Efrog | 3766 | 73.6% | 1353 | 26.4% | 5119 |
| Wiltshire | 748 | 75.9% | 238 | 24.1% | 986 |
| Cyfanswm | **78770** | **73.5%** | **28331** | **26.5%** | **107101** |

## Erlyniadau DA yn ôl Ardaloedd CPS:

| Cam-drin Domestig | 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Cymru** | 4598 | 75.6% | 1488 | 24.4% | 6086 |
| **Dwyreiniol** | 5349 | 80.6% | 1287 | 19.4% | 6636 |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 5287 | 75.0% | 1764 | 25.0% | 7051 |
| **Llundain** | 7871 | 66.3% | 4006 | 33.7% | 11877 |
| **Glannau Mersi a Swydd Caer** | 3775 | 78.1% | 1058 | 21.9% | 4833 |
| **Gogledd Ddwyrain Lloegr** | 3934 | 70.7% | 1633 | 29.3% | 5567 |
| **Gogledd Orllewin Lloegr** | 9854 | 79.0% | 2616 | 21.0% | 12470 |
| **De Ddwyrain Lloegr** | 3607 | 71.4% | 1442 | 28.6% | 5049 |
| **De Orllewin Lloegr** | 3819 | 75.5% | 1239 | 24.5% | 5058 |
| **Tafwys a Chiltern** | 3739 | 70.5% | 1563 | 29.5% | 5302 |
| **Wessex** | 3420 | 72.4% | 1302 | 27.6% | 4722 |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 6643 | 71.6% | 2635 | 28.4% | 9278 |
| **Swydd Efrog a Glannau Humber** | 6705 | 75.8% | 2145 | 24.2% | 8850 |
| **Cyfanswm** | **68601** | **73.9%** | **24178** | **26.1%** | **92779** |

| Cam-drin Domestig | Erlyniadau DA yn ôl ardal llu heddlu2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Avon a Gwlad yr Haf | 1779 | 75.7% | 572 | 24.3% | 2351 |
| Swydd Bedford | 531 | 69.2% | 236 | 30.8% | 767 |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydain | 128 | 81.0% | 30 | 19.0% | 158 |
| Swydd Caergrawnt | 763 | 80.3% | 187 | 19.7% | 950 |
| Swydd Caer | 1391 | 80.1% | 345 | 19.9% | 1736 |
| Heddlu Dinas Llundain | 20 | 90.9% | 2 | 9.1% | 22 |
| Cleveland | 851 | 77.0% | 254 | 23.0% | 1105 |
| Cumbria | 699 | 83.4% | 139 | 16.6% | 838 |
| Swydd Derby | 1331 | 76.3% | 413 | 23.7% | 1744 |
| Dyfnaint a Chernyw | 1544 | 74.8% | 519 | 25.2% | 2063 |
| Dorset | 766 | 74.7% | 259 | 25.3% | 1025 |
| Durham | 872 | 78.1% | 245 | 21.9% | 1117 |
| Dyfed Powys | 533 | 72.3% | 204 | 27.7% | 737 |
| Essex | 2451 | 79.9% | 615 | 20.1% | 3066 |
| Swydd Caerloyw | 502 | 77.3% | 147 | 22.7% | 649 |
| Manceinion Fwyaf | 6007 | 79.4% | 1554 | 20.6% | 7561 |
| Gwent | 769 | 79.8% | 195 | 20.2% | 964 |
| Hampshire | 2036 | 70.6% | 847 | 29.4% | 2883 |
| Swydd Hertford | 1204 | 77.0% | 359 | 23.0% | 1563 |
| Glannau Humber | 1038 | 83.8% | 201 | 16.2% | 1239 |
| Caint | 1604 | 71.8% | 630 | 28.2% | 2234 |
| Swydd Caerhirfryn | 3148 | 77.1% | 936 | 22.9% | 4084 |
| Swydd Gaerlŷr | 1026 | 77.3% | 301 | 22.7% | 1327 |
| Swydd Lincoln | 650 | 78.6% | 177 | 21.4% | 827 |
| Glannau Mersi | 2373 | 77.1% | 703 | 22.9% | 3076 |
| Heddlu Metropolitan | 7797 | 66.1% | 4001 | 33.9% | 11798 |
| Norfolk | 1118 | 79.1% | 296 | 20.9% | 1414 |
| Swydd Northampton | 647 | 71.2% | 262 | 28.8% | 909 |
| Northumbria | 2208 | 66.1% | 1130 | 33.9% | 3338 |
| Gogledd Cymru | 1036 | 78.8% | 279 | 21.2% | 1315 |
| Gogledd Swydd Efrog | 599 | 80.6% | 144 | 19.4% | 743 |
| Swydd Nottingham | 1642 | 73.0% | 608 | 27.0% | 2250 |
| De Cymru | 2254 | 73.6% | 809 | 26.4% | 3063 |
| De Swydd Efrog | 1764 | 74.4% | 608 | 25.6% | 2372 |
| Swydd Stafford | 1215 | **66.9%** | **602** | **33.1%** | 1817 |
| Suffolk | 1009 | 84.3% | 188 | 15.7% | 1197 |
| Surrey | 716 | 67.0% | 352 | 33.0% | 1068 |
| Sussex | 1272 | 73.8% | 451 | 26.2% | 1723 |
| Dyffryn Tafwys | 1992 | 67.3% | 968 | 32.7% | 2960 |
| Swydd Warwick | 396 | 80.0% | 99 | 20.0% | 495 |
| Gorllewin Mersia | 1201 | 76.9% | 360 | 23.1% | 1561 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 3819 | 70.8% | 1574 | 29.2% | 5393 |
| Gorllewin Swydd Efrog | 3274 | 73.4% | 1186 | 26.6% | 4460 |
| Wiltshire | 626 | 76.6% | 191 | 23.4% | 817 |
| Cyfanswm | **68601** | **73.9%** | **24178** | **26.1%** | **92779** |

## Erlyniadau treisio yn ôl Ardal CPS:

| Treisio | 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cymru | 150 | 54.3% | 126 | 45.7% | 276 |
| Dwyreiniol | 165 | 62.0% | 101 | 38.0% | 266 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 186 | 68.6% | 85 | 31.4% | 271 |
| Llundain | 400 | 49.3% | 411 | 50.7% | 811 |
| Glannau Mersi a Swydd Caer | 96 | 67.1% | 47 | 32.9% | 143 |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 108 | 50.5% | 106 | 49.5% | 214 |
| Gogledd Orllewin Lloegr | 295 | 53.1% | 261 | 46.9% | 556 |
| De Ddwyrain Lloegr | 187 | 57.0% | 141 | 43.0% | 328 |
| De Orllewin Lloegr | 166 | 57.8% | 121 | 42.2% | 287 |
| Tafwys a Chiltern | 157 | 59.0% | 109 | 41.0% | 266 |
| Wessex | 90 | 40.7% | 131 | 59.3% | 221 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 263 | 66.1% | 135 | 33.9% | 398 |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | 318 | 63.7% | 181 | 36.3% | 499 |
| Cyfanswm | **2581** | **56.9%** | **1955** | **43.1%** | **4536** |

| Treisio | Erlyniadau treisio yn ôl ardaloedd lluoedd heddlu 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Avon a Gwlad yr Haf | 86 | 54.8% | 71 | 45.2% | 157 |
| Swydd Bedford | 20 | 55.6% | 16 | 44.4% | 36 |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydain | 0 | 0.0% | 1 | 100.0% | 1 |
| Swydd Caergrawnt | 36 | 69.2% | 16 | 30.8% | 52 |
| Swydd Caer | 26 | 70.3% | 11 | 29.7% | 37 |
| Heddlu Dinas Llundain | 2 | 40.0% | 3 | 60.0% | 5 |
| Cleveland | 23 | 47.9% | 25 | 52.1% | 48 |
| Cumbria | 29 | 80.6% | 7 | 19.4% | 36 |
| Swydd Derby | 50 | 69.4% | 22 | 30.6% | 72 |
| Dyfnaint a Chernyw | 59 | 60.2% | 39 | 39.8% | 98 |
| Dorset | 15 | 45.5% | 18 | 54.5% | 33 |
| Durham | 30 | 51.7% | 28 | 48.3% | 58 |
| Dyfed Powys | 13 | 48.1% | 14 | 51.9% | 27 |
| Essex | 54 | 48.6% | 57 | 51.4% | 111 |
| Swydd Caerloyw | 22 | 64.7% | 12 | 35.3% | 34 |
| Manceinion Fwyaf | 168 | 48.3% | 180 | 51.7% | 348 |
| Gwent | 32 | 68.1% | 15 | 31.9% | 47 |
| Hampshire | 50 | 38.5% | 80 | 61.5% | 130 |
| Swydd Hertford | 26 | 47.3% | 29 | 52.7% | 55 |
| Glannau Humber | 64 | 61.5% | 40 | 38.5% | 104 |
| Caint | 81 | 59.6% | 55 | 40.4% | 136 |
| Swydd Caerhirfryn | 100 | 57.1% | 75 | 42.9% | 175 |
| Swydd Gaerlŷr | 32 | 64.0% | 18 | 36.0% | 50 |
| Swydd Lincoln | 24 | 72.7% | 9 | 27.3% | 33 |
| Glannau Mersi | 68 | 66.0% | 35 | 34.0% | 103 |
| Heddlu Metropolitan | 398 | 49.4% | 407 | 50.6% | 805 |
| Norfolk | 40 | 69.0% | 18 | 31.0% | 58 |
| Swydd Northampton | 29 | 69.0% | 13 | 31.0% | 42 |
| Northumbria | 55 | 50.9% | 53 | 49.1% | 108 |
| Gogledd Cymru | 47 | 50.5% | 46 | 49.5% | 93 |
| Gogledd Swydd Efrog | 31 | 62.0% | 19 | 38.0% | 50 |
| Swydd Nottingham | 52 | 69.3% | 23 | 30.7% | 75 |
| De Cymru | 59 | 53.6% | 51 | 46.4% | 110 |
| De Swydd Efrog | 71 | 62.3% | 43 | 37.7% | 114 |
| Swydd Stafford | 33 | 58.9% | 23 | 41.1% | 56 |
| Suffolk | 33 | 78.6% | 9 | 21.4% | 42 |
| Surrey | 28 | 57.1% | 21 | 42.9% | 49 |
| Sussex | 78 | 54.5% | 65 | 45.5% | 143 |
| Dyffryn Tafwys | 112 | 62.9% | 66 | 37.1% | 178 |
| Swydd Warwick | 27 | 71.1% | 11 | 28.9% | 38 |
| Gorllewin Mersia | 63 | 65.6% | 33 | 34.4% | 96 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 140 | 67.0% | 69 | 33.0% | 209 |
| Gorllewin Swydd Efrog | 150 | 66.4% | 76 | 33.6% | 226 |
| Wiltshire | 25 | 43.1% | 33 | 56.9% | 58 |
| Cyfanswm | **2581** | **56.9%** | **1955** | **43.1%** | **4536** |

## Erlyniadau troseddau rhywiol yn ôl Ardal CPS:

| Troseddau Rhywiol | 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cymru | 376 | 72.9% | 140 | 27.1% | 516 |
| Dwyreiniol | 525 | 80.9% | 124 | 19.1% | 649 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 552 | 80.2% | 136 | 19.8% | 688 |
| Llundain | 1146 | 72.9% | 426 | 27.1% | 1572 |
| Glannau Mersi a Swydd Caer | 432 | 85.0% | 76 | 15.0% | 508 |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 386 | 75.8% | 123 | 24.2% | 509 |
| Gogledd Orllewin Lloegr | 750 | 76.7% | 228 | 23.3% | 978 |
| De Ddwyrain Lloegr | 533 | 75.0% | 178 | 25.0% | 711 |
| De Orllewin Lloegr | 467 | 81.1% | 109 | 18.9% | 576 |
| Tafwys a Chiltern | 474 | 77.2% | 140 | 22.8% | 614 |
| Wessex | 460 | 77.3% | 135 | 22.7% | 595 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 702 | 79.0% | 187 | 21.0% | 889 |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | 788 | 80.1% | 196 | 19.9% | 984 |
| Cyfanswm | **7,591** | **77.5%** | **2,198** | **22.5%** | **9,789** |

| Troseddau Rhywiol | Erlyniadau troseddau rhywiol yn ôl ardal llu heddlu 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Avon a Gwlad yr Haf | 220 | 78.3% | 61 | 21.7% | 281 |
| Swydd Bedford | 62 | 76.5% | 19 | 23.5% | 81 |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydain | 133 | 78.7% | 36 | 21.3% | 169 |
| Swydd Caergrawnt | 94 | 79.0% | 25 | 21.0% | 119 |
| Swydd Caer | 159 | 87.8% | 22 | 12.2% | 181 |
| Heddlu Dinas Llundain | 9 | 52.9% | 8 | 47.1% | 17 |
| Cleveland | 111 | 84.7% | 20 | 15.3% | 131 |
| Cumbria | 86 | 89.6% | 10 | 10.4% | 96 |
| Swydd Derby | 146 | 83.9% | 28 | 16.1% | 174 |
| Dyfnaint a Chernyw | 186 | 85.3% | 32 | 14.7% | 218 |
| Dorset | 78 | 72.9% | 29 | 27.1% | 107 |
| Durham | 82 | 72.6% | 31 | 27.4% | 113 |
| Dyfed Powys | 49 | 81.7% | 11 | 18.3% | 60 |
| Essex | 174 | 79.5% | 45 | 20.5% | 219 |
| Swydd Caerloyw | 60 | 78.9% | 16 | 21.1% | 76 |
| Manceinion Fwyaf | 414 | 74.9% | 139 | 25.1% | 553 |
| Gwent | 55 | 75.3% | 18 | 24.7% | 73 |
| Hampshire | 278 | 75.3% | 91 | 24.7% | 369 |
| Swydd Hertford | 145 | 83.8% | 28 | 16.2% | 173 |
| Glannau Humber | 150 | 81.5% | 34 | 18.5% | 184 |
| Caint | 237 | 81.7% | 53 | 18.3% | 290 |
| Swydd Caerhirfryn | 240 | 75.5% | 78 | 24.5% | 318 |
| Swydd Gaerlŷr | 121 | 81.8% | 27 | 18.2% | 148 |
| Swydd Lincoln | 75 | 86.2% | 12 | 13.8% | 87 |
| Glannau Mersi | **273** | 83.5% | 54 | 16.5% | 327 |
| Heddlu Metropolitan | 1053 | 73.0% | 390 | 27.0% | 1443 |
| Norfolk | 160 | 83.3% | 32 | 16.7% | 192 |
| Swydd Northampton | 95 | 74.8% | 32 | 25.2% | 127 |
| Northumbria | 188 | 72.6% | 71 | 27.4% | 259 |
| Gogledd Cymru | 90 | 70.3% | 38 | 29.7% | 128 |
| Gogledd Swydd Efrog | 122 | 82.4% | 26 | 17.6% | 148 |
| Swydd Nottingham | 111 | 75.0% | 37 | 25.0% | 148 |
| De Cymru | 182 | 71.9% | 71 | 28.1% | 253 |
| De Swydd Efrog | 160 | 77.3% | 47 | 22.7% | 207 |
| Swydd Stafford | 139 | 81.3% | 32 | 18.7% | 171 |
| Suffolk | 98 | 82.4% | 21 | 17.6% | 119 |
| Surrey | 98 | 65.8% | 51 | 34.2% | 149 |
| Sussex | 196 | 73.1% | 72 | 26.9% | 268 |
| Dyffryn Tafwys | 259 | 73.8% | 92 | 26.2% | 351 |
| Swydd Warwick | 47 | 81.0% | 11 | 19.0% | 58 |
| Gorllewin Mersia | 188 | 85.8% | 31 | 14.2% | 219 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 326 | 74.4% | 112 | 25.6% | 438 |
| Gorllewin Swydd Efrog | 342 | 79.0% | 91 | 21.0% | 433 |
| Wiltshire | 97 | 87.4% | 14 | 12.6% | 111 |
| Cyfanswm | **7588** | 77.5% | **2,198** | 22.5% | **9786** |

# Geirfa

## Ffrydiau trais yn erbyn menywod a merched

**Mae pob adran yn nhrefn yr wyddor oni nodir fel arall.**

| | |
|---|---|
| Cam-drin domestig: | O Ebrill 2013:<br>unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad, trais neu gam-drin sy'n rheoli, gorfodi, neu'n bygwth rhwng y rhai sy'n 16 mlwydd oed neu drosodd sy'n bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu'n aelodau teulu waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall hyn ymgorffori'r mathau canlynol o gam-drin ond nid yw'n gyfyngedig iddynt: seicolegol; corfforol; rhywiol; ariannol; emosiynol.<br><br>*Mae ymddygiad sy'n rheoli yn: amrywiaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud rhywun yn israddol ac/neu yn ddibynnol trwy eu hynysu o ffynonellau cefnogaeth, ymelwa ar eu hadnoddau a'u gallu er elw personol, eu hamddifadu o'r moddion angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthwynebiad a ffoi ac yn rheoli eu hymddygiad o ddydd i ddydd.*<br><br>*Ymddygiad gorfodol yw: gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, cywilyddio ac aflonyddu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu ddychryn y dioddefwr.*<br><br>*Diffinnir aelodau o'r teulu fel mam, tad, mab, merch, brawd, chwaer a neiniau a theidiau boed yn perthyn yn uniongyrchol, yn deulu yng nghyfraith neu lys-deulu.*<br><br>*Mae'r diffiniad hwn, nad yw'n ddiffiniad cyfreithiol, yn cynnwys yr hyn a elwir yn drais ar sail 'anrhydedd', FGM (FGM) a phriodas dan orfod, ac mae'n glir nad yw'r dioddefwyr yn cael eu cyfyngu i un rhyw neu grŵp ethnig.* |
| Cam-drin plant: | Unrhyw drosedd sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf a welir yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant ac sy'n ymwneud â dioddefwr dan 18 oed.<br><br>Mae cam-drin plant yn cynnwys troseddau – boed yn gorfforol, emosiynol neu rywiol - yn ogystal ag esgeuluso plentyn. Byddai achosion o'r fath fel arfer yn cynnwys, er enghraifft:<br>• ymosodiad gan riant pan na fydd cerydd resymol yn amddiffyniad;<br>• troseddau rhywiol;<br>• lladdiad plant;<br>• creulondeb yn erbyn plentyn, gan gynnwys esgeulustod;<br>• puteindra plant;<br>• aflonyddu;<br>• cefnu ar blentyn;<br>• priodas dan orfod yn cynnwys unigolyn dan 18 oed;<br>• pornograffi plant;<br>• plant sy'n cael eu masnachu;<br>• cipio teuluol; a<br>• cham-drin plant hanesyddol a'r dioddefwr bellach yn oedolyn.<br><br>Mae'r achosion na chaent, fel arfer, eu llumanu yn cynnwys:<br><br>• troseddau moduro pan fo'r plentyn wedi ei anafu neu wedi'i ladd;<br>• esgeulustod meddygol; a<br>• throseddau eiddo.<br>• |

| | |
|---|---|
| Masnachu mewn pobl: | Defnyddir y lluman masnachu mewn pobl yn achos:<br><br>• Troseddau a lumanir yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Adran 57, 58 a 59),<br>• Deddf Lloches a Mewnfudo [Triniaeth Hawlwyr] 2004 Adran 4(1), (2) a (3); a'r<br>• Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 Adran 71<br><br>Gosodir y lluman ar gychwyn yr achos a bydd y lluman hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng yn dilyn hynny. Os yw achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylai'r achos gael ei lumanu ar y cam hwnnw.<br><br>O Ebrill 2013:<br>Disodlwyd Adrannau 57, 58 a 59 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 ganA59A SOA; ac<br>fe ddiddymwyd Adrannau 4(1), (2) a (3) Deddf Lloches a Mewnfudo [Trin Hawlwyr] 2004; a chymerodd A4(1A)(1B)(1C) A&IA ei lle. |
| Priodas Dan Orfod: | Dylai'r lluman gael ei defnyddio gydag unrhyw achos pan:<br><br>• Ystyrir bod troseddau dan A121 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn cael eu hystyried wrth benderfynu cyn cyhuddo neu eu cyhuddo; a<br>• Torri Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod dan A120 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (A63CA Deddf Cyfraith Teulu 1996).<br><br>Dylai'r lluman gael ei rhoi o ddechrau'r achos, a bydd yn aros yn ei lle hyd yn oed os bydd y cyhuddiadau hynny yn cael eu diwygio neu eu gollwng yn ddiweddarach. Os yw achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o briodas dan orfod dylid gosod lluman ar y cam hwnnw.<br><br>Yn ychwanegol, dylai'r lluman gael ei defnyddio hefyd pan fydd unrhyw drosedd o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) a ddigwyddodd yng nghyd-destun priodas dan orfod, naill ai:<br><br>• i orfodi parti/partïon i briodi heb eu caniatâd, a fuasai'n cael ei erlyn am y drosedd benodol a gyflawnwyd, e.e. aflonyddu, cipio, bygwth lladd; *neu*<br>• ar ôl priodas dan orfod heb ganiatâd un neu'r ddau barti a lle mae gorfodaeth yn ffactor, a fuasai yn cael ei erlyn am y drosedd benodol e.e. treisio, ymosodiad rhywiol.<br><br>Y diffiniad o briodas dan orfod yw: "Priodas heb gydsyniad un neu ddau o'r partïon pan fydd gorfodaeth yn ffactor". Gorfodaeth yw: 'a yw meddwl yr ymgeisydd wedi'i lethu, sut bynnag yr achoswyd hynny'. Pan fydd priodas dan orfod o fewn y teulu, a/neu yn cynnwys cam-drin plant, a/neu droseddwr ifanc, yna rhaid rhoi pob lluman berthnasol. |
| Trais ar sail anrhydedd: | Bydd unrhyw drosedd ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) a ddigwyddodd felly ac a elwir yn drosedd anrhydedd yn cael ei |

llumanu fel trais ar sail anrhydedd. Byddai achosion yn cael eu herlyn am y drosedd benodol a gyflawnwyd, e.e. ymosodiad cyffredin, GBH, aflonyddu, herwgipio, treisio, bygythiad i ladd, llofruddiaeth.

Y diffiniad o drais ar sail urddas i'w ddefnyddio yw'r diffiniad a fabwysiadwyd gan yr Uned Priodas dan Orfod yn y Swyddfa Gartref: "Mae'r hyn a elwir yn drais ar sail urddas yn drosedd neu ddigwyddiad, sydd wedi neu a allai fod wedi ei gyflawni i ddiogelu neu amddiffyn urddas y teulu ac/neu gymuned".

Treisio: unrhyw ddiffynnydd sy'n cael ei gyhuddo o un neu fwy o'r troseddau canlynol -

- Adran1 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
- Adran5 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
    - Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod dan y Ddeddf Ymgeisiau Troseddol 1981
- Adran1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- Adran5 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- A30(3) Deddf Troseddau Rhywiol 2003
    - Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod dan y Ddeddf Ymgeisiau Troseddol 1981

Ysgogi neu gynllwynio i gyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod

Troseddau rhywiol ac eithrio treisio: unrhyw ddiffynnydd y mae categori ei brif drosedd, ar adeg ei chwblhau, yn drosedd rywiol ac eithrio treisio.

## Termau rheoli perfformiad

Difrod troseddol: Mae 'Difrod troseddol' yn cynnwys troseddau megis llosgi bwriadol, difrod troseddol neu faleisus, a llosgi bwriadol neu ddifrod troseddol sy'n peryglu bywyd.

Lladdiad: Mae 'Lladdiad' yn cynnwys nifer o droseddau a chan gynnwys – llofruddiaeth ac ymgais i lofruddio, bygwth lladd, lladdiad, cynllwynio neu gymell i gyflawni llofruddiaeth ac achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus.

**Llumanau monitro:** mae mathau sensitif o achosion wedi'u dynodi gan nifer o lumanau monitro, a'u defnyddio gydag achosion priodol yn ystod y cam cyn cyhuddo. Mae'r llumanau yn caniatáu i reolwyr fonitro gweithrediadau yn ystod oes yr erlyniad, a galluogi adrodd ar ddeilliannau yn dilyn cwblhau'r achos. Mae'r data yn gywir yn unig i'r graddau y mae'r lluman wedi cael ei defnyddio yn gywir; efallai bod nifer fechan o achosion pan nad yw'r lluman wedi cael ei defnyddio.

**Prif droseddau:** Categori prif drosedd: bydd troseddau a gyhuddir yn cael eu dyrannu i un o ddeuddeg categori trosedd er mwyn dangos y math o drosedd a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddwynir yn erbyn y diffynnydd. Mae'r Categori Prif Drosedd yn dangos y drosedd fwyaf difrifol y cyhuddwyd y diffynnydd ohoni **ar adeg cwblhau**. Pan fo natur y cyhuddiadau'n newid yn ystod oes yr achos, efallai y bydd y Brif Drosedd adeg cwblhau yn wahanol i'r hyn a ymddangosai'n briodol ar adeg flaenorol yn y camau. Yn yr holl achosion o'r fath, y categori Prif Drosedd a gofnodir yw'r un sy'n berthnasol **ar adeg cwblhau**, boed yn fwy difrifol neu'n llai difrifol na'r hyn oedd yn berthnasol ynghynt yn oes yr achos.

Pan fo diffynnydd yn wynebu nifer o gyhuddiadau dan wahanol Gategorïau Prif Drosedd, dewiser yr un fwyaf difrifol **yn ôl y drefn flaenoriaeth a ganlyn**:

| | |
|---|---|
| Troseddau rhywiol: | Mae 'Troseddau Rhywiol' yn cynnwys nifer o droseddau gan gynnwys - treisio, sodomiaeth, ymosodiad rhywiol, deuwriaeth/dwywreiciaeth, caffael ac anweddustra difrifol gyda phlentyn. |
| Troseddau trefn gyhoeddus: | Mae 'Troseddau Trefn Gyhoeddus' yn cynnwys terfysg, anhrefn treisgar neu achosi ffrwgwd. |
| Troseddau yn erbyn yr unigolyn: | Mae 'Troseddau yn erbyn yr unigolyn' yn cynnwys nifer o droseddau gan gynnwys – niwed corfforol difrifol, ymosodiad gan achosi niwed corfforol gwirioneddol, ymosodiad cyffredin, meddiannu dryll gyda'r bwriad o achosi ofn trais a chipio plentyn. |

### Deilliannau achosion

| | |
|---|---|
| Arall: | nid yw canlyniad y penderfyniad cyhuddo wedi ei gofnodi neu nid yw wedi ei ddiffinio. |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol: | nid yw'r sawl a amheuir wedi ateb mechnïaeth ac mae gwarant yn aros neu mae'r achos wedi ei derfynu yn weinyddol am amrywiol resymau. |
| Dim erlyniad: | achosion pan fydd y CPS yn penderfynu na ddylid erlyn, am resymau tystiolaethol neu am resymau budd y cyhoedd. |
| **Penderfyniadau cyn cyhuddo**: | Mae Canllaw'r Cyfarwyddwr ar gyhuddo (4ydd Rhifyn) yn datgan y gall yr heddlu gyhuddo unrhyw drosedd Ddiannod yn unig (un y gellir delio â hi yn y llys ynadon) waeth beth yw'r ple ac unrhyw drosedd y naill ffordd neu'r llall (y gellir ei phrofi naill ai yn y llys ynadon neu Lys y Goron) pan ragwelir ple euog a'i fod yn addas i gael dedfryd yn y llys ynadon yn amodol ar eithriadau penodol fel trais domestig, troseddau casineb ac achos yn ymwneud â marwolaeth. Rhaid i erlynyddion y CPS wneud y penderfyniadau cyhuddo ym mhob achos ditiadwy yn unig (yr achosion hynny na ellir eu profi ond yn Llys y Goron), troseddau naill ffordd neu'r llall nad ydynt yn addas ar gyfer y llys ynadon a phan ragwelir ple ddieuog |
| Wedi'i gyhuddo: | achosion pan benderfynodd y CPS y dylid cyhuddo. |
| Ymdrin ag achosion y tu allan i'r llys: | pan roddwyd rhybudd, rhybudd amodol, cerydd neu rybudd terfynol neu pan mae'r drosedd wedi ei hystyried parthed cyhuddiadau eraill. |
| **Erlyniadau**: | yr holl ddiffynyddion a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs ac y cwblhawyd yr achos yn llys yr ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a aeth ymlaen i dreial neu bledio'n euog, y rhai a gwblhawyd a'r rhai na ellid bwrw ymlaen â nhw. |
| <u>Achosion a ddadleuwyd ac eithrio gyda phleon cymysg</u> | (a) Mae'r Diffynnydd yn rhoi pleon dieuog yn unig, A |

| | |
|---|---|
| Dieuog a Dadl: | (b) mae achos llys yn digwydd |
| <u>Achosion a ddadleuwyd yn cynnwys pleon cymysg</u><br>Cymysg Euog/Dieuog a Dadl: | (a) Mae’r Diffynnydd yn rhoi o leiaf un ble euog i set o gyhuddiadau, a<br>(b) ple ddieuog i un neu fwy o gyhuddiadau, a<br>(c) nid yw’r pleon yma yn dderbyniol i’r CPS, a<br>(d) mae’r mater yn symud ymlaen i’r llys |
| <u>Deilliannau aflwyddiannus</u>: | yr holl erlyniadau a gwblhawyd pan na chafwyd y diffynnydd yn euog, sy’n cynnwys y canlynol: |
| Barnwr yn rhoi cyfarwyddyd i ryddfarnu: | achosion pan, ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, y gwneir argymhelliad llwyddiannus o ‘ddim achos’ neu ‘anniogel’ ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i’r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor. |
| Cwblhau gwaith gweinyddol: | pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi’i chyflwyno i’w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw, neu nad yw’n ffit i bledio: neu pan fydd achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol. Os bydd Gwarant gan y Fainc yn cael ei chyflawni mae’n bosib ail agor yr achos. |
| Dim achos i’w ateb: | achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio’n ddieuog ac y gwrandewir tystiolaeth yr erlyniad, ond y gwrthodir yr achos gan yr ynadon heb wrando achos yr amddiffyniad. |
| Gwrthod ar ôl treial llawn: | achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio’n ddieuog ac y bydd yr ynadon yn gwrthod yr achos ar ôl gwrando achos yr amddiffyniad. |
| Rhyddfarnu gan reithgor: | pan fydd y diffynnydd yn pledio’n ddieuog ac, yn dilyn treial, yn cael rhyddfarn gan y rheithgor. |
| Terfynu a thynnu’n ôl: | Gall ystyried y dystiolaeth a budd y cyhoedd arwain y CPS i benderfynu terfynu achosion ar unrhyw adeg cyn dechrau’r treial. Yn gynwysedig yma mae achosion a derfynwyd yn ffurfiol cyn y gwrandawiad, y rheiny na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth ynddynt, a’r rheiny a dynnwyd yn ôl yn ystod yr achos llys. Yma hefyd cynhwysir achosion pan gafodd y diffynnydd ei rwymo i gadw’r heddwch. |
| Traddodebau a ryddhawyd: | achosion traddodi pan fo’r diffynnydd yn cael ei ryddhau. Yn dilyn rhyddhau, gellir ailgychwyn achos. |
| Yr holl ddeilliannau aflwyddiannus eraill: | yn cynnwys terfyniadau gweinyddol, traddodebau a ryddhawyd, a dim achos i’w ateb. |
| <u>Collfarnau:</u> | achosion pan gollfernir y diffynnydd yn dilyn erlyniad, sy’n cynnwys: |
| Collfarn yn dilyn treial: | achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio’n ddieuog, ond yn cael ei ddyfarnu’n euog ar ôl gwrando’r dystiolaeth. |
| Ple euog: | pan fydd y diffynnydd yn pledio’n euog. |
| Prawf yn absenoldeb: | troseddau llai yw’r rhain a glywir gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd. |

**Rhesymau am ddeilliannau aflwyddiannus**

| | |
|---|---|
| Dioddefwr ddim yn mynychu: | gelwir y dioddefwr yn dyst mewn achos, ond nid yw'n mynychu'r llys. |
| Dioddefwr yn tynnu'n ôl: | pan fydd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, y dioddefwr yn gwrthod cael ei alw i dystio, neu'n tynnu'n ôl, neu'n tynnu'r gŵyn yn ôl. |
| Elfen Gyfreithiol Allweddol ar Goll | Elfen gyfreithiol allweddol ar goll (addaswyd y 'teitl rheswm' yn Ebrill 2013 i 'Penderfyniad cyhuddo anghywir – elfen gyfreithiol ar goll'; roedd y canllaw diwygiedig yn egluro na ddylid defnyddio'r rheswm hwn pan fydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl, ddim yn mynychu neu os nad yw ei dystiolaeth yn cyrraedd safon prawf). |
| Gwrthdaro tystiolaeth | Gwrthdaro yn nhystiolaeth yr erlyniad (o Ebrill 2013, fe addaswyd y canllaw i egluro na ddylid defnyddio'r rheswm hwn pan fydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl, neu os nad yw'n mynychu neu os nad yw ei dystiolaeth yn cyrraedd safon prawf). |
| Rhyddfarnau ar ôl yr achos: | mae'r diffynnydd yn cael ei farnu yn ddieuog gan yr ynadon neu reithgor ar ôl gwrandawiad sy'n cael ei herio pan fo'r amddiffyniad yn cael ei alw i gyflwyno'i achos. (Ni chynhwysir achosion wedi eu gwrthod, dim achos i'w ateb neu'r barnwr wedi cyfarwyddo rhyddfarn). |
| Tyst annibynadwy | Tyst neu dystion annibynadwy (Addaswyd y 'teitl rheswm' Yn Ebrill 2013 i: 'Tyst allweddol (nid y dioddefwr) yn gwrthod rhoi tystiolaeth/tynnu'n ôl/ddim yn cyrraedd safon prawf' i ddarparu eglurder). |
| Tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos: | nid yw tystiolaeth y dioddefwr am y drosedd yn cefnogi erlyn y diffynnydd, gan arwain at ddeilliant aflwyddiannus, ond, serch hynny, nid yw'r dioddefwr wedi tynnu'n ôl.<br>(diwygiwyd y 'teitl rheswm' ym mis Ebrill 2013 i: Nid yw tystiolaeth y dioddefwr yn cyrraedd safon prawf, ond nid yw wedi ei dynnu'n ôl). |

**Termau cyfreithiol**

| | |
|---|---|
| Achlust | Adran 116(1) Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.Mewncamau troseddol mae datganiad na wnaed mewn tystiolaeth lafar yn y camau cyfreithiol yn dderbyniol fel tystiolaeth o unrhyw fater a nodir – os<br>(a) byddai tystiolaeth lafar a roddwyd yn yr achos gan yr unigolyn a wnaeth y datganiad yn dderbyniol fel tystiolaeth o'r mater hwnnw,<br>(b) yw'r unigolyn a wnaeth y datganiad (yr unigolyn perthnasol) yn cael ei ddynodi i fodloni'r llys, a<br>(c) bydd unrhyw un o'r pum amod a grybwyllir yn isadran (2) yn cael eu bodloni. |
| Res gestae | Unrhyw reol cyfraith y bydd datganiad yn dderbyniol mewn camau troseddol fel tystiolaeth o unrhyw fater a ddatganir os–<br>(a) gwnaed y datganiad gan unigolyn y mae emosiwn digwyddiad wedi ei drechu fel y gellid diystyru'r posibilrwydd o greu neu ysgiwio,<br>(b) bod y datganiad ynghlwm â gweithred y gellir ei gwerthuso yn briodol fel tystiolaeth os caiff ei hystyried ar y cyd â'r datganiad, neu<br>(c) mae'r datganiad yn ymwneud â theimlad corfforol neu gyflwr meddyliol (fel bwriad neu emosiwn). |

# Geirfa byrfoddau

| | |
|---|---|
| BME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| CEOP | Canolfan Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant a Diogelu Ar-lein |
| CJA | Deddf Cyfiawnder Troseddol |
| CJS | System Cyfiawnder Troseddol |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| CPSD | Gwasanaeth Erlyn y Goron Uniongyrchol |
| CQSM | Monitro Safonau Ansawdd Craidd |
| CSA | Cam-drin Plant yn Rhywiol |
| CSE | Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant |
| DA | Cam-drin domestig |
| DCV | Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr |
| DPP | Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus |
| ECG | Grŵp Ymgynghori Allanol |
| EDCEM | Rheolwyr Ymgysylltu Cymunedol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| ESO | Gorchymyn Ymgysylltu a Chefnogaeth |
| FGM | Anffurfio Organau Rhywiol Menywod |
| FM | Priodas dan Orfod |
| HBV | Trais Seiliedig ar Urddas |
| HMCPSI | Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi |
| HO | Swyddfa Gartref |
| IDVA | Cynghorydd Cam-drin Domestig Annibynnol |
| IQA | Asesiad Ansawdd Unigol |
| ISVA | Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol |
| JDA | Rhyddfarnau dan Gyfarwyddyd Rheithgor |
| LSIP | Paneli craffu ac ymgysylltiad lleol |
| MARAC | Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| PHA | Deddf Atal Aflonyddu |
| PPT (ppt) | Pwynt Canrannol |
| PPU | Uned Diogelu'r Cyhoedd |
| RASSO | Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol |
| SDVC | Llysoedd Arbenigol Cam-drin Domestig |
| SOA | Deddf Troseddau Rhywiol |
| SV | Trais rhywiol |
| TSJ | Trawsnewid Cyfiawnder Diannod |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| WCU | Uned Gofal Tystion |
| WSC | Amodau Penodol i Fenywod |
| VAWG | Trais yn erbyn Menywod a Merched |
| VPS | Datganiad Personol y Dioddefwr |
| VRR | Hawl Dioddefwyr i Adolygiad |

**Gwasanaeth Erlyn y Goron**

**Mae copïau pellach o'r adroddiad ar gael i'w lawrlwytho mewn PDF Adobe Acrobat ar wefan y CPS**

**www.cps.gov.uk**

Gorffennaf 2015